

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

03/07/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[Cwestiynau i Weindog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru](#)
[The Enterprise and Business Committee's Report on Integrated Public Transport in Wales](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020: Cyfnod 2](#)
[The Enterprise and Business Committee's Report on Horizon 2020: Stage 2](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cymru Wledig](#)
[Welsh Conservatives Debate: Rural Wales](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Y Llinyn o Undod: Cynorthwyo Dioddefwyr Strôc yng Nghymru](#)
[Short Debate: The Solidarity String: Supporting Stroke Victims in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Questions to the Minister for Education and Skills

Plant a Phobl Ifanc sy'n derbyn Gofal

Looked-after Children and Young People

13:30 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i asesu cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal?
OAQ(4)0298(ESK)

1. What measures is the Minister taking to assess the attainment of looked-after children and young people?
OAQ(4)0298(ESK)

13:31 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

The educational attainment of looked-after children can be measured from our annual children in need census for Wales. A strategy to support our objective of raising the educational attainment of looked-after children is being developed, to improve our ability to coordinate activity and to share good practice.

Gellir mesur cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal gan ddefnyddio cyfrifiad plant mewn angen blynyddol Cymru. Mae strategaeth i gefnogi ein nod o godi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn cael ei datblygu, er mwyn gwella ein gallu i gydlynu gweithgarwch a rhannu arfer da.

- 13:31 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am sure that you are aware of the Wales Audit Office report of last August that referred to the attainment of looked-after children. That report indicated that the Welsh Government and local authorities had not assessed whether there was capacity to achieve significant improvement, and that they lacked shared delivery plans. Do you intend to review the implementation of current policies that are designed to improve outcomes for looked-after children before attempting to devise any new strategies?
- Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fis Awst diwethaf a oedd yn cyfeirio at gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal. Dangosodd yr adroddiad hwnnw nad oedd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi asesu a oedd capasiti i gyflawni gwelliant sylweddol, ac nad oedd ganddynt gynlluniau cyflawni ar y cyd. A ydych yn bwriadu adolygu gweithrediad polisiau cyfredol a luniwyd i wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal cyn ceisio llunio unrhyw strategaethau newydd?
- 13:31 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Aled Roberts for delivering this subject as the topic of my very first question in my new role as the Minister for Education and Skills, because this is a subject area in which I intend to take a personal interest. We have many statutory duties, and, as I say, we have the development of policy going on now. However, the last few years have seen slow progress in terms of the attainment of looked-after children. We need to track the progress of the children in question properly. I intend to take an early look at the process and practices in Wrexham, which, I understand, are the best across Wales, and to learn as quickly as possible from the good practice in Wrexham.
- Diolch i Aled Roberts am gyflwyno'r pwnc hwn fel testun fy nghwestiwn cyntaf yn fy rôl newydd fel Gweinidog Addysg a Sgiliau, oherwydd mae hwn yn faes pwnc yr wyf yn bwriadu cymryd diddordeb personol ynddo. Mae gennym lawer o ddyletswyddau statudol, ac, fel y dywedais, mae polisi'n cael ei ddatblygu gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, araf fu'r cynnydd o ran cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal. Mae angen inni olrhain cynnydd y plant dan sylw yn briodol. Rwy'n bwriadu cymryd golwg gynnar ar broses ac arferion Wrecsam, sef y gorau ledled Cymru, fel y deallaf, a dysgu cyn gynted â phosibl o'r arfer da yn Wrecsam.
- 13:32 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am pleased to hear reference to Wrexham; I was not aware that it was the best across Wales, but there we are. Minister, when you are undertaking this review, could you consider the University of Edinburgh's report published last week and which was commissioned by the Government, with regard to two issues that concern me? The first issue is that, since 2009, the Government is not requiring the registration or the notification of pupil referral units. Secondly, there is evidence that there are large numbers of looked-after children and pupils with additional learning needs in those units. If the Government is not requiring the reporting of those units from local authorities, how can the Government target whether the attainment of looked-after children and those with additional learning needs is being properly targeted within those units?
- Rwy'n falch o glywed cyfeiriad at Wrecsam; nid oeddwn yn gwybod mai hi oedd y gorau ledled Cymru, ond dyna ni. Weinidog, pan fyddwch yn cynnal yr adolygiad hwn, a allech ystyried yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caeredin yr wythnos diwethaf ac a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, mewn perthynas â dau fater sy'n peri pryder imi? Y mater cyntaf yw nad yw'r Llywodraeth, ers 2009, yn mynnu bod unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu cofrestru neu fod hysbysiadau'n cael eu rhoi ohonynt. Yn ail, mae tystiolaeth bod nifer fawr o blant sy'n derbyn gofal a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr unedau hynny. Os nad yw'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar yr unedau hynny, sut y gall y Llywodraeth dargedu a yw cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei dargedu'n briodol o fewn yr unedau hynny?
- 13:33 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will take on board Aled Roberts's points. I have not yet had an opportunity to acquaint myself with the University of Edinburgh report. However, these are concerning matters, and I will undertake to take a close look at the implications and to write to Aled in terms of what we intend to do as a consequence of the report.
- Byddaf yn ystyried pwyntiau Aled Roberts. Nid wyf wedi cael cyfle eto i fwrw golwg dros adroddiad Prifysgol Caeredin fy hun. Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn peri pryder, a byddaf yn ymrwmo i edrych yn fanwl ar y goblygiadau ac ysgrifennu at Aled o ran yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o ganlyniad i'r adroddiad.
- 13:33 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the Wales Audit Office report, to which the previous speaker referred, showed how work experience placements can play an important role in inspiring looked-after children and young people into further education and learning. How is the Welsh Government promoting work experience for looked-after children and young people so that they can fulfil their potential?
- Weinidog, dangosodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, y cyfeiriodd y siaradwr blaenorol ato, sut y gall lleoliadau profiad gwaith chwarae rhan bwysig i ysbrydoli plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i fynd ymlaen i ddsygu ac addysg bellach. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo profiad gwaith i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel y gallant gyflawni eu potensial?

13:34

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for the question. We have developed a youth engagement and progression framework, which is based on the good practice that has been identified by local authorities, to ensure that young people are engaged with education and training, and are progressing into employment. However, it remains the fact that schools are primarily responsible for providing young people with an experience of the world of work, as part of the careers and the world of work curriculum. Our guidance to providers on the delivery of careers and the world of work states that learning providers must work to reduce environmental and social barriers to inclusion, and offer opportunities for all learners to achieve their full potential in preparation for further learning and life, and, where appropriate, they need to plan and work with specialist services to ensure relevant and accessible learning experiences. As part of my look at this area for this particular group of children, this will be an issue that will be at the forefront of my mind.

Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn. Rydym wedi datblygu fframwaith ymgysylltu a datblygiad ieuencid, sy'n seiliedig ar yr arfer da a nodwyd gan awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant, ac yn symud ymlaen i gyflogaeth. Fodd bynnag, erys y ffaith mai ysgolion sy'n bennaf cyfrifol am roi profiad i bobl ifanc o fyd gwaith, fel rhan o'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith. Mae ein harweiniad i ddarparwyr ar gyflwyno'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith yn datgan bod yn rhaid i ddarparwyr dysgu weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant, a chynnig cyfleoedd i bob dysgwr gyflawni ei botensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd, a, lle y bo'n briodol, bod angen iddynt gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau profiadau dysgu perthnasol a hygyrch. Wrth imi edrych ar y maes hwn ar gyfer y grŵp penodol hwn o blant, bydd hwn yn fater a fydd ar flaen fy meddwl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I go back to the comments made by Aled Roberts about the numbers of looked-after children and children with additional learning needs who are currently in pupil referral units. This has grown substantially from 2006, with an upward trajectory the whole time through to 2012-13. Can you give us an idea of when you will be able to progress with the development of the independent learning plan? A lot of these children are there because they have not received the correct statements. Local authorities are on hold because no-one is really doing much and we have children who are in the wrong setting.

Weinidog, af yn ôl at y sylwadau a wnaed gan Aled Roberts am nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion ar hyn o bryd. Mae'r nifer wedi tyfu'n sylweddol ers 2006, gan gynyddu drwy gydol 2012-13. A allwch roi syniad inni pryd y byddwch yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith i ddatblygu'r cynllun dysgu annibynnol? Mae llawer o'r plant hyn yno am nad ydynt wedi cael y datganiadau cywir. Nid yw awdurdodau lleol yn gweithredu am nad oes neb yn wir yn gwyneud llawer ac mae gennym blant sydd yn y lleoliad anghywir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand the concern around this issue and thank Angela Burns for that point. I can only repeat the answer I gave to Aled Roberts: I will equate myself with the facts, and with the University of Edinburgh report in particular, and report back to Members on how consequent action will arise.

Deallaf y pryder ynghylch y mater hwn a diolch i Angela Burns am y pwynt hwnnw. Ni allaf ond ategu'r ateb a roddais i Aled Roberts: byddaf yn ymglyfarwyddo â'r ffeithiau, ac adroddiad Prifysgol Caeredin yn arbennig, ac yn adrodd yn ôl i Aelodau ar sut y bydd camau dilynol yn codi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, congratulations on your appointment as the new Minister for Education and Skills. We know that, in Wales, far fewer looked-after children are in education, employment or training when they leave care as compared with other children. What action will you be taking to improve on this regrettable situation? Rebecca Evans referred to work placements, and some local authorities, as you are aware, ensure that their care leavers are in workplace situations. I believe that all local authorities in Wales should provide such important work experience opportunities.

Yn gyntaf oll, llongyfarchiadau ar eich penodiad fel y Gweinidog Addysg a Sgiliau newydd. Gwyddom, yng Nghymru, fod llawer llai o blant sy'n derbyn gofal mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pan fyddant yn gadael gofal o gymharu â phlant eraill. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r sefyllfa anffodus hon? Cyfeiriodd Rebecca Evans at leoliadau gwaith, ac mae rhai awdurdodau lleol, fel y gwyddoch, yn sicrhau bod y rhai sy'n gadael eu gofal mewn sefyllfaoedd gweithle. Credaf y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu cyfleoedd profiad gwaith pwysig o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Lindsay Whittle for those points. Our corporate parent guidance is entitled 'If this were my Child', and I know that I will be approaching my thinking and policy development on this issue with that phrase very much in mind. The corporate parenting responsibility is there and is a reality for local authorities, and it needs to be translated into real life chances that are really cared about in real time for individual children. It is that kind of bespoke thinking and care around the educational path of each individual child that needs to become a reality.

Diolch i Lindsay Whittle am y pwyntiau hynny. Teitl ein harweiniad ar fod yn rhiant corfforaethol yw 'Pe bai'n blentyn i mi', a gwn y byddaf yn cadw'r ymadrodd hwnnw mewn cof wrth fynd ati i feddwl a datblygu polisi ar y mater hwn. Mae'r cyfrifoldeb rhianta corfforaethol yno ac yn realiti i awdurdodau lleol, ac mae angen ei droi'n gyfleoedd bywyd go iawn a gaiff eu hystyried yn ofalus mewn amser real i blant unigol. Dyna'r math o feddwl a gofal pwrpasol ynghylch llwybr addysgol pob plentyn unigol y mae angen eu troi'n realiti.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Plant mewn Llochesau i Fenywod

Children in Women's Refuges

13:37

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysgol i blant mewn llochesau i fenywod?
OAQ(4)0288(ESK)

2. Will the Minister make a statement on educational provision for children in women's refuges?
OAQ(4)0288(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Local authorities are obliged by law to ensure that all children of compulsory school age receive appropriate education. This is particularly important for children in women's refuges, and statutory guidance requires local authorities to establish local protocols and processes to ensure continuity of educational provision for them to prevent disengagement.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yn ôl y gyfraith sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg briodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant mewn llochesau i fenywod, ac mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu protocolau a phrosesau lleol i sicrhau parhad eu ddarpariaeth addysgol er mwyn eu hatal rhag ymddieithrio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have had brought to my attention an issue around school transport costs, which are not covered as a matter of routine for children who are in refuge as a result of domestic violence. Often, a mother will find herself not able to get a child to school because of the disruption that living in a refuge has caused. Can you liaise with your colleague Edwina Hart to look at widening the criteria for school transport to try to address this problem?

Cafodd mater ei ddwyn i'm sylw ynghylch costau cludiant i'r ysgol, na chânt eu talu fel mater o drefn ar gyfer plant sydd mewn lloches o ganlyniad i drais domestig. Yn aml, bydd mam yn gweld na all drefnu bod ei phlentyn yn cyrraedd yr ysgol oherwydd y ffordd y mae byw mewn lloches wedi amharu arnynt. A allwch gysylltu â'ch cyd-aelod Edwina Hart i ystyried ehangu'r meini prawf ar gyfer cludiant i'r ysgol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would be more than willing to speak to my colleagues about the issue. Where children are living in Women's Aid refuges as their ordinary place of residence, if you like, if they meet the statutory distance criteria, there is already a duty on the local authority to take care of that situation and provide transport for those children to get to their place of learning. Local authorities already have discretionary powers to provide transport for children in such circumstances who live outside the statutory distance criteria. The first question that needs to be asked is of the local authority itself, in terms of whether it is aware that it has these discretionary powers and whether it is employing them as part of its duty as a corporate parent.

Byddwn yn fwy na pharod i siarad â'm cyd-aelodau am y mater. Pan fo plant yn byw mewn llochesau Cymorth i Fenywod fel eu man preswyl arferol, os mynnwch, os ydynt yn bodloni'r meini prawf pellter statudol, mae eisoes yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gymryd gofal o'r sefyllfa honno a darparu cludiant i'r plant hynny gyrraedd eu man dysgu. Mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau dewisol i ddarparu cludiant i'r plant mewn amgylchiadau o'r fath sy'n byw y tu allan i'r meini prawf pellter statudol. Mae'r cwestiwn cyntaf y mae'n rhaid ei ofyn yn ymwneud â'r awdurdod lleol ei hun, o ran a yw'n ymwybodol bod ganddo'r bwerau dewisol hyn ac a yw'n eu defnyddio fel rhan o'i ddyletswydd fel rhiant corfforaethol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:39 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Every day, many children across Wales unfortunately experience the awful effects of domestic violence in the home. Women's refuges continue to provide a safe haven for those who have been able to flee this abuse. All women and girls have the right to be free from violence and abuse and if we are to continue to promote the importance of gender equality and healthy relationships, would you agree that prevention through education is vital? With the forthcoming violence against women Bill, will you make this a priority in your discussions with the Minister for local government, who will be bringing the Bill forward?
- Bob dydd, yn anffodus, mae llawer o blant ledled Cymru yn profi effeithiau ofnadwy trais domestig yn y cartref. Mae llochesau i fenywod yn parhau i fod yn hafan ddiogel i'r rhai sydd wedi gallu ffoi rhag y gamdriniaeth hon. Mae hawl gan bob menyw a merch fod yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth, ac os ydym am barhau i hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd iach, a fydddech yn cytuno bod atal drwy addysg yn hanfodol? Gyda'r Bil trais yn erbyn menywod sydd ar ddod, a fyddwch yn rhoi blaenoriaeth i hyn yn eich trafodaethau gyda'r Gweinidog llywodraeth leol, a fydd yn cyflwyno'r Bil?
- 13:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I will make it a priority, and I know that my predecessor worked closely with the Minister for local government on these aspects of the Bill. My officials continue to engage with officials in the violence against women and domestic abuse team to take forward these policy and legislative proposals. I am very supportive of the aims of the White Paper and I am pleased to see that there is overwhelming support coming through from the consultation for the White Paper proposals. My officials are working on ways to support schools to help achieve those aims.
- Byddaf yn rhoi blaenoriaeth iddo, a gwn fod fy rhagflaenydd wedi gweithio'n agos gyda'r Gweinidog llywodraeth leol ar yr agweddau hyn ar y Bil. Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â swyddogion yn y tîm trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig i symud ymlaen â'r cynigion polisi a deddfwriaethol hyn. Rwy'n gefnogol iawn o amcanion y Papur Gwyn ac rwy'n falch o weld bod cefnogaeth aruthrol yn dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad ar gynigion y Papur Gwyn. Mae fy swyddogion yn gweithio ar ffyrdd o gefnogi ysgolion er mwyn helpu i gyflawni'r nodau hynny.
- 13:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- In gathering evidence for the Communities and Culture Committee report on domestic abuse in the last Assembly, I visited a number of refuges. A refuge in north east Wales told me that 'there was a massive gap in services for children.' The Flintshire domestic abuse panel and domestic abuse safety unit on Deeside at the time identified a lack of core funding for child-focused workers in refuges as a particular problem. Given the passage of time since then, what action has the Welsh Government taken to address that, or is proposing to take, in its forthcoming legislation?
- Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gam-drin domestig yn y Cynulliad diwethaf, ymwelais â nifer o llochesau. Dywedodd lloches yn y gogledd-ddwyrain wrthyf fod 'bwlch enfawr yn y gwasanaethau i blant.' Nododd panel cam-drin domestig Sir y Fflint a'r uned diogelwch cam-drin domestig ar Lannau Dyfrdwy ar y pryd fod diffyg cyllid craidd ar gyfer gweithwyr sy'n canolbwyntio ar blant mewn llochesau yn broblem benodol. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers hynny, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd, neu y mae'n bwriadu eu cymryd, i ymdrin â hynny yn ei deddfwriaeth sydd ar ddod?
- 13:41 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- As I have outlined, Presiding Officer, I will be taking a very close look at these issues as the aims of the White Paper and the consultation that has followed from that take shape in terms of policy making. I would be more than happy to follow through on those issues with Mark Isherwood and others to ensure that we are addressing these very important issues.
- Fel yr amlinellwyd gennyf, Lywydd, byddaf yn edrych yn agos iawn ar y materion hyn wrth i nodau'r Papur Gwyn a'r ymgynghoriad sydd wedi dilyn ohono gael eu llunio mewn polisi. Byddwn yn fwy na pharod i fynd ar drywydd y materion hynny gyda Mark Isherwood ac eraill i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion pwysig iawn hyn.
- 13:42 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the charity Refuge says that welfare benefit rule changes may mean that its refuges may no longer meet the criteria of supported exempt accommodation. So, women and their children fleeing domestic violence may not then be eligible for rent support. What discussions have you had with colleagues on the impact of this change on the educational chances of those children in those particular refuges?
- Weinidog, mae'r elusen Refuge yn dweud y gall newidiadau i reolau budd-daliadau lles olygu efallai na fydd ei llochesau mwyach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer llety â chymorth a gaiff eu heithrio. Felly, efallai na fydd menywod a'u plant sy'n ffoi rhag trais domestig yn gymwys i gael cymorth rhent. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chyd-aelodau ar effaith y newid hwn ar gyfleoedd addysgol y plant hynny yn y llochesau penodol hynny?

13:42

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The impact on those children's educational chances will be part of a toxic mixture of blows that will be rained down on many families as a result of the welfare benefit changes that are currently being put into force. The reality of many of these changes means that there are two types of casualty: those that are intentional casualties of things like the bedroom tax; and those that are, perhaps, unintentional casualties that have not been thought about or considered in terms of what these welfare changes actually mean. Children in refuges would be a part of that group, I think. I will undertake to speak with my colleagues about how we can address the particular issues that have been raised by Jocelyn today, and I know that they are of concern to many other people too.

Bydd yr effaith ar gyfleoedd addysgol y plant hynny yn rhan o gymysgedd gwenwynig o ergydion a fydd yn taro llawer o deuluoedd o ganlyniad i'r newidiadau i fudd-daliadau lles sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Mae realiti llawer o'r newidiadau hyn yn golygu y bydd dau grŵp o ddiodeffwyr: y rhai sy'n ddiodeffwyr bwriadol yn sgîl pethau fel y dreth ystafell wely; a'r rhai sydd, efallai, yn ddiodeffwyr anfwriadol nad oes neb wedi meddwl amdanynt na'u hystyried o ran beth mae'r newidiadau lles hyn yn eu golygu mewn gwirionedd. Credaf y byddai plant mewn llochesau yn rhan o'r grŵp hwnnw. Byddaf yn ymrwymo i siarad gyda fy nghyd-aelodau am sut y gallwn fynd i'r afael â'r materion penodol a godwyd gan Jocelyn heddiw, a gwn eu bod yn peri pryder i lawer o bobl eraill hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwella Safonau mewn Pynciau Craidd

Improving Standards in Core Subjects

13:43

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella safonau mewn pynciau craidd megis mathemateg, gwyddoniaeth a darllen mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0304(ESK)

3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans for improving standards in core subjects such as mathematics, science and reading in schools in Wales? OAQ(4)0304(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would refer Janet Finch-Saunders to our 'Improving Schools' plan, which sets out the actions we are taking to raise standards and improve attainment in education. It makes clear our priorities: literacy, numeracy and tackling disadvantage. It also provides the framework through which we will deliver improvements underpinning our Science for Wales strategy.

Byddwn yn cyfeirio Janet Finch-Saunders at ein cynllun 'Gwella Ysgolion', sy'n nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd i godi safonau a gwella cyrhaeddiad mewn addysg. Mae'n nodi ein blaenoriaethau yn glir: llythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael ag anfantais. Mae hefyd yn darparu'r fframwaith y byddwn yn ei ddilyn i gyflwyno gwelliannau a fydd yn sail i'n strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. In the previous rankings of the 67 countries that took part in the PISA assessments, Wales was thirtieth in science, thirty-eighth in reading, and fortieth in mathematics. What real actions are you taking to improve the international standing of Wales as a symbol of excellence in education?

Diolch, Weinidog. Yn safleoedd blaenorol y 67 o wledydd a gymerodd ran yn asesiadau PISA, roedd Cymru yn y degfed safle ar hugain mewn gwyddoniaeth, yr wythfed safle ar ddeg ar hugain mewn darllen, a'r deugeinfed safle mewn mathemateg. Pa gamau gweithredu go iawn rydych yn eu cymryd i wella safle rhyngwladol Cymru fel symbol o ragoriaeth mewn addysg?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I take it that Janet Finch-Saunders has taken a look at the 'Improving Schools' plan, which sets out radical action to address these core issues of literacy, numeracy and tackling disadvantage. The plan sets out our approach to the quality of learning and teaching, and it describes our new national literacy and numeracy programmes. It also describes how we expect every teacher to become a teacher of literacy and numeracy, with descriptions of how we are changing the landscape of teachers' professional development and our emphasis on inclusion, particularly as regards vulnerable learners and learners from deprived backgrounds. All of this is very much dependent on leadership in schools being of the highest possible quality. These actions and this work are at the heart of my priorities over the coming period.

Rwy'n cymryd bod Janet Finch-Saunders wedi edrych ar y cynllun 'Gwella Ysgolion', sy'n nodi camau radical i fynd i'r afael â'r materion craidd hyn, sef llythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael ag anfantais. Mae'r cynllun yn nodi ein hymagwedd tuag at ansawdd addysgu a dysgu, ac yn disgrifio ein rhaglenni llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd. Mae hefyd yn disgrifio sut rydym yn disgwyl i bob athro fod yn athro llythrennedd a rhifedd, gyda disgrifiadau o sut rydym yn newid y maes datblygiad proffesiynol athrawon a'n pwyslais ar gynhwysiant, yn enwedig o ran dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae hyn i gyd yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar arweinyddiaeth o'r safon uchaf posibl mewn ysgolion. Mae'r camau hyn a'r gwaith hwn wrth wraidd fy mlaenoriaethau dros y cyfnod sydd i ddod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas. Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.
- 13:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I have taken a look at the school improvement plan, Minister, and I note that you have a target of 65% of 15-year-olds leaving school with level 2 skills, including English, Welsh and mathematics, by 2015. Last year, 51% achieved those level 2 skills. At this rate of progress, you will not achieve your target in 2015—you will not even achieve it by 2025. Are you confident that you can deliver on the targets in the plan?
Rwyf wedi edrych ar y cynllun gwella ysgolion, Weinidog, a nodaf fod gennych darged y dylai 65% o ddisgyblion 15 oed adael yr ysgol â sgiliau lefel 2, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a mathemateg, erbyn 2015. Y llynedd, cyflawnodd 51% y sgiliau lefel 2 hynny. Ar y gyfradd cynnydd hon, ni fyddwch yn cyrraedd eich targed yn 2015—ni fyddwch hyd yn oed yn ei gyrraedd erbyn 2025. A ydych yn hyderus y gallwch gyflawni'r targedau yn y cynllun?
- 13:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The targets remain our targets. Of course, the condition in Simon Thomas's question is if we maintain this rate of progress. I am confident that we will see increasingly rapid progress as the school improvement plan takes hold, in terms of it being adopted or owned by the wider teaching and professional community as well as our partners in local government. I intend to drive with as much energy as I can muster those central priorities of literacy, numeracy and tackling disadvantage.
Y targedau hyn yw ein targedau o hyd. Wrth gwrs, yr amod yng nghwestiwn Simon Thomas yw os byddwn yn parhau ar y gyfradd cynnydd hon. Rwy'n hyderus y byddwn yn gweld cynnydd cyflymach wrth i'r cynllun gwella ysgolion gael effaith, wrth iddo gael ei fabwysiadu neu'i berchenogi gan y gymuned addysgu a phroffesiynol ehangach yn ogystal â'n partneriaid mewn llywodraeth leol. Bwriadaf lywio'r blaenoriaethau canolog hynny, sef llythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael ag anfantais, gyda chymaint o egni â phosibl.
- 13:46 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am glad to hear that you have that confidence and that you want to drive those improvements. Could you clarify for the Assembly whether you expect to see those improvements emerging in the Programme for International Student Assessment results in December? There seems to be some confusion here. Last year, the previous Minister said that he did not expect any real improvements, but on 7 May, in answer to a specific question on PISA, the First Minister said:
Rwy'n falch o glywed bod gennych yr hyder hwnnw a'ch bod yn awyddus i lywio'r gwelliannau hynny. A allech egluro i'r Cynulliad pa un a ydych yn disgwyl gweld y gwelliannau hynny'n dechrau dod i'r amlwg yng nghanlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ym mis Rhagfyr? Ymddengys fod peth dryswch yma. Y llynedd, dywedodd y Gweinidog blaenorol nad oedd yn disgwyl unrhyw welliannau gwirioneddol, ond ar 7 Mai, mewn ymateb i gwestiwn penodol am PISA, dywedodd y Prif Weinidog:
'We expect to see improvement in the results of any tests that are taking place'.
'Rydym yn disgwyl gweld gwelliant i ganlyniadau unrhyw brofion sy'n cael eu cynnal'.
You are the new Minister. Do you expect to see those improvements in the PISA results in December?
Chi yw'r Gweinidog newydd. A ydych yn disgwyl gweld y gwelliannau hynny yng nghanlyniadau PISA ym mis Rhagfyr?
- 13:47 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I can assure Simon Thomas that I have not had any kind of private preview of the PISA results and we will see what they are when they are released. I can only reiterate my confidence in the fact that we are addressing the central issues that are of concern to all of us in terms of the quality of teaching and learning across Wales.
Gallaf sicrhau Simon Thomas nad wyf wedi cael unrhyw fath o ragolwg preifat ar ganlyniadau PISA a chawn weld beth ydynt pan gânt eu rhyddhau. Ni allaf ond ategu fy mod yn hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion canolog sy'n peri pryder i bob un ohonom o ran ansawdd addysgu a dysgu ledled Cymru.

- 13:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
 Minister, the question from Simon Thomas was: what is your expectation of what those PISA results will be? Of course, they will be what they are. The previous Minister for education said that he did not expect improvement. The First Minister has been very clear in answer to me that he does expect improvement. What is your expectation of those PISA results when they are published later this year? What will success look like for you?
 Weinidog, cwestiwn Simon Thomas oedd: beth yw eich disgwyliadau chi mewn perthynas â'r canlyniadau PISA hynny? Wrth gwrs, y canlyniadau hynny fydd y canlyniadau. Dywedodd y Gweinidog addysg blaenorol nad oedd yn disgwyl gwelliant. Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir iawn yn ei ymateb imi ei fod yn disgwyl gwelliant. Beth yw eich disgwyliadau chi o'r canlyniadau PISA hynny pan gânt eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni? Beth fydd yn gyfystyr â llwyddiant yn eich barn chi?
- 13:48 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 There are two parts to Kirsty Williams's question. The first, at the risk of being flippant, I would answer by saying that I bring many talents, I hope, to this brief but clairvoyance is not one of them. My expectation and ambition is to see— [Interruption.]
 Mae dwy ran i gwestiwn Kirsty Williams. Os caf fentro bod yn wamal, byddwn yn ateb y cyntaf drwy ddweud fy mod yn dod â llawer o dalentau, gobeithio, i'r briff hwn, ond nid clirwedydd mohonof. Rwy'n disgwyl ac yn anelu at weld— [Ymyriad.]
- 13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Order. Trefn.
- 13:48 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 If you want to listen to my answer, you may. My expectation is to see Wales where it ought to be—in the top 20 of the PISA results nations, while bearing in mind that PISA does not measure everything. There are many aspects of education that we need to nurture and cherish that are not measured by the PISA results, but I will not belittle them as irrelevant. We are concerned about them; I am concerned about them. My ambition is to see Wales moving up the PISA ranking.
 Os ydych am wrando ar fy ateb, gallwch wneud hynny. Rwy'n disgwyl gweld Cymru yn y safle lle dylai fod— ymhlith yr 20 gwlad orau o ran canlyniadau PISA, gan gadw mewn cof ar yr un pryd nad yw PISA yn mesur popeth. Mae llawer o agweddau ar addysg y mae angen inni eu meithrin a'u coleddu na chânt eu mesur gan ganlyniadau PISA, ond ni wnaf eu bychanu drwy ddweud eu bod yn amherthnasol. Rydym ni'n pryderu amdanynt; rwy'n pryderu amdanynt. Fy uchelgais yw gweld Cymru yn symud i fyny safleoedd PISA.
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I call the opposition spokesperson, Angela Burns. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Angela Burns.
- 13:49 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 You are quite right, Minister, that there are a number of ways of judging education, but PISA looks at reading, mathematical and scientific literacy and the applications of that knowledge bank. Given that the previous Minister for education wrote off the last few years of teenagers by saying that we cannot expect any improvement for the 2012 results, do you have any plans for running a programme that might be able to go back to those pupils who have missed out on essential skills to try to bring them up to speed for the sake of their futures?
 Rydych yn llygad eich lle, Weinidog, fod yna sawl ffordd o bwysu a mesur addysg, ond mae PISA yn edrych ar ddarllen, llythrennedd mathemategol a gwyddonol a sut y caiff y gronfa wybodaeth honno ei defnyddio. O gofio bod y Gweinidog addysg blaenorol wedi cyfrif yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ddisgyblion yn eu harddegau yn fethiant drwy ddweud na allwn ddisgwyl unrhyw welliant yng nghanlyniadau 2012, a oes gennych unrhyw gynlluniau i gynnal rhaglen a all fynd yn ôl at y disgyblion hynny sydd wedi colli allan ar sgiliau hanfodol i geisio diweddarau eu sgiliau er mwyn eu dyfodol?

13:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not aware of any of my predecessors writing off Wales's children. Comments like that are perhaps best directed at the UK Government for its relentless pursuit of public sector spending cuts and the inevitable effect that that will have on the wider world of education right across the UK. As I say, I will be concerned about the PISA results when we see them; I will not see them before anyone else gets to see them; I do not get private previews of these things. It would be my ambition to take them as they are, to face the reality of that situation and to be ambitious for Wales's children and young people in that regard.

In terms of catch-up measures, this is quite a detailed subject and one that is perhaps difficult to address in an oral questions setting. However, I will also be very concerned during my time in this office to make sure that we do have a comprehensive look at catch-up educational provision for children in all age groups.

Nid wyf yn ymwybodol bod fy rhagflaenwyr wedi cyfrif plant Cymru yn fethiant. Efallai y byddai'n well cyfeirio sylwadau o'r fath at Lywodraeth y DU am fynd ar drywydd toriadau mewn gwariant sector cyhoeddus yn ddi-baid a'r effaith anochel a gaiff hynny ar y byd addysg ehangach ledled y DU. Fel y dywedais, byddaf yn ymwneud â chanlyniadau PISA pan fyddwn yn eu gweld. Ni wnaf eu gweld cyn i unrhyw un arall eu gweld; ni chaf ragolwg preifat ar y pethau hyn. Fy uchelgais i fyddai eu derbyn fel y maent, wynebu realiti'r sefyllfa honno a bod yn uchelgeisiol ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru yn hynny o beth.

O ran mesurau dal i fyny, mae hwn yn bwnc eithaf manwl ac yn un sydd, efallai, yn anodd ei drin drwy gyfrwng cwestiynau llafar. Fodd bynnag, yn ystod fy nghyfnod yn y swydd hon, byddaf hefyd yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr ein bod yn edrych yn ofalus iawn ar ddarpariaeth dal i fyny addysgol i blant ym mhob grŵp oedran.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I fail to understand why you keep referring to the UK Government when education is completely devolved. You now sit in a Cabinet that is stuffed full of ex-Ministers for education. For the last 10 years, education in Wales has been in a troubled spot. I do not doubt that you are attempting to improve literacy and numeracy, but, ultimately, what I am very keen to understand is, given the lack of confidence in any improvement for 2012, what are you putting in place to ensure that the literacy and numeracy framework that has been put in place, which our children will be measured against by outside organisations such as PISA—

Rwy'n methu deall pam eich bod yn dal i gyfeirio at Lywodraeth y DU pan fo addysg wedi'i datganoli yn llwyr. Rydych nawr yn eistedd mewn Cabinet sy'n llawn cyn-Weinidogion addysg. Am y 10 mlynedd diwethaf, mae addysg yng Nghymru wedi bod mewn sefyllfa gythryblus. Nid wyf yn amau eich bod yn ceisio gwella llythrennedd a rhifedd, ond, yn y pen draw, yr hyn yr wyf yn awyddus iawn i ddeall yw, o ystyried nad oes hyder y byddwn yn gweld unrhyw welliant ar gyfer 2012, beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd sydd wedi cael ei roi ar waith, y bydd sefydliadau allanol megis PISA yn ei ddefnyddio i fesur ein plant—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you coming to the question?

A ydych yn dod at y cwestiwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

—not only measures their academic capability, but also the application of that knowledge? That is something that I remain unconvinced of, Minister, and I would like your view.

—nid yn unig yn mesur eu gallu academiaidd, ond hefyd sut y maent yn defnyddio'r wybodaeth honno? Rwy'n dal heb fy argyhoeddi ynghylch hynny, Weinidog, a hoffwn glywed eich barn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I refer Angela Burns once again to the improving schools plan, and I look forward to the point when that has been absorbed by opposition parties and we can have a constructive debate about the whys and wherefores of it. To have any kind of debate on any kind of provision in the public realm without being aware of the radical, right-wing manoeuvres of the UK Government is literally to become almost childlike in one's innocence. Are we to ignore the fact that we have a Government at Westminster that is intent on a radical, small-state ideology that will have a huge impact on the life chances of the most vulnerable children and young people in Wales?

Cyfeiriai Angela Burns unwaith eto at y cynllun gwella ysgolion, ac edrychaf ymlaen at gyrraedd y pwynt pan fydd y gwrthbleidiau wedi ystyried y cynllun hwnnw ac y gallwn gael trafodaeth adeiladol ar y manylion. Mae cael unrhyw fath o drafodaeth ar unrhyw fath o ddarpariaeth yn y maes cyhoeddus heb fod yn ymwybodol o gamau radical, adain dde Llywodraeth y DU bron yn blentynnaidd o ddiniwed, yn llythrennol. A ddylem anwybyddu'r ffaith bod gennym Lywodraeth yn San Steffan sy'n benderfynol o arddel ideoleg radical, gwladwriaeth fach a fydd yn cael effaith enfawr ar gyfleoedd bywyd y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would just remind Members that—[Interruption.] Order. I remind Members that concise questions and answers will move us on a little more swiftly.

Hoffwn atgoffa Aelodau fod— [Ymyriad.] Trefn. Atgoffaf yr Aelodau y bydd y cwestiynau ac atebion cryno yn golygu y gallwn symud ymlaen ychydig yn gyflymach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Continuing Professional Development

13:53

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo DPP i athrawon a chynorthwyrwyr addysgu? OAQ(4)0303(ESK)

4. Will the Minister make a statement on the support provided by the Welsh Government to support CPD for teachers and teaching assistants? OAQ(4)0303(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Continuing professional development for all school practitioners is key to supporting the effective delivery of national priorities, and forms part of a coherent system comprising professional standards, performance management and professional development. The sum of £28.8 million is available this year through the school effectiveness grant for schools to access a range of CPD activities.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pob ymarferydd ysgol yn allweddol er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol, ac mae'n rhan o system gydlynol sy'n cynnwys safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol. Mae £28.8 miliwn ar gael eleni drwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion fel y gall ysgolion gael mynediad at ystod o weithgareddau DPP.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. May I take this opportunity to congratulate you on your new post? On taking up your post, you stated your intention to continue the focus of your predecessor on improving standards. Do you agree with me that one way to improve standards is to ensure that there is appropriate and targeted CPD for what is now known as the education workforce, including teachers and teaching assistants, particularly for the career development progression of headteachers by gaining NPQH? What analysis will the Welsh Government make of the provision of CPD across education authorities and the effective use of that spending?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i'ch llongyfarch ar eich swydd newydd. Wrth dderbyn y swydd, dywedasoch eich bod yn bwriadu parhau â ffocws eich rhagflaenydd ar wella safonau. A ydych yn cytuno â mi mai un ffordd o wella safonau yw sicrhau bod DPP priodol a phenodol ar gael i'r gweithlu addysg fel y'i gelwir bellach, gan gynnwys athrawon a chynorthwyrwyr addysgu, yn enwedig ar gyfer datblygu gyrfa penaethiaid drwy ennill CPCP? Pa waith dadansoddi y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â'r ddarpariaeth DPP ar draws awdurdodau addysg a'r defnydd effeithiol a wneir 'r gwariant hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The effective use of the school effectiveness grant and the other financial streams that assist with the various forms of CPD that David Rees is talking about, is absolutely critical. Part of the work that I intend to undertake, as soon as I possibly can, is to look at the focus of the spend and what it is delivering for our professionals across the teaching and support professions that we are talking about here. I held my first meeting with the combined teacher and support worker trade unions just this morning, and this was very much at the forefront of everyone's thinking in the discussion that I held with them. This is part and parcel of looking at the wider workforce in teaching and support, and at how we support the professional development not just of teachers, but of support workers, too. However, in difficult times, financially speaking, the focus of that £28.8 million needs some special attention, and I will be doing that work personally.

Mae'n gwbl hanfodol bod y grant effeithiolrwydd ysgolion a'r ffrydiau ariannol eraill sy'n helpu gyda'r gwahanol fathau o DPP y mae David Rees yn siarad amdanynt, yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Un elfen o'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud, cyn gynted ag y gallaf, yw edrych ar ffocws y gwariant a'r hyn y mae'n ei gyflawni ar gyfer ein gweithwyr proffesiynol ar draws y proffesiynau addysgu a chynorthwyo yr ydym yn eu trafod yma. Cynhaliâs fy nghyfarfod cyntaf gydag undebau llafur cyfunol yr athrawon a'r gweithwyr cymorth y bore yma, ac roedd hwn yn bwnc blaenllaw iawn ym meddwl pawb yn y drafodaeth a gefais gyda nhw. Mae'n elfen hanfodol wrth edrych ar y gweithlu ehangach ym maes addysgu a chynorthwyo, a sut yr ydym yn cefnogi datblygiad proffesiynol nid yn unig athrawon, ond gweithwyr cymorth, hefyd. Fodd bynnag, mewn cyfnodau anodd, yn ariannol, mae angen rhoi sylw arbennig i ffocws y £28.8 miliwn hynny, a byddaf yn gwneud y gwaith hwnnw fy hun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography Minister, given the special attention that you will be giving to that £28.8 million fund, will you take into account the views of headmasters and headmistresses of special educational needs schools? One of the concerns that they have raised with me over visits in my region has been that they are relatively restricted in the choice of courses that they can offer to their teachers because of the restrictions around in-service training days. Could you, therefore, look at whether headteachers who teach in those special category schools—I am talking about specialist SEN schools—could have the flexibility to choose courses that would help the pupils they are trying to support?	Weinidog, o gofio'r sylw arbennig y byddwch yn ei roi i'r gronfa £28.8 miliwn honno, a fyddwch yn ystyried barn penaethiaid ysgolion anghenion addysgol arbennig? Un o'r pryderon y maent wedi'u codi â mi yn ystod ymweliadau yn fy rhanbarth yw bod y dewis o gyrsiau y gallant eu cynnig i'w hathrawon yn gymharol gyfyngedig o ganlyniad i'r cyfyngiadau ynghylch diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. A allech, felly, edrych i weld a allai penaethiaid sy'n addysgu yn yr ysgolion categori arbennig hyn—rwy'n sôn am ysgolion AAA arbenigol—gael yr hyblygrwydd i ddewis cyrsiau a fyddai'n helpu'r disgyblion y maent yn ceisio eu cefnogi?	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I would be more than willing to take a look at that as a particular issue. If Antoinette Sandbach had a particular issue or school in mind, if she would write to me, I would be more than happy to look into that.	Byddwn yn fwy na pharod i edrych ar hwnnw fel mater penodol. Os oedd gan Antoinette Sandbach fater neu ysgol benodol mewn golwg, pe byddai'n ysgrifennu ataf, byddwn yn fwy na pharod i edrych i mewn i hynny.	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography Mae codi safonau athrawon a phenaethiaid yn eithriadol o bwysig, ond mae'r cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer penaethiaid wedi arwain at sefyllfa lle mae prinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi prifathrawon yn ein hysgolion. A ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol? A ydych yn bwriadu cynyddu'r garfan o bennaethiaid arfaethedig?	Raising standards among teachers and headteachers is extremely important, but the national professional qualification for headship has led to a situation where there is a shortage of candidates for headteacher posts in our schools. Do you believe that that is acceptable? Do you propose to increase the number of prospective headteachers?	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I regard the role of headteacher as being the critical role in the delivery of good-quality education and learning for our schools. It is the lynchpin position. I will want to take a look, first, at the professional development of our headteachers, and if there are recruitment difficulties, these will also receive my urgent attention.	Credaf fod rôl y pennaeth yn hollbwysig o ran darparu addysg a dysgu o ansawdd da ar gyfer ein hysgolion. Dyna'r gonglfaen. Byddaf yn awyddus i gymryd golwg, yn gyntaf, ar ddatblygiad proffesiynol ein penaethiaid, ac os oes anawsterau recriwtio, byddaf yn rhoi sylw brys i'r rhain hefyd.	Senedd.tv Fideo Video
	Addysg yn y Cartref	Home Education	
13:57	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography 5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg yn y cartref yng Nghymru? OAQ(4)0302(ESK)	5. Will the Minister make a statement on home education in Wales? OAQ(4)0302(ESK)	Senedd.tv Fideo Video
13:57	Huw Lewis Bywgraffiad Biography Following the consultation on home education, my officials have reviewed the 550 responses that we received and we will shortly publish a summary of those responses. In due course, I will make further statements setting out how I intend to take forward policy development on home education in Wales.	Yn dilyn yr ymgynghoriad ar addysg yn y cartref, mae fy swyddogion wedi adolygu'r 550 o ymatebion a gawsom a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion hynny'n fuan. Maes o law, byddaf yn gwneud datganiadau pellach yn nodi sut y bwriadaf fwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu polisi addysg yn y cartref yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A number of my constituents have made the choice to home school their children, but they have come across difficulties, for instance, in accessing Welsh-language provision—there are huge costs as children in the home education system are not entitled to Welsh language classes. In addition, when it comes to the examination process, parents have told me that they have great difficulty accessing the places that are available within the locality—in my own constituency, for instance—to sit the exams. Will you pledge your support to help those wishing to home educate their children? What further support do you intend to give as regards the concerns that I have raised?

Mae nifer o fy etholwyr wedi dewis addysgu eu plant gartref, ond maent wedi dod ar draws anawsterau, er enghraifft, wrth gael gafael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg—mae costau enfawr gan nad oes gan blant yn y system addysg yn y cartref hawl i ddsbarthiadau iaith Gymraeg. Yn ogystal, pan ddaw at y broses arholi, mae rhieni wedi dweud wrthyf eu bod yn profi cryn anhawster cael y lleoedd sydd ar gael yn yr ardal—yn fy etholaeth fy hun, er enghraifft—i sefyll yr arholiadau. A wnewch chi addo rhoi cefnogaeth i helpu'r rhai sy'n dymuno addysgu eu plant gartref? Pa gymorth pellach yr ydych yn bwriadu ei roi o ran y pryderon yr wyf wedi'u codi?

13:58 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will take a look at your concerns. Every child in Wales deserves a level playing field in front of them when they set out on their education, and there should be no unfair barriers placed in the way of any child, whether they are home educated or educated through other means. I have to say that there has been a large volume of detailed responses, some of which I assume came from Janet Finch-Saunders's constituents. There are around 1,000 home-educated children in Wales, and we had 550 responses, which gives some idea of the level of interest within the home-educating community. It is almost unprecedented in terms of consultation responses, in my experience. Once I have had the opportunity to go through that volume and detail, as I say, I will make statements setting out how I intend to take forward policy on home education in Wales.

Byddaf yn edrych ar eich pryderon. Mae pob plentyn yng Nghymru yn haeddu chwarae teg pan fydd yn dechrau ar ei addysg, ac ni ddylid gosod unrhyw rwystrau annheg o flaen unrhyw blentyn, pa un a gaiff ei addysgu gartref neu drwy ddulliau eraill. Rhaid imi ddweud bod nifer fawr o ymatebion manwl, rhai ohonynt, yr wyf yn tybio, gan etholwyr Janet Finch-Saunders. Mae tua 1,000 o blant a addysgir gartref yng Nghymru, a chawsom 550 o ymatebion, sy'n rhoi rhyw syniad o lefel y diddordeb yn y gymuned addysg yn y cartref. Mae bron yn ddigynsail o ran ymatebion i ymgynghoriadau, yn fy mhrofiad i. Unwaith y byddaf wedi cael y cyfle i fynd drwy'r nifer honno o ymatebion a'u manylder, fel y dywedais, byddaf yn gwneud datganiadau yn nodi sut y bwriadaf fwrw ymlaen â'r polisi ar addysg yn y cartref yng Nghymru.

Cerdded neu Feicio i'r Ysgol

Walking or Cycling to School

13:59 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Government embraces the principle that a healthy body can help to develop a healthy mind, and that the fitness that you get from walking or cycling to school can benefit a child's education. Do you agree—

Weinidog, mae'r Llywodraeth yn coffleidio'r egwyddor y gall corff iach helpu i ddatblygu meddwl iach, ac y gall y ffitrwydd a gewch wrth gerdded neu feicio i'r ysgol fod o fudd i addysg plentyn. A ydych yn cytuno—

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will you ask the question on the paper? A wnewch chi ofyn y cwestiwn ar y papur?

14:00 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am so sorry. Mae'n ddrwg iawn gennyf.

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You were chatting to Byron Davies, you see—that is the trouble. Roeddech yn sgwrsio â Byron Davies—dyna'r drafferth.

14:00 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Massive apologies; I am sorry, Presiding Officer. Ymddiheuriadau mawr; mae'n ddrwg gennyf, Lywydd.

6. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o fanteision posibl cerdded neu feicio i'r ysgol i addysg plentyn? OAQ(4)0295(ESK)

6. What assessment has the Minister made of the benefits that walking or cycling to school can have on a child's education? OAQ(4)0295(ESK)

- 14:00 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Physical activity is essential for both short and long-term physical and mental health and is also associated with academic and cognitive performance. We intend to encourage more pupils to walk and cycle to school through the Active Travel (Wales) Bill.
- Mae gweithgarwch corfforol yn hanfodol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol yn y byrdymor a'r hirdymor ac mae hefyd yn gysylltiedig â pherfformiad academaidd a gwybyddol. Rydym yn bwriadu annog mwy o ddisgyblion i gerdded a beicio i'r ysgol drwy'r Bil Teithio Llesol (Cymru).
- 14:00 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that response, Minister; I am grateful for it. Would you agree that a child's fear over the safety of a journey to school could distract from those policy objectives, good ones as they are? Will you speak to your colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, who I understand is hoping to adopt a common-sense approach to what constitutes a safe route to school?
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog; rwy'n ddiolchgar am hynny. A fydddech yn cytuno y gallai ofn plentyn ynghylch diogelwch y daith i'r ysgol dynnu sylw oddi ar yr amcanion polisi hynny, er eu bod yn dda? A wnewch chi siarad â'ch cyd-aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, sydd, fel y deallaf, yn gobeithio mabwysiadu ymagwedd synnwyr cyffredin wrth ddiffinio beth yn llwybr diogel i'r ysgol?
- 14:00 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes; I intend to continue the good work of my predecessor on this issue. I know that co-working with my colleague the Minister for transport will be an essential part of this. The Bill will require local authorities to map appropriate routes for children and young people to their place of education, with safety as a core consideration of that. Any parent has safety in mind when they think of their child setting off to walk or cycle to school.
- Ydw; rwy'n bwriadu parhau â gwaith da fy rhagflaenydd ar y mater hwn. Gwn y bydd cydweithio â'm cyd-aelod, y Gweinidog trafndiaeth, yn rhan hanfodol o hyn. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fapio llwybrau priodol ar gyfer plant a phobl ifanc i'w man addysg, gan roi ystyriaeth greiddiol i ddiogelwch. Mae diogelwch yn bwysig i bob rhiant pan fydd yn meddwl am ei blentyn yn mynd ati i gerdded neu feicio i'r ysgol.
- However, Suzy Davies is quite right to say that a commonsensical approach is what we need. It is estimated that around one in five cars on the roads on any given morning in Wales is participating in the school run. That is bad for the environment, it is not good for children and it is something that we need to get away from through good management of safe routes to school.
- Fodd bynnag, mae Suzy Davies yn llygad ei lle i ddweud bod angen inni ddefnyddio synnwyr cyffredin. Amcangyfrifir bod tua un o bob pump car ar y ffyrdd unrhyw fore yng Nghymru yn cymryd rhan yn y daith i'r ysgol. Mae hynny'n ddrwg i'r amgylchedd, nid yw'n dda i blant ac mae'n rhywbeth y mae angen inni ymbellhau wrtho drwy reoli llwybrau diogel i'r ysgol yn dda.
- 14:01 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Last week, I took part in Malborough Primary School's annual walk to school, accompanied by 225 other people from the school. This walk takes place every single day of the term time. What can the Minister do to promote more 20 mph zones? Although this walk is well supported at the school, the speed of some of the car traffic was absolutely terrifying and would not assist people who were not part of a walking-to-school crocodile.
- Yr wythnos diwethaf, cymerais ran yn nhaith gerdded flynyddol Ysgol Gynradd Malborough i'r ysgol, ynghyd â 225 o bobl eraill o'r ysgol. Mae'r daith hon yn digwydd bob dydd yn ystod y tymor ysgol. Beth gall y Gweinidog ei wneud i hyrwyddo rhagor o barthau 20 mya? Er bod cefnogaeth dda i'r daith gerdded hon yn yr ysgol, roedd cyflymder rhywfaint o'r traffig ceir yn gwbl frawychus ac ni fyddai'n helpu pobl nad oeddent yn rhan o grocodeil cerdded i'r ysgol.
- 14:02 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Jenny Rathbone for that question. Personally, I am a great fan of 20 mph zones. However, I would advise that this question is, perhaps, best directed to my colleague.
- Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn hwnnw. Yn bersonol, rwy'n hoff iawn o barthau 20 mya. Fodd bynnag, byddwn yn cynghori y byddai'n well cyfeirio'r cwestiwn hwn, efallai, at fy nghyd-aelod.

14:02 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the terrible accident in Rhoose just two weeks ago reminds us of the importance of encouraging people out of their cars, not only for health and educational reasons, but for the safety of our children around our congested schools. Obviously, safety is the key issue here. What support does the Welsh Government give to schools to enable pupils to learn about road safety and cycling proficiency during the school day?

Weinidog, mae'r ddamwain ofnadwy yn y Rhws dim ond pythefnos yn ôl yn ein hatgoffa o bwysigrwydd annog pobl i ddo allan o'u ceir, nid yn unig am resymau iechyd ac addysgol, ond er mwyn sicrhau diogelwch ein plant o amgylch ein hysgolion prysur. Yn amlwg, diogelwch yw'r mater allweddol yma. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ysgolion i alluogi disgyblion i ddysgu am ddiogelwch ar y ffordd a hyfedredd beicio yn ystod y diwrnod ysgol?

14:03 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank you for that question. The very grave incident that happened in Rhoose concentrated all our minds on the bind in which I suppose we find ourselves, given that there are too many cars on the road, perhaps moving too quickly in the vicinity of schools in some instances. In order to get a good proportion of those cars off the road during the school run, we need to encourage walking and cycling to school. We then have the concerns around the safety of those children who are walking and cycling. Careful management of this situation is, therefore, very important indeed.

Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw. Roedd y digwyddiad difrifol iawn yn y Rhws wedi canolbwyntio ein meddyliau i gyd ar y sefyllfa anodd rydym ynddi, o gofio bod gormod o geir ar y ffordd, sydd efallai'n teithio'n rhy gyflym yng nghyffiniau ysgolion mewn rhai achosion. Er mwyn tynnu cyfran dda o'r ceir hynny oddi ar y ffordd yn ystod y daith i'r ysgol, mae angen inni annog plant i gerdded a beicio i'r ysgol. Wedyn, mae gennym y pryderon ynghylch diogelwch y plant hynny sy'n cerdded a beicio. Felly, mae'n eithriadol bwysig bod y sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus.

As I say, I will be working as closely as I can with colleagues on the development of the Active Travel (Wales) Bill. I will have a particular interest in what support is being offered to schools and local education authorities in terms of guidance and, perhaps, in terms of resource to tackle this difficult but resolvable issue. This is a situation on which other European countries have made enormous progress, and that is something that we really need to emulate here in Wales.

Fel y dywedais, byddaf yn gweithio mor agos ag y gallaf gyda chydweithwyr i ddatblygu Bil Teithio Llesol (Cymru). Bydd gennyf ddiddordeb arbennig ym mha gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol o ran arweiniad ac, efallai, o ran adnoddau i fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n anodd ond y mae modd ei ddatrys. Mae hon yn sefyllfa lle mae gwledydd eraill yn Ewrop wedi gwneud cynnydd aruthrol, ac mae hynny'n rhywbeth y mae gwir angen inni ei efelychu yma yng Nghymru.

Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd

Literacy and Numeracy Skills

14:04 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I extend my personal congratulations to the Minister on his new role. I hope that he will do a better job than his predecessor.

Estynnaf fy llongyfarchiadau personol i'r Gweinidog ar ei rôl newydd. Gobeithio y bydd yn gwneud yn well na'i ragflaenydd.

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Excuse me, Mohammad Asghar; I think that that was rather ungentlemanly.

Esgusodwch fi, Mohammad Asghar; rwy'n meddwl bod hynny braidd yn anghwrtais.

14:04 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure that he will do a better job.

Rwy'n siŵr y bydd yn gwneud yn well.

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Stop digging and ask the question.

Rhowch y gorau iddi a gofynnwch y cwestiwn.

14:04 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

7. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant yng nghyfnod allweddol 2 a 3? OAQ(4)0290(ESK)

7. What action is the Minister taking to improve the literacy and numeracy skills of children in key stage 2 and 3? OAQ(4)0290(ESK)

14:04	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I was going to thank Mohammad Asghar for that question, but perhaps I will just answer it. [Laughter.] My department has set out comprehensive national programmes to ensure that significant improvements in standards of literacy and numeracy skills are achieved at key stages 2 and 3 in schools across Wales. We are providing significant support to teachers and learners to deliver these programmes.</p>	<p>Roeddwn yn mynd i ddiolch i Mohammad Asghar am y cwestiwn hwnnw, ond efallai y gwnaf ond ei ateb. [Chwerthin.] Mae fy adran wedi llunio rhaglenni cenedlaethol cynhwysfawr i sicrhau y caiff gwelliannau sylweddol mewn safonau sgiliau llythrennedd a rhifedd eu cyflawni yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 mewn ysgolion ledled Cymru. Rydym yn rhoi llawer o gefnogaeth i athrawon a dysgwyr er mwyn cyflawni'r rhaglenni hyn.</p>
14:05	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The Minister will be aware of the decline in the key skills of literacy and numeracy as highlighted by Estyn. The Welsh Government is pinning its hope on the new literacy and numeracy framework to raise standards in these key skills. However, the secretary of NUT Cymru has suggested that the system of literacy and numeracy tests will be counterproductive to raising standards. What action will the Minister undertake to listen to these concerns and to work with teachers to ensure that standards in these key skills are improved?</p>	<p>Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r dirywiad yn y sgiliau allweddol, sef llythrennedd a rhifedd, fel yr amlygwyd gan Estyn. Mae Llywodraeth Cymru'n seilio ei gobaith ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd i godi safonau yn y sgiliau allweddol hyn. Fodd bynnag, mae ysgrifennydd NUT Cymru wedi awgrymu y bydd y system o brofion llythrennedd a rhifedd yn wrthgynhyrchiol i godi safonau. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wrando ar y pryderon hyn a gweithio gydag athrawon i sicrhau bod safonau yn y sgiliau allweddol hyn yn gwella?</p>
14:05	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>That is a very good question. I am willing to listen to all considered opinion, which may or may not include Mohammad Asghar's, on these issues, but I can reassure him of this: our national literacy and numeracy programmes that require every school in Wales to focus on the development of literacy and numeracy skills are not going to go away. They will be absolutely central in terms of delivery for those young learners, and I look forward to working closely in collaboration with professionals at all levels to ensure that those programmes succeed.</p>	<p>Mae hwnnw'n gwestiwn da iawn. Rwy'n barod i wrando ar bob barn ystyriol ar y materion hyn, a allai neu na allai gynnwys barn Mohammad Asghar, ond gallaf roi sicrwydd iddo ynghylch hyn: nid yw ein rhaglenni llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn mynd i fynd i ffwrdd. Byddant yn gwbl ganolog i'r hyn a ddarperir ar gyfer y dysgwyr ifanc hynny, ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol ar bob lefel i sicrhau bod y rhaglenni hynny'n llwyddo.</p>
14:06	Elin Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Beth fydd eich blaenoriaeth yn eich portffolio newydd? Ai gwella llythrennedd a rhifedd fydd hynny, neu ffocws haearnidd ar leihau lleoedd gwag mewn ysgolion? Rwy'n awgrymu, yn fy etholaeth i, er enghraifft, y byddai agwedd llai llawdrwm gan Lywodraeth ar leoedd gwag, a'r fformiwla sy'n rheoli lleoedd gwag nad ydynt yn adlewyrchu realiti addysg wledig, yn rhyddhau'r awdurdod addysg i ganolbwyntio ar wella safonau addysg.</p>	<p>What will your priority be in your new portfolio? Will it be improving numeracy and literacy, or a stern focus on reducing surplus school places? I suggest to you that, in my constituency, for example, a less heavy handed attitude by Government towards surplus school places and the formula that manages those surplus places, which does not represent the reality of rural education, would release the education authority to concentrate on improving educational standards.</p>
14:07	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I will reiterate: my focus is on literacy, numeracy and the attainment gap that is being faced by our least-well-off children and young people. I am always prepared to listen to, as I say, considered opinion on surplus places or any other issue. However, it remains the fact that local government will face increasing pressures in terms of finance over the coming years, and I think that every reasonable person accepts that we have a surplus- places problem in Wales of some considerable scale and that it needs to be addressed.</p>	<p>Ailadroddaf: rwy'n canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a'r bwllch cyrhaeddiad sy'n wynebu ein plant a phobl ifanc lleiaf cefnog. Rwyf bob amser yn barod i wrando, fel y dywedais, ar farn ystyriol ar leoedd gwag neu unrhyw fater arall. Fodd bynnag, erys yn ffaith y bydd llywodraeth leol yn wynebu pwysau cynyddol o ran cyllid dros y blynyddoedd nesaf, a chredaf fod pob person rhesymol yn derbyn bod gennym broblem fawr o ran lleoedd gwag yng Nghymru a bod angen mynd i'r afael â hi.</p>

Darpariaeth Addysg ôl-16 yn Nhorfaen

Post-16 Education in Torfaen

14:08	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography <i>8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0293(ESK)</i>	<i>8. Will the Minister provide an update on the provision of post-16 education in Torfaen? OAQ(4)0293(ESK)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:08	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography <i>Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology</i> My officials are currently working with Torfaen County Borough Council and Coleg Gwent to assist in the development of plans to improve post-16 education in Torfaen. As a result of considerable work, it is anticipated that a final report will be available before the end of July.	Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Choleg Gwent ar hyn o bryd i helpu i ddatblygu cynlluniau i wella addysg ôl-16 yn Nhorfaen. O ganlyniad i waith sylweddol, rhagwelir y bydd adroddiad terfynol ar gael cyn diwedd mis Gorffennaf.	Senedd.tv Fideo Video
14:08	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography Thank you, Deputy Minister, and many congratulations on your new role. While I recognise that there will be many competing issues vying for your attention, I urge you, once and for all, to tackle the scandalous lack of post-16 provision in north Torfaen. Five years since Coleg Gwent in Pontypool was stripped of its A-level courses, many young people in the north are still forced to travel to Newport and on to Crosskeys if the wish to continue with their studies. Deputy Minister, will you meet me at the earliest possible opportunity with Torfaen council and Coleg Gwent with a view to bringing to an end this unfair and iniquitous situation?	Diolch ichi, Ddirprwy Weinidog, a llongyfarchiadau mawr ar eich rôl newydd. Er fy mod yn cydnabod y bydd llawer o faterion yn cystadlu am eich sylw, rwy'n eich annog i fynd i'r afael, unwaith ac am byth, â'r diffyg darpariaeth ôl-16 yng ngogledd Torfaen, sy'n warthus. Bum mlynedd ers i Goleg Gwent ym Mhont-y-pŵl golli ei gyrsiau Safon Uwch, mae llawer o bobl ifanc yn y gogledd yn dal i orfod teithio i Gasnewydd ac ymlaen i Crosskeys os ydynt am barhau â'u hastudiaethau. Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi gyfarfod â mi cyn gynted â phosibl, gyda Chyngor Torfaen a Choleg Gwent, er mwyn rhoi terfyn ar y sefyllfa annheg ac anghyfiawn hon?	Senedd.tv Fideo Video
14:09	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography I thank the Member for Torfaen. I must say that I believe that her constituents are very fortunate to have such a dedicated Member. I know that you have raised this matter on numerous occasions and it would be a pleasure to meet with you to discuss this matter further. On the decision and the appropriate option for the local authority and Coleg Gwent to take, I have no further information and neither am I able to comment on the merits of any particular plans. If a statutory proposal is published and there are objections, it will come to Welsh Ministers for determination. I will, however, be taking a keen interest in progress and look forward to viewing developments in the near future. I will say this: mergers are not just about delivering efficiencies; they are about improving the learner experience. All colleges and local authorities must make sure that that is their top priority, so that the architecture of further education meets the interests of learners.	Diolch i'r Aelod dros Dorfaen. Rhaid imi ddweud fy mod yn credu bod ei hetholwyr yn ffodus iawn i gael Aelod mor ymroddgar. Gwn i chi godi'r mater hwn ar sawl achlysur a byddai'n bleser cyfarfod â chi i drafod y mater hwn ymhellach. O ran y penderfyniad a'r opsiwn priodol i'r awdurdod lleol a Choleg Gwent, nid oes gennyf wybodaeth bellach ac ni allaf wneud sylwadau ar rinweddau unrhyw gynlluniau penodol. Os cyhoeddir cynnig statudol a bod gwrthwynebiadau'n dod i law, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arno. Fodd bynnag, byddaf yn cymryd diddordeb brwd mewn cynnydd ac edrychaf ymlaen at weld datblygiadau yn y dyfodol agos. Dywedaf hyn: mae uno'n ymwneud â mwy na chyflawni arbedion effeithlonrwydd; mae'n ymwneud â gwella profiad y dysgwyr hefyd. Rhaid i bob coleg ac awdurdod lleol wneud yn siŵr mai dyna yw eu prif flaenoriaeth, fel bod adeiladwaith addysg bellach yn bodloni buddiannau dysgwyr.	Senedd.tv Fideo Video
14:10	William Graham Bywgraffiad Biography I congratulate the Deputy Minister on his new post.	Llongyfarchiadau i'r Dirprwy Weinidog ar ei swydd newydd.	Senedd.tv Fideo Video
14:10	Simon Thomas Bywgraffiad Biography He will not say the same about you. [Laughter.]	Ni fydd yn dweud yr un peth amdanoch chi. [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video
14:10	William Graham Bywgraffiad Biography You have spoiled my afternoon.	Rydych wedi difetha fy mhrynhawn.	Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I ask you to take a keen interest, as you put it, in the provision of post-16 education within the Education Achievement Service for South East Wales. This body manages and co-ordinates the 14-19 learning pathways initiative in Blaenau Gwent, Caerphilly, Monmouthshire, Newport and Torfaen. Is it really viable for the EAS to oversee a different post-16 education strategy for each of these authorities?

Ddirprwy Weinidog, gofynnaf ichi gymryd diddordeb brwd, fel y dywedasoch, yn y ddarpariaeth addysg ôl-16 o fewn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru. Mae'r corff hwn yn rheoli ac yn cydlynu'r fenter llwybrau dysgu 14-19 ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. A yw'n wirioneddol ymarferol i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg oruchwylio strategaeth addysg ôl-16 wahanol ar gyfer pob un o'r awdurdodau hyn?

14:10 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an issue that I will be looking at very closely, and I would be delighted to update the Member accordingly. I can promise you, and other Members in the Chamber, across all parties, that if you are willing to accept my offer, I can promise that my door will always be open to dialogue over meaningful and constructive ideas to improve skills and training in Wales.

Mae hwn yn fater y byddaf yn edrych yn ofalus iawn arno, a byddwn wrth fy modd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod yn unol â hynny. Gallaf addo i chi, ac Aelodau eraill yn y Siambr, ym mhob plaid, os ydych yn barod i dderbyn fy nghynnig, gallaf addo y bydd fy nrws bob amser ar agor i drafod syniadau ystyrlon ac adeiladol er mwyn gwella sgiliau a hyfforddiant yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Prior to you congratulating me, Ken, I also offer you my congratulations on your appointment.

Cyn ichi fy llongyfarch, Ken, hoffwn eich llongyfarch chithau hefyd ar eich penodiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As the preferred option of Torfaen is, in fact, to close all sixth forms, including the current Coleg Gwent campus in Pontypool, and to integrate everything on one site, this will inevitably mean job losses. How would that factor in to the Government's decision-making process, and what discussions have you had in the last week with teachers and unions to mitigate the impact if the reorganisation proposals are approved?

Gan mai'r opsiwn dewisol yn Nhorfaen, mewn gwirionedd, yw cau pob chweched dosbarth, gan gynnwys campws presennol Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl, ac integreiddio popeth ar un safle, mae'n anochel y bydd hyn yn golygu colli swyddi. Sut y byddai'r Llywodraeth yn ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau, a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ystod yr wythnos ddiwethaf gydag athrawon ac undebau i liniaru'r effaith os caiff y cynigion ad-drefnu eu cymeradwyo?

14:11 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Actually, I would like to congratulate the Member as, with regard to the jacket that he wears, it really requires some courage to wear that sort of fashion.

A dweud y gwir, hoffwn longyfarch yr Aelod oherwydd, o ran y siaced y mae'n ei gwisgo, mae angen cryn ddewrder i wisgo'r math hwnnw o ffasiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The discussions you mentioned will be forthcoming and I will be having them very soon. Of course jobs are crucial to the economy. My primary objective, with any changes that occur, is that the learner experience improves and that we continue in the vein of the former Minister for Education and Skills and the former Deputy Minister for Skills and Technology to drive up standards in education, skills and training.

Bydd y trafodaethau a grybwyllwyd gennych yn digwydd a byddaf yn eu cael yn fuan iawn. Wrth gwrs, mae swyddi yn hanfodol i'r economi. Fy mhrif amcan, gydag unrhyw newidiadau sy'n digwydd, yw bod profiad y dysgwyr yn gwella a'n bod yn parhau â gwaith y cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau a'r cyn-Ddirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i godi safonau mewn addysg, sgiliau a hyfforddiant.

14:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. I do not think that we expected fashion advice as well as replies, but there we are.

Diolch yn fawr iawn. Dydw i ddim yn meddwl ein bod yn disgwyl cyngor ffasiwn yn ogystal ag ymatebion, ond dyna ni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Pwysau Ariannol

Financial Pressures

14:12 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â phwysau ariannol yn ei bortffolio?
OAQ(4)0305(ESK)

9. What recent discussions has the Minister has regarding financial pressures within his portfolio? OAQ(4)0305(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	I have had an early discussion with my director general and received a detailed budget briefing from my officials, which includes any pressures within the portfolio.	Rwyf wedi cael trafodaeth gynnar gyda fy nghyfarwyddwr cyffredinol a chefais friff cyllidebol manwl gan fy swyddogion, sy'n cynnwys unrhyw bwysau yn y portfolio.	Senedd.tv Fideo Video
14:12	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rydym wedi clywed heddiw bod y ffocws ar safonau yn dal i fod yn bwysig i chi, a bod llythrennedd a rhifedd, a delio gyda lleoedd gwag yn bwysig i'r Llywodraeth. A fedrwrch roi sicrwydd i'r Cynulliad heddiw na fydd unrhyw doriadau yn ystod y flwyddyn hon yn eich cyllideb ar gyfer ysgolion a cholegau?	Thank you, Minister, for that response. We have heard today that the focus on standards is still important to you, and that literacy and numeracy, and dealing with surplus school places are important to the Government. Can you give the Assembly an assurance today that there will be no cuts in-year to your budget for schools and colleges?	Senedd.tv Fideo Video
14:13	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	I can assure the Member that this Welsh Government will protect schools spending.	Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd y Llywodraeth hon yn diogelu gwariant ysgolion.	Senedd.tv Fideo Video
14:13	Paul Davies Bywgraffiad Biography	Minister, you will be aware that the direct funding of schools is something that we have been advocating for a long time—and, incidentally, this was never rejected by your predecessor—and is something that could alleviate financial pressures within the education system. Given that the previous Minister for Education and Skills seemed to be open-minded about this, could you confirm that this is something that you, too, are open-minded about and that you will consider this?	Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn dadlau o'i blaid am amser hir—a, gyda llaw, na chafodd erioed ei wrthod gan eich rhagflaenydd—ac mae'n rhywbeth a allai leddfu pwysau ariannol o fewn y system addysg. O gofio bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol yn ymddangos fel pe bai ganddo feddwl agored am hyn, a allech gadarnhau bod hyn yn rhywbeth y mae gennych chithau, hefyd, feddwl agored yn ei gylch ac y byddwch yn ei ystyried?	Senedd.tv Fideo Video
14:13	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	No.	Na allaf.	Senedd.tv Fideo Video
14:13	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Weinidog, rwy'n derbyn bod y datganiad ar yr adolygiad o gyrhaeddiad wedi ei ohirio, ond a yw'r Llywodraeth wedi pennu'r arian y bydd yn rhaid ei gael ar gyfer strategaeth cyfathrebu ynglŷn â chanlyniadau'r adolygiad?	Minister, I accept that the statement on the attainment review has been deferred, but has the Government allocated the money that will need to be set aside for a communications strategy to deal with the outcomes of the review?	Senedd.tv Fideo Video
14:14	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	I am sorry, Presiding Officer, I did not quite hear that. Were you asking about money set aside for—	Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd, wnes i ddim clywed hynny'n iawn. A oeddech yn gofyn am arian a neilltuwyd ar gyfer—	Senedd.tv Fideo Video
14:14	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	I was asking for money to be set aside for the communications strategy, albeit that the announcement on the review of qualifications was delayed yesterday. Has the money been set aside for the communications strategy?	Roeddwn yn gofyn i arian gael ei neilltuo ar gyfer y strategaeth gyfathrebu, er i'r cyhoeddiad ar yr adolygiad o gymwysterau gael ei ohirio ddoe. A yw'r arian wedi'i neilltuo ar gyfer y strategaeth gyfathrebu?	Senedd.tv Fideo Video
14:14	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	I ask the Member to forgive me; I will need to look in detail into that question and I will write to you with the outcome of that.	Gofynnaf i'r Aelod faddau imi; bydd angen imi edrych yn fanwl ar y cwestiwn hwnnw ac ysgrifennaf atoch gyda chanlyniad hynny.	Senedd.tv Fideo Video

Cwricwlwm Ysgol

School Curriculum

14:14	Suzy Davies Bywgraffiad Biography <i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r cwricwlwm ysgol? OAQ(4)0294(ESK)</i>	<i>10. Will the Minister make a statement on any plans the Welsh Government has to review the school curriculum? OAQ(4)0294(ESK)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:14	Huw Lewis Bywgraffiad Biography A review of assessment and the national curriculum is already under way. This review provides an important opportunity to make sure that children are developing the knowledge and skills that are necessary for the twenty-first century. It will report to me later this year.	Mae adolygiad o waith asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol eisoes yn mynd rhagddo. Mae'r adolygiad hwn yn gyfle pwysig i wneud yn siŵr bod plant yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Byddaf yn cael adroddiad arno yn ddiweddarach eleni.	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Suzy Davies Bywgraffiad Biography Thank you for that reply, Minister. Your Labour colleagues in Westminster are currently looking to free-up large parts of the curriculum. I wondered whether a similar approach here might give you an opportunity to reprioritise elements of the compulsory curriculum. Minister, would you consider finding a mandatory place for teaching emergency life-saving skills—very twenty-first century skills—on the curriculum to save me from sending Vinnie Jones round to persuade you?	Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ar hyn o bryd, mae eich cyd-aelodau Llafur yn San Steffan yn awyddus i ryddhau rhannau helaeth o'r cwricwlwm. Roeddwn yn meddwl tybed a fyddai mabwysiadu dull tebyg yma yn rhoi cyfle ichi ail-flaenoriaethu elfennau o'r cwricwlwm gorfodol. Weinidog, a fydddech yn ystyried dod o hyd i le gorfodol i addysgu sgiliau achub bywyd brys—sy'n sgiliau hynod o berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain—fel rhan o'r cwricwlwm i'm harbed rhag gorfod anfon Vinnie Jones draw i'ch perswadio?	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I am aware of the Member's sincere interest in the issue of life-saving skills and that she has been a champion for this issue in this and other fora, as well. As I said, there is a review of the national curriculum under way at the moment. I am going to take a completely open-minded look at the results of that review. Curricula, I think, need to be under pretty much constant scrutiny in terms of the usefulness and appropriateness of their content. I would be happy to talk about this issue further as the agenda develops.	Rwy'n ymwybodol o ddiddordeb diffuant yr Aelod mewn sgiliau achub bywyd, a'i bod wedi hyrwyddo'r mater hwn yn y fforwm hwn yn ogystal â fforymau eraill. Fel y dywedais, mae adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rwy'n mynd i gymryd golwg ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw â meddwl hollol agored. Credaf fod angen craffu ar gwricwla'n gyson, fwy neu lai, o ran defnyddioldeb a phriodoldeb eu cynnwys. Byddwn yn hapus i siarad am y mater hwn ymhellach wrth i'r agenda ddatblygu.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography A ydych yn cytuno â mi nad yw hanes Cymru yn cael y lle dyladwy yn ein hysgolion ac yn arbennig ar ein cyrsiau arholiadau?	Would you agree with me that Welsh history is given its proper place in our schools, particularly in our examination courses?	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I am a little bit confused as to whether the Member believes that it does have its proper place at the moment or that it does not.	Rwyf ychydig yn ddryslyd ynghylch a yw'r Aelod o'r farn ei fod yn cael lle dyladwy ar hyn o bryd neu beidio.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography You cannot ask him a question.	Ni allwch ofyn cwestiwn iddo.	Senedd.tv Fideo Video

14:16	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I cannot ask the Member the question, but let me say this. The Member may be aware that the consultation led by Dr Elin Jones on the Cwricwlwm Cymreig has just closed. I just today received the first draft of that review. As well as looking more widely at the national curriculum implications for what might be said in terms of the outcome of that review, this is a topic that is very much at the forefront of my mind. However, it is very early on in terms of the work that we are doing as regards the review of the curriculum more widely.</p>	<p>Ni allaf ofyn y cwestiwn i'r Aelod, ond gadewch imi ddweud hyn. Efallai bod yr Aelod yn gwybod bod yr ymgynghoriad ar y Cwricwlwm Cymreig, dan arweiniad Dr Elin Jones, newydd gau. Dim ond heddiw cefais ddrafft cyntaf yr adolygiad hwnnw. Yn ogystal ag edrych yn ehangach ar y goblygiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol o ran yr hyn a allai gael ei ddweud ynghylch canlyniad yr adolygiad hwnnw, mae hwn yn bwnc sy'n sicr ar flaen fy meddwl. Fodd bynnag, mae'n gynnar iawn o ran y gwaith yr ydym yn ei wneud i adolygu'r cwricwlwm yn ehangach.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, given your previous portfolio, you will be aware of the importance of sustainable development education delivering key objectives of the Welsh Government. Would you briefly outline your views on the scope of the current review that is going on into sustainable development and global citizenship education and give an undertaking to update the Chamber at an early opportunity?</p>	<p>Weinidog, o gofio eich portffolio blaenorol, byddwch yn ymwybodol o bwysigrwydd addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy wrth gyflawni amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. A wnewch amlinellu'n gryno eich barn ar gwmpas yr adolygiad presennol sy'n mynd rhagddo o ran addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac ymrwmo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ar gam cynnar?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I will undertake to write to the Member with the details of how things are developing at the moment. I can tell him that I would be very keen to see, as we move towards Wales's first sustainable development Bill, or, as I think we are learning to refer to it now, the future generations Bill, that children and young people at schools and education institutions of all kinds are very much a part of the ongoing discussions about sustainable development that feed into the consequences of that Bill and the new methods of working that I know it will recommend.</p>	<p>Ymrwymaf i ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion ynghylch sut mae pethau'n datblygu ar hyn o bryd. Gallaf ddweud wrtho y byddwn yn awyddus iawn i weld, wrth inni symud tuag at Fil datblygu cynaliadwy cyntaf Cymru, neu Fil cenedlaethau'r dyfodol, fel yr ydym yn dysgu cyfeirio ato erbyn hyn rwy'n meddwl, bod plant a phobl ifanc mewn ysgolion a sefydliadau addysg o bob math yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau parhaus ar ddatblygu cynaliadwy sy'n bwydo i mewn i ganlyniadau'r Bil hwnnw a'r dulliau newydd o weithio y gwn y bydd yn eu hargymell.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth</p> <p>I call the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones, to ask the first question.</p> <p>Trydaneiddio Rheilffyrdd</p>	<p>Questions to the Minister for Economy, Science and Transport</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones, i ofyn y cwestiwn cyntaf.</p> <p>Rail Electrification</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r Gogledd? OAQ(4)0290(EST)</i></p>	<p><i>1. Will the Minister make a statement on rail electrification in the Valleys and north Wales? OAQ(4)0290(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport</i></p> <p>I am currently looking at all options for rail in Wales, post the current franchise and the introduction of electrification.</p>	<p>Rwy'n ystyried yr holl opsiynau ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru ar hyn o bryd, ar ôl y fasnachfaint bresennol a chyflwyno trydaneiddio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:19	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography Rwy'n deall bod trafodaethau wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar bolisi trafnidiaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r rhwydwaith trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. O ganlyniad i'r trafodion hyn, a fuoch yn pwyso bod rheilffordd arfordir y gogledd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd sy'n cysylltu Dulyn, Llundain a Paris er mwyn hyrwyddo ei thrydaneiddio yn y dyfodol?	I understand that negotiations have taken place between the Welsh Government, the UK Government and the European Union on the EU transport policy and the trans-European transport network. As a result of these discussions, have you applied pressure for the north Wales coast line to be included as part of the railway network that connects Dublin, London and Paris in order to promote its electrification in the future?	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I agree with you that it is important that we prioritise the electrification of the north Wales line for economic development purposes and for the links to the continent.	Cytunaf â chi ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi blaenoriaeth i drydaneiddio rheilffordd y gogledd ad ddibenion datblygu economaidd ac ar gyfer y cysylltiadau â'r cyfandir.	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Do you have a second question?	A oes gennych ail gwestiwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography No, it is okay.	Na, mae'n iawn.	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Byron Davies Bywgraffiad Biography Minister, now that we have the timetable for implementation of the Valleys electrification, alongside that of the Great Western line, will you outline what plans you have to support new rolling stock to coincide with electrification? Perhaps you could share with us any discussions that you and officials may have had in looking at second-hand or new fleet trains with regenerative braking systems to supply and use electricity on the new grid.	Weinidog, gan fod gennym yr amserlen ar gyfer trydaneiddio'r Cymoedd, ochr yn ochr â rheilffordd y Great Western, a wnewch chi amlinellu pa gynlluniau sydd gennych i gefnogi cerbydau newydd i gyd-fynd â thrydaneiddio? Efallai y gallech rannu â ni unrhyw drafodaethau yr ydych chi a swyddogion wedi'u cael efallai wrth edrych ar drenau ail law neu drenau newydd gyda systemau brecio atgynhyrchiol i gyflenwi a defnyddio trydan ar y grid newydd.	Senedd.tv Fideo Video
14:20	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Electrification of the Valleys lines remains on target for delivery in 2019, and I am sure that we are all, across the Chamber, delighted with that. We are looking at the issues of what stock will be on the line, and I will update Members accordingly when discussions are concluded.	Mae'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gyflawni yn 2019, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd, ar draws y Siambr, yn falch o glywed hynny. Rydym yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â pha stoc fydd yn barod, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn unol â hynny pan fydd trafodaethau wedi dod i ben.	Senedd.tv Fideo Video
14:20	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Minister, in your letter of 15 May, when the north Wales integrated taskforce was set up, you indicated that it would be reporting to you by the summer. Are you able to update us with regard to the situation, and also with regard to the business case in respect of north Wales electrification? Your predecessor indicated that it would include transport links with Manchester. Is that the case, and does it include Manchester and Warrington?	Weinidog, yn eich llythyr dyddiedig 15 Mai, pan sefydlwyd tasglu integredig y gogledd, awgrymwyd gennych y byddai'n cyflwyno adroddiad ichi erbyn yr haf. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch y sefyllfa, a hefyd o ran yr achos busnes ar gyfer trydaneiddio'r gogledd? Dywedodd eich rhagflaenydd y byddai'n cynnwys cysylltiadau trafnidiaeth â Manceinion. A yw hynny'n wir, ac a yw'n cynnwys Manceinion a Warrington?	Senedd.tv Fideo Video

14:21	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The north-east Wales integrated taskforce report landed on my desk this week. We are now analysing that report, and I would be delighted, if Members wish, to perhaps make a written statement before recess indicating how I intend to take some issues forward. You are correct in your assumption and about what the previous Minister for transport said. I have also been looking at the opportunities of electrification into HS2 perhaps and all those issues, which I will also update Members on in due course.</p>	<p>Cefais gopi o adroddiad tasglu integredig y gogledd-ddwyrain yr wythnos hon. Rydym wrthi'n dadansoddi'r adroddiad hwnnw, a byddwn yn falch o wneud datganiad ysgrifenedig cyn y toriad, pe bai Aelodau yn dymuno, yn nodi sut y bwriadaf weithredu ar rai materion. Rydych yn gywir o ran eich tybiaeth ac o ran yr hyn a ddywedodd y Gweinidog trafnidiaeth blaenorol. Rwyf hefyd wedi bod yn edrych ar gyfleoedd trydaneiddio yn HS2 efallai a'r holl faterion hynny, a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau arnynt maes o law.</p>
	Buddsoddiad	Investment
14:21	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau buddsoddiad yng Nghymru? OAQ(4)0284(EST)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to secure investment in Wales? OAQ(4)0284(EST)</i></p>
14:21	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We continue our efforts to attract inward investment into Wales through activities such as my recent successful mission to Japan.</p>	<p>Rydym yn parhau â'n hymdrechion i ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru drwy weithgareddau fel fy nghenhadaeth lwyddiannus ddiweddar i Japan.</p>
14:21	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer. Minister, recent announcements of Welsh Government funding to help create a pharmaceutical hub in the bay are most welcome. How do we ensure that people in Islwyn consider careers in this industry, which could be so valuable to Wales?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae cyhoeddiadau diweddar ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i greu canolfan fferyllol yn y bae i'w croesawu'n fawr. Sut rydym yn sicrhau bod pobl yn Islwyn yn ystyried gyrfaedd yn y diwydiant hwn, a allai fod mor werthfawr i Gymru?</p>
14:21	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We very much hope that the hub in the bay will be a national and international focal point and a nerve centre for the life sciences in Wales. We will ensure that an extensive network of support is available from there, and we will be working hard with the education department and Careers Wales to ensure that everyone can take up exciting career opportunities within life sciences.</p>	<p>Rydym yn mawr obeithio y bydd y ganolfan yn y bae yn ganolbwynt cenedlaethol a rhyngwladol ac yn graidd ar gyfer y gwyddorau bywyd yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod rhwydwaith eang o gefnogaeth ar gael yno, a byddwn yn gweithio'n galed gyda'r adran addysg a Gyrfa Cymru i sicrhau y gall pawb fanteisio ar gyfleoedd gyrfa cyffrous mewn gwyddorau bywyd.</p>
14:22	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call the opposition spokesperson, Nick Ramsay.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Nick Ramsay.</p>
14:22	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, I think that we would all welcome the recent Ernst and Young investment figures, which clearly show an improvement on inward investment into Wales, certainly compared with the dismal performance of the previous few years. However, do you agree that there is a lot more to do? Wales is starting from a lower base and we have to catch up with other constituent parts of the UK. How do you propose to do that?</p>	<p>Weinidog, credaf y byddem i gyd yn croesawu ffigurau buddsoddi diweddar Ernst and Young, sy'n dangos yn glir welliant o ran mewnfuddsoddiad i Gymru, yn sicr o gymharu â' pherfformiad gwael yr ychydig flynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod llawer mwy i'w wneud? Mae Cymru yn dechrau o sylfaen is a rhaid inni ddal i fyny â'r rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Sut y bwriadwch wneud hynny?</p>

- 14:22 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Like you, I am very pleased with the figures that we have seen from Ernst and Young, but one swallow does not make a summer, so we are duty bound to carry on our activities in that area. I thank all Members for the support for the activities that the Welsh Government is undertaking. We are doing trips abroad to encourage investment in, but there is still a lot of work to do to ensure that Wales's message gets across.
- Fel chithau, rwy'n fodlon iawn ar y ffigurau a welsom gan Ernst and Young, ond un wennol ni wna wanwyn, felly mae dyletswydd arnom i gyflawni ein gweithgareddau yn y maes hwnnw. Diolchaf i'r holl Aelodau am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r gweithgareddau. Rydym yn mynd ar deithiau tramor er mwyn annog buddsoddiad, ond mae llawer o waith eto i'w wneud i sicrhau bod neges Cymru yn cael ei chyfleu.
- 14:23 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know that you have been building a good relationship with Tri-Wall Limited, a Japanese-owned company in my constituency, and with some other companies as well. However, would you accept that that is not enough? As you will know from your own discussions with Tri-Wall, it has identified the development of networks between its suppliers and customers as key to its future competitiveness. So, aside from simply giving financial support and advice to those companies, how are you going to help support and develop networks, not just within supplier and customer chains within Wales, but also within England and the UK, because it is one larger market? How do you propose to do that?
- Gwn eich bod wedi bod yn meithrin perthynas dda â Tri-Wall Limited, cwmni o Japan yn fy etholaeth, a chyda rhai cwmnïau eraill hefyd. Fodd bynnag, a fydddech yn derbyn nad yw hynny'n ddigon? Fel y gwyddoch o'ch trafodaethau eich hun â Tri-Wall, mae wedi nodi bod datblygu rhwydweithiau rhwng ei gyflenwyr a chwsmeriaid yn allweddol i'w allu i gystadlu yn y dyfodol. Felly, ar wahân i roi cymorth a chyngor ariannol i'r cwmnïau hynny, sut y byddwch yn helpu i gefnogi a datblygu rhwydweithiau, nid yn unig o fewn cadwyni cyflenwyr a chwsmeriaid yng Nghymru, ond hefyd o fewn Lloegr a'r DU, oherwydd un farchnad fawr ydyw? Sut y bwriadwch wneud hynny?
- 14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the excellent visit that I had with you to Tri-Wall. It enjoys excellent relationships both locally and nationally as a Japanese company. I make it quite clear that the work on the supply chain is absolutely essential for all businesses where there is a supply chain wider than Wales. If you look at the example of Hitachi coming to north Wales, we have done a number of events around the nuclear industry and who can supply from Wales and further afield. In terms of automotives, we look at the relationship of the Welsh supply chain to England and centres there. So, you are quite correct that the supply chain issue is absolutely essential.
- Diolch ichi am yr ymweliad ardderchog â Tri-Wall yn eich cwmni chi. Mae ganddo gydberthnasau ardderchog yn lleol ac yn genedlaethol fel cwmni o Japan. Pwysleisiaf fod y gwaith ar y gadwyn gyflenwi yn gwbl hanfodol i bob busnes lle mae cadwyn gyflenwi ehangach na Chymru. Os edrychwch ar yr enghraifft o Hitachi yn mynd i'r gogledd, rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ymwneud â'r diwydiant niwclear a phwy a all gyflenwi o Gymru a thu hwnt. O ran moduron, edrychwn ar gydberthynas y gadwyn gyflenwi yng Nghymru â Lloegr a chanolfannau yno. Felly, rydych yn llygad eich lle i ddweud bod mater y gadwyn gyflenwi yn gwbl hanfodol.
- 14:24 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, connectivity between our communities must be a priority for investment. Can you tell us about any progress made in securing funding for the Valleys metro?
- Weinidog, rhaid i gysylltedd rhwng ein cymunedau fod yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. A allwch ddweud wrthym am unrhyw gynnydd a wnaed o ran sicrhau cyllid ar gyfer metro'r Cymoedd?
- 14:24 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. We will be working very hard through the summer on the proposals for the Valleys metro. I anticipate having a report in September. I will then be initiating the type of discussions that we need to put flesh on the bones in terms of the amount of cash that will be required. I have spoken to the city region group and to local authority leaders about the importance of developing a coherent plan, and I hope that I will have something to share with Members in the autumn.
- Gallaf. Byddwn yn gweithio'n galed iawn yn ystod yr haf ar y cynigion ar gyfer metro'r Cymoedd. Rhagwelaaf y caf adroddiad ym mis Medi. Yna, byddaf yn cychwyn y math o drafodaethau sydd eu hangen arnom i roi cnawd ar yr esgyrn o ran y swm o arian y bydd ei angen. Rwyf wedi siarad â'r grŵp dinas-ranbarth a chydag arweinwyr awdurdodau lleol am bwysigrwydd datblygu cynllun cydlynol, a gobeithiaf y bydd gennyf rywbeth i'w rannu â'r Aelodau yn yr hydref.
- 14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

- 14:24 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch, Lywydd. What is the Minister doing to attract investment in the Central Cardiff enterprise zone?
 Diolch, Lywydd. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i ddenu buddsoddiad yn ardal fenter Canol Caerdydd?
- 14:25 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The Central Cardiff enterprise zone has its website and its own proposals for attracting investment, as well as what we help to do, centrally, in Government.
 Mae gan ardal fenter Canol Caerdydd ei gwefan a'i chynigion ei hun ar gyfer denu buddsoddiad, yn ogystal â'r hyn yr ydym yn helpu i'w wneud, yn ganolog, yn y Llywodraeth.
- 14:25 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you. Land is important to the investment, and, as you are aware, Councillor Russell Goodway has said that Cardiff Council agreed to purchase a parcel of land in Callaghan Square, following a letter from the Welsh Government advising him that a third party wanted to purchase the site and land blanket, and that it would be sterilised for a number of years. Councillor Goodway claims that he shredded the letter and has failed to provide any evidence of its existence. So, I have made a freedom of information request to your department, as you know, Minister, and, two months later, I still have not had a response. Does this letter exist, or is it a figment of Councillor Goodway's imagination?
 Diolch. Mae tir yn bwysig i'r buddsoddiad, ac, fel y gwyddoch, mae'r Cynghorydd Russell Goodway wedi dweud bod Cyngor Caerdydd wedi cytuno i brynu parcel o dir yn Sgwâr Callaghan, yn dilyn llythyr gan Lywodraeth Cymru yn ei hysbysu bod trydydd parti am brynu'r safle ar flanced o dir, ac y byddai'n cael ei ddiffrwytho am nifer o flynyddoedd. Honna'r Cynghorydd Goodway iddo rwygo'r llythyr ac mae wedi methu â rhoi unrhyw dystiolaeth o'i fodolaeth. Felly, rwyf wedi gwneud cais rhyddid gwybodaeth i'ch adran, fel y gwyddoch, Weinidog a, dau fis yn ddiweddarach, rwy'n dal i aros am ateb. A yw'r llythyr hwn yn bodoli, neu ai ffrwyth dychymyg y Cynghorydd Goodway ydyw?
- 14:25 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 There is a correspondence that has occurred between us, on numerous occasions, and the City and County of Swansea—Cardiff Council, I mean. That was a Freudian slip, Presiding Officer. [Laughter.]
 Mae gohebiaeth wedi bod, sawl gwaith, rhyngom ni a Dinas a Sir Abertawe – Cyngor Caerdydd roeddwn yn ei olygu. Llithriad Freudaidd oedd hynny, Lywydd [Chwerthin.]

Busnesau Bach

Small Businesses

- 14:25 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach yn Aberconwy? OAQ(4)0295(EST)
3. Will the Minister make a statement on the support available for small businesses in Aberconwy? OAQ(4)0295(EST)
- 14:26 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Yes. Through the Business Wales service, we provide a wide range of information, guidance and advice to support SMEs across Wales.
 Gwnaf. Drwy wasanaeth Busnes Cymru, rydym yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth, canllawiau a chyngor i gefnogi busnesau bach a chanolog ledled Cymru.
- 14:26 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, Minister. As you have rightly pointed out, the importance of small businesses cannot be overstated, with 10% of all Welsh businesses being retail, and 131,000 people working in this industry. Next week, I will sponsor the reception launch of a cross-party group on small shops to facilitate a forum where Assembly Members can engage with this sector. Minister, will you acknowledge the importance of this backbone of our Welsh economy? Also, will you, hopefully, attend the meeting and continue your support in this regard?
 Diolch, Weinidog. Fel y dywedasoch yn gwbl gywir, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd busnesau bach, ac mae 10% o'r holl fusnesau yng Nghymru yn ymwneud â manwerthu, a 131,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiant hwn. Yr wythnos nesaf, byddaf yn noddi derbynriad lansio grŵp trawsbleidiol ar siopau bach i hwyluso fforwm lle y gall Aelodau'r Cynulliad ymgysylltu â'r sector hwn. Weinidog, a wnewch chi gydnabod pa mor bwysig yw'r gefnogaeth hon i economi Cymru? Hefyd, a wnewch chi, gobeithio, ddod i'r cyfarfod a pharhau i roi eich cefnogaeth yn hyn o beth?

14:26	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I concur with you: the retail sector is important to the Welsh economy and the high street. It is very important, I think, to support small businesses, particularly, in that sector, which are the lifeblood of the economy in certain areas. As to attending, I am not certain of my diary commitments at this stage.</p>	<p>Cytunaf â chi: mae'r sector manwerthu yn bwysig i economi Cymru a'r stryd fawr. Mae'n bwysig iawn, fe gredaf, i gefnogi busnesau bach, yn enwedig, yn y sector hwnnw, sef enaid yr economi mewn rhai meysydd. O ran bod yn bresennol, nid wyf yn siŵr am yr ymrwymadau yn fy nyddiadur ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Arwyddion Twristiaeth Brown		Tourism Brown Signs Policy	
14:27	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi arwyddion twristiaeth brown Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0293(EST)</p>	<p>4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's tourism brown signs policy? OAQ(4)0293(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:27	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I am currently considering the revised guidelines that have been prepared by my officials.</p>	<p>Rwy'n ystyried y canllawiau diwygiedig sydd wedi eu paratoi gan fy swyddogion ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:27	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister, for your answer. Many businesses in my constituency are eagerly awaiting the finalised Welsh Government policy on tourism signs. They desperately want to improve the signage to attract new business, particularly those just off the main trunk road. With that in mind, can you provide any further details about when the new policy is likely to come forward?</p>	<p>Diolch ichi, Weinidog, am eich ateb. Mae llawer o fusnesau yn fy etholaeth yn disgwyl yn eiddgar am bolisi terfynol Llywodraeth Cymru ar arwyddion twristiaeth. Maent yn awyddus iawn i wella'r arwyddion er mwyn denu busnes newydd, yn enwedig y rhai ger y brif gefnffordd. Gyda hynny mewn golwg, a allwch ddarparu unrhyw fanylion ynglŷn â phryd y mae'r polisi newydd yn debygol o gael ei gyflwyno?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:27	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that. Your constituents—like myself—are eager to see progress on the matter of brown signs. I was not satisfied with the first advice that I had in terms of how we should deal with brown signs; I felt that it was too rigid a policy and we had to reflect, in terms of signage, what the requirements are of Wales as a nation, and not look necessarily at models across our border, where some of the tourist attractions are much larger. That is why there has been a delay. I am currently asking a member of my tourism sector panel for their views on the proposals in front of me, and I do not anticipate a further delay. I should be able to advise Members before we go into recess.</p>	<p>Diolch ichi am hynny. Mae eich etholwyr—fel finnau—yn awyddus i weld cynnydd ar fater arwyddion brown. Nid oeddwn yn fodlon ar y cyngor cyntaf a gefais o ran sut y dylem ddelio ag arwyddion brown; teimlais ei bod yn bolisi rhy anhyblyg ac roedd yn rhaid inni adlewyrchu, o ran arwyddion, ofynion Cymru fel cenedl, ac nid o reidrwydd edrych ar fodelau ar draws ein ffin, lle mae rhai o'r atyniadau i dwristiaid yn llawer mwy. Dyna pam y bu oedi. Ar hyn o bryd rwy'n gofyn i aelod o'm panel sector twristiaeth am ei farn ar y cynigion ger fy mron, ac nid wyf yn rhagweld oedi pellach. Dylwn fod yn gallu rhoi cyngor i Aelodau cyn y toriad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:28	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I very much welcome the approach that you are taking in recognising that the policy in the past has been too rigid and has prevented people obtaining brown signs that would have been beneficial to themselves as businesses and to the public seeking out businesses, especially in rural areas. Sometimes, rural tourism facilities are only open for part of the year, during the high season, and that has been a reason sometimes that has stopped a brown sign from being acceptable. Will you look at the issue that, in some cases, tourism businesses can only operate during the high season and that should not be an excuse to deny them a brown sign?</p>	<p>Weinidog, croesawaf yn fawr y ffordd yr ydych yn gweithredu o ran cydnabod bod y polisi yn y gorffennol wedi bod yn rhy gaeth ac wedi atal pobl rhag cael arwyddion brown a fyddai wedi bod yn fuddiol iddynt hwy eu hunain fel busnesau ac i'r cyhoedd a oedd yn chwilio am fusnesau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Weithiau, dim ond am ran o'r flwyddyn y mae cyfleusterau twristiaeth gwledig ar agor, yn ystod y tymor prysur, ac mae hynny wedi bod yn rheswm weithiau sydd wedi golygu nad yw arwydd brown yn dderbyniol. A wnewch chi ystyried na all busnesau twristiaeth, mewn rhai achosion, ond gweithredu yn ystod y tymor prysur ac na ddylai hynny fod yn esgus i wrthod rhoi arwydd brown iddynt?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:28	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Yes. I must say, why you cannot just put 'Open April to October' on something, I do not understand. So, you can be assured of that.	Gwnaf. Rhaid imi ddweud, ni allaf ddeall pam na allwch roi 'Ar Agor rhwng mis Ebrill a mis Hydref' neu rywbeth tebyg. Felly, gallwch fod yn sicr o hynny.	Senedd.tv Fideo Video
Cyfleoedd Twristiaeth Ffydd		Faith Tourism Opportunities	
14:29	Darren Millar Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleoedd twristiaeth ffydd yng Nghymru? OAQ(4)0283(EST)</i>	<i>5. Will the Minister make a statement on faith tourism opportunities in Wales? OAQ(4)0283(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Yes. I have recently approved the Welsh Government's faith tourism action plan, which aims to unlock the economic potential of places of worship and other sacred sites.	Gwnaf. Yn ddiweddar, rwyf wedi cymeradwyo cynllun gweithredu twristiaeth ffydd Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o ddatgloi potensial economaidd addoldai a safleoedd sanctaidd eraill.	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Darren Millar Bywgraffiad Biography Thank you, Minister. I congratulate the Welsh Government on an excellent faith tourism action plan. I look forward to you visiting north Wales for an official launch of the plan in the near future. One of the issues identified in the plan is that some financial resource will need to be put alongside it for it to be implemented fully. What consideration have you given to the financial resources? Perhaps you can tell us what investment you expect to make over the coming few years.	Diolch, Weinidog. Hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru ar gynllun gweithredu twristiaeth ffydd rhagorol. Edrychaf ymlaen at eich ymweliad â gogledd Cymru ar gyfer lansiad swyddogol y cynllun yn y dyfodol agos. Un o'r materion a nodwyd yn y cynllun yw y bydd angen dyrannu rhywfaint o adnoddau ariannol ochr yn ochr â hyn er mwyn iddo gael ei weithredu'n llawn. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i'r adnoddau ariannol? Efallai y gallwch ddweud wrthym pa fuddsoddiad yr ydych yn disgwyl ei wneud dros y blynyddoedd i ddod.	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Yes. I am looking at the financial resources issue in the context of my budget, but I am very keen on this faith tourism action plan and its delivery, and I am delighted that I will potentially be doing the launch of that plan in north Wales.	Gallaf. Rwy'n ystyried adnoddau ariannol yng nghydestun fy nghyllideb, ond rwy'n frwdfrydig iawn ynglŷn â'r cynllun gweithredu twristiaeth ffydd hwn a'r ffordd y caiff ei ddarparu, ar rwy'n falch y byddaf o bosibl yn lansio'r cynllun hwnnw yn y gogledd.	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography One of the most important places for faith tourism in Wales is in my constituency. St Winefride's well in Holywell has attracted pilgrims and visitors for centuries to worship at the shrine. Indeed, it is known as the Lourdes of Wales. There are many other tourist attractions around Holywell. Therefore, Minister, can your officials look at these attractions in the round, and see to them becoming part of a wider tourist attraction, to attract many more visitors, which will benefit the town, and the rural economy?	Mae un o'r manau mwyaf pwysig ar gyfer twristiaeth ffydd yng Nghymru yn fy etholaeth i. Mae ffynnon Santes Gwenffrewi yn Nhreffynnon wedi denu pererinion ac ymwelwyr ers canrifoedd i addoli wrth yr allor. Yn wir, caiff ei hadnabod fel Lourdes Cymru. Mae llawer o atyniadau twristiaeth eraill o gwmpas Treffynnon. Felly, Weinidog, a all eich swyddogion edrych ar yr atyniadau hyn i gyd, a sicrhau eu bod yn dod yn rhan o atyniad twristiaeth ehangach, i ddenu llawer mwy o ymwelwyr, a fydd yn fuddiol i'r dref ac i'r economi wledig?	Senedd.tv Fideo Video

14:30	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes. In developing our tourism destination plan, Flintshire County Council has identified several key attractions, as you have illustrated, which we can bring together. That will be vital to the visitor economy in that area. We are looking at the issues around access to facilities. Furthermore, my department is working closely with Cadw to deliver its £19 million heritage tourism convergence project and pan-Wales heritage interpretation plan, which will help in terms of delivering information on key heritage sites.</p>	<p>Gallant. Wrth ddatblygu ein cynllun cyrchfannau twristiaid, mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi nifer o atyniadau allweddol, fel yr ydych wedi dangos, y gallwn eu dwyn ynghyd. Bydd hynny'n hanfodol i economi ymwelwyr yn yr ardal honno. Rydym yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â mynediad i gyfleusterau. Ar ben hynny, mae fy adran yn gweithio'n agos gyda Cadw i gyflawni ei phrosiect cygyfeirio twristiaeth treftadaeth gwerth £19 miliwn a'r cynllun dehongli treftadaeth Cymru gyfan, a fydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth am safleoedd treftadaeth allweddol.</p>
14:31	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Roedd ffordd y pererinion i Ynys Enlli yn llwybr poblogaidd yn y Canol Oesoedd. Ar y ffordd, roedd Eglwys Gadeiriol Bangor yn fangre bwysig. Mae'r enw 'Bangor' yn golygu tir o gwmpas eglwys. Felly, Weinidog, pan fydd canolfan Pontio yn agor ei drysau yn y ddinas, a gaf i eich gwahodd i ymweld â'r eglwys, ac â nodweddion treftadaeth eraill yn ninas hynafol a hardd Bangor?</p>	<p>The pilgrim's way to Bardsey island was a very popular route in the Middle Ages. On the way, you had Bangor Cathedral, which was a very important destination. The name 'Bangor' means the land around a church. So, when the Pontio centre opens its doors in the city, may I invite you to visit the church, and the other historical features in the ancient and beautiful city of Bangor?</p>
14:31	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I would be delighted to accept that invitation. Bardsey, which is the island of 20,000 saints, was of great interest when I visited Japan on the trade delegation, and spoke to them about the project at Hitachi. They asked about Wales, and about where they were going, and I explained about Ynys Môn and Bardsey, and there was enormous interest in the fact that that was the home of 20,000 saints. It is interesting how culture, and such issues, can consolidate business relationships, as well as an understanding of the nation with which the relationship is going to take place.</p>	<p>Byddwn wrth fy modd i dderbyn y gwahoddiad hwnnw. Roedd Enlli, sef yr ynys o 20,000 o saint, o ddidordeb mawr pan ymwelais â Japan gyda'r ddirprwyaeth fasnach, a siarad â hwy am y prosiect yn Hitachi. Gwnaethant fy holi am Gymru, ac am y lleoedd roeddent yn mynd iddynt, ac esboniais am Ynys Môn ac Ynys Enlli, ac roedd diddordeb mawr ganddynt wybod bod y lle hwnnw wedi bod yn gartref i 20,000 o saint. Mae'n ddiddorol sut y gall diwylliant, a materion o'r fath, atgyfnerthu cysylltiadau busnes, yn ogystal â gwella dealltwriaeth o'r wlad y bwriedir datblygu cydberthynas â hi.</p>
14:32	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Question 6, OAQ(4)0286(EST), has been transferred for written answer, and question 7, OAQ(4)0287(EST), has been withdrawn.</p>	<p>Cwestiwn 6, OAQ (4) 0286 (EST), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig, a chwestiwn 7, OAQ (4) 0287 (EST), yn ôl.</p>
	Cysylltiadau rhwng yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd	Links Between The Welsh Language and Economic Development
14:32	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd? OAQ(4)0296(EST)</i></p>	<p><i>8. What steps is the Welsh Government taking to strengthen links between the Welsh language and economic development? OAQ(4)0296(EST)</i></p>
14:32	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am very pleased to say that I have set up a task force to recommend ways in which the Welsh Government, and others, can develop and deliver a strategy for jointly promoting the Welsh language and economic development. I attach great importance to this, and I very much look forward to its findings. I wish to put on record my thanks to the previous Minister for Education and Skills, for all the help and assistance that he gave in helping to deliver this policy.</p>	<p>Rwy'n falch iawn o ddweud fy mod wedi sefydlu tasglu i argymhell ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru, ac eraill, ddatblygu a chyflwyno strategaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygu economaidd ar y cyd. Rhoddaf bwys mawr ar hyn, ac edrychaf ymlaen yn fawr at ei ganfyddiadau. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol, am yr holl help a'r cymorth a roddodd er mwyn helpu i gyflawni'r polisi hwn.</p>

- 14:32 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I thank the Minister for that encouraging response. What can the Government do to encourage small businesses to recognise the Welsh language as an asset to their companies and to local communities? Furthermore, could the Minister consider any incentive for small and medium-sized enterprises that strive to support the Welsh language?
- 14:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The task and finish group on the Welsh language and economic development is looking at how we might identify ways of fostering a positive relationship between the Welsh language and economic development, particularly with small businesses. I very much hope that the work that I am doing with the Teifi valley local growth zone, which is looking at developments in that area, and is looking, in particular, at some of the linguistic issues, will also help to assist the development of this policy. I would welcome and encourage any initiatives that help to support small, independent businesses, and recognise the contribution that they make to local economies, whether that is through the medium of Welsh or English.
- 14:33 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, on 6 February, I asked whether your task and finish group was considering the role of the Welsh language as a marketing tool to attract tourists. You said that you would be more than happy to make a statement on that group's role before the summer. Minister, can you give us an idea of when you might be making that statement, and whether you will deal with that particular issue?
- 14:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The group is making good progress, but perhaps not necessarily the progress that it would want. It had its last meeting on 27 June 2013. I am currently reviewing the minutes of that meeting, to see what progress was made in certain areas. Your point has been taken into account, but, if it would be helpful—and if it would not overburden the system, Presiding Officer—I am more than happy to put a little written statement out in terms of updating.
- 14:34 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Weinidog, croesawaf eich datganiad ddoe ynglŷn â'r grŵp ardal twf lleol yn nyffryn Teifi. Gobeithiaf yn fawr y bydd hwnnw'n batrwm y gallwn efallai ei weld yn cael ei adlewyrchu ar draws Cymru, os yw'n llwyddiant yno. Edrychaf ymlaen at 'Y Gynhadledd Fawr', sy'n digwydd yfory yn Aberystwyth, lle mae'r Llywodraeth yn cynnal trafodaeth ynglŷn â chefnogi'r iaith Gymraeg. Pa gyfraniad sydd gan eich adran chi i'w wneud i'r sgwrs fawr hon, a sut allwch chi annog ac ennyn mwy o fentergarwch gan siaradwyr Cymraeg?
- Diolchaf i'r Gweinidog am yr ateb calonogol hwnnw. Beth y gall y Llywodraeth ei wneud i annog busnesau bach i gydnabod yr iaith Gymraeg fel ased i'w cwmnïau ac i gymunedau lleol? Ar ben hynny, a allai'r Gweinidog ystyried unrhyw gymhellant ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint sy'n ymdrechu i gefnogi'r iaith Gymraeg?
- Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd yn edrych ar sut y gallem nodi ffyrdd o feithrin cydberthynas gadarnhaol rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd, yn enwedig gyda busnesau bach. Gobeithiaf yn fawr y bydd y gwaith a wnaef gydag ardal twf lleol Dyffryn Teifi, sydd yn edrych ar ddatblygiadau yn y maes hwnnw, ac sy'n edrych, yn arbennig, ar rai o'r materion ieithyddol, hefyd yn helpu i ddatblygu'r polisi hwn. Byddwn yn croesawu ac yn annog unrhyw fentrau sy'n helpu i gefnogi busnesau bach, annibynnol, ac sy'n cydnabod y cyfraniad y maent yn ei wneud i economïau lleol, boed hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Weinidog, ar 6 Chwefror, gofynnais a oedd eich grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried rôl yr iaith Gymraeg fel dull marchnata i ddenu twristiaid. Dywedasoch y byddech yn fwy na hapus i wneud datganiad ar rôl y grŵp hwnnw cyn yr haf. Weinidog, a allwch roi syniad inni pryd y byddech yn gwneud y datganiad hwnnw, ac a fyddwch yn delio â'r mater penodol hwnnw?
- Mae'r grŵp yn gwneud cynnydd da, ond efallai nid o reidrwydd y cynnydd y byddai'n dymuno ei wneud. Roedd ei gyfarfod diwethaf ar 27 Mehefin 2013. Rwy'n adolygu cofnodion y cyfarfod hwnnw ar hyn o bryd, i weld pa gynnydd a wnaed mewn rhai meysydd. Mae eich pwynt wedi cael ei ei ystyried, ond, os byddai o gymorth—ac os na fyddai'n gorlwytho'r system, Lywydd—rwy'n fwy na pharod i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig byr am y newyddion diweddaraf.
- Minister, may I welcome the statement that you made yesterday on the Teifi valley local growth zone. I very much hope that that is a pattern that we could see reflected the length and breadth of Wales, if it is a success there. I look forward to 'Y Gynhadledd Fawr'—the 'big conference'—that is happening in Aberystwyth tomorrow, where the Government is holding a debate on supporting the Welsh language. What contribution can your department make to that big conversation, and how will you be able to encourage more innovation by Welsh speakers?

- 14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The First Minister is leading the discussion on behalf of the Government tomorrow in Aberystwyth. When my group reports to me, I might want to have to start a conversation within Wales about how we deal with some of the issues around the economy and the language.
- Mae Prif Weinidog Cymru yn arwain y drafodaeth ar ran y Llywodraeth yfory yn Aberystwyth. Pan fydd fy ngrŵp yn adrodd imi, efallai y byddwn am ddechrau sgwrs yng Nghymru ynghylch sut yr ydym yn delio â rhai o'r materion sy'n ymwneud â'r economi a'r iaith.
- 14:35 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 9. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu cwmnïau adeiladu bach a chanolig eu maint yn Nelyn i gael gafael ar gyllid i greu a diogelu swyddi? OAQ(4)0291(EST)*
- 9. How is the Welsh Government helping small and medium sized construction companies in Delyn access finance to create and safeguard jobs? OAQ(4)0291(EST)*
- 14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Through Business Wales, we provide a wide range of financial advice and initiatives to support small and medium-sized businesses across Wales.
- Drwy Busnes Cymru, rydym yn darparu ystod eang o gyngor a mentrau ariannol i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint ledled Cymru.
- 14:35 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- With so many construction companies in Wales being of the small and medium-sized variety, we have to provide support where we can for them to compete. I know that the Wales property development fund is a welcome innovation for construction companies. However, how are we going to ensure that this fund is widely promoted so that all companies that wish to access finance are able to benefit from it?
- Gyda chymaint o gwmnïau adeiladu yng Nghymru sy'n rhai bach a chanolig eu maint, rhaid inni roi cymorth lle y gallwn fel y gallant gystadlu. Gwn fod cronfa datblygu eiddo Cymru yn gam arloesol a groesewir gan gwmnïau adeiladu. Fodd bynnag, sut yr ydym yn mynd i sicrhau y caiff y gronfa hon ei hyrwyddo'n eang fel bod yr holl gwmnïau sy'n dymuno cael gafael ar gyllid yn gallu elwa arni?
- 14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Finance Wales, which administers the fund on my behalf, will be promoting and publicising it in the sector. If Members feel that it is not adequately advertised in the sector, I would be grateful if they could advise me, because it is very important that it is aware of what is going on. Also, we continue to do a lot of work with tier 1 and tier 2 contractors to ensure that, as sub-contractors, they can meet the standards to be expected, and that work has to continue.
- Bydd Cyllid Cymru, sy'n gweinyddu'r gronfa ar fy rhan, yn ei hyrwyddo ac rhoi cyhoedduswydd iddi yn y sector. Os bydd Aelodau'n teimlo nad yw'n cael ei hysbysebu'n ddigonol yn y sector, byddwn yn ddiolchgar pe gallent fy hysbysu am hynny, oherwydd mae'n bwysig iawn ei bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Hefyd, rydym yn parhau i wneud llawer o waith gyda chontractwyr haen 1 a haen 2 er mwyn sicrhau, fel fel is-contractwyr, y gallant gyrraedd y safonau a ddisgwyllir, a rhaid i'r gwaith hwnnw barhau.
- 14:36 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A family construction company in Delyn has previously raised concerns with me about the barriers that they have encountered with the local planning authority when seeking to deliver shared equity affordable housing. When considering whether to support, and how to support, a small construction company that is encountering such problems in a place such as Delyn, what support can your department give to help such companies overcome the wider barriers that they might be facing?
- Mae cwmni adeiladu teuluol yn Nelyn wedi codi pryderon gyda mi o'r blaen am y rhwystrau y maent wedi dod ar eu traws gyda'r awdurdod cynllunio lleol wrth geisio darparu tai fforddiadwy ecwiti a rennir. Wrth ystyried pa un a ddylid cefnogi cwmni adeiladu bach sy'n wynebu problemau o'r fath mewn lle fel Delyn, a sut y dylid gwneud hynny, pa gymorth y gall eich adran ei roi i helpu cwmnïau o'r fath i oresgyn y rhwystrau ehangach y gallent fod yn eu hwynebu?
- 14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As you alluded to planning, I will pass on your comments to the Minister for planning, as it directly relates to concerns over planning.
- Gan eich bod wedi cyfeirio at gynllunio, trosglwyddaf eich sylwadau i'r Gweinidog dros gynllunio, gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â phryderon ynghylch cynllunio.

Cymorth i Fusnesau

Support for Businesses

14:36	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda banciau ynglyn â chymorth i fusnesau? OAQ(4)0288(EST)</i></p>	<p><i>10. What discussions has the Minister had with banks regarding support for businesses? OAQ(4)0288(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:36	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I have discussed with the banks the importance of ensuring that Welsh businesses—SMEs and microbusinesses in particular—are able to access the finance that they need to grow and thrive. As a result of Professor Dylan Jones-Evans's report, I am upping the ante in terms of discussions with them.</p>	<p>Rwyf wedi trafod gyda'r banciau bwysigrwydd sicrhau bod busnesau Cymraeg—busnesau bach a chanolig a microfusnesau yn arbennig—yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu a ffynnu. O ganlyniad i adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans, rwy'n sicrhau bod cynnydd yn y trafodaethau a geir â hwy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:37	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>I am sure that you are aware, Minister, of the mis-selling of interest rates swap agreements to SMEs by some banks. Some businesses in my constituency have been devastated by these products. Incredibly, this type of loan containing a swap is not regulated by the Financial Conduct Authority. Since these loans are crippling some businesses in Wales, will you make representations to the UK Treasury and the UK Secretary of State for Business, Innovation and Skills, to require the FCA to investigate these loans and ensure a fair redress to those businesses affected?</p>	<p>Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, Weinidog, am yr achosion o gam-werthu cytundebau cyfnewid cyfraddau llog i fusnesau bach a chanolig gan rai banciau. Mae rhai busnesau yn fy etholaeth wedi cael eu dinistrio gan y cynhyrchion hyn. Yn anhygoel, nid yw'r math hwn o fenthyciad sy'n cynnwys cyfnewid yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gan fod y benthyciadau hyn yn parhysu rhai busnesau yng Nghymru, a wneuch chi sylwadau i Drysorlys y DU ac i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ymchwilio i'r benthyciadau hyn a sicrhau iawndal teg i'r busnesau hynny yr effeithiwyd arnynt?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:37	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>There has been a substantial increase in complaints about this—anecdotally with Members as well, I am sure—with regard to the issues surrounding this. I will be more than happy to raise this; I was due to meet Vince Cable tomorrow, but, unfortunately, he has had to reschedule a meeting, but I will certainly put in on my next agenda with him. I am aware that the complaints are across the UK and we need to have these matters resolved.</p>	<p>Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am hyn—yn anecdotaidd gyda'r Aelodau hefyd, rwy'n siŵr—o ran y materion sy'n gysylltiedig â hyn. Byddaf yn fwy na pharod i godi'r mater hwn; roeddwn wedi trefnu i gwrdd â Vince Cable yfory, ond, yn anffodus, mae wedi gorfod aildefnu cyfarfod, ond byddaf yn sicr yn ei gynnwys ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf ag ef. Gwn fod cwynion yn dod o bob rhan o'r DU ac mae angen inni ddatrys y materion hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:38	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, last week, I believe you said that, as a Government, you need to do a little more with banks in order to get the position streamlined together. In light of these comments, can you give us an indication today what your intentions are with regard to streamlining the position?</p>	<p>Weinidog, yr wythnos diwethaf, credaf ichi ddweud, fel Llywodraeth, fod angen ichi wneud ychydig yn fwy gyda banciau er mwyn symleiddio'r sefyllfa. Yn wyneb y sylwadau hyn, a allwch roi syniad inni heddiw o'ch bwriadau o ran symleiddio'r sefyllfa?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:38	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I am about to start a series of dialogues with the banks. I have written to them on the basis of Professor Dylan Jones-Evans's report. I have done that on a local level and I will now write to them at a national level. I have had the opportunity of meeting the banks nationally at quite a high level before, and it is my intention to hold these meetings during the late summer/early autumn. I will certainly report back to Members on that, because I think the point is well made.</p>	<p>Rwyf ar fin dechrau cyfres o drafodaethau gyda'r banciau. Rwyf wedi ysgrifennu atynt ar sail adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans. Rwyf wedi gwneud hynny ar lefel leol a byddaf yn awr yn ysgrifennu atynt ar lefel genedlaethol. Rwyf wedi cael cyfle i gyfarfod â'r banciau yn genedlaethol ar lefel eithaf uchel o'r blaen, a'm bwriad yw cynnal y cyfarfodydd hyn ar ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref. Byddaf yn sicr yn adrodd yn ôl i'r Aelodau ar hynny, gan fy mod yn meddwl bod y pwynt wedi'i wneud yn dda.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:38	William Powell Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>My recent casework also indicates, as you rightly say, that there is considerable concern in the small and medium-sized business community regarding the availability of finance. In the context of the points that you have again emphasised today, will you give consideration to calling a round-table meeting with the directors of the relevant banks in Wales to take forward this agenda with some relevant stakeholders and businesspeople?</p>	<p>Mae fy ngwaith achos yn ddiweddar hefyd yn dangos, fel y dywedwch yn gywir, fod cryn bryder ymhlith busnesau bach a chanolig ynglŷn ag argaeledd cyllid. Yng nghydestun y pwyntiau a bwysleisiwyd gennych eto heddiw, a wnewch chi ystyried galw cyfarfod o amgylch y bwrdd gyda chyfarwyddwyr y banciau perthnasol yng Nghymru i ddatblygu'r agenda hon gyda rhai rhanddeiliaid a phobl fusnes berthnasol?</p>
14:39	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It would be very nice if I could actually do the round-table meeting, because the trouble is that some of these decisions are taken outside of Wales. This is one of the key concerns, which is a concern that you have raised with me before, namely where decisions are made with banks. I am certainly having discussions with them; whether it will turn out to be a round-table meeting, I am not sure at this stage, so I will keep Members updated when I report back on the work of Professor Dylan Jones-Evans.</p>	<p>Byddai'n braf iawn pe gallwn alw cyfarfod o amgylch y bwrdd mewn gwirionedd, oherwydd y drafferth yw bod rhai o'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud y tu allan i Gymru. Mae hwn yn un o'r pryderon allweddol, sef pryder yr ydych wedi'i godi gyda mi o'r blaen, sef lle y gwneir penderfyniadau gyda banciau. Yn sicr, rwyf yn cael trafodaethau â hwy; p'un a fydd hynny'n arwain at gyfarfod o amgylch y bwrdd, nid wyf yn siŵr ar hyn o bryd, felly byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau wrth adrodd yn ôl ar waith yr Athro Dylan Jones-Evans.</p>
	<h3>Hyrwyddo Cymru i Deithwyr Awyr</h3>	<h3>Promote Wales to Air Travellers</h3>
14:39	Julie James Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>11. A wnaiff y Gweinidog wneud datganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo Cymru i deithwyr awyr, gan gynnwys twristiaid a theithwyr busnes? OAQ(4)0292(EST)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to promote Wales to air travellers, including both tourist and business travellers? OAQ(4)0292(EST)</i></p>
14:39	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The programme for government sets out our proposals to promote Wales in the UK and worldwide.</p>	<p>Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein cynigion i hyrwyddo Cymru yn y DU a ledled y byd.</p>
14:39	Julie James Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We all know about the great improvements at Cardiff Airport that have been made recently. As you know next year will hold a major celebration of the centenary of Dylan Thomas's birth. I know that Dylan Thomas is featured in some of the improvements at Cardiff Airport already. Swansea is pulling out all the stops to ensure that we have a celebration worthy of Dylan from the Do Not Go Gentle festival, to Karl Jenkins's premiere of 'Llareggub', and to the new monthly local produce market in Dylan's birthplace in Uplands. As Dylan is such an internationally recognisable figure and such a big draw for tourists and businesses alike, will the Minister consider specifically promoting the centenary celebrations at the Wales international airport?</p>	<p>Gŵyr pob un ohonom am y gwelliannau mawr a wnaed yn ddiweddar ym Maes Awyr Caerdydd. Fel y gwyddoch, bydd achlysur mawr y flwyddyn nesaf i ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas. Gwn fod Dylan Thomas eisoes yn cael ei gynnwys yn rhai o'r dathliadau ym Maes Awyr Caerdydd. Mae Abertawe yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y cawn ddathliad teilwng o Dylan o'r ŵyl Do Not Go Gentle, i premiere Karl Jenkins o 'Llareggub', a'r farchnad cynnyrch lleol fisol newydd ym man geni Dylan yn Uplands. Gan fod Dylan yn ffigwr mor adnabyddus yn rhyngwladol ac yn atyniad mor fawr i dwristiaid a busnesau fel ei gilydd, a wnaiff y Gweinidog ystyried hyrwyddo dathliadau canmlwyddiant yn benodol ym maes awyr rhyngwladol Cymru?</p>
14:40	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Obviously, the airport is not managed by the Government; it will be a matter for the airport board. However, I will certainly draw this to its attention. It has already done quite a lot on Dylan Thomas with poetry and artwork in the corridor and so on. However, the point with the airport and the board is that there is an understanding that, when we have major events in Wales, they should publicise them proactively in the airport.</p>	<p>Yn amlwg, ni chaiff y maes awyr ei reoli gan y Llywodraeth; mater i fwrdd y maes awyr ydyw. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn dwyn hyn i'w sylw. Mae eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith ar Dylan Thomas gyda barddoniaeth a gwaith celf yn y coridor ac yn y blaen. Fodd bynnag, y pwynt gyda'r maes awyr a'r bwrdd yw bod pobl yn deall, pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru, y dylent roi cyhoeddusrwydd iddynt mewn modd rhagweithiol yn y maes awyr.</p>

My director has regular meetings with Visit Britain, as does the chair of the tourism advisory panel, who represents us on the Visit Britain group.

Mae fy nghyfarwyddwr yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Visit Britain, ac felly hefyd gadeirydd y panel cynghori ar dwristiaeth, sy'n ein cynrychioli ar grŵp Visit Britain.

Blaenoriaethau ar gyfer Hybu Gwyddoniaeth

Priorities for Promoting Science

14:41 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer hybu gwyddoniaeth? OAQ(4)0297(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

12. Will the Minister make a statement on her priorities for promoting science? OAQ(4)0297(EST)

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The 'Science for Wales—Delivery Plan' and the 'Delivering Science for Wales 2012-13' annual report have both been published and contain key actions, timings, targets and updates on progress.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae 'Cynllun Cyflenwi - Gwyddoniaeth i Gymru' ac adroddiad blynyddol 'Cyflawni Gwyddoniaeth i Gymru 2012-13' ill dau wedi cael eu cyhoeddi ac maent yn cynnwys camau gweithredu allweddol, amseriadau, targedau a diweddariadau ar gynydd.

14:41 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her reply. I particularly welcome the Government's Sêr Cymru programme and linking science development with the importance of higher education and universities. Although it may be between two portfolios, I would like to know what discussions she is having within Government regarding how we ensure that science developed in our universities stays in Wales and has the support from her department to produce spin-off companies and to develop in that way.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Croesawaf yn arbennig raglen Sêr Cymru y Llywodraeth a chysylltu datblygiad gwyddoniaeth â phwysigrwydd addysg uwch a phrifysgolion. Er ei fod efallai rhwng dau bortffolio, hoffwn wybod pa drafodaethau y mae'n eu cael o fewn y Llywodraeth o ran sut rydym yn sicrhau bod gwyddoniaeth a ddatblygir yn ein prifysgolion yn aros yng Nghymru ac yn cael y gefnogaeth gan ei hadran i gynhyrchu cwmnïau deilliedig a datblygu yn y ffordd honno.

14:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of the science strategy, that is a strategy that was easily agreed with Cabinet colleagues and there has been massive co-operation across all portfolios. That is not in any small part down to the fact that John Harries, as our first adviser, has such international respect, and everybody understood what he was trying to do in terms of the economy. I had a particularly close relationship with the Minister for health on the delivery, because he has responsibilities for National Institute for Social Care and Health Research. I can assure you that a lot of good joint working is going on. We are delighted by the first appointment in Cardiff, and let us hope that we have further good news during the summer.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

O ran y strategaeth wyddoniaeth, strategaeth yw honno y cytunwyd arni yn hawdd â chyd-Weinidogion yn y Cabinet a chafwyd cydweithrediad enfawr ar draws pob portffolio. Mae hynny i raddau helaeth am fod gan John Harries, fel ein cynghorydd cyntaf, y fath barch yn rhyngwladol, ac roedd pawb yn deall yr hyn yr oedd yn ceisio ei wneud o ran yr economi. Roedd gennyf berthynas arbennig o agos gyda'r Gweinidog iechyd o ran y ddarpariaeth, oherwydd mae ganddo gyfrifoldebau o ran y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Gallaf eich sicrhau bod llawer o gydweithio da yn mynd rhagddo. Rydym wrth ein bodd gyda'r penodiad cyntaf yng Nghaerdydd, a gobeithio y cawn rhagor o newyddion da yn ystod yr haf.

14:42

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you agree that it was very sad that Dave Rees's cross-party group on science was squeezed out of the Assembly agenda last night. There was something else going on, I think, in the building. [Laughter.] Nonetheless, that group has done a lot to raise awareness of science issues in Wales. You will agree that a strong scientific community is vital to driving research and development and to supporting the Welsh economy. The recent comprehensive spending review has attempted to ring-fence capital spending on science in England. How do you intend to support and protect science budgets in Wales, given their importance, certainly in applying for future European funding? We have to prove as a nation, as you do as a Government, that science is being factored into all economic issues.

Weinidog, rwy'n siŵr y cytunwch ei bod yn drist iawn na chafodd grŵp trawsbleidiol Dave Rees ar wyddoniaeth ei drafod ar agenda'r Cynulliad neithiwr. Roedd rhywbeth arall yn digwydd yn yr adeilad, rwy'n credu. [Chwerthin.] Serch hynny, mae'r grŵp hwnnw wedi gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o faterion gwyddoniaeth yng Nghymru. Byddwch yn cytuno bod cymuned wyddonol gref yn hollbwysig i lywio ymchwil a datblygiad ac i gefnogi economi Cymru. Mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn ddiweddar wedi ceisio neilltuo gwariant cyfalaf ar wyddoniaeth yn Lloegr. Sut rydych yn bwriadu cefnogi a diogelu cyllidebau gwyddoniaeth yng Nghymru, o gofio eu pwysigrwydd, yn sicr wrth wneud cais am arian Ewropeaidd yn y dyfodol? Rhaid inni brofi fel gwlad, fel y gwnech chi fel Llywodraeth, fod gwyddoniaeth yn cael ei chynnwys ym mhob mater economaidd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is quite key. We also need to look at what the priorities of the European Union are in terms of structural funds and how that links into what we might be doing to support business and industry. That is very much at the forefront. In terms of my budget, I will have to make several difficult decisions, but I am not inclined to make difficult decisions regarding the science budget. On the other hand, you might want to address other matters to the Minister for Finance.

Mae hynny'n eithaf allweddol. Mae angen inni hefyd edrych ar beth yw blaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd o ran cronfeydd strwythurol a sut mae hynny'n cysylltu â'r hyn y gallem fod yn ei wneud i gefnogi busnesau a diwydiant. Mae hynny'n sicr ar frig yr agenda. O ran fy nghyllideb, bydd yn rhaid imi wneud sawl penderfyniad anodd, ond nid wyf yn tueddu i wneud penderfyniadau anodd ynghylch y gyllideb gwyddoniaeth. Ar y llaw arall, efallai y byddwch am gyfeirio materion eraill at y Gweinidog Cyllid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Blaenoriaethau Trafnidiaeth

Transport Priorities

14:44

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer canolbarth Cymru? OAQ(4)0294(EST)

13. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's transport priorities for mid Wales? OAQ(4)0294(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My priority is to ensure that we have a transport system in mid Wales that improves economic competitiveness and provides enhanced access to jobs and services for communities across the region.

Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod gennym system drafndiaeth yng nghanolbarth Cymru sy'n gwella cystadleurwydd economaidd ac yn darparu mynediad gwell at swyddi a gwasanaethau ar gyfer cymunedau ar draws y rhanbarth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to hear that answer, Minister. I raised the issue of the hourly service with you at the beginning of May and, in your response, you raised the issue of transparency for Members to understand the current situation and what the barriers are. Having spoken to Arriva Trains Wales yesterday, I am struggling to understand what the barriers are. Are they infrastructure, finance or capacity issues? Is there a problem with the original business case? I would like to get a complete picture from the Government, from Network Rail and from Arriva Trains Wales. If you could map that out, I would be extremely grateful.

Rwy'n falch o glywed yr ateb hwnnw, Weinidog. Codais fater y gwasanaeth bob awr gyda chi ddechrau mis Mai ac, yn eich ymateb, gwnaethoch godi mater tryloywder er mwyn i Aelodau ddeall y sefyllfa bresennol a beth yw'r rhwystrau. Ar ôl siarad â Trenau Arriva Cymru ddoe, rwy'n ei chael hi'n anodd deall beth yw'r rhwystrau. A ydynt yn ymwneud â seilwaith, cyllid neu faterion capasiti? A oes problem gyda'r achos busnes gwreiddiol? Hoffwn gael darlun cyflawn gan y Llywodraeth, gan Network Rail a Trenau Arriva Cymru. Pe gallech fanylu ar hynny, byddwn yn ddiolchgar iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>It is always interesting that, when organisations speak to Assembly Members, they speak to you in a slightly different way in terms of what they may wish me to do as a Minister. They always paint the picture that suits them best on these matters. I do intend to make an announcement on my transport priorities before the summer recess, and that issue will be included in that announcement.</p>	<p>Mae bob amser yn ddiddorol nodi, pan fydd sefydliadau yn siarad ag Aelodau'r Cynulliad, eu bod yn siarad â chi mewn ffordd ychydig yn wahanol o ran yr hyn yr hoffent i mi ei wneud efallai fel Gweinidog. Maent bob amser yn creu darlun o'r materion hyn sydd orau iddynt hwy. Bwriadaf wneud cyhoeddiad ar fy mlaenoriaethau trafndiaeth cyn toriad yr haf, a chaiff y mater hwnnw ei gynnwys yn y cyhoeddiad hwnnw.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:45	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Question 14, OAQ(4)0285(EST), has been transferred for written answer.</p>	<p>Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ (4) 0285 (EST), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Trafnidiaeth Gyhoeddus		Public Transport		
14:45	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	<p><i>15. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella a chynyddu argaeledd trafndiaeth gyhoeddus ledled de Cymru cyn etholiad nesaf y Cynulliad? OAQ(4)0289(EST)</i></p>	<p><i>15. What plans does the Welsh Government have to improve and increase the availability of public transport across south Wales before the next Assembly election? OAQ(4)0289(EST)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:45	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>Obviously, I am committed to improving public transport in Wales, and I am considering options for further investment across south Wales. However, we need to recognise that we are facing difficult pressures on the budget available, particularly in light of the outcome from the comprehensive spending review.</p>	<p>Yn amlwg, rwyf wedi ymrwymo i wella trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru, ac rwy'n ystyried dewisiadau ar gyfer buddsoddiad pellach ar draws y de. Fodd bynnag, mae angen inni gydnabod ein bod yn wynebu pwysau anodd ar y gyllideb sydd ar gael, yn enwedig yng ngoleuni canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:45	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	<p>I think that we all recognise the difficult times, but will you, when you are conducting a review of your transport priorities, give special regard to the social role of bus transport within our transport network? Buses carry a lot more passengers than trains do and often reach much more deprived communities. However, cuts recently have had a detrimental impact and there is a lot of constituency casework that we have received on the issue.</p>	<p>Credaf ein bod i gyd yn cydnabod ei bod yn adeg anodd, ond a wnewch chi, wrth gynnal adolygiad o'ch blaenoriaethau trafndiaeth, roi ystyriaeth arbennig i rôl gymdeithasol cludiant ar fysiau yn ein rhwydwaith trafndiaeth? Mae bysiau yn cario llawer mwy o deithwyr na threnau ac yn aml yn cyrraedd cymunedau mwy difreintiedig o lawer. Fodd bynnag, mae toriadau diweddar wedi cael effaith andwyol ac rydym wedi derbyn llawer o waith achos etholaethol ar y mater.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>Yes, I will take that very much into account because I do recognise the importance of buses. It is not just about taking people to work and vice versa; it is about that social engagement that some people from poorer areas would not have without the availability of services. I am also conscious that I must get a balance between rural and urban areas because, sometimes, some of the issues in the rural areas are absolutely devastating in terms of transport. There also needs to be more transparency and discussion about the routes that are available and those that will not be available.</p>	<p>Gwnaf, byddaf yn rhoi ystyriaeth ddwys i hynny oherwydd rwy'n cydnabod pwysigrwydd bysiau. Nid oes a wnelo hyn â mynd â phobl i'r gwaith ac i'r gwrthwyneb; mae a wnelo â'r ymgysylltiad cymdeithasol hwnnw na fyddai gan rai pobl o ardaloedd tlotach pe na bai'r gwasanaethau ar gael. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod yn rhaid imi gael cydbwysedd rhwng ardaloedd gwledig a threfol oherwydd, weithiau, mae rhai o'r materion yn yr ardaloedd gwledig yn hollol ddiinstriol o ran trafndiaeth. Mae angen mwy o dryloywder a thrafodaeth hefyd ynghylch y llwybrau sydd ar gael a'r rhai na fyddant ar gael.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:46	William Graham Bywgraffiad Biography	<p>Will the Minister confirm that the Welsh Government will fulfil a commitment to completing the Ebbw Vale to Newport line before 2016?</p>	<p>A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ymrwymiad i gwblhau rheilffordd Glynebwy i Gasnewydd cyn 2016?</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:46	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I have no indications to the contrary, but now that you ask me that question, I am slightly suspicious about why you have asked it. Perhaps someone has been lobbying you, so I will check these matters with my officials.</p>	<p>Nid oes gennyf reswm dros gredu yn wahanol, ond nawr eich bod yn gofyn y cwestiwn hwnnw imi, rwyf ychydig yn amheus ynghylch pam yr ydych wedi ei ofyn. Efallai bod rhywun wedi bod yn eich lobio, felly byddaf yn cadarnhau'r materion hyn gyda fy swyddogion.</p>
14:47	Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Y Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to move the motion.</p>	<p>Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i gynnig y cynnig.</p>
	<p>Cynnig NDM5283 Nick Ramsay</p>	<p>Motion NDM5283 Nick Ramsay</p>
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales:</p>
	<p>Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2012.</p>	<p>Notes the report of the Enterprise and Business Committee on the inquiry into Integrated Public Transport in Wales, which was laid in the Table Office on 22 May 2012.</p>
14:47	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move the motion.</p>	<p>Cynigiau y cynnig.</p>
	<p>The Enterprise and Business Committee's inquiry into integrated public transport in Wales sets out a clear vision, which is for passengers in Wales to experience an easy, seamless and comfortable public transport system: a system that links rail, bus and community transport services across the country, and a system that is understood and trusted by all our citizens.</p>	<p>Mae ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i drafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru yn nodi gweledigaeth glir, sef y dylai teithwyr yng Nghymru brofi system trafndiaeth gyhoeddus hawdd, ddi-dor a chyfforddus: system sy'n cysylltu gwasanaethau rheilffordd, bws a thrafnidiaeth gymunedol ledled y wlad, a system y mae pob un o'n dinasyddion yn ei deall ac yn ymddiried ynnddi.</p>
	<p>We are under no illusion about the obstacles to achieving this objective. They were articulated to us in a wide range of evidence and documented in our report. However, we have focused on how those problems would be overcome and how the Welsh Government can help in that process. The answers include the exercise of more devolved powers, but I will say more about that later.</p>	<p>Rydym yn llwyr ymwybodol o'r rhwystrau o ran cyflawni'r amcan hwn. Fe'u mynegwyd inni mewn amrywiaeth eang o dystiolaeth ac fe'u dogfennwyd yn ein hadroddiad. Fodd bynnag, rydym wedi canolbwyntio ar sut y câi'r problemau hynny eu goresgyn a sut y gall Llywodraeth Cymru helpu yn hynny o beth. Mae'r atebion yn cynnwys arfer mwy o bwerau datganoledig, ond ymhelaethaf ar hynny yn ddiweddarach.</p>

So, why did we look at integrated public transport in Wales? Public transport is a lifeline not only for sustaining communities, but for enabling Wales to compete for inward investment and business with other parts of the UK. The main aims of our inquiry were to explore how well public transport is integrated; which factors limit integration; how successful the legal, policy and delivery frameworks are in supporting integration; and what steps could be taken to improve integration. In terms of how we went about our inquiry, we wanted to focus on the public transport user. We therefore launched our inquiry with a world cafe public engagement event at the National Waterfront Museum in Swansea. We hosted an online survey to canvass opinion, and we held evidence sessions with stakeholders. Many others sent their comments to us in writing. I am grateful to all those people who took the time and effort to contact us with their views, particularly those who attended our events and meetings. I also thank fellow committee members, Alun Ffred Jones and Eluned Parrott who, like me, produced video diaries of their own public transport journeys. The edited versions can be viewed on our website.

What did our inquiry find? From the outset, it became clear that Wales's ambition to achieve a fully integrated public transport system is being compromised by a lack of powers. Professor Stuart Cole of the Transport Research Centre told us that the accountability of the traffic commissioner and the regulation of the bus industry would need to be devolved to Cardiff before Wales could even think about having a fully integrated system.

Several witnesses praised the more devolved structure of Network Rail in Wales, but a strong case was made for putting its relationship with the Welsh Government on a statutory footing. I am glad that the Minister agrees that the devolution of rail franchising powers and funding will be significant and extremely helpful in shaping the future of integrated transport in Wales. Strong arguments were also voiced in favour of introducing a passenger transport executive model in Wales. The committee was persuaded that such an approach could bring a formal governance system, together with fair and proportional representation, which, in turn, would help to establish a common strategic direction.

I welcome the Minister's agreement to evaluate a PTE model as part of strengthening regional transport structures. Integration is not all about the accumulation of extra powers, however. Some witnesses, including Sustrans Cymru, wanted to see stronger strategic leadership and integration skills within the Welsh Government. The committee also heard that the current regional transport plans predate the national transport plan. We therefore identified the renewal of the national transport plan in 2015 as a key opportunity for ensuring a more co-ordinated approach to transport planning and delivery.

Felly, pam y gwnaethom ystyried trafndiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru? Mae trafndiaeth gyhoeddus yn hanfod nid yn unig o ran cynnal cymunedau, ond o ran galluogi Cymru i gystadlu am fewnffuddsoddiad a busnes â rhannau eraill o'r DU. Prif nodau ein hymchwiliad oedd ystyried i ba raddau y mae trafndiaeth gyhoeddus yn integredig; pa ffactorau sy'n cyfyngu ar y broses integreiddio; pa mor llwyddiannus yw'r fframweithiau cyfreithiol, polisi a chyflawni o ran ategu'r broses integreiddio; a pha gamau y gellid eu cymryd i wella'r broses. O ran cynnal ein hymchwiliad, roeddem am ganolbwyntio ar ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus. Felly, lanswyd ein hymchwiliad drwy gynnal digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd yng nghaffi'r byd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. Cynhaliwyd arolwg ar-lein gennym i gasglu safbwyntiau, a chynhaliwyd sesiynau rhoi tystiolaeth gyda rhanddeiliaid. Anfonodd sawl un arall eu sylwadau ysgrifenedig atom. Rwy'n ddiolchgar i bob un o'r bobl hynny a gymerodd yr amser ac a wnaeth ymdrech i gysylltu â ni i gyflwyno eu sylwadau, yn enwedig y rheini a ddaeth i'n digwyddiadau a'n cyfarfodydd. Hoffwn ddiolch hefyd i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor, Alun Ffred Jones ac Eluned Parrott a aeth ati, fel minnau, i gynhyrchu dyddiaduron fideo o'u teithiau trafndiaeth gyhoeddus eu hunain. Gellir gweld y fersiynau wedi'u golygu ar ein gwefan.

Beth a ganfu ein hymchwiliad? O'r cychwyn cyntaf, daeth yn amlwg bod diffyg pwerau yn cael effaith andwyol ar uchelgais Cymru i roi system trafndiaeth gyhoeddus gwbl integredig ar waith. Dywedodd yr Athro Stuart Cole o'r Ganolfan Ymchwil Trafndiaeth wrthym y byddai angen i atebolrwydd y comisiynydd traffig a'r broses o reoleiddio'r diwydiant bysiau gael eu datganoli i Gaerdydd cyn y gallai Cymru hyd yn oed feddwl am gael system gwbl integredig.

Canmolodd nifer o dystion strwythur mwy datganoledig Network Rail yng Nghymru, ond gwnaed achos cryf o blaid rhoi sail statudol i'w gydberthynas â Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch bod y Gweinidog yn cytuno y bydd datganoli pwerau masnachfaint a chyllid rheilffyrdd yn arwyddocaol ac yn ddefnyddiol iawn o ran llywio dyfodol trafndiaeth integredig yng Nghymru. Cyflwynwyd dadleuon cryf hefyd o blaid cyflwyno model gweithredol ar gyfer trafndiaeth i deithwyr yng Nghymru. Darbwyllwyd y pwyllgor y gallai dull o'r fath arwain at system lywodraethu ffurfiol, ynghyd â chynrychiolaeth deg a chymesur, a fyddai, yn ei dro, yn helpu i sefydlu cyfeiriad strategol cyffredin.

Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog wedi cytuno i werthuso model gweithredol ar gyfer trafndiaeth i deithwyr fel rhan o'r broses o atgyfnerthu strwythurau trafndiaeth rhanbarthol. Ond nid dim ond mater o sicrhau pwerau ychwanegol yw integreiddio. Roedd rhai dystion, gan gynnwys Sustrans Cymru, yn awyddus i weld sgiliau arweinyddiaeth strategol ac integreiddio cryfach o fewn Llywodraeth Cymru. Clywodd y pwyllgor hefyd fod y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol presennol wedi'u llunio cyn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Felly, nodwyd gennym y byddai'r broses o adnewyddu'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn 2015 yn gyfle allweddol i sicrhau dull mwy cydgyssylltiedig o gynllunio a darparu trafndiaeth.

The issue of collaboration between bus operators is contentious—as, I am sure, the Minister is aware—owing at least in part to a lack of clarity over the Transport Act 2000. The committee heard that the threat of fines from the Competition Commission and fears over loss of revenue have deterred some operators from collaborating with each other. There was some misunderstanding, as we were talking about them collaborating more with each other than with the Welsh Government.

Many witnesses remarked on the need for more efficient interchange between buses and trains. We also received an emphatic steer on the need for operators to simplify and integrate fare and ticket systems.

On the issue of service accessibility, annex B of our report includes a catalogue of problems faced by disabled passengers. We were very concerned about this, especially given that the Equality of Opportunity Committee published a report on this issue over two years ago.

The committee heard about some good examples of tailored and innovative public transport schemes in rural areas, such as the Bwcabus service and community transport services. I welcome the Minister's positive response to our recommendations on community transport, particularly her acceptance of recommendations regarding funding levels and the provision of longer-term financial stability for the sector. I would, however, welcome further detail on how the regional transport services grant for the current year represents an 'effective doubling' of funding available to the sector, as the Government's response seems to suggest. Also, when we can expect a conclusive answer to the issue of multi-year funding?

Turning to what we recommended as a committee, in all, we made 25 recommendations to the Welsh Government. I am pleased that the Welsh Government's response to our report is generally positive, accepting 18 of our recommendations outright and six in principle. One recommendation was rejected, and I shall turn that to in a moment.

If I may, I will highlight a few of our key recommendations. The Welsh Government should continue to lobby the UK Government for a statutory relationship between the Welsh Government and Network Rail, and for an enhanced role in the rail franchising process as it affects Wales. Also, it should continue to lobby the UK Government for bus regulation and registration powers to be devolved to Wales, for the traffic commissioner to be accountable to Welsh Ministers, and to strengthen regional transport structures, including an evaluation of a passenger transport executive model.

Mae trefniadau cydweithredu rhwng gweithredwyr bysiau yn ddadleuol—fel y gŵyr y Gweinidog, rwy'n siŵr—yn rhannol oherwydd diffyg eglurder o ran Deddf Trafnidiaeth 2000. Clywodd y pwyllgor fod y bygythiad o ddirwyon gan y Comisiwn Cystadleuaeth ac ofn y byddent yn colli refeniw wedi atal rhai gweithredwyr rhag cydweithredu â'i gilydd. Roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth, gan mai sôn am gydweithredu mwy â'i gilydd yr oeddem, yn hytrach na chyda Llywodraeth Cymru.

Nododd llawer o dystion fod angen trefniadau rhyngnewid mwy effeithlon rhwng bysiau a threnau. Cafwyd sylwadau pendant hefyd am yr angen i weithredwyr symleiddio systemau prisiau a thocynnau a'u hintegreiddio.

O ran hygyrchedd gwasanaethau, mae atodiad B i'n hadroddiad yn cynnwys catalog o broblemau a wynebwr gan deithwyr anabl. Roeddem yn bryderus iawn am hyn, yn enwedig o ystyried bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi cyhoeddi adroddiad ar y mater hwn dros ddwy flynedd yn ôl.

Clywodd y pwyllgor am rai enghreifftiau da o gynlluniau trafndiaeth gyhoeddus arloesol wedi'u teilwra'n arbennig mewn ardaloedd gwledig, megis gwasanaeth Bwcabus a gwasanaethau trafndiaeth gymunedol. Croesawaf ymateb cadarnhaol y Gweinidog i'n hargymhellion ar drafnidiaeth gymunedol, yn enwedig y ffaith ei bod yn derbyn yr argymhellion ynghylch lefelau ariannu a rhoi sefydlogrwydd ariannol tymor hwy i'r sector. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu manylion pellach o ran sut y mae'r grant gwasanaethau trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn bresennol 'mewn gwirionedd yn dyblu' swm yr arian sydd ar gael i'r sector, fel yr ymddengys fod ymateb y Llywodraeth yn ei awgrymu. Hefyd, pryd y gallwn ddisgwyl ateb pendant o ran trefniadau ariannu aml-flwyddyn?

Gan droi at yr hyn a argymhellwyd gennym fel pwyllgor, gwnaethom gyfanswm o 25 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Rwy'n falch bod ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan, gan dderbyn 18 o'n hargymhellion yn llwyr a chwech mewn egwyddor. Gwrthodwyd un argymhelliad, a throf at hynny maes o law.

Os caf, hoffwn dynnu sylw at rai o'n hargymhellion allweddol. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobio Llywodraeth y DU i gael cydberthynas statudol rhwng Llywodraeth Cymru a Network Rail, a rôl estynedig yn y broses masnachfaint rheilffyrdd fel y mae'n effeithio ar Gymru. Hefyd, dylai barhau i lobio Llywodraeth y DU i gael pŵerau rheoleiddio a chofrestru bysiau wedi'u datganoli i Gymru, i'r comisiynydd traffig fod yn atebol i Weinidogion Cymru, ac i atgyfnerthu strwythurau trafndiaeth rhanbarthol, gan gynnwys gwerthusiad o fodel gweithredol ar gyfer trafndiaeth i deithwyr.

It should use all the powers at its disposal to drive public transport integration and to ensure that staff at all levels of government have the skills and tools to deliver effective public transport policy. We further recommended that the Welsh Government should press transport operators to work together—as I mentioned earlier—and with all relevant stakeholders to implement best practice in co-ordinating timetables, connecting services and publishing real-time information to provide seamless links, or as seamless as possible, between bus, rail and community transport networks.

Regarding recommendation 6 about strengthening the planning system so that all major developments include adequate public transport provision and actively promote sustainable integrated public transport, and that transport planning agencies should be consulted at an early stage, I do believe that the Government has missed a trick by not sending out a clear policy signal. During our inquiry, we heard extensive evidence of developments constructed without adequate regard for public transport needs, and we heard the strong message that planning guidance on the matter is ineffective. We therefore believe that it is vital that any new development should be integrated with public transport networks and services, and I would urge the Welsh Government to reconsider its rejection of our recommendation on this issue, or otherwise to set out how the current failures of the planning system will be addressed. I think that simply rejecting that recommendation is not sufficient.

To conclude, Presiding Officer, one of the key witnesses to this inquiry told us that integrated transport was a 'seductive notion and a simple idea'—I like that quote. Further—and I think you are aware of this quote yourself—it was described as a 'devilishly complicated thing to achieve' in practice. Integrated public transport demands an integrated set of measures: further transfer of powers to Cardiff; integration of transport with other policies; and a step change in imagination and drive among all those responsible for its delivery.

Finally, Sustrans Cymru told us that 1.5 million people in Wales—nearly half the nation's population—are at risk of becoming isolated and unable to access key services because of inadequate public transport. Needless to say, that is an extremely worrying prospect. I very much hope that our report and recommendations being discussed today will signpost the way to a more integrated and connected Wales of the future. I look forward to hearing all contributions to today's debate.

14:56

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch i gael y cyfle i siarad. Fel aelod o'r pwyllgor, gwneuthum fwynhau'r cyfle i edrych ar hyn a gwneud yr ymchwiliad. I fi, mae'r polisi y tu ôl i'r syniad yn un dwfn sy'n gorgyffwrdd. Nodwedd gwledydd blaengar yw darpariaeth systemau trafniadaeth sy'n addas i'r diben ac sy'n cwrdd â'r galw. O safbwynt yr amgylchedd, mae'n angenrheidiol ein bod yn hyrwyddo defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Dylai ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi i annog trefniadau integreiddio trafniadaeth gyhoeddus ac i sicrhau bod staff ar bob lefel o'r llywodraeth yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau i roi polisi trafniadaeth gyhoeddus effeithiol ar waith. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar weithredwyr trafniadaeth i gydweithio—fel y soniais yn gynharach—a chyda'r holl ranndeiliaid perthnasol i sicrhau arfer gorau wrth gydgyssylltu amserleni, cysylltu gwasanaethau a chyhoeddi gwybodaeth amser real er mwyn darparu cysylltiadau didor, neu mor ddi-dor â phosibl, rhwng rhwydweithiau trafniadaeth bws, rheilffordd a chymunedol.

O ran argymhelliad 6 am atgyfnerthu'r system gynllunio fel bod pob datblygiad mawr yn cynnwys darpariaeth trafniadaeth gyhoeddus ddigonol ac yn mynd ati i hyrwyddo trafniadaeth gyhoeddus integredig gynaliadwy, ac y dylid ymgynghori ag asiantaethau cynllunio trafniadaeth ar gam cynnar, credaf fod Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle drwy beidio â chyfleu neges bolisi glir. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom dystiolaeth helaeth o ddatblygiadau a adeiladwyd heb roi ystyriaeth ddigonol i anghenion trafniadaeth gyhoeddus, a chlywsom y neges gadarn nad yw'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r mater hwn yn effeithiol. Credwn felly ei bod yn hanfodol y dylid integreiddio unrhyw ddatblygiad newydd gyda rhwydweithiau a gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus, a byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei phenderfyniad i wrthod ein hargymhelliad ar y mater hwn, neu fel arall, i nodi sut yr ymdrinnir â methiannau presennol y system gynllunio. Nid yw gwrthod yr argymhelliad yn ddigon, yn fy marn i.

I gloi, Lywydd, dywedodd un o'r tystion allweddol i'r ymchwiliad hwn wrthym fod trafniadaeth integredig yn gysyniad rhithiol ac yn syniad syml—rwy'n hoffi'r disgrifiad hwnnw. At hynny—a chredaf eich bod yn ymwybodol o'r sylw hwn eich hun—fe'i disgrifiwyd fel rhywbeth a fyddai'n ddieflig o gymhleth i'w gyflawni'n ymarferol. Mae trafniadaeth gyhoeddus integredig yn gofyn am gyfres integredig o fesurau: trosglwyddo mwy o bwerau i Gaerdydd; integreiddio trafniadaeth â pholisïau eraill; a newid sylweddol o ran dychymyg ac ymdrech ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am ei rhoi ar waith.

Yn olaf, dywedodd Sustrans Cymru wrthym fod perygl y caiff 1.5 miliwn o bobl yng Nghymru—bron i hanner poblogaeth y wlad—eu hynysu ac na fyddant yn gallu defnyddio gwasanaethau allweddol oherwydd trafniadaeth gyhoeddus annigonol. Afraid dweud, mae hynny'n destun pryder mawr. Gobeithio'n fawr y bydd ein hadroddiad â'r argymhellion a drafodir heddiw yn arwain at Gymru fwy integredig wedi'i chysylltu'n well yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at glywed yr holl gyfraniadau i'r ddatl heddiw.

I am pleased to have an opportunity to contribute. As a member of the committee, I enjoyed the opportunity to look at this subject and to take part in the inquiry. For me, the policy behind this concept is broad and one which overlaps. A characteristic of innovative nations is the provision of transport systems that are fit for purpose and meet demand. From an environmental point of view, it is crucial that we promote the use of public transport.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dechreuir yr adroddiad trwy ddweud bod problem ddistaw o dlodi trafniadaeth yng Nghymru. Ni ddylai effaith hyn gael ei anghofio. Yn debygol, ac yn anffodus, bydd cryn nifer hefyd yn dioddef caledi o ffynonellau eraill. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Sustrans bod 20% o'r rhai â'r incwm isaf yn gwario chwarter o'r incwm hwnnw ar redeg ceir. I bob un sy'n ddibynol ar drafniadaeth gyhoeddus er mwyn cymdeithasu, mae'n hanfodol ein bod yn cyfuno ac yn buddsoddi. Yn natganiad y Canghellor yr wythnos diwethaf, daeth setliad cyfalaf siomedig iawn. Mae'n rhaid cyfuno'r hyn sydd gennym a cheisio gwneud y gorau o'r cyfarpar hynny.

Fel y dywedir yn yr adroddiad, diffyg ymwybyddiaeth o'r opsiynau yw un o'r rhwystrau mwyaf rhag defnyddio trafniadaeth gyhoeddus. Rwy'n falch bod sir Gâr wedi ei henwi yn y dystiolaeth fel sir wledig sy'n dda am ddarparu gwybodaeth am amseroedd bysiau, a'i bod hefyd yn cynnig, gyda Cheredigion, gynllun Bwcabus yn yr ardaloedd gwledig. Hefyd, fel y gwelwyd ym Mhowys, yn dilyn newidiadau i'r gwasanaethau, roedd y sir yn llyddiannus o ran cynyddu'r niferoedd a fu'n defnyddio bysiau. Felly, mae ymarfer gorau i'w weld.

Mae manifesto Llafur Cymru yn ymrwymo i ystyried modelau gwahanol o berchnogaeth pan ddaw'r amser i adnewyddu etholfraint Cymru a'r ffiniau yn 2018. Rwyf wedi cwrrd sawl gwaith â chynrychiolwyr rheilffordd Calon Cymru, a'u cred yw y gallasem weithredu gwasanaethau gwell ar y llinell drwy reoli'n lleol. Buasai hynny'n golygu mwy o ryddid i ystyried ailstrwythuro er mwyn cwrrd yn well ag anghenion cymunedau lleol. Yn y modd y mae'r adroddiad yn edrych ar reolaeth gymunedol a'r etholfraint yn 2018, hoffwn wneud y pwynt y byddai'n fanteisiol inni gynnal trafodaethau pellach fel Cynulliad ar hyn, ac yn cynnwys rheilffordd Calon Cymru yn ein trafodaethau.

The report starts by saying that there is a hidden problem of transport poverty in Wales, the effects of which should not be forgotten. It is likely, and unfortunate, that many of these people also suffer as a result of other forms of hardship. In its evidence, Sustrans said that 20% of those on the lowest income spend a quarter of that income on running a car. For all those dependent on public transport for social purposes, it is crucial that we integrate and invest. In the Chancellor's statement of last week, there was a disappointing settlement in terms of capital. We must consolidate and try to make the best of what we have.

As the report states, a lack of awareness of the options is one of the greatest barriers to using public transport. I am pleased that Carmarthenshire is cited in the evidence as a rural county that is effective in providing information on bus timetables and that, in conjunction with Ceredigion, it provides the Bwcabus service in rural areas. Furthermore, as we have seen following changes to services in Powys, the county was successful in increasing the numbers making use of buses. So, there is best practice out there.

The Welsh Labour manifesto commits to considering alternative models of ownership on renewal of the Wales and borders franchise in 2018. I have met several times with representatives of the Heart of Wales line, and they believe that services could be improved on that line through local management. That would mean greater freedom to consider restructuring in order to better meet the needs of local communities. Given that the report looks at community management and the 2018 franchise, I would like to make the point that it would be beneficial to have further discussions as an Assembly on this matter, and to include the Heart of Wales line in those discussions.

14:58

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much wanted to contribute to today's debate on the Enterprise and Business Committee's report on integrated public transport in Wales. As a member of the Enterprise and Business Committee, this was an inquiry that met, I felt, with much enthusiasm from the committee, and I endorse many of the points that have already been made by Nick Ramsay, the Chair, in his opening remarks.

Broadly speaking, the Government has accepted our amendments bar recommendation 6, and while welcoming the acceptance of the amendments, I have concerns in relation to the rejection of recommendation 6, a matter that I will return to shortly.

Prior to that, I want to make some broader points that I think go to the core of some very practical problems with the Government's approach to integrated transport—specifically, as has already been mentioned by Nick Ramsay, the bus networks and operators. There are all manner of powers available under the existing legislation—the 1985, 2000 and 2008 Transport Acts—to enhance and co-ordinate services across Wales. There is more than enough, really, but I fear they are currently being underused.

Roeddwn yn awyddus iawn i gyfrannu at y ddatl heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar drafniadaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru. Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, ysgogodd yr ymchwiliad hwn, yn fy marn i, gryn frwdfrydedd gan y pwyllgor, ac ategaf lawer o'r pwyntiau a wnaed eisoes gan Nick Ramsay, y Cadeirydd, yn ei sylwadau agoriadol.

Yn fras, mae'r Llywodraeth wedi derbyn ein gwelliannau heblaw am argymhelliad 6, ac er fy mod yn croesawu'r ffaith ei bod wedi derbyn y gwelliannau, mae gennyf bryderon o ran y ffaith ei bod gwrthod argymhelliad 6, mater y dychwelaf ato maes o law.

Cyn hynny, hoffwn wneud rhai pwyntiau ehangach sy'n mynd at graidd rhai problemau ymarferol iawn sy'n gysylltiedig â dull gweithredu'r Llywodraeth mewn perthynas â thrafniadaeth integredig—yn benodol, fel y crybwyllwyd eisoes gan Nick Ramsay, y rhwydweithiau a'r gweithredwyr bysiau. Mae pob math o bwerau ar gael o dan y ddeddfwriaeth bresennol—Deddfau Trafniadaeth 1985, 2000 a 2008—i wella a chydgyssylltu gwasanaethau ledled Cymru. Mae mwy na digon, mewn gwirionedd, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio ddigon ar hyn o bryd, mae arnaf ofn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Bus operators are particularly mindful of the 1985 Act, which made them subject to the normal private sector control of the Office of Fair Trading and the Competition Commission—formerly the Monopolies and Mergers Commission. This can mean that operators are very nervous about what we would call integrated transport. Simply discussing timetable integration can land them in a legal minefield. This can easily be mitigated by clear local government leadership through voluntary partnership agreements, a statutory quality partnership scheme or timetable qualifying agreements. Experience has shown that leadership and direction on this issue has been less than ideal, and we are struggling on this very practical level; I think that this has to be addressed.

Bus operators need a third party, ideally local government, to lead integration. Failing that, Welsh Government will have to act to bring them together and legally ensure that we properly integrate transport. In the not too distant past, we have seen that there are great legal difficulties of which to be mindful. A good example, of course, is the Cardiff Bus case, where the OFT issued a decision that Cardiff Bus had abused its dominant position. This led to the competition appeal tribunal making the first award of exemplary damages in a UK competition law case. This will mean that we have a very nervous industry, which again emphasises my point about requiring leadership to integrate from an independent body.

I move on to mention recommendation 6 in particular, which the Government has not accepted. I do not share the Government's belief that the town and country planning Order sets out requirements strong enough to tackle the points raised in our report. I would like to see changes to the planning system through your forthcoming planning reform Bill, to strengthen the requirement for all major development schemes to include adequate public transport provision and actively promote sustainable integrated public transport. I think that it is somewhat short-sighted not to accept, at least, that your planning reform Bill should look into that aspect of major developments. It is disappointing that the upcoming reform seems to be already ruling out large areas of the planning system from reform if you believe that there is no need for change.

In closing, I urge the Government to review its decision on that recommendation. Frankly, I fail to see how a failure to examine this area of the planning system will assist in providing a successful and integrated transport system in Wales. I do not think that it is appropriate for you to prejudice, at this stage, the outcome of that Bill. I thank you for accepting the vast majority of the report. I look forward to you embracing these recommendations and hopefully giving further consideration to recommendation 6.

Mae gweithredwyr bysiau yn ymwybodol iawn o Ddeddf 1985, a'u gwnaeth yn destun rheolaeth sector preifat arferol y Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadleuaeth—y Comisiwn Monopolïau ac Uniadau gynt. Gall hyn olygu bod gweithredwyr yn nerfus iawn am yr hyn y byddem yn cyfeirio ato fel trafndiaeth integredig. Gall dim ond trafod integreiddio amserlenni eu gosod ar dir peryglus yn gyfreithiol. Gellir lliniaru hyn yn hawdd drwy arweinyddiaeth glir gan lywodraeth leol drwy gytundebau partneriaeth gwirfoddol, cynllun partneriaeth ansawdd statudol neu gytundebau cymhwysio amserlenni. Mae profiad wedi dangos na fu arweinyddiaeth na chyfeiriad mewn perthynas â'r mater hwn yn ddefnyddiol o bell ffordd, ac rydym yn ei chael hi'n anodd ar y lefel ymarferol iawn hon; credaf fod yn rhaid ymdrin â hyn.

Mae angen trydydd parti ar weithredwyr bysiau, llywodraeth leol yn ddefnyddol, i arwain y broses integreiddio. Os metha hynny, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i'w huno ac i sicrhau'n gyfreithiol ein bod yn integreiddio trafndiaeth mewn modd priodol. Yn y gorffennol agos, gwelsom fod cryn anawsterau cyfreithiol y mae angen gochel rhagdynt. Enghraifft dda, wrth gwrs, yw achos Bws Caerdydd, lle y cyhoeddodd y Swyddfa Masnachu Teg benderfyniad bod Bws Caerdydd wedi camddefnyddio ei sefyllfa fanteisiol yn y farchnad. O ganlyniad, dyfarnodd y tribiwnlys apêl cystadleuaeth iawndal enghreifftiol am y tro cyntaf erioed mewn achos cyfraith gystadleuaeth yn y DU. Felly, mae'r dwyddiant yn nerfus iawn, sydd unwaith eto yn pwysleisio fy mhwynt bod angen arweinyddiaeth gan gorff annibynnol er mwyn integreiddio.

Symudaf ymlaen i sôn am argymhelliad 6 yn arbennig, nad yw'r Llywodraeth wedi'i dderbyn. Nid wyf yn cyd-weld â'r Llywodraeth bod y Gorchymyn cynllunio gwlad a thref yn nodi'r gofynion yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â'r pwyntiau a nodwyd yn ein hadroddiad. Hoffwn weld newidiadau i'r system gynllunio drwy eich Bil diwygio cynllunio arfaethedig, i atgyfnerthu'r gofyniad i bob cynllun datblygu mawr gynnwys darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus ddigonol a hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus integredig gynaliadwy. Credaf ei bod braidd yn annoeth peidio â derbyn y dylai eich Bil diwygio cynllunio, o leiaf, ystyried yr agwedd honno ar ddatblygiadau mawr. Mae'n siomedig bod y diwygiadau arfaethedig eisoes, yn ôl pob tebyg, yn diystyru unrhyw ddiwygiadau i feysydd helaeth o'r system gynllunio os credwch nad oes angen newid.

Wrth gloi, erfyniaf ar y Llywodraeth i adolygu ei phenderfyniad ar yr argymhelliad hwnnw. A dweud y gwir, ni allaf weld sut y bydd methu ag ystyried y maes hwn o'r system gynllunio yn helpu i ddarparu system trafndiaeth lwyddiannus ac integredig yng Nghymru. Ni chredaf ei bod yn briodol ichi ragfarnu canlyniad y Bil hwnnw, yn ystod y cam hwn. Diolch ichi am dderbyn y rhan fwyaf o'r adroddiad. Edrychaf ymlaen at eich gweld yn croesawu'r argymhellion hyn ac yn rhoi ystyriaeth bellach i argymhelliad 6, gobeithio.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn. Rwy'n credu bod yr adroddiad yn un yr oedd cytundeb mawr o fewn y pwyllgor arno. Roedd nifer o argymhellion, ac mae'r mater yr wyf am ei drafod yn rhywbeth sy'n eithaf creiddiol o safbwynt dadansoddi'r argymhellion ac ymateb y Llywodraeth.

Mae nifer o'r argymhellion yn rhagdybio newidiadau cyfansoddiadol neu ddatganoli pellach. Mae hyn yn berthnasol o safbwynt y rheilffyrdd a'r pŵerau, neu'r diffyg pŵerau, sydd gennym o gwmpas y system fysiau. Mae integreiddio ein rhwydweithiau a'n strwythurau trafnidiaeth yn dibynnu ar sicrhau pŵerau ychwanegol yn y maes hwn o ran y rheilffyrdd a'r bysiau. Mae hynny'n gwbl greiddiol, ac yn tanlinellu pam bod bwrw ymlaen ag argymhellion y comisiwn Silk yn hanfodol—a dim ond cam cychwynol yw hynny.

Mae un o'r argymhellion yn cyfeirio at greu cyswllt statudol rhwng Network Rail a Llywodraeth Cymru, er enghraifft. Mae cyswllt ymarferol yn digwydd ar hyn o bryd, ond os ydych eisiau greu cyswllt statudol, yna mae'n amlwg eich bod yn sôn am ddatganoli pŵerau ychwanegol. Byddai hyn yn mynd â ni yn agosach at sefyllfa sy'n debycach i'r un sy'n bodoli yn yr Alban. Wrth gwrs, mae nifer o gamau y mae'n rhaid ichi eu cymryd cyn i hynny ddigwydd. Mae'n rhaid inni sicrhau, wrth ddatganoli cyfrifoldebau Network Rail, fod dealltwriaeth glir am y cyllid i gefnogi'r datganoli hwnnw, achos mae buddsoddi yn gwbl hanfodol os ydym yn mynd i greu rhwydwaith ymarferol a chryfach a fydd yn gwasanaethu ein cymunedau yng Nghymoedd y de ac yn yr ardaloedd mwy gwledig.

Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o'r broses hon o ran y fasnachfaint newydd. Byddwn yn gofyn i'r Llywodraeth ddweud yn glir sut y mae'n bwriadu bod yn rhan o'r broses honno, beth yw ei pholisi a sut y byddai, maes o law, yn hoffi gweld y fasnachfaint honno, oherwydd mae angen adeiladu twf i'r fasnachfaint nesaf, ac nid dim ond derbyn y sefyllfa fel ag y mae. Rydym yn disgwyl y bydd trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r de bydd twf yn sicr, felly rhaid i hynny gael ei ystyried mewn unrhyw gytundeb a fydd yn digwydd.

Mae nifer o gamau sydd angen eu cymryd cyn ein bod yn gallu gwireddu nifer o'r argymhellion y mae'r pwyllgor wedi eu gwneud ac er mwyn inni wedyn sicrhau bod y gwasanaeth bysiau—sydd, mewn gwirionedd, yn bwysicach i'r rhan fwyaf o'n cymunedau na'r gwasanaeth rheilffyrdd—yn gallu gweithio gyda'r gwasanaeth rheilffyrdd a bod y ddau'n gallu atgyfnerthu ei gilydd. Yn sicr, bydd angen pŵerau ychwanegol o safbwynt trefniadau bysiau, o ran yr amserlenni, dod â'r gwasanaethau hynny i gysylltu â'i gilydd yn well ac er mwyn cael tocynnau a fydd yn gweithredu naill ai ar draws Cymru neu yn rhanbarthol. Nid oedd y pwyllgor yn gwbl gytûn beth fyddai orau, ac mae angen edrych yn ymarferol ar hynny eto.

I thank everybody who participated in this inquiry. I believe that there was great consensus in the committee on the report. There were a number of recommendations, and the matter that I want to talk about is quite central in terms of analysing the recommendations and the Government response.

A number of the recommendations presume further constitutional or devolution changes. This is relevant from the point of view of the railways and the powers, or the lack of powers, around the bus system. Integrating our networks and our transport structures is dependent upon securing additional powers in this field, in terms of rail and buses. That is central to this, and underlines why moving forward with the Silk commission recommendations is vital—and that is just the first step.

One of the recommendations refers to creating a statutory link between Network Rail and Welsh Government, for example. There is already a practical link, but if you want to create a statutory link, it is obvious that you are talking about the devolution of further powers. That would take us closer to a position that is more similar to that in place in Scotland. Of course, a number of steps have to be taken before that. We must ensure that, in devolving Network Rail responsibilities, we have a clear understanding of the funding in place to support that devolution, because investment is essential if we are to create a stronger and practical network that will serve our communities in the south Wales Valleys and in the more rural areas.

Welsh Government needs to be part of this process on the new franchise. I would ask the Government to state clearly how it intends to participate in that process, what its policy is and how it would, in due course, like to see that franchise, because growth must be secured into the next franchise, rather than just accepting the status quo. We expect that there will be electrification of the Valleys lines and in south Wales, so that will have to be factored in to any agreements made.

A number of steps have to be taken before we can realise many of the recommendations made by the committee and for us then to ensure that bus services—which, in fact, are more important to the majority of our communities than the railways—can work with rail services and that both can complement each other. We will definitely need additional powers from the point of view of bus arrangements, in terms of timetabling, better integration of services, and in order to be able to implement either pan-Wales or regional ticketing. The committee was not in total agreement on which would be the best model, and we need to look at that again in practical terms.

Mae cyfeiriad wedi bod eto at fodel Bwcabus, ac mae hwnnw'n ymddangos yn fodel diddorol iawn sy'n gweithredu ychydig yn wahanol i'r hyn rydym wedi ei wneud yn y gorffennol. Yn sicr, y dyddiau hyn, lle bydd arian cyhoeddus yn brin, rhaid inni edrych ar ffyrdd gwahanol o gyflwyno gwasanaeth yn yr ardaloedd gwledig lle mae teithwyr yn aml iawn yn brin a bysiau yn rhedeg nid yn hanner gwag, ond yn aml iawn yn gwbl wag. Nid yw hynny'n gwneud cyfraniad mewn gwirionedd. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn chwilio am ddiulliau, fel Bwcabus, a fydd yn gwasanaethu'r ardaloedd mwy gwledig hynny mewn ffordd ymarferol sy'n ymateb i anghenion ein pobl.

Felly, rwy'n credu bod hwn yn adroddiad digon defnyddiol, ac rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gallu gweithredu maes o law. Fodd bynnag, rwyf eisiau clywed gan y Gweinidog heddiw beth yw ei bwriadau hi a'r Llywodraeth ynghylch chwilio am bwrerau ychwanegol er mwyn gallu gweithredu ar rai o'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn.

15:07

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, would like to thank the witnesses, who gave evidence to us on a very complicated area, the clerking team and the researchers, who helped us to understand a lot of complicated issues.

When we took on this inquiry, we did not realise the size of the can of worms that we were opening. Nevertheless, I think that we uncovered some really surprising issues that we did not anticipate that we would look at. We had evidence that problems in customer experience of passenger transport in Wales often track back to some fairly fundamental problems in the structures and governance of public transport. The Chair said that it was devilishly complicated, and it certainly is. For example, one of the things that we wanted to look at was improving the information that is available to passengers so that they can plan and prepare for their journeys. It seemed like a simple enough prospect. How hard can it be to make sure that there is a timetable on the bus stop, that the information boards are running accurately and that you can find this information easily? Actually, it is really complicated. It involves GPS technologies, people running different kinds of systems and those systems not working with the nature of hills that we have here in Wales and other challenges to do with geography. It involves things such as how often a bus stop is vandalised, whether a bus company will replace the timetable, how many bus companies are serving that bus stop and even the role of the traffic commissioner. So, some seemingly very abstract concepts have a direct impact on the experience of passengers using services on a day-to-day basis.

There has been reference once again to the Bwcabus model, which appears to be a very interesting model, which works in a slightly different way to what we have been doing in the past. Certainly, these days, when public funding will be scarce, we must look at alternative ways of delivering services in rural areas, where passengers are few and far between and buses are often not running half empty but totally empty. That does not make a real contribution. It is vital that we look for models, such as Bwcabus, that will serve those more rural areas in a practical way that meets the needs of our people.

Therefore, I believe that this is a useful report, and I hope that the Government will be able to take action on it in due course. However, I would like to hear from the Minister today about her intentions, and those of the Government, in seeking further powers in order to implement some of the report's recommendations.

Hoffwn innau hefyd ddiolch i'r tystion a roddodd dystiolaeth inni ar faes cymhleth iawn, y tîm clericio a'r ymchwilyr, a'n helpodd i ddeall llawer o faterion cymhleth.

Pan wnaethom ymrwymo i gynnal yr ymchwiliad hwn, nid oeddem yn ymwybodol o'r helyntion a fyddai'n ein hwynebu. Serch hynny, credaf ein bod wedi datgelu rhai materion syfrdanol na ragwelwyd y byddem yn eu hystyried. Cawsom dystiolaeth bod problemau o ran profiad cwsmeriaid o drafnidiaeth i deithwyr yng Nghymru yn aml yn deillio o broblemau cymharol sylfaenol o ran strwythurau a threfniadau llywodraethu trafndiaeth gyhoeddus. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ddielfig o gymhleth, ac roedd yn llygad ei le. Er enghraifft, un o'r pethau yr oeddem am ei ystyried oedd gwella'r wybodaeth sydd ar gael i deithwyr er mwyn iddynt allu cynllunio a pharatoi ar gyfer eu teithiau. Roedd hynny i'w weld yn nod ddigon syml. Pa mor anodd ydyw sicrhau bod amserlen ar yr arhosfan bws, bod y byrddau gwybodaeth yn gweithredu'n iawn ac y gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd? Y gwir amdani yw ei bod yn gymhleth iawn. Mae'n cynnwys technolegau GPS, pobl yn rhedeg gwahanol fathau o systemau a'r ffaith nad yw'r systemau hynny'n gydnaws â natur y bryniau sydd yma yng Nghymru a heriau daearyddol eraill. Mae'n cynnwys pethau megis pa mor aml y caiff arhosfan bws ei fandaleiddio, pa un a fydd cwmni bysiau yn ailosod amserlen newydd, faint o gwmnïau bysiau sy'n gwasanaethu'r arhosfan bysiau honno ac hyd yn oed rôl y comisiynydd traffig. Felly, caiff rhai cysyniadau sy'n ymddangos yn haniaethol iawn effaith uniongyrchol ar brofiad teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Looking at, for example, recommendation 3, which recommends the devolution of bus regulation and registration to the National Assembly, there are benefits in terms of allowing the National Assembly to have control and to judge accountability for those services and to overcome some of the language barriers and difficulties that are experienced at the office, which is currently located in the north of England. However, it would also help us to improve the flow of information on changing bus services for passengers, because one of the registration requirements is that bus companies, when they change a service, make the traffic commissioner aware of that. They send a paper form to the traffic commissioner's office. That form then has to be typed up and sent back out to any number of other places to start to communicate with the public. That is an absolutely crazy and extremely old-fashioned system. If we do get control over it here, could we not set a system that, first, is bilingual in the first instance and, secondly, is computerised, so that all of that information can go out to all of the places where it needs to be? Could we not just make sure that those are co-ordinated and controlled in a more organised fashion on a smaller basis? There are direct benefits from really quite abstract concepts. That is something that we had not necessarily anticipated when we started this inquiry.

In driving integration forward, the role of the regional consortia in Wales is crucial. It became very clear to us that, if we wanted to see true integration—and I am not just talking about through-ticketing and e-purses, but a transport system where your bus links to your train, which links to a place where you can take your bike, or that you can take your bike on to a train and continue your route via an active form of travel—we had to ensure that the regional bodies with the responsibility to deliver this have the tools to deliver this as well. It did not seem to me, from the evidence that we received, that those regional bodies that we have, the current consortia, necessarily have the resources or, indeed, the powers that they need to really be a driver of this agenda. They seem to be, in many ways, passively trying to cope with the information that they are given to manage and do not really have the capacity then to take the strategic view that is really needed.

If we want agendas like active travel to work, and if we want them to work effectively with the public transport that we pay for and support, and with private transport, too—let us be realistic; that is a part of our world as well—then we need to make sure that that strategic agenda is at the forefront and not something that is constantly on the back burner because of the pressures of the day-to-day work that they do. Passenger transport executives are an interesting model that we need to consider, and I would encourage you to do so.

Gan edrych, er enghraifft, ar argymhelliad 3, sy'n argymhell y dylid datganoli'r broses o reoleiddio a chofrestru bysiau i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae manteision o ran caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol gael rheolaeth a barnu atebolrwydd am y gwasanaethau hynny a goresgyn rhai o'r rhwystrau iaith a'r anawsterau a brofir yn y swyddfa, sydd wedi'i lleoli yng ngogledd Lloegr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai hefyd yn ein helpu i wella'r llif gwybodaeth am newid gwasanaethau bysiau i deithwyr, oherwydd un o'r gofynion cofrestru yw bod cwmnïau bysiau, pan fyddant yn newid gwasanaeth, yn hysbysu'r comisiynydd traffig o hynny. Maent yn anfon ffurflen bapur i swyddfa'r comisiynydd traffig. Wedyn rhaid i'r ffurflen honno gael ei theipio a'i dychwelyd i nifer o fannau eraill er mwyn dechrau cyfathrebu â'r cyhoedd. Mae'r system yn gwbl wallgof ac yn hen ffasiwn iawn. Os rhoddir rheolaeth inni drosti, onid allem sefydlu system sydd, yn gyntaf, yn ddwyieithog i ddechrau ac, yn ail, yn gyfrifiadurol, er mwyn sicrhau y gall yr holl wybodaeth honno gael ei hanfon i'r holl fannau y mae ei hangen? Onid allem sicrhau y caiff ei chydgysylltu a'i rheoli mewn ffordd fwy trefnus ar sail lai? Mae buddiannau uniongyrchol yn deillio o gysyniadau cymharol haniaethol. Mae hynny'n rhywbeth nad oeddem o reidrwydd wedi'i ragweld adeg dechrau'r ymchwiliad hwn.

O ran llywio'r broses integreiddio, mae rôl y consortia rhanbarthol yng Nghymru yn hollbwysig. Daeth yn amlwg iawn inni, os oeddem am integreiddio o ddifrif—ac nid sôn am docynnau trwodd ac e-bysiau yn unig mohonof, ond system drafnidiaeth lle mae eich bus yn cysylltu â'ch trêrn, sy'n cysylltu â man lle y gallwch fynd â'ch beic, neu lle y gallwch fynd â'ch beic ar drên a pharhau ar eich taith drwy ddull llesol o deithio—fod angen inni sicrhau bod gan y cyrff rhanbarthol sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith yr adnoddau i wneud hynny hefyd. Nid oedd yn ymddangos yn debyg imi, o'r dystiolaeth a gawsom, fod gan y cyrff rhanbarthol hynny sydd ar waith gennym, y consortia presennol, o reidrwydd yr adnoddau nac, yn wir, y pwerau sydd eu hangen arnynt i helpu i roi'r agenda hon ar waith o ddifrif. I raddau helaeth, ymddengys eu bod yn ceisio ymdopi mewn ffordd oddefol â'r wybodaeth a gyflwynir iddynt i'w rheoli ac nad yw'r gallu ganddynt mewn gwirionedd wedyn i fwrw ati yn y ffordd strategol sydd ei hangen.

Os ydym am gael agendâu fel teithio llesol i'r gwaith, ac os ydym am iddynt weithio'n effeithiol gyda'r drafnidiaeth gyhoeddus yr ydym yn talu amdani ac yn ei chefnogi, a chyda trafndiaeth breifat, hefyd—gadewch inni fod yn realistig; mae hynny'n rhan o'n byd hefyd—yna mae angen inni sicrhau bod yr agenda strategol honno yn chwarae rhan flaenllaw ac na chaiff ei gohirio dro ar ôl tro oherwydd pwysau'r gwaith beunyddiol a wneir ganddynt. Mae'r model gweithredol ar gyfer trafndiaeth i deithwyr yn fodel diddorol y mae angen inni ei ystyried, a byddwn yn eich annog i wneud hynny.

Finally, I will turn to the issue of planning, as there really is a need to look at that. It is especially important, if we want to see Wales change from a nation that is linked up by clogged-up roads to one that is linked up by paths and cycle paths, trains, bus routes and options for people in terms of their transport, to realise that what we have now just is not working. It is not delivering our objectives, and I do not believe that it will deliver the kind of transformational change that we want to see if the ambitions laid out in the national transport plan and the Active Travel (Wales) Bill are to become a reality.

I gloi, trof at fater cynllunio, gan fod gwir angen ystyried y mater hwnnw. Mae'n arbennig o bwysig, os ydym am i Gymru newid o fod yn wlad wedi'i chysylltu gan ffyrdd llawn traffig i wlad wedi'i chysylltu gan lwybrau a llwybrau seiclo, trenau, llwybrau bysiau ac opsiynau i bobl o ran eu trafndiaeth, inni sylweddoli nad yw'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yn gweithio. Nid yw'n cyflawni ein hamcanion, ac ni chredaf y bydd yn cyflawni'r trawsnewid yr ydym am ei weld er mwyn sicrhau y caiff yr uchelgeisiau a nodwyd yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol a'r Bil Teithio Llesol (Cymru) eu gwireddu.

15:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:12 **Edwina Hart** [Bywgraffiad Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I very much welcome the report from the Enterprise and Business Committee on integrated public transport and thank the Chair, the Members and the officials who were involved in its production. As Eluned Parrott has just illustrated, with these reports, sometimes you start off in a clear direction of travel, you think that it will take you somewhere and then all of these other issues start to tumble out with regard to the question: if we had further devolution, what is the reality of how we would operate systems better for the good of the citizen?

Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar drafndiaeth gyhoeddus integredig yn fawr iawn a hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, yr Aelodau a'r swyddogion a fu'n rhan o'r broses o'i lunio. Fel y mae Eluned Parrott newydd ei ddangos, gyda'r adroddiadau hyn, weithiau bydd gennych gyfeiriad teithio clir wrth gychwyn, gan feddwl y bydd yn eich tywys i rywle penodol ac wedyn daw'r holl faterion eraill hyn i'r amlwg mewn perthynas â'r cwestiwn: pe câi pwerau eu datganoli ymhellach, beth yw'r realiti o ran sut y byddem yn gweithredu systemau'n well er budd dinasyddion?

I have obviously considered in detail the recommendations made in the report, and I am pleased to accept the majority of the recommendations. As I outlined in my response to the committee, work on the implementation of many of the recommendations is already well under way. The Chair, when he outlined where the committee was, gave a very fair analysis of some of the key issues, whether in relation to the traffic commissioner, what is happening on rail, passenger transport authorities, or bus operators. Also, very importantly, he referred us to the issues relating to disability and access for all to public transport, which is a key issue in relation to the transport system. However, if I may, I would like to concentrate on the few recommendations that have been spoken about in particular by Members.

Yn amlwg, rwyf wedi ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad yn fanwl, ac mae'n bleser gennyf dderbyn y rhan fwyaf ohonynt. Fel yr amlinellais yn fy ymateb i'r pwyllgor, mae'r broses o roi llawer o'r argymhellion ar waith eisoes ar y gweill. Rhoddodd y Cadeirydd, wrth amlinellu lle roedd y pwyllgor arni, ddadansoddiad teg iawn o rai o'r materion allweddol, boed mewn perthynas â'r comisiynydd traffig, yr hyn sy'n digwydd o ran awdurdodau trên, awdurdodau trafndiaeth i deithwyr, neu weithredwyr bysiau. Hefyd, yn bwysig iawn, fe'n cyfeiriodd at y materion sy'n gysylltiedig ag anabledd a mynediad i bawb i drafndiaeth gyhoeddus, sy'n fater allweddol mewn perthynas â'r system drafndiaeth. Fodd bynnag, os caf, hoffwn ganolbwyntio ar y nifer fach o argymhellion y cyfeiriodd Aelodau yn benodol atynt.

Alun Ffred spoke about the devolution of powers. As he knows, we are already discussing the further devolution of rail powers with the UK Government. Decisions will be made on the basis of a comprehensive analysis and understanding of the costs and risks. There is an issue on costs and risks in these difficult times to make sure that, if you do take something over, you have the right cash put into the Welsh block grant. We would also need new powers to be accompanied by the transfer of budgets. That would be essential. We are closely involved in that process of identifying priorities as well for a new Wales and Borders franchise specification also within these discussions. That work is carrying on.

Soniodd Alun Ffred am ddatganoli pwerau. Fel y gwŷyr, rydym eisoes yn trafod datganoli rhagor o bwerau rheiffordd gyda Llywodraeth y DU. Caiff penderfyniadau eu gwneud ar sail dadansoddiad a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r costau a'r risgiau. Yn ystod y cyfnod anodd sydd ohoni, wrth ystyried costau a risgiau, mae angen sicrhau, os byddwch yn cymryd cyfrifoldeb dros rywbeth, bod gennych ddigon o arian i'w roi yng ngrant bloc Cymru. Byddai angen trosglwyddo cyllidebau hefyd i ategu unrhyw bwerau newydd. Byddai hynny'n hanfodol. Rydym yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses honno o nodi blaenoriaethau hefyd ar gyfer manyleb masnachfrait newydd Cymru a'r Gororau hefyd fel rhan o'r trafodaethau hyn. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was also particularly taken with the issues relating to the recommendations on bus regulation and powers. We obviously have to work on that. We all know that bus regulation is one of the areas that we identified collectively for further devolution in our evidence to part 2 of the Silk commission. However, it was interesting to hear what Eluned Parrott said about the way that systems work in certain offices.

That would be the challenge if we have all of this, namely, how we make those systems work. One of the key recommendations that the Chair alluded to in his remarks was about public transport integration, which I think is very important and is a priority. It is reflected in our grant programmes, for example, in the regional transport plan grant and in our approach to developing the metro concept in south-east Wales. However, from April 2013 our funding support of socially necessary bus and community transport services is aimed at encouraging multimodal and cross-boundary strategies. Future funding will depend on operators meeting the minimum quality standards that passengers wish to see, which include integration and other modes. I think this issue about how we integrate all those is particularly important. However, I was taken by some of the comments about whether the bodies that are in place dealing with these are just, as it were, administering a system or whether they have a real role and function in terms of how we should deliver that. I certainly will reflect in light of the debate today on what further work I might have to do in that area.

I also think that much has been made by a number of people, including Byron Davies and various others, about their concerns regarding planning issues. It is not the intention of the Bill to cover policy issues that have already been addressed by the planning policy framework for Wales. 'Planning Policy Wales' and TAN 18 already require new developments to be built in locations that are accessible by integrated public transport. There is already a duty to consult the highway authority—I see the paperwork myself—and Welsh Ministers in relation to planning applications for major developments. I understand that there was concern in the committee that nothing immediately had been done on this agenda, but that is the current position of the Government. However, I notice that the previous Minister for transport and the current Minister for planning has sat through the debate and I am sure that he will take on board some of the further comments made to see if we can do anything further around that particular issue.

Fe'm trawyd hefyd gan y materion sy'n gysylltiedig â'r argymhellion ar reoleiddio bysiau a'r pwerau cysylltiedig. Yn amlwg, rhaid inni weithio ar hynny. Gŵyr pob un ohonom fod rheoleiddio bysiau yn un o'r meysydd a nodwyd gennym fel maes y dylid ei ddatganoli ymhellach yn ein tystiolaeth i ran 2 o gomisiwn Silk. Fodd bynnag, roedd yn ddiddorol clywed yr hyn a ddywedodd Eluned Parrott am y ffordd y mae systemau'n gweithio mewn rhai swyddfeydd penodol.

Dyna fyddai'r her pe bai hyn oll yn cael ei roi ar waith, sef sut i wneud i'r systemau hynny weithio. Roedd a wnelo un o'r argymhellion allweddol y soniodd y Cadeirydd amdano yn ei sylwadau ag integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n bwysig iawn, yn fy marn i, ac yn flaenoriaeth. Caiff ei adlewyrchu yn ein rhaglenni grant, er enghraifft, yng ngrant y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ac yn ein dull o ddatblygu cysyniad y metro yn y de-ddwyrain. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2013, mae ein cymorth ariannol i wasanaethau trafnidiaeth gymunedol a bysiau sy'n gymdeithasol angenrheidiol wedi'i anelu at annog strategaethau amlfodd a thrawsffiniol. Bydd cyllid yn y dyfodol yn dibynnu ar ba un a fydd gweithredwyr yn bodloni'r safonau ansawdd gofynnol y mae teithwyr am eu gweld, sy'n cynnwys integreiddio a moddau eraill. Credaf fod y mater hwn o ran sut y cânt oll eu hintegreiddio yn bwysig iawn. Fodd bynnag, fe'm trawyd gan rai o'r sylwadau ynghylch pa un a yw'r cyrff a sefydlwyd i ymdrin â'r rhain yn syml, fel petai, yn gweinyddu system neu a oes ganddynt rôl a swyddogaeth wirioneddol o ran sut y dylem ei rhoi ar waith. Yn sicr, yn dilyn y ddadl heddiw, byddaf yn ystyried pa waith pellach y bydd yn rhaid imi ei wneud o bosibl yn y maes hwnnw.

Credaf hefyd fod pwys mawr wedi'i roi gan nifer o bobl, gan gynnwys Byron Davies ac amryw o rai eraill, ar eu pryderon o ran materion cynllunio. Nid ymdrin â materion polisi yr ymdrinwyd â hwy eisoes gan y fframwaith polisi cynllunio i Gymru yw diben y Bil. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' a TAN 18 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gael eu hadeiladu mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus integredig. Mae dyletswydd eisoes i ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd—gwelaf y gwaith papur fy hun—a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr. Deallaf fod pryder yn y pwyllgor na wnaed unrhyw beth ar unwaith mewn perthynas â'r agenda hon, ond dyna safbwynt presennol y Llywodraeth. Fodd bynnag, sylwaf fod y cyn-Weinidog Trafnidiaeth a'r Gweinidog Cynllunio presennol wedi eistedd drwy'r ddadl ac rwy'n siŵr y gwnaiff ystyried rhai o'r sylwadau pellach a wnaed er mwyn gweld a allwn wneud unrhyw beth arall mewn perthynas â'r mater penodol hwnnw.

We have had a lot of discussion, of course, in recent weeks with my colleague John Griffiths about how we are going to deal with the Active Travel (Wales) Bill and how the links between public transport and active travel provision can be included in the delivery guidance for the Active Travel (Wales) Bill. I think that we need to do more to encourage bus operators to consult passengers on the demand for bike-carrying facilities, because it fits in very nicely with this agenda. The timeliness of services and on-board spaces are issues that affect the provision of buses and trains. Therefore, I think further work, definitely, has to be done in that area. We talk about encouraging, but perhaps, when we are looking at grant mechanisms to these operators to allow them to run services, we should go a stage further and be bit stronger in our engagement with them on these particular issues. I have obviously accepted the recommendation on integrated transport task forces, because I think it is important that I look at the arrangements for the co-ordination and delivery of transport and highways services at a local, regional and national level to see what improvements can be made.

One of the key issues that also emerged—I think it was from Keith Davies’s comments on this—was that we have to look at a transport poverty issue and the paucity issues of people’s availability. That came out in questions to me today, for example, where people are located, and where services come from. This is a key issue with it, because if you are excluded in respect of the income that you have where you live, it is important that we try to address that imbalance in terms of where we are and what we can do within the confines of the budget. This report has now given us an opportunity to focus very well on some of these other issues.

In terms of bus services, bus regulations are non-devolved matters. I accept the underlying principle of greater regulation of the bus market. Local authorities already have the powers to make bus quality contracts, which are franchises. I am using our funding to leverage better outcomes on this. This might start to include quality partnership schemes between local authorities and bus operators as part of this, and the provision of accessible and up-to-date information. You are right that bus shelters get vandalised and there is no information, and something happens to signs and there is no information, and that is very irritating for passengers and it does not encourage people to use public transport if they are not aware of what is going on with routes et cetera.

Bu cryn drafod, wrth gwrs, yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda’m cyd-Weinidog John Griffiths o ran sut yr awn ati i ymddrin â’r Bil Teithio Llesol (Cymru) a sut y gellir cynnwys y cysylltiadau rhwng trafndiaeth gyhoeddus a darpariaeth teithio llesol yn y canllawiau cyflenwi ar gyfer y Bil Teithio Llesol (Cymru). Credaf fod angen inni wneud mwy i annog gweithredwyr bysiau i ymgynghori â theithwyr ar y galw am gyfleusterau cludo beiciau, gan ei fod yn hollol gydnaws â’r agenda hon. Mae prydlondeb gwasanaethau a gofod priodol yn faterion sy’n effeithio ar ddarpariaeth bysiau a threnau. Felly, credaf, yn bendant, fod yn rhaid gwneud rhagor o waith yn y maes hwnnw. Rydym yn sôn am annog, ond efallai, wrth ystyried systemau grant i’r gweithredwyr hyn er mwyn caniatáu iddynt ddarparu gwasanaethau, y dylem fynd gam ymhellach ac ymgysylltu fwy â hwy ar y materion penodol hyn. Yn amlwg, derbynias yr argymhelliad ar dasgluoedd trafndiaeth integredig, gan fy mod o’r farn ei bod yn bwysig imi ystyried y trefniadau ar gyfer cydgysylltu a darparu gwasanaethau trafndiaeth a phriffyrdd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er mwyn gweld pa welliannau y gellir eu gwneud.

Un o’r materion allweddol eraill a ddaeth i’r amlwg—credaf mai Keith Davies a wnaeth sylwadau yn hyn o beth—oedd bod angen inni ystyried tloedi trafndiaeth a phroblemau o ran diffyg argaeledd pobl. Daeth hynny i’r amlwg mewn cwestiynau imi heddiw, er enghraifft, lleoliad pobl, a tharddiad gwasanaethau. Mae hyn yn fater allweddol yn hyn o beth, oherwydd os caiff eich allgáu o ran yr incwm sydd gennych lle rydych yn byw, mae’n bwysig inni geisio ymddrin â’r anghydbwysedd hwnnw o ran y sefyllfa sydd ohoni a beth y gallwn ei wneud o fewn cyfyngiadau’r gyllideb. Mae’r adroddiad hwn yn awr wedi rhoi cyfle inni ganolbwyntio o ddirif ar rai o’r materion eraill hyn.

O ran gwasanaethau bysiau, nid yw rheoliadau bysiau yn fater datganoledig. Derbynias yr egwyddor sylfaenol fod angen rheoleiddio’r farchnad bysiau yn well. Eisoes mae gan awdurdodau lleol y pwerau i lunio contractau ansawdd bysiau, sydd ar ffurf masnachfreintiau. Rwy’n defnyddio ein harian i anelu at well canlyniadau yn hyn o beth. Gallai hyn ddechrau cynnwys cynlluniau partneriaeth o ansawdd rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau fel rhan o hyn, a darparu gwybodaeth hygrych a chyfredol. Rydych yn iawn bod arosfannau bysiau yn cael eu fandaleiddio ac nad oes unrhyw wybodaeth, a bod pethau yn digwydd i arwyddion ac nad oes unrhyw wybodaeth, ac mae hynny’n rhwystredig iawn i deithwyr ac nid yw’n annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus os nad ydynt yn ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd o ran llwybrau ac ati.

Currently, we fund three full-time bus compliance officers. I am committed to continuing to support this activity. This report has gone a long way in developing our thoughts about what we do in terms of public transport. Even if you look lightly at recommendation 16 on public transport interchanges, the future funding of our bus services would depend on bus operators and others meeting quality standards about interchanges, and we have supported the development of a number of public transport interchanges in Wales. The point about public transport is that it is a vast agenda, there is limited resource, and we have to work smarter in terms of how we allocate resources and what we do. So, I am delighted to support the report today. In terms of the in-principle recommendations, if it would be helpful to Members, specifically on those, I will provide an update in the autumn on the progress that we are making on them.

Ar hyn o bryd, rydym yn ariannu tri swyddog cydymffurfiaeth bysiau llawn amser. Rwy'n ymrwymedig i barhau i gefnogi'r gweithgaredd hwn. Mae'r adroddiad hwn wedi llwyddo i ddatblygu ein syniadau o ran beth a wnawn mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus. Hyd yn oed os ystyriwch argymhellid 16 ar gyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus ar yr wyneb, byddai ariannu ein gwasanaethau bws yn y dyfodol yn dibynnu ar weithredwyr bysiau ac eraill yn cyrraedd safonau ansawdd mewn perthynas â hynny, ac rydym wedi cefnogi cynigion i ddatblygu nifer o gyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn agenda helaeth, mae'r adnoddau ar ei chyfer yn gyfyngedig, a rhaid inni weithio'n ddoethach o ran sut y caiff adnoddau eu dyrannu a beth a wnawn. Felly, mae'n bleser gennyf gefnogi'r adroddiad heddiw. O ran yr argymhellion mewn egwyddor, os byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau, cyflwynaf ddiweddariad yn yr hydref, yn benodol ar yr argymhellion hynny, ar y cynnydd a wnaed gennym.

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:20 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, for those comments. I thank everyone who has contributed to today's debate; I think that it has been a really good debate on the back of what was a very useful, thorough and engaging inquiry.

Diolch, Weinidog, am y sylwadau hynny. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw; credaf inni gael dadl dda iawn yn seiliedig ar ymchwiliad trwyadl, diddorol a defnyddiol iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Turning to some of the points made by the various speakers, I thank Keith Davies for the points that you made. Key to what you said, Keith, was the importance of a local management model, which ties in with the idea of the Assembly having further powers in this area, not just residing here, but also allowing local areas to develop their own models that are suited to their particular problems and issues, and to respond to customers' needs in those areas. I think that that was a very important point. You also mentioned the need for co-ordination, and the need to look again at how lines such as the Heart of Wales line can be best supported. It is great that lines such as that have survived over the years, but it is not enough for them to survive—we need to support and encourage their growth in the future.

Gan droi at rai o'r pwyntiau a wnaed gan y gwahanol siaradwyr, hoffwn ddiolch i Keith Davies am y pwyntiau a wnaethoch. Roedd pwysigrwydd model rheoli lleol yn allweddol i'r hyn a ddywedasoch, Keith, sy'n cyd-fynd â'r syniad o bwerau ychwanegol i'r Cynullid yn y maes hwn, nid yn unig yma, ond gan roi cyfle hefyd i ardaloedd lleol ddatblygu eu modelau eu hunain sy'n addas ar gyfer eu problemau a'u materion penodol hwy, ac i ymateb i anghenion cwsmeriaid yn yr ardaloedd hynny. Credaf fod hynny'n bwynt pwysig iawn. Gwnaethoch sôn hefyd fod angen cydgysylltu, a bod angen ystyried unwaith eto y ffordd orau o gefnogi llinellau fel llinell Calon Cymru. Mae'n ardderchog bod llinellau o'r fath wedi goroesi dros y blynyddoedd, ond nid yw'n ddigon iddynt oroesi—mae angen inni gefnogi ac annog eu twf yn y dyfodol.

Byron Davies spoke of voluntary partnership agreements. I liked the phrase that you used when you spoke of it as being a 'nervous' industry. I know that the Minister was nodding at that point as well. We need to deal with that nervousness, because if the industry is nervous, it will be worried about making changes in the future and we are not going to have the transformational change that we need, certainly not the change that the customers—the people of Wales—who want to use that service need.

Soniodd Byron Davies am gytundebau partneriaeth gwirfoddol. Roeddwn yn hoffi'r ymadrodd a ddefnyddiwyd gennych wrth sôn amdano fel diwydiant 'nerfus'. Gwn fod y Gweinidog yn amneidio â'i ben ar y pwynt hwnnw hefyd. Mae angen inni ymdrin â'r nerfusrwydd hwnnw, oherwydd os yw'r diwydiant yn nerfus, bydd yn pryderu am wneud newidiadau yn y dyfodol ac ni chawn y trawsnewid sydd ei angen arnom, yn sicr ni chawn y newid sydd ei angen ar y cwsmeriaid—sef pobl Cymru—sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw.

You spoke about the usual problems—the lack of interconnection and the lack of intercommunication—which were points that I made in my opening remarks. These clearly need to be dealt with. Like you, I am also unhappy with the rejection of recommendation 6. I am pleased that the other recommendations have been taken on board, but it is short-sighted not to allow a planning reform Bill to look more seriously at the issues that have been raised.

Alun Ffred Jones referred to the Silk commission, and reinforced the need for the devolution of powers in certain transport areas so that the Welsh Government can start to get to grips with some of the problems facing our public transport infrastructure. You also said that the status quo is not acceptable. You said that bus services can and should work together and that we need to integrate timetables. You also made the point that although we looked at all aspects of public transport, for many people bus services are what they use most on a daily basis. If we do not get that part of the chain right, there is no point in us trying to address the other issues further down the line.

Eluned Parrott, in her characteristic frank fashion, spoke of the can of worms that the committee had not realised it was opening. Actually, I think that you realised full well what can of worms we were opening, Eluned Parrott—I was aware of it too—but perhaps we did not care and felt that it was about time that it was opened again to try to deal with some of the problems. You spoke about the difficulties of even providing timetables in some areas, and the fact that the sustainability of the timetables that are provided is often dependent on local vandalism rates, crime, how often they are monitored and the companies that use those particular areas. I sense that you thought that we needed to co-ordinate all these different areas. I have to repeat this: you cited the old-fashioned, crazy, monolingual bureaucracy—actually, I am paraphrasing you slightly there, but that is what I would have said if I had been saying it—currently running services from the north of England—again, in your characteristically frank fashion—and the need for us to localise resources here, as Keith Davies said.

Gwnaethoch sôn am y problemau arferol—diffyg rhyng-gysylltedd a'r diffyg trefniadau rhyng-gyfathrebu—sef pwyntiau a wneuthum yn fy sylwadau agoriadol. Yn amlwg, mae angen ymdrin â'r rhain. Fel chithau, nid wyf yn fodlon bod argymhelliad 6 wedi'i wrthod. Rwy'n falch bod yr argymhellion eraill wedi'u derbyn, ond mae'n annoeth peidio â rhoi cyfle i Fil diwygio cynllunio roi ystyriaeth fwy gofalus i'r materion a godwyd.

Cyfeiriodd Alun Ffred Jones at gomisiwn Silk, ac atgyfnerthodd yr angen i ddatganoli pwerau mewn rhai meysydd trafniadaeth penodol fel y gall Llywodraeth Cymru ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n wynebu ein seilwaith trafniadaeth gyhoeddus. Dywedasoeh hefyd nad yw'r sefyllfa fel ag y mae yn dderbyniol. Dywedasoeh y gall gwasanaethau bws gydweithio ac y dylent wneud hynny a bod angen inni integreiddio amserlenni. Gwnaethoch y pwynt hefyd, er ein bod wedi ystyried pob agwedd ar drafniadaeth gyhoeddus, mae gwasanaethau bws a ddefnyddir fwyaf gan lawer o bobl o ddydd i ddydd. Os na fydd y rhan honno o'r gadwyn yn iawn, nid oes diben inni geisio ymdrin â'r materion eraill wedi hynny.

Soniodd Eluned Parrott, gan siarad yn blwmp ac yn blaen fel arfer, am yr helyntion na sylweddolodd y pwyllgor y byddai'n eu hwynebu. A dweud y gwir, credaf eich bod yn gwybod yn iawn pa helyntion a fyddai'n ein hwynebu, Eluned Parrott—roeddwn inau hefyd yn ymwybodol ohonynt—ond efallai nad oedd ots gennym a'n bod o'r farn ei bod yn hen bryd inni eu hwynebu er mwyn ceisio ymdrin â rhai o'r problemau. Gwnaethoch sôn am anawsterau hyd yn oed i ddarparu amserlenni mewn rhai ardaloedd, a'r ffaith bod cynaliadwyedd yr amserlenni a ddarperir yn aml yn dibynnu ar gyfraddau fandaliaeth lleol, troseddau, pa mor aml y cânt eu monitro a'r cwmnïau sy'n defnyddio'r ardaloedd penodol hynny. Synhwyraf eich bod o'r farn bod angen inni gydgyssylltu'r holl wahanol feysydd hyn. Rhaid imi ailadrodd hyn: gwnaethoch gyfeirio at y fiwrocratiaeth uniaith wirion, hen ffasiwn—a dweud y gwir, rwy'n aralleirio ychydig, ond dyna y byddwn i wedi'i ddweud petawn wedi'i ddweud—sy'n rhedeg gwasanaethau o ogledd Lloegr ar hyn o bryd—unwaith eto, gwnaethoch siarad yn blwmp ac yn blaen fel arfer—a'r angen inni dargedu adnoddau yn lleol yng Nghymru, fel y dywedodd Keith Davies.

15:24 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad Biography](#)

An important point is that every bus shelter should have a street light nearby. Vandalism of bus shelters is terrible because there are no street lights there. That is certainly true in the Newport area.

Pwynt pwysig yw y dylai fod goleuadau stryd gerllaw pob arhosfan bws. Mae lefelau fandaliaeth mewn perthynas ag arosfannau bws yn warthus oherwydd nad oes goleuadau stryd yno. Mae hynny'n sicr yn wir yn ardal Casnewydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:24 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

It is a point well made, Oscar. It is always good to have Members contributing who are not on the committee, so thank you for that.

Mae hynny'n bwynt da, Oscar. Mae bob amser yn dda cael cyfraniad gan Aelodau nad ydynt ar y pwyllgor, felly diolch am hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, turning briefly to your comments, thank you for accepting most of the recommendations. You mentioned minimum standards and I am pleased that you realise that some of the bodies need to be looked at afresh—they need to do what they say on the tin or the can, if I go back to Eluned Parrot's comments. It is not enough for them simply to be part of an administrative system, sometimes responding to problems and issues of yesteryear when what we all need, of course, is for them to respond, first, to the problems of today and then to look at the problems that are going to face us further down the line.

I really would urge the Welsh Government to reconsider the rejection of recommendation 6 or, at the very least, to look at some way of addressing the concerns that have been raised. If we cannot get the planning side right, I really think that there is going to be a big hole at the centre of Welsh Government public transport strategy. You seem to be very understanding in your comments about the need for greater co-ordination and we will certainly be following developments very closely. The committee is not just looking at this and intending to leave it and move on. We are going to continue to monitor this and to make sure that what has happened too often in the past, where these issues are raised, a lot of fuss is made and then they die away and the public is still faced with the same issues year after year. We do not want that to happen.

On transport poverty, I would simply say, yes, it is out there. We all know that. Let us do something about it and develop a public transport system that is suited to the twenty-first century, and not a system, as I think it is in some cases, that is more suited to the nineteenth century. Thank you to all who have contributed to today's debate. It was a fascinating report to be involved in and I look now for action from the Welsh Government.

Weinidog, gan droi'n fyr at eich sylwadau, diolch am dderbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion. Gwnaethoch sôn am safonau gofynnol ac rwy'n falch eich bod yn sylweddoli bod angen edrych o'r newydd ar rai o'r cyrff—mae angen iddynt wneud yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud, os dychwelaf at sylwadau Eluned Parrot. Nid yw'n ddigon iddynt fod yn rhan o system weinyddol, sydd weithiau'n ymateb i broblemau a materion y gorffennol. Yr hyn sydd ei angen arnom, wrth gwrs, yw iddynt ymateb, yn gyntaf, i broblemau'r oes sydd ohoni ac wedyn ystyried y problemau fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol.

Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru o ddirif i ailystyried ei phenderfyniad i wrthod argymhelliad 6 neu, o leiaf, i ystyried rhyw ffordd o ymdrin â'r pryderon a godwyd. Os na allwn gael yr ochr gynllunio yn iawn, credaf o ddirif y bydd twll mawr yng nghanol strategaeth trafnidiaeth gyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ymddengys yn eich sylwadau eich bod yn deall yn iawn yr angen i gydgyssylltu'n well ac yn sicr, byddwn yn dilyn hynt datblygiadau yn agos iawn. Nid bwriad y pwyllgor yw ystyried y mater ac wedyn ei adael a symud ymlaen. Rydym yn bwriadu parhau i fonitro'r sefyllfa a sicrhau na fydd yr hyn sydd wedi digwydd yn rhy aml yn y gorffennol yn digwydd eto, sef bod y materion hyn yn cael eu codi, bod llawer o hynt a helynt yn eu cylch a'u bod wedyn yn mynd yn angof gan olygu bod y cyhoedd yn wynebu'r un problemau o hyd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nid ydym am i hynny ddigwydd.

O ran tlodi trafnidiaeth, byddwn yn dweud yn syml, ydy, mae'n bodoli. Mae pob un ohonom yn gwybod hynny. Gadewch inni wneud rhywbeth am y peth a datblygu system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac nid system, fel y credaf sy'n wir mewn rhai achosion, sy'n fwy addas ar gyfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl heddiw. Roedd yn adroddiad diddorol i fod yn rhan ohono ac edrychaf ymlaen yn awr at weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu.

15:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections, so the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.26 p.m.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion agreed.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.26 p.m.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:26 **Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020: Cyfnod 2**

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i wneud y cynnig.

Cynnig NDM5284 Nick Ramsay

The Enterprise and Business Committee's Report on Horizon 2020: Stage 2

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to move the motion.

Motion NDM5284 Nick Ramsay

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad Cyfnod 2 y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Horizon 2020, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2012.

Notes the Stage 2 report of the Enterprise and Business Committee on the inquiry into Horizon 2020, which was laid in the Table Office on 31 May 2012.

15:27

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move the motion.

Cynigiad y cynnig.

It is the Nick Ramsay show today, is it not? Again, thank you, Deputy Presiding Officer. As Chair of the Enterprise and Business Committee I am pleased to be able to open this debate on our stage 2 report on Horizon 2020. It is a particularly topical subject given that the Irish presidency has only recently secured agreement on the new programme. Horizon 2020 is the European Union's proposed research and innovation fund to succeed the framework 7 research programme. It is worth €70 billion and presents an invaluable opportunity for Wales to exploit opportunities in the field of research and innovation.

Rwy'n credu mai sioe Nick Ramsay ydyw heddiw? Unwaith eto, diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes rwy'n falch o gael agor y ddadl hon ar ein hadroddiad cam 2 ar Horizon 2020. Mae'n bwnc arbennig o amserol o gofio mai dim ond yn ddiweddar y mae llywyddiaeth Iwerddon wedi sicrhau cytundeb ynglŷn â'r rhaglen newydd. Horizon 2020 yw cronfa ymchwil ac arloesedd arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd i olynu'r rhaglen ymchwil fframwaith 7. Mae'n werth €70 biliwn ac mae'n cynnig cyfle amhrisiadwy i Gymru fanteisio ar gyfleoedd ym maes ymchwil ac arloesedd.

It is a pleasure to be talking about this issue within the spirit of the Welsh Government's recent policy statement on higher education. That policy focuses heavily on the importance of the Welsh higher education sector in stimulating innovation, job growth and creating high-value industrial clusters and taking advantage of European funding to support those activities. It also underlines the importance of increasing the mobility of research staff, their capacity to network with international peers and their ability to engage fully with competitive research funding processes.

Mae'n bleser cael trafod y mater hwn o fewn ysbryd datganiad polisi diweddar Llywodraeth Cymru am addysg uwch. Mae'r polisi hwnnw yn canolbwyntio cryn dipyn ar bwysigrwydd y sector addysg uwch yng Nghymru i ysgogi arloesedd, twf swyddi a chreu dystyrau diwydiannol gwerth uchel a manteisio ar arian Ewropeaidd i gefnogi'r gweithgareddau hynny. Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd cynyddu symudedd staff ymchwil, eu gallu i ymwdeithio gyda chymheiriaid rhyngwladol a'u gallu i ymgysylltu'n llawn â phrosesau ariannu ymchwil cystadleuol.

May I say at this point that I am grateful to the organisations and individuals that engaged with us during our inquiry, particularly the witnesses from Scotland and Ireland, and also the pro vice-chancellor and senior staff of Cardiff University who hosted our visit at the start of the year? Our report has also drawn on the conversations that we held in Brussels last autumn with key players in the European Commission and European Parliament, and I am grateful to Gregg Jones, the head of the Assembly's office in Brussels, for organising those meetings. He did a sterling job.

A gaf ddweud yn y fan hon fy mod yn ddiolchgar i'r sefydliadau a'r unigolion a gymerodd ran yn ein hymchwiliad, yn enwedig y tystion o'r Alban ac Iwerddon, a hefyd ddirprwy is-ganghellor ac uwch staff Prifysgol Caerdydd a'n croesawodd ar ymweliad ar ddechrau'r flwyddyn? Mae ein hadroddiad hefyd wedi ymgorffori'r sgyrsiau a gynhaliwyd gennym ym Mrwsel yr hydref diwethaf gydag unigolion allweddol yn y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop, ac rwy'n ddiolchgar i Gregg Jones, pennaeth swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, am drefnu'r cyfarfodydd hynny. Gwnaeth waith ardderchog.

The report that we are debating today follows publication of our report in July last year, which called for Wales to be more streetwise in accessing EU research funding, and to achieve greater synergies between projects funded through Horizon 2020 and EU structural funds. I am therefore pleased that the Government's policy statement on higher education agrees that Wales must have a more joined-up approach in using structural funds and Horizon 2020 to link investment in jobs and infrastructure with investment in research and innovation.

Mae'r adroddiad yr ydym yn ei drafod heddiw yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Gorffennaf y llynedd, a alwodd am i Gymru i fod yn fwy clyfar wrth gael gafael ar gyllid ymchwil yr UE, a sicrhau mwy o synergedd rhwng y prosiectau a ariennir drwy Horizon 2020, a chronfeydd strwythurol yr UE. Felly, rwy'n falch bod datganiad polisi'r Llywodraeth am addysg uwch yn cytuno bod yn rhaid cael dull mwy cydgysylltiedig o ddefnyddio cronfeydd strwythurol a Horizon 2020 yng Nghymru er mwyn cysylltu buddsoddiad mewn swyddi a seilwaith â buddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd.

May I thank the Minister for her positive, prompt and considered response to our stage 2 report, in which she accepts 10 of our recommendations in full and seven in principle? One of our recommendations this time around was for the Welsh Government to provide an update on progress against the 16 recommendations from our first report on Horizon 2020, and I am grateful to the Minister for her update on each of those points.

I wish to highlight three key themes that emerged from our stage 2 inquiry. First, our main message to the Minister is that the Welsh Government needs to strengthen its strategic approach to Horizon 2020 so that Wales can maximise the opportunities that will be available under the new framework, particularly by capitalising more on Wales's strengths in accessing the funding. The Enterprise and Business Committee was struck by the focus and energy of the approach that has been developed in Scotland, as well as in Ireland, in preparing to secure funding from Horizon 2020. Both countries have brought together all the key players in research and innovation. We were concerned that Wales could already be falling behind in its preparations to engage in the new framework. It is therefore essential that the Government look at the strategic approaches that have been developed in Ireland, as well as in Scotland, so that good practice can be applied in a Welsh context to facilitate full engagement with the Horizon 2020 framework. I am pleased that the Minister has accepted this recommendation.

The second main conclusion of the committee is that Wales needs to focus on working 'on the inside' in Europe to benefit from the new funding programmes. We have recommended that the Welsh Government develop and manage flexible support schemes that encourage and sustain individual academics and researchers from Wales in engaging with European networks.

Key to Wales's success in this is the role of the new Horizon 2020 unit that has been established by the Welsh Government within the context of the Welsh European Funding Office. We outlined some tasks for the new Horizon 2020 unit, such as raising Wales's profile in Europe and brokering partnerships between European industry and academic and research institutions to ensure that innovative research carried out in Wales goes on to bear fruit in the commercial world. We further underlined the importance of getting the right technical and scientific expertise into the support structures in Wales. We therefore recommended that staff within the new WEFO unit have the necessary mix of technical, scientific and business skills and expertise that have proved so successful in other European regions. The Minister's response states that the new unit will have access to that body of expertise, rather than have the expertise embedded within the unit itself. I am not sure that this will give the new unit the credibility or the edge necessary to operate as effectively as similar units in Ireland and Scotland, and, indeed, in the Spanish regions of Aragon and Catalonia, which, we found, have the in-house skills that allow them to engage their business and research sectors fully.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb cadarnhaol, amserol ac ystyriol i'n hadroddiad cam 2, lle mae'n derbyn 10 o'n hargymhellion yn llawn a saith mewn egwyddor. Un o'n hargymhellion y tro hwn oedd y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn yr 16 argymhelliad yn ein hadroddiad cyntaf ar Horizon 2020, ac rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am roi'r newyddion diweddaraf am bob un o'r pwyntiau hynny.

Hoffwn dynnu sylw at dair thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'n hymchwiliad cam 2. Yn gyntaf, ein prif neges i'r Gweinidog yw bod angen i Lywodraeth Cymru gryfhau'r ffordd y mae'n ymdrin â Horizon 2020 yn strategol er mwyn i Gymru gael manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a fydd ar gael o dan y fframwaith newydd, yn enwedig drwy fanteisio mwy ar gryfderau Cymru o ran cael gaffael ar y cyllid. Gwnaeth ffocws ac egni'r dull gweithredu a ddatblygwyd yn yr Alban, yn ogystal ag yn Iwerddon, wrth baratoi i sicrhau cyllid gan Horizon 2020 greu argraff ar y Pwyllgor Menter a Busnes. Mae'r ddwy wlad wedi dwyn ynghyd yr holl bobl allweddol ym maes ymchwil ac arloesedd. Roeddem yn pryderu y gallai Cymru eisoes fod ar ei hôl hi yn ei pharatoadau i gymryd rhan yn y fframwaith newydd. Felly, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn ystyried y dulliau strategol sydd wedi'u datblygu yn Iwerddon, yn ogystal ag yn yr Alban, fel y gellir defnyddio arfer da yng nghyd-destun Cymru i hwyluso ymgysylltu llawn â fframwaith Horizon 2020. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

Ail brif gasgliad y pwyllgor yw bod angen i Gymru ganolbwyntio ar weithio 'ar y tu mewn' yn Ewrop er mwyn manteisio ar y rhaglenni ariannu newydd. Rydym wedi argymhellu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a rheoli cynlluniau cymorth hyblyg sy'n annog ac yn cynnal academyddion ac ymchwilwyr unigol o Gymru wrth ymgysylltu â rhwydweithiau Ewropeaidd.

Yr allwedd i lwyddiant Cymru yn hyn o beth yw rôl yr uned Horizon 2020 newydd sydd wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru o fewn cyd-destun Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Amlinellwyd rhai tasgau i'r uned Horizon 2020 newydd gennym, megis codi proffil Cymru yn Ewrop a llunio partneriaethau rhwng diwydiant Ewropeaidd a sefydliadau academiaidd ac ymchwil er mwyn sicrhau y bydd ymchwil arloesol a wneir yng Nghymru yn dwyn ffrwyth yn y byd masnachol. Pwysleisiwyd ymhellach pa mor bwysig yw cael yr arbenigedd technegol a gwyddonol cywir o fewn strwythurau cymorth yng Nghymru. Felly, argymhellwyd gennym fod y staff yn yr uned newydd yn WEFO yn meddu ar y cymysgedd angenrheidiol o sgiliau ac arbenigedd technegol, gwyddonol a busnes a fu mor llwyddiannus mewn rhanbarthau eraill yn Ewrop. Noda ymateb y Gweinidog y bydd yr uned newydd yn cael mynediad at y corff hwnnw o arbenigedd, yn hytrach na bod yr arbenigedd yn cael ei ymgorffori yn yr uned ei hun. Nid wyf yn siŵr a fydd hyn yn rhoi'r hygredd na'r fantais angenrheidiol i'r uned newydd er mwyn gweithredu mor effeithiol ag unedau tebyg yn Iwerddon a'r Alban, ac, yn wir, yn rhanbarthau Aragon a Chatalonia yn Sbaen, sydd, fel y gwelwch, â'r sgiliau mewnol sy'n eu galluogi i gynnwys eu sectorau busnes ac ymchwil yn llawn.

The third main conclusion of our report is that it is vital that there should be closer relationships between the business and higher education sectors. This is especially important given that Horizon 2020 is expected to place a much stronger emphasis on multi-disciplinary research, and the greater priority that it will give to innovation and the commercialisation of research outcomes. We believe that there needs to be clarity regarding whether Wales has the right coherent partnerships and leadership in place to drive forward the Science for Wales and innovation strategies with engagement in Horizon 2020.

Perhaps I could end with one final suggestion, which the Minister has accepted in full, which is for Wales to host a Horizon 2020 conference or science week in Wales to raise the profile of European Union funded research, the point being to broker ideas and to showcase successful projects. In particular, there is an urgent need to raise awareness of the opportunities for Welsh institutions and businesses offered by the new programme of knowledge and innovation communities—or KICs for short—something that was close to Ken Skates's heart when he was on the committee. We looked closely at knowledge and innovation communities and at how they can work. That process will commence in 2018, and Wales needs to be prepared for that. Minister, we need to start building now the strategic capacity for Welsh partners to engage with those knowledge and innovation communities.

In conclusion, one of our witnesses described the current approach to gearing up to Horizon 2020 as not so much strategy as serendipity. I believe that, in our report and recommendations, my committee has presented the Welsh Government with a solid suite of ideas for developing a more strategic approach to bringing in the business and research sectors in effectively engaging at a European level. I very much look forward to hearing what other committee members, as well as the Minister, have to say during the debate.

15:34

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am also very happy to take part in this debate. It seems, having read the response of the Welsh Government, that our report has been accepted more or less in full, with all of the recommendations accepted either in full or in principle. A lot of my thunder has been stolen already by the chairman, Nick Ramsay, but I would like to touch on a couple of issues.

Before briefly touching on the report, I would like to reiterate his point and dwell on the energy and drive of the approaches seen in Scotland and Ireland in preparing for Horizon 2020. I know that Nick Ramsay touched on this briefly, but I was really taken aback by their focus in bringing together the key players within their respected nations. The new framework, which requires a seamless link between research and innovation, is clearly advanced in both their arenas. I genuinely think we can learn a great deal from their approach.

Trydydd prif gasgliad ein hadroddiad yw ei bod yn hanfodol bod cydberthnasau agosach rhwng byd busnes a'r sector addysg uwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio bod disgwyl i Horizon 2020 roi pwyslais llawer cryfach ar ymchwil amlddisgyblaethol, a'r flaenoriaeth uwch y bydd yn ei rhoi i arloesedd a masnacheiddio canlyniadau ymchwil. Credwn fod angen eglurder o ran a oes gan Gymru y partneriaethau cydlynol cywir a'r arweinyddiaeth ar waith i fwrw ymlaen â Gwyddoniaeth i Gymru a strategaethau arloesedd o ran ymgysylltu â Horizon 2020.

Hoffwn offren gydag un awgrym arall, y mae'r Gweinidog wedi ei dderbyn yn llawn, sef bod Cymru yn cynnal cynhadledd neu wythnos wyddoniaeth Horizon 2020 yng Nghymru er mwyn codi proffil ymchwil a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, gyda'r nod o gyfnwid syniadau ac arddangos prosiectau llwyddiannus. Yn benodol, fel mater o frys, mae angen codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae'r rhaglen newydd o gymunedau gwybodaeth ac arloesedd newydd—neu KICs yn fyr—yn eu cynnig i sefydliadau a busnesau yng Nghymru, sef rhywbeth a oedd yn agos at galon Ken Skates pan oedd ar y pwyllgor. Edrychwyd yn fanwl ar gymunedau gwybodaeth ac arloesedd ac ar y ffordd y gallant weithio. Bydd y broses honno yn dechrau yn 2018, ac mae angen i Gymru fod yn barod am hynny. Weinidog, mae angen inni ddechrau yn awr ar y gwaith o feithrin y gallu strategol i bartneriaid yng Nghymru ymgysylltu â'r cymunedau gwybodaeth ac arloesedd hynny.

I gloi, dywedodd un o'n tystion fod y ffordd yr eir ati ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer Horizon 2020 nid yn gymaint yn strategaeth ond yn enghraifft o serendipedd. Credaf, yn ein hadroddiad a'n hargymhellion, fod fy mhwyllgor wedi cyflwyno cyfres gadarn o syniadau i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull mwy strategol o gael y sectorau busnes ac ymchwil i ymgysylltu'n effeithiol ar lefel Ewropeaidd. Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed yr hyn sydd gan aelodau eraill o'r pwyllgor, yn ogystal â'r Gweinidog, i'w ddweud yn ystod y ddadl.

Rwyf hefyd yn falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl hon. Ymddengys, ar ôl darllen ymateb Llywodraeth Cymru, fod ein hadroddiad wedi cael ei dderbyn yn llawn fwy neu lai, a bod pob un o'r argymhellion wedi ei dderbyn naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Mae'r cadeirydd, Nick Ramsay, eisoes wedi codi llawer o'r pethau yr oeddwn am eu codi, ond hoffwn grybwyll un neu ddau o faterion.

Cyn sôn yn fras am yr adroddiad, hoffwn ategu ei bwynt ynglŷn â'r egni a'r ymdrech a welwyd yn yr Alban ac Iwerddon yn eu paratodau ar gyfer Horizon 2020 a thrafod hynny ychydig. Gwn i Nick Ramsay gyfeirio'n fras at hyn, ond cefais fy syfrdanu gan eu ffocws ar ddwyn ynghyd y bobl allweddol yn eu priod wledydd. Mae'r fframwaith newydd, sy'n gofyn am gysylltiad di-dor rhwng ymchwil ac arloesedd, yn amlwg ar gam datblygedig yn y ddwy wlad hyn. Credaf yn wir y gallwn ddysgu llawer iawn o'r ffordd y maent yn ymdrin â hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is obvious from our recommendations that this view was unanimous in the committee, and I am especially glad that the Welsh Government has highlighted ongoing dialogue with the programmes of both countries. I want to highlight that there is no need to reinvent the wheel here. I am sure that a lot of the best practice in Scotland and in Ireland could easily have a Welsh dragon slapped on the side of it and be adopted here.

I will quickly sound a note of caution, which is that, within your response, Minister, you noted that you have continuing dialogue and meetings. That is fine and I accept that, but I reiterate my key point that we, as a committee, felt that Scotland and Ireland are well placed to maximise the benefits of Horizon 2020 and we should not only have an ongoing dialogue, as I said, but also accept their best practice and adopt it.

The other big issue for me within the report was ensuring that the Welsh European Funding Office is staffed appropriately. There is a very real acceptance of this and I welcome the honesty about the last round not going as well as it could have. We did not maximise the benefits of European funding streams. This is a good starting place, and, in this round, we must maximise the benefit for long-term sustainable employment opportunities. With this mission in mind, we must discuss staffing at WEFO and ensure that it is well placed to broker deals and deliver partnerships between Wales and Europe, alongside industry and, indeed, academia. This recommendation, in my opinion—accepted up to a point by the Government—is a clear step change in the current WEFO offer.

I will not dwell on any other issues. The Chair has made the points well. Many of the points, as I said, have been raised in this debate and in committee. I feel that our readiness for Horizon 2020 is getting an appropriate level of scrutiny. There is a lot more work to do and it is an opportunity that we must grasp. I thoroughly enjoyed stage 2 and look forward to further developments as the Government implements our recommendations.

Mae'n amlwg o'n hargymhellion bod y pwyllgor yn unfrydol ei farn yn hyn o beth, ac rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at ddeialog parhaus â rhaglenni'r ddwy wlad. Hoffwn bwysleisio nad oes angen ail-greu pethau o'r newydd yn hyn o beth. Rwy'n siŵr y gellid rhoi stamp y ddraig goch yn ddigon hawdd ar lawer o'r arferion gorau yn yr Alban ac yn Iwerddon a'u mabwysiadu yma.

Hoffwn seinio rhybudd bach, sef, yn eich ymateb, Weinidog, dywedasoch eich bod yn parhau i gael deialog a chyfarfodydd. Mae hynny'n iawn a derbyniad hynny, ond hoffwn ailadrodd fy mhwynt allweddol ein bod ni, fel pwyllgor, yn teimlo bod yr Alban ac Iwerddon mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar Horizon 2020 ac y dylem nid yn unig gynnal deialog parhaus, fel y dywedais, ond hefyd dderbyn eu harfer gorau a'i fabwysiadu.

Y broblem fawr arall imi yn yr adroddiad oedd sicrhau bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi ei staffio'n briodol. Derbynnir hyn yn wirioneddol a chroesawaf y gonestrwydd nad oedd y cylch olaf cystal ag y gallai fod wedi bod. Ni lwyddwyd i fanteisio i'r eithaf ar ffrydiau ariannu Ewropeaidd. Mae hwn yn fan cychwyn da, ac, yn y cylch hwn, rhaid inni fanteisio i'r eithaf i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy yn yr hirdymor. Gan gofio'r genhadaeth hon, rhaid inni drafod staffio yn WEFO a sicrhau ei bod mewn sefyllfa dda i lunio cytundebau a chreu partneriaethau rhwng Cymru ac Ewrop, ochr yn ochr â diwydiant ac, yn wir, y byd academiaidd. Mae'r argymhellion hwn, yn fy marn i—dderbyniwyd i ryw raddau gan y Llywodraeth—yn newid mawr clir yn yr hyn a gynigir WEFO ar hyn o bryd.

Nid ymdriniad ag unrhyw rai o'r materion eraill. Mae'r Cadeirydd wedi gwneud y pwyntiau yn dda. Mae llawer o'r pwyntiau, fel y dywedais, wedi cael eu codi yn y ddatl hon ac yn y pwyllgor. Teimlaf fod ein parodrwydd ar gyfer Horizon 2020 yn destun lefel briodol o graffu. Mae llawer mwy o waith i'w wneud ac mae'n gyfle y mae'n rhaid inni fanteisio arno. Mwynheais gam 2 yn fawr iawn ac edrychaf ymlaen at ddatblygiadau pellach wrth i'r Llywodraeth weithredu ar ein hargymhellion.

15:37

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r tystion a fu'n cyflwyno'u sylwadau ac i'r staff ymchwil am roi trefn ar yr wybodaeth. Un o bleserau bach bod yn aelod o unrhyw bwyllgor, wrth gwrs, yw eich bod yn cael cyfle i ddysgu am bethau na wyddoch unrhyw beth amdanynt cyn hynny, ac roedd hynny yn sicr yn wir gyda'r ymchwiliad hwn i faes ymchwil yr Undeb Ewropeaidd. Un o'r pethau a sylweddolais wrth wrando ar y tystion yw nad oes atebion hawdd wrth geisio denu arian ymchwil o dan raglenni'r Undeb Ewropeaidd. Yn gyntaf, rhaid cael adrannau a chyfadranau sydd ag arbenigedd digonol; rhaid cael adnoddau technolegol cyfoes o'r radd flaenaf os ydych yn ceisio am raglenni ymchwil yn y maes gwyddonol, ac, yn amlach na pheidio, rhaid creu partneriaethau, nid yn unig o fewn Cymru, ond y tu allan, yn Lloegr a hefyd ar draws cyfandir Ewrop a thu hwnt.

I am very grateful to the witnesses who presented their comments and to the research staff for organising the information. One of the small pleasures of being a member of any committee, of course, is that you get an opportunity to learn about things that you knew nothing about previously, and that was certainly the case with this inquiry into the field of European Union research. One of the things that I realised in listening to the witnesses is that there are no easy answers to trying to attract research funding under European Union programmes. First, you have to have departments and faculties with sufficient expertise; you have to have world-class modern technological resources in the scientific field, and, more often than not, you have to create partnerships, not only within Wales, but outside, in England and also across the European continent and beyond.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ar ben hynny, rhaid i chi fuddsoddi amser a gweithio y tu ôl i'r lenni wrth lunio ceisiadau. Mae hynny wedi profi yn faich rhy fawr i amryw o'n prifysgolion yn y gorffennol, gan gofio, wrth gwrs, nad yw llawer o'n prifysgolion yn gwneud gwaith ymchwil o'r radd flaenaf. Rydych yn dibynnu, felly, ar lond dwrn o sefydliadau addysg uwch i wneud y ceisiadau hyn, gan gofio, ar yr un pryd, bod pob prifysgol arall o unrhyw werth ar draws Ewrop yn ceisio am yr un arian. Fodd bynnag, mae'n swm mor sylweddol na all y sector yng Nghymru ei anwybyddu.

Wrth edrych yn ôl ar yr ymchwiliad hwn, mae dau neu dri o bethau yn sefyll allan i mi. Yn gyntaf, nid yw ein prifysgolion ni—hynny yw, y rhai sydd â chapasiti ymchwil o'r radd flaenaf yng Nghymru—bob amser yn cydweithio'n ddigonol gyda'i gilydd wrth baratoi ar gyfer gwneud ceisiadau. Gan gofio nad yw'n prifysgolion yn rhai mawr iawn—mae Prifysgol Caerdydd yn weddol sylweddol, wrth gwrs—mae angen, yn aml iawn, i adrannau ddod at ei gilydd er mwyn gwneud ceisiadau ystyrlon sydd â gobaith o gael llwyddiant. Mae'n digwydd—gadewch inni beidio â bod yn rhy feirniadol—o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru, ond mae angen gwneud llawer iawn mwy, rwy'n credu, i sicrhau bod ein ceisiadau yn llwyddo, wrth ddod ag arbenigeddau at ei gilydd o fewn ein prifysgolion yma yng Nghymru.

Yn ail, cefais yr argraff, sydd i'w weld yn glir yn yr argymhellion, o'r dystiolaeth o Iwerddon, bod Iwerddon yn cydgorddio ei ymdrechion yn well. Roedd rhwydwaith cymorth cenedlaethol Iwerddon ar gyfer y rhaglen FP7 i'w weld yn gorff effeithiol iawn, gydag arbenigedd a chysylltiadau da ym Mrwsel. Mae hynny'n eithriadol o bwysig. Wedi dweud hynny, mae Gwyddelod bob amser yn dda iawn ac yn ymddangos yn hyderus a llwyddiannus, ac mae'n rhaid edrych o dan y wyneb, yn aml iawn, i weld y realiti. Fodd bynnag, mae'n werth edrych yn fanwl iawn ar y model sydd gan Iwerddon, ac, i raddau, y model yn yr Alban hefyd.

Mae'r uned Horizon 2020 sydd wedi'i chreu o fewn WEFO yn bwriadu gwneud yr un math o waith, ond rhaid sicrhau bod yr adran honno ar yr un donfedd â phrifysgolion ac yn osgoi troi'n gorff biwrocrataidd trwsogl. Roedd y wraig a oedd yn siarad o Iwerddon yn amlwg ar dop ei gêm ac yn deall anghenion y rhaglenni Ewropeaidd.

Un pwynt a wnaed fwy nag unwaith oedd am yr angen i brifysgolion yng Nghymru fod yn fwy egniol yn strwythurau canolog Ewropeaidd er mwyn deall, mewn da bryd, gyfeiriad ac anghenion y rhaglenni ymchwil. Roedd buddsoddi amser i fod yn bresennol yn y pwyllgorau ym Mrwsel yn hanfodol i lwyddiant ceisiadau, yn ôl pob golwg. Gwnaeth rai o'r tystion y pwynt hwnnw drosodd a throsodd: ni allech aros yma, disgwyl gweld y ffurflenni a gobeithio eu llenwi'n llwyddiannus. Roedd angen bod ym Mrwsel—nid yn dadlau, ond yn siarad—er mwyn deall yr anghenion a'r cyfeiriadau.

In addition to that, you have to invest time and work behind the curtains in drawing up bids. That has proven too great a burden for several of our universities in the past, bearing in mind, of course, that many of our universities do not undertake world-class research. You are depending, therefore, on a handful of higher education institutions to make these bids, bearing in mind that, at the same time, every other university of any value across Europe is bidding for the same money. However, it is such a substantial amount that the sector in Wales cannot ignore it.

Looking back at this inquiry, there are two or three things that stand out to me. First, our universities—that is, those that have world-class research capacity in Wales—do not always collaborate sufficiently in preparing to make bids. Bearing in mind that our universities are not very large—Cardiff University is quite substantial, of course—very often, departments need to come together in order to make meaningful bids that have a chance of success. It does happen—let us not be too critical—within the higher education sector in Wales, but we need to do far more, I believe, to ensure that our bids succeed, in bringing various areas of expertise together within our universities here in Wales.

Secondly, I had the impression, which is to be seen clearly in the recommendations, from the evidence from Ireland, that Ireland is better at harmonising its efforts. Ireland's national support network for the FP7 programme seems to be a very effective body, with expertise and good connections in Brussels. That is very important. Having said that, the Irish are always very good and appear confident and successful, and, very often, you have to look under the surface to see the reality. However, it is worth looking in great detail at the model in Ireland, and, to an extent, the model in Scotland too.

The Horizon 2020 unit created within WEFO intends to do the same sort of work, but that department must be on the same wavelength as universities, and must avoid becoming a clumsy, bureaucratic body. The lady who spoke from Ireland was clearly on top of her game and understood the requirements of the European programmes.

One point made more than once was the need for Welsh universities to be more energetic in the central European structures in order to understand, in good time, the direction and needs of research programmes. Investing time in order to have a presence in committees in Brussels was vital to the success of applications, it seems. Some witnesses made this point time and again: you could not stay here, wait for the forms and then hope to fill them in successfully. You needed to be in Brussels—not arguing, but talking—in order to understand the requirements and directions.

Gorffennaf ar un argraff arall, sef nad oedd llawer iawn o enghreifftiau o gydweithio rhwng prifysgolion a diwydiant yn y maes ymchwil yma yng Nghymru, sy'n adlewyrchu, mae'n debyg, wendid yr economi yma. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni chwilio am y cyfleoedd hynny hefyd er mwyn sicrhau bod economi Cymru yn cael budd llawn o'r rhaglenni hyn.

I will close with one further message, namely that there were not many examples of collaboration between universities and industry in the field of research in Wales, which reflects, it seems, the weakness of the economy here. However, we must also look for those opportunities, in order to ensure that the Welsh economy takes full advantage of these programmes.

15:43

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this debate on Horizon 2020 and I am very pleased to note that agreement was reached last week by our Members of the European Parliament on a €70 billion new research and innovation programme. This is an enormous boost of EU funding for the UK economy and for our research community in particular, as, historically, the UK has got back around £1.40 for every £1 paid into this funding stream.

I think this new agreement will see a very different scheme from the current EU framework programme, and we hope that the recommendations put forward by the committee will help the Welsh Government in gearing up for the new funding framework as it becomes available.

Over the past five years, the current EU framework programme, FP7, has brought £3.73 billion into science funding in the UK. Although it remains disappointing that Wales has secured only 2.2% of the UK total, compared to the 9.9% secured by Scotland, a number of very significant and ground-breaking projects have been based in Wales, such as the Seren Project at Cardiff University, which looks at energy use, and European space agency projects such as the Herschel and Planck telescopes. Exciting projects such as those have been based here in Wales and we can all be proud of that, but the real question is how we build on the successes that we have had and make sure that other research centres have the opportunity to bid successfully for funding too.

One key theme arising from our inquiry was the lack of awareness of the opportunities of Horizon 2020 funding, and, during our visit to Brussels, we heard from European Commission officials that engagement in the Marie Curie actions was not so good from the business sector in Wales, particularly SMEs, which seemed to lack awareness and, perhaps, some of the other infrastructure that they might need to engage fully with programmes in the future.

I am pleased that, in accepting the committee's recommendations, the Minister has emphasised that increasing the participation of Welsh businesses, particularly SMEs, in accessing Horizon 2020 is to be a key aim of WEFO's Horizon 2020 unit. However, I think that more needs to be done to increase business engagement. What support is there for Welsh SMEs in Brussels right now? Are we really being proactive enough in selling these opportunities to our SME community? Can we invest more in that particular element of our Brussels presence to make sure that our businesses have the kind of opportunities that businesses from the other parts of the UK seem to have?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Croesawaf y ddadl hon ynglŷn â Horizon 2020, ac rwy'n falch iawn o nodi i'n Haelodau yn Senedd Ewrop ddod i gytundeb yr wythnos diwethaf ynglŷn â rhaglen ymchwil ac arloesedd newydd gwerth €70 biliwn. Mae'n swm enfawr o arian yr UE ar gyfer economi'r DU a'n cymuned ymchwil yn benodol, oherwydd, yn hanesyddol, mae'r DU wedi ennill tua £1.40 am bob £1 a delir i'r ffrwd ariannu hon.

Credaf y bydd y cytundeb newydd hwn yn arwain at gynllun gwahanol iawn i raglen fframwaith bresennol yr UE, a gobeithiwn y bydd yr argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgor yn helpu Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y fframwaith ariannu newydd pan fydd ar gael.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae rhaglen fframwaith bresennol yr UE, FP7, wedi dod â £3.73 biliwn o arian ar gyfer gwyddoniaeth i'r DU. Er ei bod yn siomedig o hyd mai dim ond 2.2% o gyfanswm y DU a sicrhawyd gan Gymru, o gymharu â'r ganran o 9.9% a sicrhawyd gan yr Alban, mae nifer o brosiectau pwysig ac arloesol iawn wedi cael eu lleoli yng Nghymru, megis Prosiect Seren ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n edrych ar y defnydd o ynni, a phrosiectau asiantaeth ofod Ewrop megis telesgopau Herschel a Planck. Mae prosiectau cyffrous fel y rhain wedi eu lleoli yma yng Nghymru, a gallwn i gyd ymfalchïo yn hynny, ond y cwestiwn hollbwysig yw sut rydym yn adeiladu ar ein llwyddiannau a sicrhau bod y canolfannau ymchwil eraill yn cael cyfle i wneud cais llwyddiannus am arian hefyd.

Un thema allweddol sy'n deillio o'n hymchwiliad oedd y diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd arian Horizon 2020, ac, yn ystod ein hymweliad â Brwsel, clywsom gan swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd nad oedd ymwneud â chnamau gweithredu Marie Curie cystal ymhlith y sector busnes yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig nad oeddent yn ymwybodol, yn ôl pob golwg, o'r cyfleoedd hyn ac, o bosibl, nad oedd ganddynt rai agweddau ar y seilwaith sydd eu hangen arnynt o bosibl er mwyn ymgysylltu'n llawn â rhaglenni yn y dyfodol.

Rwy'n falch bod y Gweinidog, wrth dderbyn argymhellion y pwyllgor, wedi pwysleisio y bydd cynyddu cyfranogiad busnesau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig, wrth gael gafael ar arian Horizon 2020 yn un o nodau allweddol uned Horizon 2020 WEFO. Fodd bynnag, credaf fod angen gwneud mwy i wella ymwneud busnesau. Pa gymorth sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig o Gymru ym Mrwsel ar hyn o bryd? A ydym yn wir yn ddigon rhagweithiol o ran hyrwyddo'r cyfleoedd hyn i'n busnesau bach a chanolig? A allwn fuddsoddi mwy yn yr elfen benodol honno o'n presenoldeb ym Mrwsel er mwyn gwneud yn siŵr bod ein busnesau yn cael y math o gyfleoedd y mae busnesau o rannau eraill o'r DU yn eu cael i bob golwg?

Collaboration is also a key issue. Universities in Wales have a strong reputation in terms of engaging with businesses and generating income from collaborative research, and they have the highest levels of engagement with SMEs of any region in the UK, which is wonderful and stands us in good stead, moving forward. However, I do not think that we can become complacent, as there is a global market now for research and development investment. That means greater competition, not just from within the UK but from the world's great universities as well—outside of Europe as well as within Europe—for the kind of commercial opportunities that help to develop the research capacity in our universities that will allow them to bid successfully and be lead bidders in European framework programmes in the future.

One final point that I would like to make is to do with the arts and the social sciences, and the role that they have in our research community in Wales. In the committee's first report on Horizon 2020, one of our recommendations was to seek clarity on how research in social sciences, arts and humanities will be supported by the EU proposals, and how they sit within Horizon 2020 in particular. The Welsh Government's response to our report highlighted that there had been no significant change, but that the proposals to divide the six societal challenges into two should provide social sciences, arts and humanities researchers with clearer access to funding in key areas. However, it is simple things like terminology and using the word 'science' to mean 'research' coterminously that undermines researchers in the arts and humanities when they are looking at research programmes. They do not believe that those programmes are for them if they are not described in appropriate terms. We need to be careful about that.

Arts and humanities have great importance, particularly in terms of knowledge exchange with other disciplines, and the contribution of social sciences and humanities should be addressed across all societal challenges. It is only by understanding the underlying societal, cultural and behavioural challenges that we can tackle each challenge, from health and wellbeing to climate change and resource efficiency, as holistically as we might.

In recognising the European Commission's proposals to mainstream research in the social sciences, arts and humanities through Horizon 2020, we must replicate these efforts to bring together these disciplines and to give due prominence to the arts and humanities across the societal challenges in Wales and in our own research efforts. I ask the Minister, in responding to this debate, to tell us what support the Welsh Government will be offering to help universities to collaborate more effectively, so that examples of best practice can be shared and replicated and that universities can then adopt a more strategic approach to maximising the funding and income opportunities available, not just here, but elsewhere, too.

Mae cydweithio yn fater allweddol hefyd. Mae gan brifysgolion yng Nghymru enw da o ran ymgysylltu â busnesau a chynhyrchu incwm o ymchwil gydweithredol, a phrifysgolion Cymru sydd â'r lefel uchaf o ymgysylltu â busnesau bach a chanolig o blith unrhyw ranbarth yn y DU, sy'n beth gwyach ac sy'n ein rhoi mewn sefyllfa dda wrth inni symud yn ein blaenau. Fodd bynnag, ni chredaf y gallwn fod yn hunanfodlon, gan fod marchnad fyd-eang bellach ar gyfer buddsoddiad ymchwil a datblygu. Mae hynny'n golygu mwy o gystadleuaeth, nid yn unig o'r tu mewn i'r DU ond gan brifysgolion mawr y byd hefyd—y tu allan i Ewrop ac o fewn Ewrop—am y math o gyfleoedd masnachol sy'n helpu i ddatblygu gallu ymchwil yn ein prifysgolion a fydd yn eu galluogi i wneud ceisiadau llwyddiannus a bod yn brif gynigwyr mewn rhaglenni fframwaith Ewropeidd yn y dyfodol.

Un pwynt olaf yr hoffwn ei wneud yw pwynt ynglŷn â'r celfyddydau a'r gwyddorau cymdeithasol, a'r rôl sydd ganddynt yn ein cymuned ymchwil yng Nghymru. Yn adroddiad cyntaf y pwyllgor ar Horizon 2020, un o'n hargymhellion oedd ceisio eglurder ynghylch sut y bydd yr ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau yn cael eu cefnogi gan gynigion yr UE, a beth yw'r berthynas rhyngddynt a Horizon 2020 yn arbennig. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad na fu unrhyw newid sylweddol, ond y dylai'r cynigion i rannu'r chwe her gymdeithasol yn ddwy roi mynediad cliriach i ymchwilwyr yn y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau at gyllid mewn meysydd allweddol. Fodd bynnag, mae pethau syml fel terminoleg a defnyddio'r gair 'gwyddoniaeth' i olygu'r un peth ag 'ymchwil' yn taseilio ymchwilwyr yn y celfyddydau a'r dyniaethau pan edrychant ar raglenni ymchwil. Ni chredant fod y rhaglenni hynny yn addas iddynt hwy os nad ydynt wedi eu disgrifio mewn termau sy'n briodol. Mae angen inni fod yn ofalus ynglŷn â hynny.

Mae'r celfyddydau a'r dyniaethau yn bwysig iawn, yn enwedig o ran cyfnewid gwybodaeth â disgyblaethau eraill, a dylid rhoi sylw i'r cyfraniad a wna'r gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau ar draws yr holl heriau cymdeithasol. Dim ond drwy ddeall yr heriau cymdeithasol, diwyllianol ac ymddygiadol sylfaenol y gallwn fynd i'r afael â phob her, o iechyd a lles i newid yn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau, mewn ffordd mor gyfannol ag y gallwn.

Wrth gydnabod cynigion y Comisiwn Ewropeidd i brif ffrydio ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau drwy Horizon 2020, rhaid inni ddyblygu'r ymdrechion hyn i ddwyn y disgyblaethau hyn ynghyd a rhoi sylw priodol i'r celfyddydau a'r dyniaethau ar draws yr heriau cymdeithasol yng Nghymru ac yn ein hymdrechion ymchwil ein hunain. Gofynnaf i'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, nodi pa gymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gynni i helpu prifysgolion i gydweithio'n fwy effeithiol, fel y gall enghreifftiau o arfer gorau gael eu rhannu a'u hefelychu ac yna y gall prifysgolion fabwysiadu dull mwy strategol o fanteisio i'r eithaf ar y cyllid a'r cyfleoedd incwm sydd ar gael, nid yn unig yma, ond mewn mannau eraill hefyd.

15:48

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt.

I call on the Minister for Finance, Jane Hutt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:48

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

I welcome this opportunity to contribute to this important debate. I thank the committee for its stage 2 report and for its inquiry, which has been both informative and comprehensive, following the stage 1 inquiry. The report and Members here today have raised some very important points on the lessons learned. The report will be very valuable in terms of the delivery and implementation of Horizon 2020 in Wales. There were important points on lessons learned and good practice, so that Wales can increase its share of EU research and innovation funding and its global competitiveness. You will have seen from my written statement today, and it has been acknowledged in this debate, that I was pleased to accept or accept in principle the report's recommendations, and this debate provides me with an opportunity to respond to the committee inquiry and to address some of the main issues raised in the report and raised this afternoon.

The Welsh Government fully recognises that much needs to be done to increase research and innovation levels so that we can create the globally competitive nation that our ambitious programme for government and 'Science for Wales' strategy are seeking to deliver. European funding has an important role to play in driving forward these goals through the structural funds and through Horizon 2020. Maximising EU funds like those is key to ensuring that Welsh organisations in higher education and business can work together to develop groundbreaking products for commercial success. I was fortunate this morning to go to the Liberty Stadium in Swansea to meet CEMAS, the Centre of Excellence in Mobile Applications and Services, which is led by the University of South Wales. It was important for me not only to hear about the successful outcomes of CEMAS, which has the benefit of European structural funds, but to meet the businesses that are benefiting as a result of that investment—businesses that could show me the groundbreaking digital application, which is now successful in the market.

Croesawaf y cyfle hwn i gyfrannu at y ddatl bwysig hon. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad cam 2 ac am ei ymchwiliad, a fu'n addysgiadol ac yn gynhwysfawr, yn dilyn ymchwiliad cam 1. Mae'r adroddiad a'r Aelodau sydd yma heddiw wedi codi rhai pwyntiau pwysig iawn ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd. Bydd yr adroddiad yn werthfawr iawn o ran cyflwyno a gweithredu Horizon 2020 yng Nghymru. Gwnaed pwyntiau pwysig ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd ac arferion da, fel y gall Cymru gynyddu ei chyfran o arian ymchwil ac arloesedd yr UE a'i chystadleurwydd byd-eang. Fe welwch o'm datganiad ysgrifenedig heddiw, ac mae wedi cael ei gydnabod yn y ddatl hon, fy mod yn falch o dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor argymhellion yr adroddiad, a rhydd y ddatl hon gyfle imi ymateb i ymchwiliad y pwyllgor ac i ymdrin â rhai o'r prif faterion a godwyd yn yr adroddiad ac a godwyd y prynhawn yma.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bod llawer i'w wneud i wella lefelau ymchwil ac arloesedd fel y gallwn greu'r wlad gystadleuol yn fyd-eang y mae ein rhaglen lywodraethu uchelgeisiol a "Gwyddoniaeth i Gymru" yn ceisio ei chreu. Mae gan gyllid Ewropeaidd rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo'r nodau hyn drwy'r cronfeydd strwythurol a thrwy Horizon 2020. Mae manteisio i'r eithaf ar gronfeydd yr UE fel y rheini yn allweddol i sicrhau y gall sefydliadau yng Nghymru ym maes addysg uwch a busnes weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynhyrchion arloesol ar gyfer llwyddiant masnachol. Bûm yn ddigon ffodus y bore yma i fynd i Stadiwm Liberty yn Abertawe i gyfarfod â CEMAS, y Ganolfan Ragoriaeth mewn Cymwysiadau a Gwasanaethau Symudol, a arweinir gan Brifysgol De Cymru. Roedd yn bwysig imi nid yn unig glywed am ganlyniadau llwyddiannus CEMAS, sy'n cael arian cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ond cyfarfod â'r busnesau sy'n elwa o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw—busnesau a allai ddangos i mi y cymhwysiad digidol arloesol, sydd bellach yn llwyddiannus yn y farchnad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Nick Ramsay did refer, as did Eluned Parrott, to the EU budget last week. We were pleased that the EU budget was approved, but I have to say—and this is hot off the press—that the European Parliament has again supported the resolution to support the EU budget today. So, we are now very clear as to where we are in terms of not only the overall quantum but also the regional distribution of the EU structural funds for Wales. Of course, you all received my statement on this last week. It is a big step forward, presenting significant challenges when added to other pressures from the spending round, particularly for Wales's most vulnerable region of west Wales and the Valleys. Of course, the regional allocation of £1.67 billion at 2014 prices will be a reduction compared with current allocations, but it is important that we are now clear about the budget regional applications, and that we can move forward in the new year with the next round of programmes. That means that it is all the more critical that we maximise the opportunities offered by externally administered EU funding streams like Horizon 2020. As has been said, given the scale of such investments, which are worth €70 billion across the EU member states, no-one can argue against the benefits that EU membership and such EU funds can bring to Wales.

So, in relation to the points made this afternoon and the recommendations, I believe that we are making good progress in terms of rising up to the challenges and opportunities of Horizon 2020, putting strong foundations in place to maximise this funding stream. The report acknowledges that a Horizon 2020 unit has been set up in WEFO, with many benefits to this arrangement. Of course, it does draw on the resources in WEFO, which is already playing a central role in supporting the knowledge economy. It is well placed to explore the complementarities and synergies between the structural funds and Horizon 2020 to maximise the impact of funds. It has also established the contacts and networks, which is important—responding to the points made this afternoon—including those with the European Commission, which has already commented favourably on the bringing together of EU funds in one unit. I was able to talk about this on my recent visit to Brussels to meet those officials responsible for Horizon 2020, and to make the case and to get that favourable response.

Both Nick Ramsay and Byron Davies referred to recommendation 6: the capacity and engagement of the unit within WEFO that we have set up. I think that I made clear in my written response that I believe that the unit, in its early stages, has been proactive, working closely with stakeholders and the type of support that they need to maximise the opportunities that Horizon 2020 presents. It has also been working with the economy, science and transport sector teams and Welsh stakeholders, identifying external funding-ready researchers and businesses. That, of course, is where we can engage in collaborative research, particularly in the 'Science for Wales' Grand Challenge areas. That is also beginning to identify potential investments that could build capacity directly to improve access to EU research funding.

Cyfeiriodd Nick Ramsay, fel y gwnaeth Eluned Parrott, at gyllideb yr UE yr wythnos diwethaf. Roeddem yn falch o glywed bod cyllideb yr UE wedi cael ei chymeradwyo, ond rhaid imi datgan—a newydd ei gyhoeddi y mae hyn—bod Senedd Ewrop unwaith eto wedi cefnogi'r penderfyniad i gefnogi cyllideb yr UE heddiw. Felly, rydym yn glir iawn erbyn hyn ynghylch beth fydd yn digwydd nid yn unig o ran y cwantwm cyffredinol, ond hefyd ddyraniad rhanbarthol cronfeydd strwythurol yr UE i Gymru. Wrth gwrs, cafodd pob un ohonoch fy natganiad am hyn yr wythnos diwethaf. Mae'n gam mawr ymlaen, sy'n cyflwyno heriau sylweddol ar ben y pwysau eraill o'r cylch gwario, yn enwedig ar gyfer rhanbarth mwyaf bregus Cymru, sef gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Wrth gwrs, bydd y dyraniad rhanbarthol o £1.67 biliwn yn ôl prisiau 2014 yn ostyngiad o'i gymharu â'r dyraniadau presennol, ond mae'n bwysig ein bod yn glir erbyn hyn ynghylch y ceisiadau rhanbarthol cyllidebol, ac y gallwn symud ymlaen yn y flwyddyn newydd gyda'r cylch nesaf o raglenni. Mae hynny'n golygu ei bod yn bwysicach nag erioed ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan ffrydiau ariannu'r UE a weinyddir yn allanol fel Horizon 2020. Fel y dywedwyd, o ystyried maint buddsoddiadau o'r fath, sy'n werth €70 biliwn i holl aelod-wladwriaethau'r UE, ni all neb ddadlau yn erbyn y manteision y gall aelodaeth o'r UE a chronfeydd o'r fath gan yr UE eu rhoi i Gymru.

Felly, o ran y pwyntiau a wnaed y prynhawn yma a'r argymhellion, credaf ein bod yn gwneud cynnydd da o ran ymateb i heriau a chyfleoedd Horizon 2020, gan osod sylfeini cadarn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y ffrwd ariannu hon. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod uned Horizon 2020 wedi cael ei sefydlu yn WEFO, ac mae i'r trefniant hwnnw lawer o fanteision. Wrth gwrs, mae'n defnyddio adnoddau yn WEFO, sydd eisoes yn chwarae rhan ganolog i gefnogi'r economi wybodaeth. Mae mewn sefyllfa dda i ystyried cyfatebolrwydd a synergeddau rhwng y cronfeydd strwythurol a Horizon 2020 er mwyn sicrhau y caiff yr arian yr effaith fwyaf bosibl. Mae hefyd wedi sefydlu'r cysylltiadau a'r rhwydweithiau, sy'n bwysig—gan ymateb i'r pwyntiau a wnaed y prynhawn yma—gan gynnwys y rhai gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, sydd eisoes wedi gwneud sylwadau ffafriol ar y penderfyniad i ddwyn ynghyd arian yr UE yn un uned. Roeddwn yn gallu trafod hyn ar fy ymweliad diweddar â Brwsel i gyfarfod â'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am Horizon 2020, ac i gyflwyno'r achos a chael yr ymateb ffafriol hwnnw.

Cyfeiriodd Nick Ramsay a Byron Davies at argymhelliad 6: gallu ac ymgysylltu'r uned o fewn WEFO yr ydym wedi ei sefydlu. Credaf imi egluro yn fy ymateb ysgrifenedig fy mod o'r farn bod yr uned, yn ystod ei chymrwng, wedi bod yn rhagweithiol, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a'r math o gymorth sydd ei angen arnynt i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan Horizon 2020. Mae hefyd wedi bod yn gweithio gyda thimau'r sectorau economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth a rhanddeiliaid o Gymru, gan nodi ymchwilwyr a busnesau sy'n barod i dderbyn arian allanol. Wth gwrs, dyna ble y gallwn gymryd rhan mewn ymchwil ar y cyd, yn enwedig ym meysydd Her Fawr 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Mae honno hefyd yn dechrau nodi buddsoddiadau posibl a allai feithrin gallu yn uniongyrchol i wella mynediad at gyllid ymchwil yr UE.

It is also taking an initial review of partner needs, which has led to the launch in May of the more flexible financial fund called SCoRE Cymru, which is about widening participation among Welsh organisations, helping them to develop collaborative and competitive bids. The unit is also developing several targeted awareness events, and it has already delivered the highly successful Horizon 2020 workshop at the high-profile Digital 2013 event in June.

So, I can assure the Enterprise and Business Committee that not only have we been driving forward that objective in terms of the key links that the unit will make, internally and externally in Government, but also in establishing close links with the devolved administrations, learning lessons, of course, from Scotland, Northern Ireland and others in Europe, identifying best practice and informing the development of the unit. We are also ensuring that, where practice is in evidence, and it is applicable to Wales, we would build on that. Those are just a few examples of how the Welsh Government is looking to improve the support system in Wales for accessing Horizon 2020.

It is important that we are having an independent evaluation that will report in the autumn; that, too, will inform further developments.

Finally, we are committed to learning lessons and supporting continuous improvement, so that Wales is a European leader in maximising the opportunities that Horizon 2020 offers, to secure global competitiveness and in creating growth and jobs in Wales.

Mae hefyd yn cynnal adolygiad cychwynnol o anghenion partneriaid, sydd wedi arwain at lansio'r gronfa ariannol fwy hyblyg ym mis Mai o'r enw SCoRE Cymru, sy'n ymwneud ag ehangu cyfranogiad ymhlith sefydliadau yng Nghymru, gan eu helpu i ddatblygu ceisiadau cydweithredol a chystadleuol. Mae'r uned hefyd yn datblygu nifer o ddiwyddiadau ymwybyddiaeth wedi'u targedu, ac mae eisoes wedi cyflwyno gweithdy Horizon 2020 hynod lwyddiannus yn y digwyddiad proffil uchel Digidol 2013 ym mis Mehefin.

Felly, gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor Menter a Busnes ein bod nid yn unig wedi bod yn hyrwyddo'r amcan hwnnw o ran y cysylltiadau allweddol y bydd yr uned yn eu creu, yn fewnol ac yn allanol yn y Llywodraeth, ond hefyd o ran creu cysylltiadau agos â'r gweinyddiaethau datganoledig, dysgu gwersi, wrth gwrs, gan yr Alban, Gogledd Iwerddon ac eraill yn Ewrop, gan nodi arfer gorau a llywio datblygiad yr uned. Rydym hefyd yn sicrhau, lle ceir tystiolaeth o arfer, ac mae'n berthnasol i Gymru, y byddem yn adeiladu ar hynny. Dim ond ychydig o'r enghreifftiau yw'r rhain o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella'r system gymorth yng Nghymru ar gyfer cael gafael ar arian Horizon 2020.

Mae'n bwysig ein bod yn cael gwerthusiad annibynnol a fydd yn cyflwyno adroddiad yn yr hydref; bydd hwnnw, hefyd, yn llywio datblygiadau pellach.

Yn olaf, rydym wedi ymrwymo i ddysgu gwersi a chefnogi gwelliant parhaus, fel bod Cymru yn arweinydd Ewropeaidd o ran manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan Horizon 2020, er mwyn sicrhau cystadleurwydd byd-eang a chreu twf a swyddi yng Nghymru.

15:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Cadeirydd i ymateb i'r ddadl.

I call the Chair to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:56 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank everyone who has contributed to today's debate. I am mindful, in dealing with these sorts of issues, that some Members are not so involved in issues like Horizon 2020 and may sometimes find themselves wondering what these issues are that we are talking about—do not worry; it was a learning curve for the committee at the start as well, and it has actually been a very rewarding area to look at for the committee. I think that if our recommendations can help the Minister and the Welsh Government in tapping in to future funding streams better, it will be a good thing.

Turning briefly to the speakers, first of all, Byron Davies mentioned how, in the past, we have not previously maximised European funding streams as we could have, and that we need to bring together academia and industry. I think that Byron will agree that it is only through collaboration, as found on the committee, that the Assembly and the Welsh Government will in future be able to tap in to those streams in a way that has not always happened in the past—or at least not as much as they should have, anyway.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl heddiw. Rwy'n ymwybodol, wrth ddelio â materion o'r fath, nad yw rhai Aelodau yn cael cymaint o ymwneud â materion fel Horizon 2020, a'u bod o bosibl yn meddwl tybed beth yw'r materion hyn sy'n cael eu trafod—peidiwch â phoeni; bu'n rhaid i'r pwyllgor ddysgu cryn dipyn ar y dechrau hefyd, a bu'n faes buddiol i'r pwyllgor ei ystyried mewn gwirionedd. Credaf, os gall ein hargymhellion helpu'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru i gael gafael ar ffrydiau ariannu yn haws yn y dyfodol, y bydd yn beth da.

Gan droi'n fyr at y siaradwyr, yn gyntaf oll, soniodd Byron Davies am sut, yn y gorffennol, nad ydym wedi manteisio i'r eithaf ar ffrydiau ariannu Ewropeaidd cystal ag y gallem fod wedi ei wneud, a bod angen inni ddwyn ynghyd y byd academaidd a diwydiant. Credaf y bydd Byron yn cytuno mai dim ond drwy gydweithio, fel y gwelwyd yn y pwyllgor, y bydd y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gallu manteisio ar y ffrydiau hynny mewn ffordd nad yw wedi digwydd bob amser yn y gorffennol—neu o leiaf nid cymaint ag y dylai fod wedi digwydd, beth bynnag.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Alun Ffred Jones took a slightly different angle. You concentrated primarily on the university sector, and I am glad that you did, as it is a very important area of Horizon 2020. You pointed out, interestingly, that only a handful of universities carry out research of the highest quality, and you made the point that many cannot afford it. If universities do indeed have research capacity, they often do not work closely enough together to maximise their ability to make bids. The Welsh Government will, hopefully, be able to develop policies to address that.

Yes, we do need to look at Ireland. I remember the witness that you were talking about very well; the session was on the video link. It was clear to the committee that Ireland really is ahead of the game. Scotland is there as well, but Ireland has been doing some very impressive things over the past few years to prepare itself for the new Horizon 2020 structure. And, yes, we certainly do not want WEFO to become more a bureaucratic body than a hands-on, on-the-ground body that is helping to drive change and helping collaboration between universities, academia and, indeed, industry.

Eluned Parrott, I think I got you right: you said that we get £1 back for every £1.40 put in.

15:58 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
No.

15:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Is it £1.40 for every £1 put in?

15:58 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes.

15:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
That is it. [Laughter.] You can always rely on Eluned Parrott to give the detail in these situations—you are definitely the details person on that committee, Eluned.

You mentioned FP7 and the small amount of the UK's total of FP7 that is coming to Wales. That was a worrying statistic. You did, however, make the positive point that there are exciting projects that have happened from the current accessing of funding. I think that you mentioned Herschel, for example. So, I think the moral here is that there is good success happening, but that it is limited, and it could be far better in the future. Indeed, it needs to be. You also said that there is a need to increase business engagement. You said that collaborative research is good, but that there is also a global market to tap in to. All these are things that came through in our evidence to the committee, and they are all things that I would agree with. We certainly cannot stand still.

Ystyriodd Alun Ffred Jones safbwynt ychydig yn wahanol. Bu ichi ganolbwyntio'n bennaf ar y sector prifysgolion, ac rwy'n falch ichi wneud hynny, gan ei fod yn faes pwysig iawn yn Horizon 2020. Yn ddi-ddorol ddigon, nodwyd gennych mai dim ond llond llaw o brifysgolion sy'n cynnal ymchwil o'r radd flaenaf, a gwnaethoch y pwynt na all llawer fforddio gwneud hynny. Pan fydd gan brifysgolion adnoddau ymchwil, yn aml nid ydynt yn gweithio'n ddigon agos gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o'u gallu i wneud ceisiadau. Bydd Llywodraeth Cymru, gobeithio, yn gallu datblygu polisïau i fynd i'r afael â hynny.

Oes, mae angen inni edrych ar Iwerddon. Cofiaf y tyst a grybwyllwyd gennych yn dda iawn; roedd yn sesiwn drwy gyswllt fideo. Roedd yn amlwg i'r pwyllgor fod Iwerddon ar y blaen mewn gwirionedd. Mae'r Alban yn gwneud pethau da hefyd, ond mae Iwerddon wedi bod yn gwneud rhai pethau trawiadol iawn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf er mwyn ymbaratoi ar gyfer strwythur newydd Horizon 2020. Ac, yn sicr nid ydym am i WEFO fod yn gorff biwrocraidd yn hytrach na chorff ymarferol ar lawr gwlad sy'n helpu i lywio newid ac yn helpu prifysgolion, y byd academaidd ac, yn wir, ddiwydiant i gydweithio.

Eluned Parrott, roeddech yn llygad eich lle, rwy'n credu: dywedasoch ein bod yn cael £1 yn ôl am bob £1.40 a roddir i mewn.

Naddo.

Ai £1.40 am bob £1 ydoedd?

Ie.

Dyna ni. [Chwerthin.] Gallwch bob amser ddibynnu ar Eluned Parrott i nodi'r manylion yn y sefyllfaedd hyn—chi, yn sicr, yw'r aelod o'r pwyllgor hwnnw sy'n gwirioni ar fanylion, Eluned.

Gwnaethoch sôn am FP7 a'r swm bach o gyfanswm y DU o FP7 sy'n dod i Gymru. Roedd hynny'n ystadegyn sy'n peri pryder. Fodd bynnag, gwnaethoch y pwynt cadarnhaol bod prosiectau cyffrous wedi digwydd o ganlyniad i'r arian cyfredol a gafwyd. Credaf ichi sôn am Herschel, er enghraifft. Felly, y foeswers yw, fe gredaf, bod llwyddiannau, ond eu bod yn gyfyngedig, ac y gall y sefyllfa fod yn llawer gwell yn y dyfodol. Yn wir, mae angen i hynny ddi-gwydd. Dywedasoch hefyd fod angen cael mwy o ymwneud gan fusnesau. Dywedasoch fod ymchwil gydweithredol yn dda, ond bod hefyd farchnad fyd-eang i fanteisio arni. Mae'r rhain i gyd yn bethau a ddaeth i'r amlwg yn ein tystiolaeth i'r pwyllgor, ac maent i gyd yn bethau y byddwn yn cytuno yn eu cylch. Yn sicr ni allwn sefyll yn ein hunfan.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Finally on your comments, Eluned, you flew the flag, as usual, for arts and social sciences. These are subjects close to Eluned Parrott's heart, and, yes, they should be recognised. Science is not simply research and, vice versa, research is not simply science; there are other areas as well.

So, I think the key, Minister, is how we can get all these different areas to work together. We have tried to make the report as useful as possible; there were very many issues that could have gone into it, but I think that, from your point of view, it is more helpful that it is focused and you get some key priorities and key areas where things can be improved.

If I can just mention your response, I am really pleased that the Welsh Government has recognised the need to increase research and innovation levels in order to maximise future funding streams. We have not always done as well as we could in the past, but, to be honest, Minister, even if we had, it would not be good enough now, nor in the future. This is a fast-moving and developing race, and if Wales is to compete with other European nations, and indeed in other parts of the world, over the years and decades to come, then we have to get this right now.

It has been a pleasure to be involved in, first, the initial look at Horizon 2020 last year, and now this one. I thank again all the committee members who have worked hard on this report in an area that is not that straightforward, but I believe that some of the solutions can be straightforward. We urge the Welsh Government to take on board our recommendations. Let us start the ball rolling now to tap into funding better in the future.

Yn olaf, o ran eich sylwadau, Eluned, gwnaethoch dynnu sylw, fel arfer, at y celfyddydau a'r gwyddorau cymdeithasol. Mae'r rhain yn bynciau sy'n agos at galon Eluned Parrott, ac, ie, dylid eu cydnabod. Nid ymchwil yn unig yw gwyddoniaeth ac, i'r gwrthwyneb, nid gwyddoniaeth yn unig yw ymchwil; ceir meysydd eraill hefyd.

Felly, credaf mai'r allwedd, Weinidog, yw'r ffordd y gallwn gael yr holl wahanol feysydd hyn i gydweithio. Rydym wedi ceisio sicrhau bod yr adroddiad mor ddefnyddiol â phosibl; roedd llawer iawn o faterion y gellid bod wedi eu cynnwys ynddo, ond credaf, o'ch safbwynt chi, ei fod yn fwy defnyddiol fod iddo ffocws ac y cechw rai blaenoriaethau allweddol a meysydd allweddol lle y gellir gwella pethau.

Os caf sôn am eich ymateb, rwy'n hynod falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwella lefelau ymchwil ac arloesedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ffyrddiau ariannu yn y dyfodol. Nid ydym bob amser wedi gwneud cystal ag y gallem fod wedi ei wneud yn y gorffennol, ond, a dweud y gwir, Weinidog, hyd yn oed pe baem wedi llwyddo i wneud hynny, ni fyddai'n ddigon da erbyn hyn, nac yn y dyfodol. Mae hon yn ras gyflym sy'n datblygu, ac os yw Cymru am gystadlu â gwledydd Ewropeaidd eraill, ac yn wir mewn rhannau eraill o'r byd, dros y blynyddoedd a'r degawdau sydd i ddod, yna rhaid inni gael hyn yn gywir yn awr.

Bu'n bleser bod yn rhan, yn gyntaf, o'r adolygiad cychwynnol o Horizon 2020 y llynedd, a'r adolygiad hwn yn awr. Diolch unwaith eto i holl aelodau'r pwyllgor sydd wedi gweithio'n galed ar yr adroddiad hwn mewn maes nad yw mor syml â hynny, ond lle y gall rhai o'r atebion fod yn eithaf syml, fe gredaf. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i dderbyn ein hargymhellion. Gadewch inni gychwyn arni yn awr er mwyn inni fanteisio ar fwy o arian yn y dyfodol.

16:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly derbynnir y cynnig yn unol Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cymru Wledig

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 6, 7 ac 8 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2, 3 a 5 yn enw Lesley Griffiths, a gwelliant 4 yn enw Elin Jones. Os derbynnir gwelliant 3, caiff gwelliant 4 ei ddad-dethol. Os derbynnir gwelliant 5, caiff gwelliant 6 ei ddad-dethol.

Cynnig NDM5282 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are not, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order no. 12.36.

Motion agreed.

Welsh Conservatives Debate: Rural Wales

The following amendments have been selected: amendments 1, 6, 7 and 8 in the name of Aled Roberts, amendments 2, 3 and 5 in the name of Lesley Griffiths, and amendment 4 in the name of Elin Jones. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected. If amendment 5 is agreed, amendment 6 will be deselected.

Motion NDM5282 William Graham

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod y potensial enfawr i dwristiaeth yng Nghymru wledig ac yn annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phryderon y diwydiant ynglŷn â sut y bydd y strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth yn gweithio mewn ardaloedd gwledig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog cynghorau lleol i weithredu canllawiau cynllunio Tan 6 i gynorthwyo'r economi wledig gynaliadwy ac annog arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig drwy alluogi troi adeiladau fferm gwag yn eiddo busnes neu lety yn awtomatig.

3. Yn cydnabod yr amodau amgylcheddol anodd sy'n wynebu ffermwyr sy'n gweithio mewn Ardaloedd Llai Ffatriol (LFA) ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu pecyn cymorth LFA i fynd i'r afael â'r heriau unigryw hyn.

4. Yn nodi pwysigrwydd gwasanaethau bysiau cynaliadwy fel llinell fywyd i gymunedau gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu digon o gyllid i wasanaethau bysiau gwledig.

5. Yn nodi ymhellach bwysigrwydd Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol o ran cynorthwyo'r economi wledig a hyrwyddo diwylliant Cymru.

1. Recognises the huge potential for tourism in rural Wales and urges the Welsh Government to address industry concerns about how the new strategy for tourism will work in rural areas.

2. Calls on the Welsh Government to encourage local councils to implement Tan 6 planning guidance to support the sustainable rural economy and encourage diversification in rural areas by enabling automatic conversion of redundant farm buildings into business premises or accommodation.

3. Recognises the difficult environmental conditions that face farmers working in Less Favoured Areas (LFA) and calls on the Welsh Government to implement an LFA support package to address these unique challenges.

4. Notes the importance of sustainable bus services as a lifeline for rural communities and calls on the Welsh Government to provide sufficient funding for rural bus services.

5. Further notes the importance of the Royal Welsh Show and National Eisteddfod in supporting the rural economy and promoting Welsh culture.

16:01

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

You will see from the way that the motion is drafted that Welsh Conservatives recognise that the opportunities and challenges in the rural economy are different to those in urban areas. We believe that rural Wales needs to be supported in a way that properly takes into account those differences, and in a way that capitalises on the enormous strengths of the rural economy. Our motion covers a broad range of areas where we believe that the Welsh Government should improve its support, and I can confirm that the Welsh Conservatives will be supporting amendments 1, 6 and 8. We will not be supporting amendments 2 and 5, and we will be abstaining on amendment 7.

Cynigiad y cynnig.

Fe welwch o'r ffordd y caiff y cynnig ei ddrafftio bod Ceidwadwyr Cymru yn cydnabod bod y cyfleoedd a'r heriau yn yr economi wledig yn wahanol i'r rhai mewn ardaloedd trefol. Credwn fod angen i Gymru wledig gael ei chynorthwyo mewn modd sy'n ystyried y gwahaniaethau hynny'n briodol, ac mewn ffordd sy'n manteisio ar gryfderau enfawr yr economi wledig. Mae ein cynnig yn rhychwantu amrywiaeth eang o feysydd lle y dylai Llywodraeth Cymru roi gwell cymorth, yn ein barn ni, a gallaf gadarnhau y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi gwelliannau 1, 6 ac 8. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau 2 na 5, a byddwn yn ymatal ar welliant 7.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The natural environment is a huge economic asset for Wales, both in terms of production and, for example, in the tourism economy, yet it is a fact that over 80% of the land in Wales is classified as 'less favoured area' because the conditions for farming it are so difficult. Farmers working on the most marginal land naturally find it harder to make a profit, and the latest figures show a 39% drop in LFA farm incomes, with the average figure standing at just £16,300. Specific LFA support is provided in England, Scotland and Northern Ireland, but not in Wales, where farmers have been put at a competitive disadvantage by the decisions of Welsh Ministers. I accept that there is a need to look at the current designations of the LFA, and I welcome the Minister's consideration of support under the 'area of natural constraint' designation in the next rural development plan. However, this cannot escape the fact that, right now, farm businesses in the uplands have been put at a significant disadvantage by the Welsh Government, and dedicated LFA support needs to be looked at and reintroduced as a matter of urgency.

Given this serious competitive disadvantage, on-farm diversification becomes even more crucial. Our motion has been drafted to encourage and support the freedom of farm businesses to adapt and diversify. First, these businesses need the infrastructure to allow this to happen, not least in terms of better broadband access and, more particularly, the elimination of rural notspots. Secondly, they need policies in place that give them the freedom to diversify and allow them to do it quickly. That is why our motion recognises the provisions in the TAN 6 document, and recognises that it is a good tool for rural diversification. However, it needs to be properly implemented and interpreted by local authorities if they are to have any impact. All the signs are that the provisions are currently being ignored by local councils or are being applied in an overly cautious manner. Just 80 applications for rural enterprise dwellings have been considered since July 2010 in the whole of Wales, and one in three of those was rejected.

The proposal in our motion to allow the automatic conversion of redundant farm buildings into business premises or accommodation would have a tremendous effect in boosting the competitiveness and resilience of the rural economy by giving farm businesses the freedom to diversify. It would also create spaces where local businesses could set up in their local environment and, perhaps, address issues around the availability of local housing. This would have considerable benefits in terms of jobs and the multiplier effect on the local economy. I urge Ministers to reconsider their opposition to this commonsense proposal.

On rural tourism—I am aware that my colleague, Suzy Davies, will be addressing this more fully—I would say that the Welsh Government's claims that it rural-proofs its policies ring particularly hollow when there is just one reference to rural tourism in the new strategy. Wales has huge assets in the natural beauty of the rural landscape and its unique culture. Promoting and encouraging tourism in rural areas is crucial to ensure that the rural economy as a whole is sustainable and that there are jobs and opportunities available for the people who live in rural Wales.

Mae'r amgylchedd naturiol yn ased economaidd enfawr i Gymru, o ran cynhyrchu ac, er enghraifft, yn yr economi twristiaeth, ond eto mae'n ffaith bod dros 80% o'r tir yng Nghymru wedi ei ddsbarthu'n 'ardal lai ffafriol' am fod amodau ffermio ar y tir hwnnw mor anodd. Ffermwyr sy'n gweithio ar y tir mwyaf ymylol, wrth reswm, sy'n ei chael hi'n anos i wneud elw, a dengys y ffigurau diweddaraf ostyngiad o 39% yn incwm ffermydd LFA, gyda ffigur cyfartalog o £16,300 yn unig. Rhoddir cymorth LFA penodol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid yng Nghymru, lle mae ffermwyr wedi cael eu rhoi o dan anfantais gystadleuol oherwydd penderfyniadau Gweinidogion Cymru. Derbyniaf fod angen edrych ar ddynodiadau presennol yr ardal lai ffafriol, a chroesawaf y ffaith y bydd y Gweinidog yn ystyried rhoi cymorth o dan ddynodiad 'ardal o dan gyfyngiad naturiol' yn y cynllun datblygu gwledig nesaf. Fodd bynnag, ni ellir osgoi'r ffaith, ar hyn o bryd, fod busnesau fferm yn yr ucheldir wedi cael eu rhoi o dan anfantais fawr gan Lywodraeth Cymru, ac mae angen ystyried ac ailgyflwyno cymorth penodol i ardaloedd llai ffafriol fel mater o frys.

O ystyried yr anfantais gystadleuol fawr hon, mae arallgyfeirio ar y fferm yn dod yn bwysicach fyth. Mae ein cynnig wedi cael ei ddrafftio i annog a chefnogi rhyddid i fusnesau fferm addasu ac arallgyfeirio. Yn gyntaf, i'r busnesau hyn mae angen i'r seilwaith ei gwneud yn bosibl i hyn ddigwydd, yn bennaf o ran gwell mynediad at fand eang ac, yn fwy penodol, ddileu manau gwan yng nghefn gwlad. Yn ail, mae angen polisiau ar waith sy'n rhoi'r rhyddid iddynt arallgyfeirio a'i gwneud yn bosibl iddynt wneud hynny yn gyflym. Dyna pam mae ein cynnig yn cydnabod y darpariaethau yn nogfen TAN 6, ac yn cydnabod ei fod yn adnodd da ar gyfer arallgyfeirio gwledig. Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol ei weithredu a'i ddehongli'n briodol er mwyn iddo gael unrhyw effaith. Yr awgrym yw bod awdurdodau lleol yn anwybyddu'r darpariaethau ar hyn o bryd neu'n eu cymhwyso mewn modd rhy ofalus. Dim ond 80 o geisiadau am anheddau menter wledig sydd wedi cael eu hystyried ers mis Gorffennaf 2010 drwy Gymru gyfan, a chafodd un o bob tri o'r rheini ei wrthod.

Byddai ein cynnig i ganiatáu i adeiladau fferm gwag gael eu troi'n adeiladau busnes neu'n llety yn awtomatig yn cael effaith aruthrol o ran hybu cystadleurwydd a chadernid yr economi wledig drwy roi rhyddid i fusnesau fferm arallgyfeirio. Byddai hefyd yn creu manau lle y gellid sefydlu busnesau lleol yn eu hamgylchedd lleol ac, o bosibl, ymdrin â phroblemau ynghylch argaeledd tai lleol. Byddai hyn yn cael manteision sylweddol o ran swyddi a'r effaith lluosydd ar yr economi leol. Anogaf y Gweinidogion i ailystyried eu gwrthwynebiad i'r cynnig synhwyrol hwn.

O ran twristiaeth wledig—gwn y bydd fy nghyd-Aelod, Suzy Davies, yn mynd i'r afael â hyn yn fanylach—byddwn yn dweud bod haeriadau Llywodraeth Cymru ei bod yn prawfesur ei pholisiau o safbwynt anghenion cefn gwlad yn gwbl ddi-sail i bob golwg pan nad oes ond un cyfeiriad yn unig at dwristiaeth wledig yn y strategaeth newydd. Mae gan Gymru asedau enfawr yn harddwch naturiol y dirwedd wledig a'i diwylliant unigryw. Mae hyrwyddo ac annog twristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol i sicrhau bod yr economi wledig gyfan yn gynaliadwy a bod swyddi a chyfleoedd ar gael i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

Of course, the National Eisteddfod and the Royal Welsh Show are fantastic opportunities that promote that kind of rural tourism. Not only are they events that are of huge cultural and social value to Wales, but they provide an invaluable opportunity to bring people together to exchange ideas. As an example, the Royal Welsh Show attracts over 200,000 visitors a year. About 50% of all UK visitors to Wales visit the countryside, which highlights the role and importance of farmers as the guardians of the landscape. It also emphasises the importance of appropriate infrastructure.

Finally, for people living and working in rural Wales, there are the long-standing problems of isolation and the lack of access to services. Increasingly, these services are being concentrated in areas of high population density, and, in my own region, along the north Wales coast. It is an inescapable fact that rural communities suffer the most from this process. Without better support for rural public transport, this trend will only get worse in the coming years. I know that my colleagues are going to speak in more detail to the other points in the motion. We have outlined our proposals to support the rural economy, and I look forward to hearing the contributions of other Members to this debate.

Wrth gwrs, mae'r Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru yn gyfleoedd gwych sy'n hyrwyddo'r math hwnnw o dwristiaeth wledig. Nid yn unig y maent yn ddigwyddiadau sydd o werth diwylliannol a chymdeithasol mawr i Gymru, ond maent yn rhoi cyfle amhrisiadwy i ddod â phobl at ei gilydd i gyfnewid syniadau. Fel enghraifft, mae Sioe Frenhinol Cymru yn denu dros 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae tua 50% o'r holl ymwelwyr o'r DU i Gymru yn ymweld â chefn gwlad, sy'n tynnu sylw at y rôl a phwysigrwydd ffermwyr fel gwarcheidwaid y dirwedd. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd seilwaith priodol.

Yn olaf, i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru, mae'r problemau hirsefydlog sy'n gysylltiedig ag ynysu a diffyg mynediad at wasanaethau. Yn gynyddol, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu canolbwyntio mewn ardaloedd poblog, ac, yn fy rhanbarth i, ar hyd arfordir y gogledd. Mae'n ffaith ddiymwad mai cymunedau gwledig sy'n dioddef fwyaf o'r broses hon. Heb well cymorth i drafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad, dim ond gwaethygu a wna'r duedd hon yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gwn fod fy nghyd-Aelodau yn bwriadu trafod y pwyntiau eraill yn y cynnig yn fanylach. Rydym wedi amlinellu ein cynigion i gefnogi'r economi wledig, ac edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau eraill i'r ddadl hon.

16:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol yr wyth gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 3, caiff gwelliant 4 ei ddad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 5, caiff gwelliant 6 ei ddad-ddethol. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1, 6, 7 ac 8, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the eight amendments to the motion. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected. If amendment 5 is agreed, amendment 6 will be deselected. I call on William Powell to move amendments 1, 6, 7 and 8, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 1 and renumber accordingly:

Yn cydnabod pwysigrwydd banc ar y stryd fawr i'r economi leol, ac yn gresynu at y ffaith, yn ôl dadansoddiad diweddar 'The Last Bank in Town' gan yr Ymgyrch Dros Wasanaethau Bancio Cymunedol, bod tri deg wyth o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru ble mae dim ond un banc bellach.

Recognises the importance of a high street bank to the rural economy and regrets that, according to a recent 'Last Bank in Town' analysis by the Campaign for Community Banking Services, there are now thirty-eight communities in rural Wales with only one bank remaining.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl '(LFA)' a rhoi yn ei le:

In point 3 delete all after '(LFA)' and replace with:

‘nodi potensial Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol i gydnabod yr amodau hyn ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i weithredu pecyn cymorth arbennig ar gyfer ardaloedd sy'n cyfateb i LFA/ANC, y gellid eu cyflwyno drwy reoliadau datblygu gwledig yn debyg i wledydd a rhanbarthau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.’

‘notes the potential of Areas of Natural Constraints to recognising these conditions and calls on the Welsh Government to explore the implementation a dedicated support package for LFA/ANC equivalent areas that could be delivered through rural development regulations akin to other counties and regions within the European Union.’

Gwelliant 7—Aled Roberts

Amendment 7—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 4 and renumber accordingly:

Yn cydnabod rôl hanfodol cyllid yr Undeb Ewropeaidd o ran cefnogi economi cefn gwlad Cymru, ac felly'n credu'n gryf mai'r ffordd orau o ofalu am fuddiannau Cymru yw drwy barhau i fod yn rhan ymroddedig o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Gwelliant 8—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi pwysigrwydd gwasanaethau rheilffordd sydd ar gael yn rhwydd i ddarparu system drafnidiaeth integredig mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ailagor gorsafoedd rheilffyrdd addas ledled cefn gwlad Cymru.

Recognises the essential role European Union funding plays in supporting the rural Welsh economy and therefore firmly believes that Wales' interests are best served by remaining a committed part of the United Kingdom and the European Union.

Amendment 8—Aled Roberts

Insert as new point 5 and renumber accordingly:

Notes the importance of accessible rail services to the delivery of an integrated transport system in rural areas and calls on the Welsh Government to support the re-opening of suitable railway stations across rural Wales.

16:08

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 6, 7 and 8 in the name of Aled Roberts.

I thank the Welsh Conservatives for bringing forward this important debate. As Members will be aware, this debate covers a great number of the issues that I have sought to raise in recent months in the Chamber. As such, our amendments are a genuine attempt to contribute positively to taking these issues forward, rather than seeking to diminish what is already in the motion.

When talking about the rural economy, it is only natural that our discussion should focus on the many villages and towns, and the perilous state of many of our rural high streets. On that note, week after week, we receive news of the proposed closure of yet another bank in rural areas—the latest hit my inbox just last week with HSBC's intention to walk away from the community of Llanidloes in Montgomeryshire. Figures from the Campaign for Community Banking Services published in September last year show that, in the last 10 years, just under 2,000 bank branches were closed across the UK. There are now 900 communities that have only one bank branch and 1,200 communities with no branch at all. The traditional big four banks closed 178 branches in 2011 alone. Estimates suggest a similar rate of closure for 2012 and, indeed, the present year.

The closure of these banks can have devastating consequences for our rural communities and the ability of local business to get swift and effective finance, as I raised earlier with the Minister with responsibility for business and enterprise. While there is the option of online banking, the truth is that, at present, internet provision is simply not good enough for many areas of rural Wales to make this a practical option. While I strongly support the progress that has been made in this regard, it is still clear that alternative financial infrastructure models must be fully explored if we are to build a rural economy that is fit for our time.

Cynigiad welliannau 1, 6, 7 ac 8 yn enw Aled Roberts.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl bwysig hon. Fel y gwyr yr Aelodau, mae'r ddadl hon yn cwmpasu nifer fawr o'r materion yr wyf wedi ceisio eu codi yn ystod y misoedd diwethaf yn y Siambr. Fel y cyfryw, mae ein gwelliannau yn ymgais wirioneddol i gyfrannu'n gadarnhaol er mwyn bwrw ymlaen â'r materion hyn, yn hytrach na cheisio glastwreiddio'r hyn sydd eisoes yn y cynnig.

Wrth sôn am yr economi gwledig, mae'n gwbl naturiol bod ein trafodaeth yn canolbwyntio ar y nifer fawr o bentrefi a threfi, a sefyllfa enbydus y stryd fawr mewn llawer o'n cymunedau gwledig. Ar y nodyn hwnnw, wythnos ar ôl wythnos, rydym yn cael newyddion am fwriad i gau banc arall eto mewn ardaloedd gwledig—cefais wybod am un arall dim ond yr wythnos diwethaf pan dderbyniais neges am fwriad HSBC i gefnu ar Lanidloes yn Sir Drefaldwyn. Dengys ffigurau gan yr Ymgyrch dros Wasanaethau Bancio Cymunedol a gyhoeddwyd ym mis Medi llynedd, yn y 10 mlynedd diwethaf, i bron i 2,000 o ganghennau banc gael eu cau ledled y DU. Erbyn hyn mae 900 o gymunedau sydd ag un gangen banc yn unig a 1,200 o gymunedau heb gangen o gwbl. Caeodd y pedwar banc mawr traddodiadol 178 o ganghennau yn 2011 yn unig. Mae amcangyfrifon yn awgrymu cyfradd debyg o gau yn 2012 ac, yn wir, y flwyddyn gyfredol.

Gall cau'r banciau hyn gael effaith andwyol iawn ar gymunedau gwledig a gallu busnesau lleol i gael cyllid yn gyflym ac yn effeithiol, fel y codais yn gynharach gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes a menter. Er bod bancio ar-lein yn bosibl, y gwir amdani yw, nad yw darpariaeth y rhyngwrwyd, ar hyn o bryd, yn ddigon da mewn llawer o ardaloedd cefn gwlad Cymru er mwyn gwneud hyn yn ddewis ymarferol. Er fy mod yn cefnogi'n gryf y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn hyn o beth, mae'n dal yn glir bod yn rhaid ystyried modelau seilwaith ariannol amgen yn llawn os ydym am adeiladu economi gwledig sy'n addas i'n hoes.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have also previously spoken about the need to improve the practical implementation on the ground by local authorities of technical advice note 6. While the guidance is certainly of value and was trumpeted at the time of its launch, it remains disappointing at the moment as to how many practical examples there are across Wales of the TAN actually delivering what it was intended to deliver.

Looking to less favoured areas, Members will be in no doubt of the position my colleagues and I have taken in this regard over recent months, calling for the reinstatement of appropriate support levels for farmers who operate in those difficult upland areas. It is therefore with a degree of relief that I read the Government's fifth amendment on exploring the use of areas of natural constraint. This represents a very valuable move towards the request that my party colleagues and I have been seeking to make inside and outside this Chamber in recent months. Naturally, we will be supporting our version of this amendment, given its greater strength, but it is positive, at least, to see that we are on the same page on this issue. To that end, I would be grateful if the Minister could outline in his reply his current thinking and timetable of his intentions with respect to the areas of natural constraint.

Obviously, many hill farmers are keen to not wait until 2018 for this matter to be resolved. After all, many could have been driven out of business in the meantime, with all the environmental problems and difficulties that that will create for them and their families. Can we expect to see any further detail on this matter by the end of term? Furthermore, can you please detail whether you would seek to deliver such support, via axis 2 of the rural development plan, rather than through top-slicing. Pressing ahead, such funding opportunities clearly demonstrate the great value of Wales remaining at the very heart of the European Union. While the present settlement may not satisfy everyone, I would like to thank the Minister for the positive role that he has recently played, and the energy that he has committed to negotiating jointly the position in the councils of Europe.

Finally, I want to make some remarks on transport and the specific importance of rail services in connecting rural Wales to the wider Wales and UK network. My colleague Mark Williams in the House of Commons continues to push for the instatement of the hourly service on the Cambrian line. That is of real importance to the people of mid Wales.

In conclusion, this debate is well considered and well timed. The Royal Welsh Show and the Eisteddfod are less than a month away. I very much hope that all parties here will be fully represented at these important events.

Gwelliant 2—Lesley Griffiths

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'ac yn annog Llywodraeth Cymru i' a rhoi yn ei le 'weithio gyda'r diwydiant er mwyn datblygu'r potensial hwnnw drwy fwrw ymlaen â'r strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth'

Gwelliant 3—Lesley Griffiths

Rwyf hefyd wedi sôn o'r blaen am yr angen i wella'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu nodyn cyngor technegol 6 yn ymarferol ar lawr gwlad. Er bod y canllaw yn sicr o werth a chafodd ei ganmol ar adeg ei lansio, mae'n dal yn siomedig ar hyn o bryd o ran faint o enghreifftiau ymarferol sydd ledled Cymru o'r TAN yn cyflawni'r hyn y bwriedid iddo ei gyflawni mewn gwirionedd.

Gan droi at ardaloedd llai ffafriol, ni fydd unrhyw amheuaeth ymhlith yr Aelodau ynglŷn â safbwynt fy nghyd-Aelodau a minnau yn y cyswllt hwn dros y misoedd diwethaf, wrth inni alw am adfer lefelau priodol o gymorth i ffermwyr sy'n gweithredu yn yr ucheldiroedd anodd hynny. Felly darllenais gyda rhywfaint o ryddhad bumed gwelliant y Llywodraeth ynglŷn ag ystyried y defnydd o ardaloedd o dan gyfyngiad naturiol. Mae hyn yn gam gwerthfawr iawn tuag at yr hyn y mae fy nghyd-Aelodau yn fy mhlaid a minnau wedi bod yn ei geisio y tu mewn i'r Siambr hon a thu hwnt yn ystod y misoedd diwethaf. Yn naturiol, byddwn yn cefnogi ein fersiwn ni o'r gwelliant hwn, o ystyried ei fod yn gryfach, ond mae'n gadarnhaol, o leiaf, gweld ein bod ar yr un trywydd o ran y mater hwn. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu yn ei ateb ei syniadau cyfredol ac amserlen o'i fwriadau mewn perthynas â'r ardaloedd o dan gyfyngiad naturiol ar hyn o bryd.

Yn amlwg, mae llawer o ffermwyr mynydd yn awyddus i beidio ag aros tan 2018 i'r mater hwn gael ei ddatrys. Wedi'r cyfan, gallai llawer fod wedi mynd i'r wal yn y cyfamser, gyda'r holl broblemau ac anawsterau amgylcheddol y bydd hynny'n eu creu iddynt hwy a'u teuluoedd. A allwn ddisgwyl gweld unrhyw fanylion pellach ar y mater hwn erbyn diwedd y tymor? At hynny, a allwch nodi a fydddech yn ceisio rhoi cymorth o'r fath, drwy echel 2 o'r cynllun datblygu gwledig, yn hytrach na thrwy frigdorri. Gan edrych tuag at y dyfodol, mae cyfleoedd cyllido o'r fath yn dangos yn glir pa mor werthfawr ydyw i Gymru aros yng nghanol yr Undeb Ewropeaidd. Er na fydd y setliad presennol yn bodloni pawb, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y rôl gadarnhaol y mae wedi ei chwarae yn ddiweddar, a'r ffordd y mae wedi ymroi i gyd-drafod y sefyllfa yng nghyngor Ewrop.

Yn olaf, hoffwn wneud rhai sylwadau ar drafndiaeth a phwysigrwydd penodol gwasanaethau rheilffyrdd i gysylltu Cymru wledig â gweddill Cymru a rhwydwaith y DU. Mae fy nghyd-Aelod Mark Williams yn Nhŷ'r Cyffredin yn parhau i bwysu i'r gwasanaeth bob awr gael ei adfer ar reilffordd y Cambrian. Mae hynny o bwys gwirioneddol i bobl y canolbarth.

I gloi, mae'r ddadl hon yn un ystyriol ac amserol. Mae Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod lai na mis i ffwrdd. Mawr obeithiaf y bydd pob plaid yma yn cael ei chynrychioli'n llawn yn y digwyddiadau pwysig hyn.

Amendment 2—Lesley Griffiths

In point 1, delete all after 'urges the Welsh Government to' and replace with 'work with the industry to develop that potential by taking forward the new strategy for tourism'

Amendment 3—Lesley Griffiths

Dileu pwynt 2.

Delete point 2.

Gwelliant 5—Lesley Griffiths

Amendment 5—Lesley Griffiths

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Delete point 3 and replace with:

'Yn cydnabod yr amodau economaidd a'r amodau amgylcheddol anodd y mae ffermwyr sy'n gweithio yn yr Ardal Lai Ffatriol (LFA) bresennol yn eu hwynebu, yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r dynodiad newydd ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol cyn y dyddiad terfynol yn 2018 ac yn nodi hefyd ymrwymiad y Llywodraeth i ddefnyddio'r dynodiad newydd hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau unigryw hyn.'

'Recognises the difficult economic and environmental conditions that face farmers working in the current Less Favoured Area (LFA), notes the Welsh Government's work in developing the new Areas of Natural Constraint designation in advance of the final deadline of 2018 and further notes the Government's commitment to use this new designation to help address these unique challenges.'

16:13

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move amendments 2, 3 and 5 in the name of Lesley Griffiths.

Cynigiau welliannau 2, 3 a 5 yn enw Lesley Griffiths.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Ym mhwynt 2, dileu 'yn awtomatig'.

In point 2 delete 'automatic'.

16:13

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiau welliant 4 yn fy enw i.

I move amendment 4 in my name.

Rwy'n croesawu'r ddadl hon y prynhawn yma yn enw'r Ceidwadwyr. Mae sawl agwedd wahanol ar y cynnig hwn heddiw ac ar y gwelliannau. Mae sawl agwedd ar fywyd gwledig yn cael eu hadlewyrchu yn y cynnwys o'n blaen ni heddiw. Mae'n siŵr bod gwerth 10 dadl o bosibl yn yr un ddadl hon y prynhawn yma. Felly, byddaf yn cyfyngu fy sylwadau at rai o'r pwyntiau sydd yn codi.

I welcome the debate this afternoon tabled by the Welsh Conservatives. There are several different aspects to the motion and to the amendments. Several aspects of rural life are reflected in what is before us today. I am sure that there is 10 debates' worth of topics in this one debate this afternoon. Therefore, I will limit my comments to some of the points that arise.

Bwriad TAN 6 yw bod yn bolisi cynllunio gwledig sy'n adlewyrchiad o 'approach' gwahanol i gynllunio yng nghefn gwlad. Rwy'n gefnogol o agwedd hyblyg iawn tuag at ganiatáu datblygiadau yng nghefn gwlad; nid rhyw fath o gerdyn post gyda llun o gefn gwlad sy'n fythol wyrdd a lle nad oes byth dim byd yn newid yw fy Nghymru wledig i. Rwyf eisiau gweld pobl yn byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, ac i sicrhau hynny mae angen datblygiadau newydd ac adeiladu tai a lleoedd gwaith newydd yng nghefn gwlad. Nid tirlun heb newid dylai cefn gwlad Cymru fod.

The aim of TAN 6 is to be a rural planning approach that reflects a different approach to planning in rural areas. I am supportive of a very flexible approach to allowing developments in rural areas; some sort of postcard rural Wales, with an ever green rural scene in which nothing ever changes, is not my rural Wales. I want to see people living and working in our rural areas, and to ensure that we need new developments and to build houses and places of work in rural areas. Rural Wales should not be an unchanging landscape.

Fy ngreddf gychwynnol i felly oedd cefnogi pwynt 2 yn y cynnig hwn y prynhawn yma i ganiatáu troi adeiladau fferm gwag yn eiddo busnes neu lety yn awtomatig. Fodd bynnag, mae'r term 'awtomatig' yn peri rhywfaint o broblem i mi, yn enwedig yng nghyd-destun trosi adeiladau fferm yn dai, yn benodol. O ran eu troi yn eiddo busnes yn awtomatig, efallai y byddai hynny'n bosibl, ond mae'n rhaid i awdurdod cynllunio, yn fy marn i, gael yr hawl i benderfynu ar nifer y tai y dylid eu caniatáu mewn unrhyw ardal, ac ni fyddwn am weld sefyllfa 'free for all', i bob pwrpas, lle mae datblygwyr yn gallu prynu eiddo ar glos fferm a'u datblygu yn dai yn awtomatig. Felly, dyna'r rheswm y bu inni gyflwyno gwelliant penodol i ddileu'r gair 'awtomatig' o'r darn hwn o'r cynnig. Gyda llaw, byddwn yn cefnogi caniatâd awtomatig ar gyfer trosi adeiladau fferm yn llety i weithwyr fferm neu i aelodau o'r teulu sy'n rhan o fusnes y fferm. Mae hynny yn fater gwahanol.

Hoffwn godi un pwynt arall ar TAN 6. Diwygiodd Llywodraeth Cymru'n Un y canllawiau i ganiatáu ail dŷ ar fferm, ac roedd hynny'n fater o bwys mawr i mi fel Gweinidog ar y pryd ac fel cynrychiolydd Ceredigion. Ond, mae problemau yn parhau gyda gweithredu TAN 6, ac mae denu cyllid o gymdeithasau adeiladu yn parhau i fod yn broblematic i adeiladu tŷ newydd yn y categori hwn. Mae gan awdurdodau lleol amrywiol fersiynau o'r cytundebau adran 106, sy'n gysylltiedig â datblygiadau o'r math hwn. Byddai'n werthfawr iawn petai fframwaith cenedlaethol gan y Llywodraeth sy'n gyson drwy Gymru ar y cytundebau adran 106 sy'n cael eu rhyddhau gan awdurdodau lleol. Byddai hynny, yn ei dro, yn hyrwyddo mwy o hyder gan y sector ariannu i fenthyca o dan amgylchiadau TAN 6 a chytundebau adran 106.

Trof at amaeth yn fwy penodol. Yr wythnos diwethaf, cefais gyfarfod gyda ffermwyr NFU Ceredigion, ac maent yn cofio atoch chi, Weinidog. Roedd ganddynt farn gref ar nifer o faterion, fel arfer, ond efallai mai'r neges gryfaf oedd ganddynt i'r Cynulliad, ac i'r Llywodraeth yn benodol, oedd eu bod yn disgwyl trafodaeth gynnar a chytundeb cynnar ar roi'r polisi amaethyddol cyffredin newydd ar waith yng Nghymru. Roeddent yn arbennig o awyddus i weld y Gweinidog yn gallu rhoi sicrwydd y bydd system taliadau newydd yn ei lle yn ddi-dor ac yn effeithlon wrth droi o un gyfundrefn ariannu i'r gyfundrefn nesaf.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r Torïaid am gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma, ac am y ffocws a roddwyd gan Antoinette Sandbach yn ei chyflwyniad ar bwysigrwydd twristiaeth, yn enwedig i economi cefn gwlad. Mae'n gyfnod yr haf, ac anogaf bob Aelod Cynulliad i ymweld â chefn gwlad Cymru, ac i dreulio rhan o'u gwyliau haf yno—yn ardal harddaf cefn gwlad Cymru, sef Ceredigion.

My initial intention was to support point 2 in the motion this afternoon to allow empty farm buildings to be turned into business premises or accommodation automatically. However, the term 'automatic' causes me some problems, particularly in the context of converting farm buildings into houses. Converting them to business premises automatically may be possible, but I believe that the planning authority must retain the right to determine the number of homes that should be allowed in any area, and I would not want to see a 'free for all', to all intents and purposes, where developers could buy farm property and develop it into houses automatically. That is the rationale behind our tabling of that specific amendment to delete the word 'automatic' from this part of the motion. By the way, I would support automatic permission for the conversion of farm buildings into accommodation for farm workers or family members who are part of the farm business. That is a different matter.

I would like to raise one other point on TAN 6. The One Wales Government amended the guidance to allow a second home on a farm, and that was a very important issue for me as Minister at that time and as the Ceredigion representative. However, problems remain with the implementation of TAN 6, and attracting funding from building societies to build a new house in this category continues to be problematic. Local authorities have various versions of the section 106 agreements related to such developments. It would be very useful if the Government had a consistent national framework for Wales on the section 106 agreements that are used by local authorities. That, in turn, would promote greater confidence by the finance sector to lend under the conditions of TAN 6 and section 106 agreements.

I will turn to agriculture more specifically. Last week, I had a meeting with NFU farmers from Ceredigion—and they send their regards, Minister. They had strong views on a number of issues, as usual, but perhaps the strongest message that they conveyed to the Assembly, and the Government specifically, was that they expected an early discussion and agreement on the implementation of the new common agricultural policy in Wales. They were particularly eager to see the Minister giving assurances that the new payment system would be put in place seamlessly and efficiently as the work is done to convert from one funding system to the next.

I would like to conclude by thanking the Tories for tabling this debate this afternoon, and for the focus given by Antoinette Sandbach in her contribution to the importance of tourism, particularly to the rural economy. It is summer, and I urge all Assembly Members to visit and to spend part of their summer holiday in rural Wales—in the most beautiful part of rural Wales, namely Ceredigion.

16:18

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a representative of a largely rural constituency, I, too, welcome the opportunity to speak today. Some 76% of Wales is rural and one-third of its population live in our rural communities. However, for too long, this sizeable portion of Wales has come to expect lesser services and outcomes than their more urbanised compatriots.

Fel Aelod sy'n cynrychioli etholaeth wledig yn bennaf, rwyf innau hefyd yn croesawu'r cyfle i siarad heddiw. Mae tua 76% o Gymru yn wledig ac mae un rhan o dair o'r boblogaeth yn byw yn ein cymunedau gwledig. Fodd bynnag, ers gormod o amser, mae'r gyfran sylweddol hon o Gymru wedi dod i arfer disgwyl gwasanaethau a chanlyniadau gwaeth na'u cydwladwyr mwy trefol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The importance of the tourism industry to Wales cannot be overstated. Deloitte and Oxford Economics estimated that the total contribution of the tourism industry to the Welsh economy in 2010 accounted for £6.2 billion of GDP, which is 13.3% of the total economy, compared with 10% in Scotland, 8% in England and 4% in Northern Ireland. Rural economies have an even stronger link with the tourism sector. In fact, Conwy has the highest link of any county in Wales, with 16.7% of employees working in the tourism industry. In the Conwy valley, attractions such as Tree Top Adventure, Zip World, Go Below, the beautiful falls at Betws-y-Coed, Plas y Brenin and, of course, the marvellous market town of Llanrwst, with its array of quality shops on the high street, support and serve our local visitor economy, bringing much needed jobs to replace those lost in areas such as manufacturing. However, we also have amazing hotels, caravan parks, restaurants and bed and breakfast accommodation that are far too numerous to list by name. That is why it is so vital that we pay sufficient attention to this essential sector and that we properly capitalise on the resultant growth to strengthen Wales and its future.

Acknowledging the importance of the tourism sector to Wales's economy, I was, like everybody else, pleased to see the arrival of a tourism strategy for Wales. There are things to be largely welcomed in this strategy, such as an emphasis on the sector's importance, promoting the esteem of careers in tourism and recognition of the need to rejuvenate its infrastructure. However, even in this strategy there is a lack—I think that, in the 30-page Government tourism document, the word 'rural' is mentioned only once. Even the Welsh Government website states that

'there is no specific policy or programme targeting support for rural tourism'.

We would ask the question: why are you neglecting the potential of rural Wales for tourism? It is objectionable that the document contains minimal quantifiable targets for the rural tourism sector. I urge the Welsh Government to take real action to support rural tourism and the economic engines that it powers.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i Gymru. Amcangyfrifodd Deloitte ac Oxford Economics fod cyfanswm cyfraniad y diwydiant twristiaeth i economi Cymru yn 2010 wedi cyfrif am £6.2 biliwn o CMC, sef 13.3% o gyfanswm yr economi, o gymharu â 10% yn yr Alban, 8% yn Lloegr a 4% yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan economïau gwledig gysylltiad cryfach hyd yn oed â'r sector twristiaeth. Yn wir, Conwy sydd â'r cyswllt mwyaf o blith holl siroedd Cymru, gyda 16.7% o weithwyr yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth. Yn nyffryn Conwy, mae atyniadau megis Tree Top Adventure, Zip World, Go Below, y rhaeadr hardd ym Metws-y-Coed, Plas y Brenin ac, wrth gwrs, tref farchnad wych Llanrwst, gyda'i hamrywiaeth o siopau o safon ar y stryd fawr, yn cefnogi ac yn gwasanaethu ein heconomi dwristiaeth leol, gan ddod â swyddi mawr eu hangen yn lle'r rhai a gollwyd mewn meysydd fel gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, mae gennym hefyd westai anhygoel, meysydd carafannau, tai bwyta a llety gwely a brecwast sy'n llawer rhy niferus i'w henwi. Dyna pam ei bod mor bwysig ein bod yn rhoi digon o sylw i'r sector hollbwysig hwn a'n bod yn manteisio i'r eithaf ar y twf canlyniadol i gryfhau Cymru a'i dyfodol.

Wrth gydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth i economi Cymru, roeddwn innau, fel pawb arall, yn falch o weld dyfodiad strategaeth dwristiaeth i Gymru. Mae pethau i'w croesawu i raddau helaeth yn y strategaeth hon, megis pwyslais ar bwysigrwydd y sector, hyrwyddo parch tuag at yrfaedd mewn twristiaeth a chydabod yr angen i adfywio ei seilwaith. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y strategaeth hon mae diffyg—credaf mai dim ond unwaith y crybwyllir y gair 'gwledig' yn y ddogfen dwristiaeth 30 tudalen gan y Llywodraeth. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn dweud, hyd yn oed

nid oes polisi na raglen benodol o gymorth sy'n targedu twristiaeth wledig.

Byddem yn gofyn y cwestiwn: pam eich bod yn esgeuluso potensial Cymru wledig ar gyfer twristiaeth? Mae'n annerbyniol bod y ddogfen yn cynnwys ychydig iawn o dargedau mesuradwy i'r sector twristiaeth wledig. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau gwirioneddol i gefnogi twristiaeth wledig a'r sbardun economaidd a gynigia.

However, today's debate, of course, is wider than rural tourism. It is about addressing shortfalls in Government policy, which failed to adequately support rural Wales. In rural areas, residents are more dependent on public transport and have been unduly hit by the cut of some £8 million in the Welsh Government's subsidy for bus routes, while at the same time, fares have increased above the rate of inflation, with an average increase of over 47% since March 2005. This is definitely having an unfair impact on people in our rural communities. One such example is Mrs Randall. She lives in a rural part of the Vale of Glamorgan and she has taken the time and courtesy to write to us. She commutes nine miles to work every day. The journey should take 25 minutes but, as a result of a cut to her bus service, it is now taking over two and a half hours. This is just the tip of the iceberg on an issue that is affecting wide swathes of Wales. Therefore, I would urge the Welsh Government to bring forward some funding for a sustainable bus service to support our rural communities.

It would be impossible to debate the rural economy and not pay sufficient heed to our agricultural sector. Around 80% of Wales's agricultural land is in what is considered to be a less favoured area. These areas were disproportionately affected by the recent cold weather and are still reeling in its aftermath. In Scotland, where 85% of its agricultural land is in LFAs, the Government has brought forward the less favoured area support scheme, which is a £56 million fund paid to 10,000 claimants. In addition, it has established a £6 million weather aid scheme to support those affected. We should be doing these sorts of things. I would ask Welsh Government to implement a support package for our farmers.

To reiterate, rural Wales has the potential to be an intrinsic cog in the engine for growth that pulls Wales out of financial strife and supports our economy to thrive. It cannot do it alone. The Welsh Government needs to implement a firm, measurable plan of action that builds on what is already a solid base for growth.

Fodd bynnag, mae'r ddadl heddiw, wrth gwrs, yn cwmpasu mwy na thwrstiaeth wledig. Mae'n ymwneud â mynd i'r afael â diffygion ym mhollisi'r Llywodraeth, a fethodd â rhoi digon o gymorth i Gymru wledig. Mewn ardaloedd gwledig, mae trigolion yn fwy dibynnol ar drafndiaeth gyhoeddus ac wedi dioddef yn anghymesur o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i dorri tua £8 miliwn yn y cymhorthdal ar gyfer llwybrau bws, tra ar yr un pryd, mae prisiau wedi cynyddu'n uwch na chyfradd chwyddiant, gyda chynnydd o fwy na 47% ar gyfartaledd ers mis Mawrth 2005. Mae hyn yn bendant yn cael effaith annheg ar bobl yn ein cymunedau gwledig. Un enghraifft o'r fath yw Mrs Randall. Mae'n byw mewn rhan wledig o Fro Morgannwg ac mae wedi rhoi o'i hamser i ysgrifennu atom. Mae'n cymudo naw milltir i'r gwaith bob dydd. Dylai'r daith gymryd 25 munud ond, o ganlyniad i doriad i'w gwasanaeth bws, mae bellach yn cymryd dros ddwy awr a hanner. Un enghraifft yn unig yw honno o broblem sy'n effeithio ar rannau helaeth o Gymru. Felly, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhywfaint o arian ar gyfer gwasanaeth bws cynaliadwy er mwyn cefnogi ein cymunedau gwledig.

Byddai'n amhosibl trafod yr economi wledig heb roi sylw digonol i'n sector amaethyddol. Mae tua 80% o dir amaethyddol Cymru yn yr hyn a ystyrir yn ardal lai ffafriol. Effeithiwyd ar yr ardaloedd hyn yn anghymesur yn dilyn y tywydd oer diweddar ac maent yn dal i ddioddef yn ei sgil. Yn yr Alban, lle mae 85% o'r tir amaethyddol mewn ardaloedd llai ffafriol, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynllun cymorth i ardaloedd llai ffafriol, sef cronfa gwerth £56 miliwn a delir i 10,000 o hawlwr. Yn ogystal, mae wedi sefydlu cynllun cymorth tywydd gwerth £6 miliwn i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt. Dylem fod yn gwneud pethau tebyg. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithredu pecyn cymorth i'n ffermwyr.

Os caf bwysleisio hyn eto, gall Cymru wledig fod yn elfen annatod o'r sbardun i greu twf a fydd yn helpu Cymru i ddianc rhag y cythrwfl ariannol ac yn helpu ein heconomi i ffynnu. Ni all wneud hyn ar ei phen ei hun. Mae angen i Lywodraeth Cymru roi cynllun gweithredu cadarn a mesuradwy ar waith sy'n adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn sylfaen gadarn ar gyfer twf.

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Quickly, please.

Yn gyflym, os gwelwch yn dda.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:23 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for action to promote business, livelihoods, tourism and Wales.

Galwaf am weithredu i hyrwyddo busnes, bywoliaeth, twristiaeth a Chymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:24 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that the Minister would agree that effective Government is about listening, acknowledging problems, agreeing actions and delivering better outcomes. The statement by the outgoing chairman of north Wales tourism in May, that the Welsh Government

Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno mai gwaith Llywodraeth effeithiol yw gwrando, gan gydnabod problemau, cytuno ar gamau gweithredu a sicrhau gwll canlyniadau. Mae angen i ddatganiad cadeirydd ymadawol twristiaeth gogledd Cymru ym mis Mai, fod angen i Lywodraeth Cymru

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

'needs to get its act together',

gael trefn ar bethau,

and provide more support for the region's tourism, needs to be taken seriously. He added that he was chairman from 1983 to 1990, when there was strong support from central Government in London, but

'then it was reorganised and now it feels like the industry is being...paid lip service to.'

He added that

'the Northern Ireland Tourist Board is doing a great job. The Scottish Tourist Board are knocking spots of what is being done to attract tourists to Wales.'

He also said that

'there is a complete lack of communication with Welsh Government and they have to allow themselves to be questioned',

adding that,

'for Wales to be more competitive with other parts of the UK – never mind overseas – there has to be more support'.

An estimated 50% of all UK visitors to Wales visit the countryside, and tourism supports almost 40,000 jobs in north Wales alone. North Wales accounts for 1% of the UK population, but for 3% of domestic tourism nights. Tourism is worth some £166 million each year to Flintshire alone, sustaining jobs and supporting the rural economy. Flintshire tourism association was established to deliver joined-up working in north-east Wales and to improve the north Wales borderlands brand and image. North-east Wales is within the reach of 15.5 million potential visitors—a bigger pot than even Cardiff can call upon. It needs to be marketed far more in the midlands of England and north-west England accordingly. However, only last weekend, a Caravan Club site owner in Flintshire told me that, although visitors love what Flintshire offers, too few knew about it because it was poorly represented in promotional literature.

During the last Assembly, the then Minister developed the north-east Wales cultural action plan, designed, among other things, to establish a programme for the Pontcysyllte world heritage site as an attractor, and as the basis for tourism, cultural and wider development projects. However, only this week, key stakeholders raised questions with me about whether the Pontcysyllte aqueduct as a regeneration site and tourism area has a high enough profile. They expressed concern that no clear, co-ordinated group was championing the aqueduct, that no named person was associated with the aqueduct and that there was a lack of progress with all parties engaged in the aqueduct in Trevor basin in moving the regeneration opportunities forward. The Minister's attention, alone or with colleagues, to this matter would be welcomed.

a rhoi mwy o gymorth i dwristiaeth y rhanbarth, gael ei gymryd o ddifrif. Ychwanegodd iddo fod yn gadeirydd rhwng 1983 a 1990, pan oedd cefnogaeth gref gan y Llywodraeth ganolog yn Llundain, ond

yna cafodd ei ad-drefnu ac erbyn hyn mae'n teimlo fel petai'r Llywodraeth...ond yn esgus cefnogi'r diwydiant.

Ychwanegodd

mae Bwrdd Croeso Gogledd Iwerddon yn gwneud gwaith gwych. Mae Bwrdd Croeso'r Alban yn rhagori gryn dipyn ar yr hyn sy'n cael ei wneud i ddenu twristiaid i Gymru.

Dywedodd hefyd fod

diffyg cyfathrebu llwyr â Llywodraeth Cymru a bod yn rhaid iddi ganiatáu i eraill ei holi,

gan ychwanegu,

er mwyn i Gymru fod yn fwy cystadleuol na rhannau eraill o'r DU—heb sôn am dramor—rhaid cael mwy o gymorth.

Amcangyfrifir bod 50% o'r holl ymwelwyr o'r DU i Gymru yn ymweld â chefn gwlad, ac mae twristiaeth yn cefnogi bron 40,000 o swyddi yn y gogledd yn unig. Mae'r gogledd yn cyfrif am 1% o boblogaeth y DU, ond am 3% o nosweithiau twristiaeth domestig. Mae twristiaeth yn werth tua £166 miliwn bob blwyddyn i Sir y Fflint yn unig, gan gynnwys swyddi a chefnogi'r economi wledig. Sefydlwyd cymdeithas dwristiaeth Sir y Fflint i sicrhau cydweithio yn y gogledd-ddwyrain ac i wella brand a delwedd ardal ffin y gogledd. Mae'r gogledd-ddwyrain o fewn cyrraedd 15.5 miliwn o ymwelwyr posibl—mwy nag sydd ar gael hyd yn oed i Gaerdydd. Mae angen marchnata'r ardal lawer mwy yng nghanolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr felly. Fodd bynnag, y penwythnos diwethaf, dywedodd perchennog un o safleoedd y Clwb Carafannau yn Sir y Fflint wrthyf, er bod ymwelwyr yn gwirioni ar yr hyn a gynigir gan Sir y Fflint, fod rhy ychydig yn gwybod amdani oherwydd ei bod yn cael ei chynrychioli'n wael mewn deunydd hyrwyddo.

Yn ystod y Cynulliad diwethaf, datblygodd y Gweinidog ar y pryd gynllun gweithredu diwylliannol gogledd-ddwyrain Cymru, gyda'r nod, ymhlith pethau eraill, o sefydlu rhaglen ar gyfer safle treftadaeth y byd Pontcysyllte fel atyniad, ac fel sail ar gyfer prosiectau twristiaeth, prosiectau diwylliannol a phrosiectau datblygu ehangach. Fodd bynnag, dim ond yr wythnos hon, cododd rhanddeiliaid allweddol gwestiynau gyda mi ynghylch a yw traphont ddŵr Pontcysyllte fel safle adfywio ac ardal dwristiaeth yn cael proffil digon uchel. Mynegwyd pryder nad oes unrhyw grŵp wedi'i gydgyssylltu penodol yn hyrwyddo'r draphont ddŵr, nad oedd unrhyw un a enwir yn gysylltiedig â'r draphont ddŵr a bod diffyg cynnydd gyda'r holl bartïon sy'n ymwneud â'r draphont ddŵr yn masn Trefor o ran datblygu'r cyfleoedd adfywio. Byddai sylw'r Gweinidog, ei arben ei hun neu gydag eraill, i'r mater yn cael ei groesawu.

The north Wales economic ambition board stated in April that there seemed to be a good working relationship developing with officials from Welsh Government. However, it added that, at a recent meeting of lead members from across Wales, in Cardiff, there was concern at the lack of commitment and understanding from Welsh Government when it comes to the regional boards.

The north Wales local authorities' document, 'Economic Ambition—A Strategy for Change', states that tourism is vital to the economy of our remoter rural communities. In total, local authority expenditure in north Wales exceeds £3.7 million and employs 65 staff directly on tourism. It has said that there are opportunities for streamlining activity and that integrally linked to rural development and tourism initiatives are the rural development plan funds. It said that this might also be an opportune moment to relook at ways in which these funds are delivered. This should include discussion of the merits of targeting the funds on a needs basis, including, notably, the former mining communities of north-east and north-west Wales, as well as ensuring that the funds are sufficiently flexible to support entrepreneurs and innovative ideas. However, I understand that it is still waiting for a response from the relevant Minister, and that it is beginning to feel a sense of urgency regarding that.

Disability groups have told me that tourism could be increased if Wales is seen by overseas and domestic visitors as an accessible and welcoming holiday destination. However, Arfon access group, which has been carrying out a review of the Visit Wales website and local authority marketing materials regarding appropriate information for disabled people to plan visits to places of interest around Wales, advises that even before it completed its work, it became clear to the group that little such information had been incorporated.

So, if the potential of tourism in rural Wales is to be fully exploited, the concerns that I have raised on behalf of, and at the request of, a number of other parties must be addressed.

Dywedodd bwrdd uchelgais economaidd y gogledd ym mis Ebrill ei bod yn ymddangos fod perthynas waith dda yn datblygu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ychwanegodd, mewn cyfarfod diweddar o aelodau arweiniol o bob rhan o Gymru, yng Nghaerdydd, fod pryder ynghylch y diffyg ymrwymiad a dealltwriaeth ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r byrddau rhanbarthol.

Noda dogfen awdurdodau lleol y gogledd, 'Uchelgais Economaidd—Strategaeth ar gyfer Newid', fod twristiaeth yn hanfodol i economi ein cymunedau gwledig mwy anghysbell. At ei gilydd, mae awdurdodau lleol yn y gogledd yn gwario dros £3.7 miliwn ac yn cyflogi 65 o staff yn uniongyrchol ym maes twristiaeth. Dywedodd fod cyfleoedd i symleiddio gweithgarwch a bod cyswllt annatod rhwng mentrau datblygu gwledig a thwristiaeth a chronfeydd y cynllun datblygu gwledig. Dywedodd y gallai hyn hefyd fod yn adeg amserol i ailystyried sut y darperir y cronfeydd hyn. Dylai hyn gynnwys trafodaeth ynglŷn â rhinweddau targedu'r cronfeydd ar sail angen, gan gynnwys, yn arbennig, hen gymunedau glofaol y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, yn ogystal â sicrhau bod yr arian yn ddigon hyblyg i gefnogi entrepreneuriaid a syniadau arloesol. Fodd bynnag, caf ar ddeall ei fod yn dal i aros am ymateb gan y Gweinidog perthnasol, a'i fod yn dechrau teimlo bod angen gweithredu ar frys ynglŷn â hynny.

Mae grwpiau anabledd wedi dweud wrthyf y gellid cynyddu twristiaeth os ystyrir Cymru yn gyrchfan gwyliau hygyrch a chroesawgar gan ymwelwyr tramor a domestig. Fodd bynnag, mae grŵp mynediad Arfon, sydd wedi bod yn cynnal adolygiad o wefan Croeso Cymru a deunydd marchnata awdurdodau lleol o ran gwybodaeth briodol i bobl anabl gynllunio ymweliadau â mannau o ddirordeb o amgylch Cymru, yn dweud bod hyd yn oed cyn iddo gwblhau ei waith, y daeth yn glir i'r grŵp mai ychydig o wybodaeth o'r fath oedd wedi cael ei chynnwys.

Felly, er mwyn gwireddu potensial twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru yn llawn, rhaid mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gennyf ar ran, ac ar gais, nifer o bartïon eraill.

16:28

Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

I have to confess to being conflicted. On the one hand, I am glad of the opportunity to discuss these things and to debate how they affect people living in rural communities. On the other hand, it is a bit of a job-lot of a debate, lumping together complex issues and disposing of them in one go, like a city slicker who does summer weekends in the country. Of course, rural circumstances require tailored policies, and I support the Government's pledge to strengthen rural-proofing at the earliest stages of policy making. However, rural communities are not pastoral idylls; we are a small country, and our rural areas are closely linked to our urban ones, literally and otherwise.

Rhaid imi gyfaddef fy mod yn teimlo gwrthdaro. Ar y naill law, rwy'n falch o gael y cyfle i drafod y pethau hyn a sut y maent yn effeithio ar bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Ar y llaw arall, mae'n ddadl ar dipyn o bopeth, sy'n dwyn ynghyd faterion cymhleth ac sy'n ceisio ymdrin â hwy i gyd ar yr un pryd, fel rhywun o'r ddinas fawr sy'n treulio penwythnosau yng nghefn gwlad yn yr haf. Wrth gwrs, mae angen polisiau wedi'u teilwra ar gyfer amgylchiadau gwledig, a chefnogaf addewid y Llywodraeth i gryfhau'r ffordd y bydd yn prawfesur polisiau yn y camau cyntaf o'u llunio o safbwynt anghenion cefn gwlad. Fodd bynnag, nid lleoedd bach rhamantaidd yw cymunedau gwledig; rydym yn wlad fach, ac mae gan ein hardaloedd gwledig gysylltiad agos â'n hardaloedd trefol, yn llythrennol ac fel arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, I am going to confine my contribution to a few practical points. Members have this afternoon debated integrated transport. Fully integrated services are especially difficult to realise in rural areas. Limited services mean long waits between connections. People without access to private transport are forced to arrange their lives around bus and train timetables rather than the other way around.

A few weeks ago, I met a group of bus users in Barmouth, and I was told that the reduction in bus services there has particularly affected both the young and the elderly alike. The young struggle to get to college and work on time under the current schedule, and the elderly are finding it more difficult to access local facilities, such as shops, post offices, surgeries and pharmacies, where they exist.

Transport services are integral to tourism and we have heard an awful lot about tourism here this afternoon. We do indeed have record numbers of tourists coming to enjoy our magnificent coast and countryside every year. They must have the flexibility to explore our nation and be confident that there will be a bus or a train to give them a ride back to their hotels or campsites.

We also know that money is tight. We know that our budget is being slashed by the Westminster Government, so—

16:31 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

16:31 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In a minute. I did not get my intervention, so I do not think that I will. [Laughter.]

In Pembrokeshire, we have a successful Puffin Shuttle coastal bus service. In Carmarthenshire and Ceredigion, we have a Bwcabus service that the Welsh Government does indeed support. With the new regional transport services grants prioritising expenditure according to local circumstances, and essentially dropping subsidies for dead miles, I would ask the Minister to liaise with his colleagues to see what more community transport can deliver.

16:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to have the opportunity to contribute to this debate this afternoon, particularly as we get ever closer to the Royal Welsh Show. Many of the issues that we are discussing will undoubtedly become talking points over the weeks ahead.

The two areas on which I want to focus my attention in this debate are the planning system in aiding economic diversification and point 4 of our motion, which looks at rural transport.

Felly, bwriadaf gyfyngu fy nghyfraniad at ychydig o bwyntiau ymarferol. Y prynhawn yma, mae Aelodau wedi trafod trafndiaeth integredig. Mae gwasanaethau cwbl integredig yn anodd iawn i'w darparu mewn ardaloedd gwledig. Mae gwasanaethau cyfyngedig yn golygu tipyn o oedi rhwng cysylltiadau. Rhaid i bobl nad oes ganddynt fynediad at gludiant preifat drefnu eu bywydau o amgylch amserlenni bws a thrên yn hytrach nag fel arall.

Ychydig wythnosau yn ôl, cyfarfûm â grŵp o ddefnyddwyr bws yn Abermaw, a dywedwyd wrthyf fod y gostyngiad yn y gwasanaethau bysiau wedi cael effaith andwyol ar yr ifanc a'r henoed yn arbennig. Mae'r ifanc yn cael trafferth cyrraedd y coleg neu'r gwaith ar amser o dan yr amserlen bresennol, ac mae'r henoed yn ei chael hi'n fwy anodd defnyddio cyfleusterau lleol, megis siopau, swyddfeydd post, meddygfeydd a fferyllfeydd, lle maent yn bodoli.

Mae gwasanaethau trafndiaeth yn rhan annatod o dwristiaeth ac rydym wedi clywed cryn dipyn am dwristiaeth yma y prynhawn yma. Oes, mae mwy o ymwelwyr nag erioed yn dod i fwynhau ein harfordir a'n cefn gwlad godidog bob blwyddyn. Rhaid iddynt gael yr hyblygrwydd i ddarganfod ein gwlad a bod yn hyderus y bydd bws neu drên i'w cludo yn ôl i'w gwestai neu eu safleoedd gwrsylla.

Gwyddom hefyd fod arian yn dynn. Gwyddom fod ein cyllideb yn cael ei thorri gan Lywodraeth San Steffan, felly—

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mewn munud. Ni chefais innau gyfle i ymyrryd, felly ni chredaf y byddaf yn derbyn ymyriad. [Chwerthin.]

Yn Sir Benfro, mae'r gwasanaeth bws arfordirol llwyddiannus Pâl Gwibio. Yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ceir gwasanaeth Bwcabus, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Gyda'r grantiau gwasanaethau trafndiaeth rhanbarthol newydd yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag amgylchiadau lleol, ac yn cael gwared ar gymorthdaliadau am filltiroedd marw yn y bôn, gofynnaf i'r Gweinidog gysylltu â'i chyd-Weinidogion i weld beth yn rhagor y gall trafndiaeth gymunedol ei gyflawni.

Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon y prynhawn yma, yn enwedig wrth inni agosáu at Sioe Frenhinol Cymru. Bydd llawer o'r materion yr ydym yn eu trafod yn sicr yn bwyntiau siarad yn ystod yr wythnosau i ddod.

Y ddau faes yr wyf am ganolbwyntio arnynt yn y ddatl hon yw'r system gynllunio o ran helpu arallgyfeirio economaidd a phwynt 4 o'n cynnig, sy'n edrych ar drafndiaeth wledig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I hope that we could all agree that the planning system has a key role to play in supporting the delivery of sustainable rural communities. Yes, it must of course protect and enhance the natural and historic environment and safeguard the countryside and open space, but for rural communities to be viable and sustainable, the system must enable the growth of individual rural economies, which create jobs, and it must be a vehicle to attract and keep people in those rural areas, which requires the creation of more affordable homes for people to live in and develop families. The overall goal for the planning system has to be to support living and working in rural communities, so that they are economically, socially and environmentally sustainable.

To be fair to the Welsh Government, technical advice note 6 identifies many of those issues. The TAN confirms that a strong economic base is essential for sustainable and vibrant communities to support social inclusion and retain local services, and that the planning system should support rural diversification and infrastructure provision. The question for us is: why has that not been properly implemented by local or planning authorities on the ground? I know from my own constituency that traditional farm buildings are the most ever-present of historic building types in the mid Wales countryside. They are not only fundamental to its sense of place and local distinctiveness, but they also represent a major economic asset in terms of their capacity to accommodate new uses. The restructuring and adaptation of farm building stock should be seen as a priority for local rural planning authorities and should be designed as such in their local development plans. They should be seen as a living building in a living landscape and the planning system should reflect their sustainable reuse by enabling automatic conversion of these redundant buildings into business premises, or accommodation.

I also believe that the drive to re-establish or reuse building stock should not just be confined to agricultural structures, but should include other buildings in rural Wales that reflect the nation's industrial past that have been left to go to rack and ruin. One example that springs to mind is the former Laura Ashley building in Carno. I drive past that on a regular basis. Once a vibrant workplace, it is now boarded up, with weeds growing up the side of it and bollards at the front. Is a business going to move there? It is not likely at the moment, because of the poor broadband in the area. As chair of the cross-party group on digital communications, I do not need to emphasise to the Minister, or his colleague the Minister for the economy, how important the delivery of the Superfast Cymru project is and the need to keep Members fully updated on its roll-out.

Gobeithio y gallem i gyd gytuno bod gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu i sicrhau cymunedau gwledig cynaliadwy. Wrth reswm, rhaid iddi warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored, ond er mwyn i gymunedau gwledig fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy, rhaid i'r system alluogi twf economïau gwledig unigol, sy'n creu swyddi, a rhaid iddi fod yn gyfrwng i ddenu a chadw pobl yn yr ardaloedd gwledig, sy'n ei gwneud yn ofynnol creu mwy o gartrefi fforddiadwy i bobl fyw a magu teuluoedd ynddynt. Y nod cyffredinol ar gyfer y system gynllunio, mae'n rhaid, yw cefnogi byw a gweithio mewn cymunedau gwledig, fel eu bod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

A bod yn deg â Llywodraeth Cymru, mae nodyn cyngor technegol 6 yn nodi nifer o'r materion hynny. Mae'r TAN yn cadarnhau bod sylfaen economaidd gref yn hanfodol i gymunedau cynaliadwy a bywiog er mwyn cefnogi cynhwysiad cymdeithasol a chadw gwasanaethau lleol, ac y dylai'r system gynllunio gefnogi arallgyfeirio gwledig a darparu seilwaith. Y cwestiwn i ni yw: pam nad yw hynny wedi cael ei weithredu'n briodol gan awdurdodau lleol neu gynllunio ar lawr gwlad? Gwn o'm hetholaeth fy hun mai adeiladau fferm traddodiadol yw'r math mwyaf cyffredin o adeiladau hanesyddol yn y canolbarth. Maent nid yn unig yn rhan annatod o'r ymdeimlad o le a natur unigryw'r ardal leol, ond maent hefyd yn ased economaidd pwysig o ran eu gallu i ddarparu ar gyfer defnydd newydd. Dylai'r gwaith o ailstrwythuro ac addasu stoc adeiladau fferm gael ei ystyried yn flaenoriaeth ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol gwledig a dylid eu dynodi fel y cyfryw yn eu cynlluniau datblygu lleol. Dylent gael eu hystyried yn adeilad byw mewn tirwedd fyw a dylai'r system gynllunio adlewyrchu eu haildefnydd cynaliadwy drwy ei gwneud yn bosibl i'r adeiladau segur hyn gael eu troi'n adeiladau busnes, neu'n llety yn awtomatig.

Credaf hefyd na ddylai'r ymgyrch i ailsefydlu neu aildefnyddio adeiladau gael ei chyfyngu i adeiladau amaethyddol yn unig, ond dylai gynnwys adeiladau eraill yng nghefn gwlad Cymru sy'n adlewyrchu gorffennol diwydiannol y genedl sydd wedi cael eu gadael i adfeilio. Un enghraifft sy'n dod i'r meddwl yw hen adeilad Laura Ashley yng Ngharno. Rwy'n gyrru heibio iddo yn rheolaidd. Bu gynt yn weithle bywiog, ond erbyn hyn mae byrddau dros y ffenestri, mae chwyn yn tyfu o boptu iddo ac mae bolardiau yn y blaen. A fydd busnes yn symud yno? Go brin, ar hyn o bryd, oherwydd y band eang gwael yn yr ardal. Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar gyfathrebu digidol, nid oes angen imi bwysleisio wrth y Gweinidog, na'i gyd-Weinidog, Gweinidog yr economi, pa mor bwysig yw cyflwyno prosiect Cyflymu Cymru a'r angen i roi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar hynt y rhaglen.

Finally, I want to touch briefly on point 4 of our motion: transport poverty and rural isolation are significant barriers to social inclusion. Sustrans did a research piece on this last year and the Commissioner for Older People in Wales again raised the issue last week when she launched her 'Standing up, Speaking Out' report. Last week, I had the opportunity of meeting with the Dial-a-Ride service in Llanidloes, which is at financial breaking point. The people involved want to know why the Welsh Government has £50 million to spend on an airport in south Wales while Mrs Jones is in real danger of losing her lifeline to the outside world. What am I supposed to tell them? Perhaps Joyce Watson can answer them, but I will not take an intervention. [Laughter.]

Sufficient funding needs to be given to local authorities to deliver these vital bus services. The Welsh Government has to do more to convince the people of rural Wales that it really is listening and that it is genuinely delivering.

Yn olaf, hoffwn sôn ychydig am bwynt 4 o'n cynnig: mae tlodi trafnidiaeth ac ynysu gwledig yn rhwystrau sylweddol i gynhwysiant cymdeithasol. Ymgwymerodd Sustrans â darn o ymchwil ynghylch hyn y llynedd a chododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y mater unwaith eto yr wythnos diwethaf pan lanswyd ei hadroddiad 'Sefyll a Siarad Dros Bobl Hŷn'. Yr wythnos diwethaf, cefais gyfle i gyfarfod â'r gwasanaeth Galw'r Gyrrwr yn Llanidloes, sy'n wynebu argyfwng ariannol. Mae'r bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth am wybod pam bod gan Lywodraeth Cymru £50 miliwn i'w wario ar faes awyr yn y de tra bod Mrs Jones mewn perygl gwirioneddol o golli ei llinell fywyd i'r byd allanol. Beth y dylwn ei ddweud wrthynt? Efallai y gall Joyce Watson roi ateb iddynt, ond nid wyf am dderbyn ymyriad. [Chwerthin.]

Mae angen rhoi digon o arian i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau bus hollbwysig. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i argyhoeddi pobl Cymru wledig ei bod yn gwrando arnynt mewn gwirionedd a'i bod yn wir yn cyflawni drostynt.

16:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

I call the Minister for Natural Resources and Food.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:36

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

How can I follow a feast like that? I am grateful to the Welsh Conservatives for the motion that they have presented us with this afternoon. I will say at the outset that we will support the majority of today's motion and many of the amendments—most of which seem to be declaratory in form rather than simply asking us to commit to particular issues.

We have had a wide-ranging debate this afternoon, which started with a discussion on tourism. I am glad that Members across the Chamber have welcomed the new direction for tourism in Wales, which is supporting growth during the coming years, and reflects the changing internal and external influences affecting the industry. The Minister for Economy, Science and Transport launched a new tourism strategy earlier this year, and it is designed to ensure that tourism, which is already making an increasingly important contribution to the rural economy, will be able to do more in the future. I listened to some of the remarks made by the Conservative Members this afternoon, and they do not seem to appreciate or understand that the nine predominantly rural local authorities in Wales represent over half—55%—of the total tourism contribution to Welsh gross value added and employment. Therefore, the contribution of tourism to the rural economy is well understood, known and mapped and is something that underpins the work of that strategy.

We also appreciate the impact of tourism in supporting many rural businesses, ranging from garages, post offices to shops, which simply would not be viable without the impact of tourism. The tourism strategy and action plan will support this by encouraging a partnership approach at a local level, ensuring that development is managed with an eye to long-term sustainability.

Sut y gallaf ddilyn gwledd fel honno? Rwy'n ddiolchgar i'r Ceidwadwyr Cymreig am y cynnig a gyflwynwyd ganddynt y prynhawn yma. Dywedaf ar y dechrau y byddwn yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r cynnig heddiw, a llawer o'r gwelliannau—y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar ffurf ddatganiadol, fe ymddengys, yn hytrach na chais inni ymrwymo i faterion penodol.

Rydym wedi cael dadl eang ei chwmpas y prynhawn yma, a ddechreuodd gyda thrafodaeth ar dwristiaeth. Rwy'n falch bod Aelodau o bob rhan o'r Siambr wedi croesawu'r cyfeiriad newydd i dwristiaeth yng Nghymru, a fydd yn cefnogi twf yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac yn adlewyrchu'r dylanwadau mewnol ac allanol newydd sy'n effeithio ar y diwydiant. Lansiodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth strategaeth dwristiaeth newydd yn gynharach eleni, ac mae wedi ei chynllunio i sicrhau y bydd twristiaeth, sydd eisoes yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig i'r economi wledig, yn gallu gwneud mwy yn y dyfodol. Gwrandawais ar rai o'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau Ceidwadol y prynhawn yma, ac nid ymddengys eu bod yn gwerthfawrogi nac yn deall bod y naw awdurdod lleol gwledig yn bennaf yng Nghymru yn cyfrannu dros hanner—55%—cyfanswm cyfraniad twristiaeth at werth ychwanegol crynswth Cymru a chyflogaeth. Felly, mae'r cyfraniad twristiaeth i'r economi wledig wedi ei ddeall yn dda, mae'n hysbys ac mae wedi'i fapio ac mae'n rhywbeth sy'n sail i waith y strategaeth honno.

Rydym hefyd yn deall effaith twristiaeth o ran cefnogi llawer o fusnesau gwledig, yn amrywio o garejys, swyddfeydd post i siopau, na fyddent, yn syml, yn ddichonadwy heb effaith twristiaeth. Bydd y strategaeth dwristiaeth a'r cynllun gweithredu yn cefnogi hyn drwy annog dull partneriaeth ar lefel leol, gan sicrhau bod datblygiadau yn cael eu rheoli gyda golwg ar gynaliadwyedd yn yr hirdymor.

This is something that has been worked up with the industry and has its support. Therefore, we will continue to work with the industry to improve the quality of the product to attract higher spending visitors, support measures to improve skill levels, and ensure that the local economy benefits through improved local supply chains and opportunities to develop new businesses.

We also know, and many of us appreciate, that Wales possesses some of the world's best producers of food and drink. High-quality local ingredients—I am surprised that the Conservatives did not mention this at all—distinctive food and drink, and interesting places where good-quality food can be eaten are increasingly important to visitors. It is something that underpins our tourism strategy and something that we will continue to support.

16:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Will you take an intervention?

16:39 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I will in a moment. Our best hospitality businesses are earning a reputation for excellence. We know that there is more to be done.

16:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am grateful to the Minister for taking an intervention. One of the things that we are lacking in Wales is processing capacity, whether it be in the red meat sector or in the liquid milk sector. I have pressed the Minister several times on this in the Chamber. Is he any further forward in his deliberations as to how we can increase the ability to turn the primary product into the finished product and add value to the food chain?

16:40 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is a good question. We have been restructuring the food division within Welsh Government, and you will have seen from the business statement earlier this week that I will be making a statement on taking forward the Government's food strategy when we return from the summer recess in September. However, I would be quite happy to have discussions with the leader of the opposition before then, if he so wishes.

We have also had a debate on planning policy. We have a positive planning policy framework in place, which is why we cannot accept the motion as it is drafted. As many people will be aware—and I think that Elin Jones referred to this in her contribution—you cannot simply enable automatic conversion of redundant farm buildings into accommodation because it does require changes to secondary legislation. However, we have a national planning policy for the rural economy that we expect to be delivered by local planning authorities and others, which should be able to underpin strong rural economies, which are essential to support sustainable and vibrant rural communities. Our policy is hard-wired to deliver this.

Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei baratoi gyda'r diwydiant ac mae wedi cael ei gefnogaeth. Felly, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella ansawdd y cynnyrch i ddenu ymwelwyr sy'n gwario mwy, cefnogi mesurau i wella lefelau sgiliau, a sicrhau bod yr economi leol yn elwa drwy wella cadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd i ddatblygu busnesau newydd.

Gwyddom hefyd, ac mae llawer ohonom yn gwerthfawrogi hyn, bod gan Gymru rai o'r cynhyrchwyr bwyd a diod gorau yn y byd. Mae cynhwysion lleol o safon uchel—synnaf na soniodd y Ceidwadwyr am hyn o gwbl—bwyd a diod unigryw, a manau diddorol lle y gellir bwyta bwyd o safon yn dod yn fwyfwy pwysig i ymwelwyr. Mae'n rhywbeth sy'n sail i'n strategaeth dwristiaeth ac yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w gefnogi.

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Gwnaf mewn munud. Mae ein busnesau lletygarwch gorau yn ennill enw da am ragoriaeth. Gwyddom fod mwy i'w wneud.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad. Un o'r pethau sydd ei eisiau yng Nghymru yw'r gallu i brosesu, boed hynny yn y sector cig coch neu yn y sector llaeth hylif. Rwyf wedi pwysu ar y Gweinidog sawl gwaith ynglŷn â hyn yn y Siambr. A oes unrhyw gynnydd yn ei drafodaethau ynglŷn â sut y gallwn gynyddu'r gallu i droi'r cynnyrch sylfaenol yn gynnyrch gorffenedig ac ychwanegu gwerth at y gadwyn fwyd?

Mae'n gwestiwn da. Rydym wedi bod yn ailstrwythuro'r adran fwyd yn Llywodraeth Cymru, a byddwch wedi gweld o'r datganiad busnes yn gynharach yr wythnos hon y byddaf yn gwneud datganiad am weithredu strategaeth fwyd y Llywodraeth ar ôl inni ddychwelyd ym mis Medi ar ôl toriad yr haf. Fodd bynnag, byddwn yn ddigon parod i gael trafodaethau gydag arweinydd y wrthblaid cyn hynny, os yw'n dymuno.

Rydym hefyd wedi cael dadl ar bolisi cynllunio. Mae fframwaith polisi cynllunio cadarnhaol ar waith, a dyna pam na allwn dderbyn y cynnig fel y mae wedi'i ddrafftio. Fel y gŵyr llawer o bobl—a chredaf i Elin Jones gyfeirio at hyn yn ei chyfraniad—ni allwch ganiatáu i adeiladau fferm gwag gael eu troi'n llety yn awtomatig am fod hynny'n gofyn am newidiadau i is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae gennym bolisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr economi wledig yr ydym yn disgwyl iddo gael ei weithredu gan awdurdodau cynllunio lleol ac eraill, a ddylai fod yn sail i economïau gwledig cryf, sy'n hanfodol i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Mae ein polisi wedi'i lunio i gyflawni hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The TAN reflects our commitments to underpinning economic activity and economic growth across the whole of rural Wales. I will give you an example of what I mean. Farm diversification is already encouraged to provide employment opportunities, to increase prosperity, and to minimise the need for travel. Permitted development rights for agriculture are in place to enable new farm buildings to be developed without the need to first get planning permission. TAN 6 also provides advice on affordable housing and rural enterprise dwellings. Guidance prepared on rural enterprise dwellings includes help to new entrants to farming by making succession easier and with a new dwelling possible for a retiring farmer or part-time worker.

I noticed that Elin was meeting the NFU in Ceredigion last week. I can give the NFU in Ceredigion and elsewhere the assurance that they seek. I met with NFU Cymru, along with other farming unions, over lunch today to brief them on the outcome of the talks in Luxembourg last week. I will be making a statement on how we take CAP issues forward next Tuesday, and I will be launching a consultation at the Royal Welsh Show to start the conversation, which Elin Jones discussed and referred to.

One of the key issues that we will face in the discussion of CAP, and any other schemes that are run under CAP, is the reduced budget that CAP will have over the coming years. The 13.2% cut is a direct result of the policy followed by the United Kingdom Government. Also, the United Kingdom Government was one of the only member states—in fact, I think that it was the only major member state—during the European Council in February not to seek any additional support at all—none whatsoever—for rural development of the rural communities. Every other member state, even those which were seeking cuts in the budgets, said, 'We want a cut in the overall budget, but we want a protection for our rural communities'. The United Kingdom Government was alone in not seeking those budgetary assurances. As a consequence, although it has not achieved all of its policy objectives, such as significant reductions in pillar 1—this was the policy objective set by the United Kingdom Government—that was exactly what the UK Government sought to do in reducing direct payments to farmers.

Mae'r TAN yn adlewyrchu ein hymrwymiaidau i ategu gweithgarwch economaidd a thwf economaidd drwy Gymru wledig gyfan. Rhoddaf enghraifft o'r hyn yr wyf yn ei olygu ichi. Anogir arallgyfeirio ar ffermydd eisoes er mwyn rhoi cyfleoedd cyflogaeth, cynyddu ffyniant, a lleihau'r angen i deithio. Mae hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer amaethyddiaeth ar waith er mwyn ei gwneud yn bosibl i adeiladau fferm newydd gael eu datblygu heb fod angen cael caniatâd cynllunio yn gyntaf. Mae TAN 6 hefyd yn rhoi cyngor ar dai fforddiadwy ac anheddau mentrau gwledig. Mae canllawiau a baratowyd ar anheddau menter wledig yn cynnwys cymorth i newydd-ddyfodiaid i ffermio drwy wneud olyniaeth yn haws a'i gwneud yn bosibl i ddarparu annedd newydd i ffermwr sy'n ymddeol neu weithiwr rhan-amser.

Sylwais fod Elin wedi cyfarfod ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Ngheredigion yr wythnos diwethaf. Gallaf roi sicrwydd i'r undeb yng Ngheredigion ac mewn mannau eraill y mae'n ei geisio. Cefais gyfarfod â'r undeb yng Nghymru, ynghyd ag undebau amaeth eraill, dros ginio heddiw i'w briffio ar ganlyniad y trafodaethau yn Lwcsembwrg yr wythnos diwethaf. Gwnaf ddatganiad ynghylch sut y byddwn yn gweithredu ar faterion PAC ddydd Mawrth nesaf, a byddaf yn lansio ymgynghoriad yn Sioe Frenhinol Cymru i gychwyn y sgwrs, y soniodd Elin Jones amdani.

Un o'r materion allweddol y byddwn yn eu hwynebu wrth drafod PAC, ac unrhyw gynlluniau eraill a weithredir o dan PAC, yw'r gyllideb is i PAC dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r toriad o 13.2% yn ganlyniad uniongyrchol i'r polisi a ddilyniir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Hefyd, Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd yr unig aelod-wladwriaeth—a dweud y gwir, yr unig aelod-wladwriaeth fawr—yn ystod Cyngor Ewrop ym mis Chwefror na ofynnodd am unrhyw gymorth ychwanegol o gwbl—dim o gwbl—ar gyfer datblygu cymunedau gwledig. Dywedodd pob aelod-wladwriaeth arall, hyd yn oed y rhai a oedd yn gofyn am doriadau yn y cyllidebau, 'Rydym am gwtogi'r gyllideb gyffredinol, ond rydym am ddiogelu ein cymunedau gwledig'. Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd yr unig lywodraeth na cheisiodd y sicrwydd cyllidebol hwnnw. O ganlyniad, er nad yw wedi cyflawni ei holl amcanion polisi, megis gostyngiadau sylweddol yng ngholofn 1—dyna'r amcan polisi a bennwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig—dyna'n union beth fu amcan Llywodraeth y DU wrth leihau taliadau uniongyrchol i ffermwr.

16:43

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Will you therefore condemn the Labour Members of Parliament who moved to cut the CAP budget?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A wnewch chi, felly, gondemnio Aelodau Seneddol Llafur a yngigiodd dorri cyllideb PAC?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will condemn the Plaid Cymru Member of the European Parliament who voted this morning to stop the European budget going through the European Parliament, which would have prevented any payments to anyone taking place after next year. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh'.] It is all very well—. I know that you intervened to save the bacon of your new friends on the Conservative benches, but I have to say that it is the height of hypocrisy to come here and grizzle about what is going on elsewhere, and then Plaid Cymru Members voting to prevent a budget being passed at all. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh'.] I seem to have woken up the Plaid Cymru benches; there we go.

I will make a statement on CAP reform next week. I will be making that statement next week. I think that even Bill might welcome it on this occasion. I do not know whose opinions he will be using next week, but whoever's opinion it is, and whoever he has had the opportunity to meet in the intervening time, I hope that their opinions will be satisfied by what we have to say.

This Government will continue to work within the new rural development plan to provide financial support to rural communities across the whole of Wales. We will seek greater targeting of funding and support to ensure that the next round of EU funding focuses on promoting agricultural competitiveness in the rural economy and helps to create prosperous businesses throughout rural Wales.

I see that my time has ended. What we are seeking to do, and what we will start in the conversation that I will launch at the Royal Welsh Show, is to have a conversation about how we as a Government can act as a catalyst, can invest in the future of the rural economy, can underpin rural communities, and can ensure that what we deliver for our future generations is a rural Wales that we can be proud of, where people want to live and work, and where they can live and work and enjoy their leisure time.

Byddaf yn condemnio'r Aelod o Senedd Ewrop o Blaid Cymru a bleidleisiodd y bore yma i atal y gyllideb Ewropeaidd rhag mynd drwy Senedd Ewrop, a fyddai wedi atal unrhyw daliadau rhag cael eu gwneud i unrhyw un ar ôl y flwyddyn nesaf. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O'.] Mae'n ddigon hawdd—gwn ichi ymyrryd i achub cam eich ffrindiau newydd ar y meinciau Ceidwadol, ond rhaid imi ddweud pa mor rhagrithiol ydyw ichi ddod yma a chwyno am yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill o ystyried bod Aelodau Plaid Cymru wedi pleidleisio i atal cyllideb rhag cael ei phasio o gwbl. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O'.] Ymddengys fy mod wedi deffro meinciau Plaid Cymru; dyna ni.

Gwnaf ddatganiad am ddiwygio'r PAC yr wythnos nesaf. Gwnaf y datganiad hwnnw yr wythnos nesaf. Credaf y bydd hyd yn oed Bill yn ei groesawu ar yr achlysur hwn o bosibl. Ni wn barn pwy y bydd yn ei lleisio yr wythnos nesaf, ond pa farn bynnag y bo, a phwy bynnag y mae wedi cael cyfle i gyfarfod â hwy yn y cyfamser, gobeithio y cânt eu bodloni gan yr hyn sydd gennym i'w ddweud.

Bydd y Llywodraeth hon yn parhau i weithio o fewn y cynllun datblygu gwledig newydd i ddarparu cymorth ariannol i gymunedau gwledig ledled Cymru. Byddwn yn ceisio targedu mwy o gyllid a chymorth i sicrhau bod y cylch nesaf o arian yr UE yn canolbwyntio ar hyrwyddo cystadleurwydd amaethyddol yn yr economi wledig ac yn helpu i greu busnesau ffyniannus drwy gefn gwlad Cymru.

Gwelaf fod fy amser wedi dod i ben. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud, a'r hyn y byddwn yn cychwyn arno yn y sgwrs y byddaf yn ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru, yw cael sgwrs am sut y gallwn ni fel Llywodraeth fod yn sbardun, sut y gallwn fuddsoddi yn nyfodol yr economi wledig, sut y gallwn ategu cymunedau gwledig, a sicrhau mai'r hyn a gyflawnwn dros ein cenedlaethau yn y dyfodol yw Cymru wledig y gallwn fod yn falch ohoni, lle mae pobl am fyw a gweithio, a lle y gallant fyw a gweithio a mwynhau eu hamser hamdden.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

You must finish, thank you.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is our vision, and I challenge other parties to let us hear theirs.

Dyna ein gweledigaeth ni, a heriaf y pleidiau eraill i amlinellu eu gweledigaethau hwythau.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddatl.

I call on Suzy Davies to respond to the debate.

I thank Members and the Minister for taking part in this debate. While the motion actually does, Minister, call for specific action on the part of the Welsh Government, we as Welsh Conservatives were hoping that this broad motion—I like to think of it like that, Joyce, rather than as a job-lot motion—did engage Members in an open and, at least, not too partisan exchange of ideas about the rural economy. I thank Members who contributed in that spirit.

Before I try to draw together some of the conclusions from everyone's welcome contributions, I would like to make some particular observations in support of point 1 of the motion and to explain why we cannot support the Government's amendment 2. In doing so, I recognise that it is not you, Minister, who has specific responsibility for this particular policy area. I would just reassure Members that this is not a wholesale rejection of the Government's tourism strategy; Janet Finch-Saunders pointed out that there are some very positive elements, which we hope will work, but it is, however, a warning to the Government that, despite its work, there is still considerable and widespread worry within the tourism industry that it will not translate into the marked improvement needed. That we raise these concerns briefly—and it can only be briefly in this particular debate—is not just a case of opposition attacking Government; we raise these concerns because they are fundamental and are evidence-based, and they shed light on a growing distrust by the sector of the Government's commitment, and possibly capacity, to deliver on what is needed.

First of all—and this observation, I have to say, is made absolutely without criticism of any individuals—there is disquiet about the way the Minister for economy has chosen members of her tourism sector panel and how that panel is now intended to function as a critical friend to Government, which I hope it will be. There is disquiet that the consultation document that developed into the strategy was not open to all, and that, in the engagement exercise that followed, responses were invited only from individuals and bodies personally approved by the Minister.

There is disquiet that, in the underlying action plan, Visit Wales, which is responsible for rural tourism, is leading on a range of actions where there is minimum confidence in its capacity and, more recently, in its expertise to maintain that role. There is also disquiet that, although the lack of a budget expenditure line makes it difficult to pin down what the Government commits to tourism, it does seem that the spend on tourism is just 2% of that economy budget, and 0.09% of the overall budget. The Wales economic growth fund assisted just two tourism businesses, and I do not think that that is much of an investment in a wealth-generating sector of the economy that employs so many people. Janet Finch-Saunders drew our attention to some of the figures on that.

Diolch i'r Aelodau a'r Gweinidog am gymryd rhan yn y ddatl hon. Er bod y cynnig, Weinidog, yn galw am gamau gweithredu penodol ar ran Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd, roeddem ni fel Ceidwadwyr Cymreig yn gobeithio bod y cynnig eang hwn—fel yna yr hoffwn feddwl am y peth, Joyce, yn hytrach na chynnig ar dipyn o bopeth—yn annog Aelodau, mewn ffordd agored, ac, o leiaf, heb fod yn rhy bleidiol, i gyfnewid syniadau am yr economi wledig. Diolch i'r Aelodau a gyfrannodd yn yr ysbryd hwnnw.

Cyn imi geisio tynnu ynghyd rai o'r casgliadau o gyfraniadau pawb a oedd i'w croesawu, hoffwn wneud rhai sylwadau penodol o blaid pwynt 1 yn y cynnig ac esbonio pam na allwn gefnogi gwelliant 2 y Llywodraeth. Wrth wneud hynny, rwy'n cydnabod nad chi, Weinidog, sydd â chyfrifoldeb penodol am y maes polisi hwn. Hoffwn sicrhau'r Aelodau na wrthodir strategaeth dwristiaeth y Llywodraeth yn llwyr; nododd Janet Finch-Saunders fod rhai elfennau cadarnhaol iawn, yr ydym yn gobeithio y byddant yn llwyddo, ond, fodd bynnag, mae'n rhybudd i Lywodraeth, er gwaethaf ei gwaith, fod pryder mawr a chyffredinol o fewn y diwydiant twristiaeth na fydd yn arwain at y gwelliant amlwg sydd ei angen. Nid yw'r ffaith ein bod yn crybwyll y pryderon hyn—a dim ond eu crybwyll y gallwn ei wneud yn y ddatl benodol hon—yn achos o wrthblaid yn ymosod ar y Llywodraeth; rydym yn codi'r pryderon hyn oherwydd eu bod yn sylfaenol ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth, ac maent yn taflu goleuni ar y diffyg ymddiriedaeth cynyddol ymhlith y sector ynglŷn ag ymrwymiad y Llywodraeth, ac o bosibl ei gallu, i gyflawni'r hyn sydd ei angen.

Yn gyntaf oll—ac nid yw'r sylw hwn, rhaid imi ddweud, yn feirniadaeth o unrhyw unigolion—mae anesmwythyd ynglŷn â'r ffordd y mae Gweinidog yr economi wedi dewis aelodau o'i phanel sector twristiaeth a sut y bwriedir i'r panel hwnnw weithredu bellach fel cyfaill beirniadol i'r Llywodraeth, fel y bydd, gobeithio. Mae anesmwythyd nad oedd y ddogfen ymgynghori a ddatblygodd yn strategaeth yn agored i bawb, ac yn yr ymarfer ymgysylltu a ddilynodd, dim ond gan unigolion a chyrrff a gymeradwywyd yn bersonol gan y Gweinidog y gofynnwyd am ymateb.

Mae cryn anniddigrwydd, yn y cynllun gweithredu sylfaenol, mai Croeso Cymru, sy'n gyfrifol am dwristiaeth wledig, a fydd yn arwain y gwaith ar nifer o gamau gweithredu er nad oes fawr ddim hyder yn ei allu nac, yn fwy diweddar, yn ei arbenigedd i ymgymryd â'r rôl honno. Mae anniddigrwydd hefyd, er bod diffyg llinell wariant yn y gyllideb yn ei gwneud yn anodd i gadarnhau'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei neilltuo ar gyfer twristiaeth, yr ymddengys fod gwariant ar dwristiaeth ond yn 2% o'r gyllideb honno i'r economi, a 0.09% o'r gyllideb gyffredinol. Dim ond dau fusnes twristiaeth a gafodd gymorth gan gronfa twf economaidd Cymru, ac, yn fy marn i, nid yw hynny'n fawr o fuddsoddiad mewn sector o'r economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cyflogi cymaint o bobl. Tynnodd Janet Finch-Saunders ein sylw at rai o'r ffigurau ynglŷn â hynny.

The Minister may take the view that this is a largely private sector element of the economy and that it should take more responsibility for its contribution to the Welsh economy. However, far from allowing that, she is perceived as assuming a command-and-control role via Visit Wales, and this will be a barrier to co-operation—critical to the strategy's success—rather than an incentive to it. So, Minister, I hope that the Minister for economy will bring forward a debate on the strategy in Government time. My purpose for asking for this is that I think it will help the Government to know more about this level of disquiet, because it genuinely risks the potential modest success that the strategy is capable of, and we do not want to see that happen any more than you do.

For the purposes of this rural affairs debate, let me give you one example of why a 'sham' consultation—those are not my words, Minister, but a description given by a respected advocate for the sector—has been counter-productive. As Antoinette Sandbach pointed out, the 'Partnership for Growth', your strategy, uses the word 'rural' just once. More importantly, the underlying action plan refers to selling the rural environment, but there is not a single action point highlighting how public money will be used to deliver that. I can tell you from the preliminary findings of our own programme of consultation with the industry that there are plenty of ideas out there about how to capitalise on Wales's rural assets—not just the physical product, but the experience of it, and the lateral thinking that helps it fit into a responsible—and I emphasise the word 'responsible'—demand-led marketing concept. That is not just locally, but in a way that could have informed strategic direction as well as the action plan. Yet neither the strategy nor the action plan signal any real interest in new ideas about how to distinguish the value of our rural environment from rural environments elsewhere, and how that would be communicated by an eventual brand for Wales.

Turning to some of the other contributions in this debate, Antoinette opened by mentioning the potential that rural Wales has for greater economic performance, and it was a point reinforced by Elin Jones and, I think, Joyce Watson: rural Wales is not just a chocolate-box cover. Members will be aware of our group's view on what is happening with the LFA, but I think there is a competitive disadvantage, which Antoinette referred to, in comparison with other parts of the UK. To mitigate that—this was primarily the purpose of her speech—she gave examples of how Government can act to support diversification. Broadband is an obvious one and, as several Members mentioned, there is also the better monitoring and—I cannot say 'implementation', because it should not be for the Government to implement this—oversight, shall we say, of TAN 6, to make it easier for buildings to be converted; something which was called 'disappointing' by William Powell. While we accept completely Elin Jones's point about buildings being available for farm workers and other local people, the point is that these buildings should be available—living buildings, as I think Russell George called them—to work in the rural environment in which they are located to best advantage for that environment.

Fallai y bydd y Gweinidog o'r farn mai yn nwylo'r sector preifat i raddau helaeth y mae'r elfen hon o'r economi ac y dylai ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ei gyfraniad i economi Cymru. Fodd bynnag, yn lle caniatáu hynny, ystyrir ei bod yn ymgymryd â rôl reoli drwy Croeso Cymru, ac y bydd hyn yn rhwystr i gydweithredu—sy'n hanfodol i lwyddiant y strategaeth—yn hytrach na rhoi cymhelliad. Felly, Weinidog, gobeithio y bydd Gweinidog yr economi yn cyflwyno dadl ar y strategaeth yn ystod amser y Llywodraeth. Fy niben wrth ofyn am hyn yw fy mod yn credu y bydd yn helpu'r Llywodraeth i gael gwybod mwy am yr anesmwythd hwn, oherwydd ei fod yn wirioneddol yn peryglu'r llwyddiant cymedrol o bosibl y gall y strategaeth ei gyflawni, ac nid ydym am weld hynny'n digwydd yn fwy na chithau.

At ddibenion y ddadl hon ar faterion gwledig, gadewch imi roi un enghraifft pam mae 'ffug' ymgynghoriad—nid fy ngeiriau i yw'r rhain, Weinidog, ond disgrifiad gan eiriolwr uchel ei barch dros y sector—wedi bod yn wrthgynhyrchiol. Fel y nododd Antoinette Sandbach, dim ond unwaith y mae eich strategaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf', yn defnyddio'r gair 'gwledig'. Yn bwysicach na hynny, mae'r cynllun gweithredu ategol yn cyfeirio at hyrwyddo'r amgylchedd gwledig, ond nid oes yr un pwynt gweithredu yn tynnu sylw at sut y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio i gyflawni hynny. Gallaf ddweud wrthyfch o ganfyddiadau rhagarweiniol ein rhaglen ein hunain o ymgynghori â'r diwydiant fod digon o syniadau ar gael ynglŷn â sut y gellid manteisio ar asedau gwledig Cymru—nid dim ond y cynnyrch ffisegol ond y profiad ohono, a'r meddwl ochrol sy'n ei helpu i gydblythu â chysyniad marchnata-cyfrifol—a phwysleiaf y gair 'cyfrifol'—a arweinir gan y galw. Nid rhywbeth lleol yn unig fyddai hynny, ond mewn ffordd a allai fod wedi dylanwadu ar gyfeiriad strategol yn ogystal â'r cynllun gweithredu. Eto i gyd nid yw'r strategaeth na'r cynllun gweithredu yn dangos unrhyw ddiddordeb gwirioneddol mewn syniadau newydd ynglŷn â sut y gellid gwahaniaethu rhwng gwerth ein hamgylchedd gwledig a gwerth amgylcheddau gwledig mewn mannau eraill, a sut y byddai hynny'n cael ei gyfleu gan frand i Gymru yn y pen draw.

Gan droi at rai o'r cyfraniadau eraill yn y ddadl hon, a agorwyd gan Antoinette drwy sôn am y potensial sydd gan Gymru wledig i gyflawni gwell perfformiad economaidd, ac fu'n bwynt a atgyfnerthwyd gan Elin Jones, ac, fe gredaf, Joyce Watson: nid clawr bocs o siocledi yw Cymru wledig. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o farn ein grŵp ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd gyda'r LFA, ond credaf fod anfantaes gystadleuol, y cyfeiriodd Antoinette ati, o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Er mwyn lliniaru hynny—dyna brif fyrdrwn ei haraith—rhoddodd enghreifftiau o'r ffordd y gall y Llywodraeth weithredu i gefnogi arallgyfeirio. Mae band eang yn un amlwg ac, fel y soniodd nifer o Aelodau, mae proses o fonitro a—ni allaf ddweud 'gweithredu', oherwydd nid lle'r Llywodraeth yw gweithredu hyn—gorchwyllo os caf ddweud hynny, y ffordd y gweithredir TAN 6 hefyd, er mwyn ei gwneud yn haws i addasu adeiladau, rhywbeth a oedd 'siomedig' yng ngeiriau William Powell. Er ein bod yn derbyn yn llwyr bwynt Elin Jones am sicrhau bod adeiladau ar gael i weithwyr fferm a phobl leol eraill, y pwynt yw y dylai'r adeiladau hyn fod ar gael—adeiladau byw, fel y'u gelwid gan Russell George, fe gredaf, i weithio yn yr amgylchedd gwledig y maent wedi'u lleoli ynddo er budd yr amgylchedd hwnnw.

Antoinette also mentioned the Royal Welsh Show and other festivals, many of which take place in rural areas. Of course, they have the potential to attract people into the rural economy as tourists, but only if some real energy is put into rural transport. I welcome the contributions by William Powell, Russell and Joyce Watson on that, although perhaps I should remind Joyce that, whatever the budget is, it is the Welsh Government that decides how it prioritises it.

William Powell was quite right to draw attention to access to finance. It is something that we discuss quite a lot in this Chamber, but we tend to talk about it in the context of deprived areas in south Wales. It is just as much an issue in rural Wales. It is encouraging that Members of all parties have been thinking about examining local banking, or access to local finance more generally, and I recommend that Members read our own position paper on that.

Elin Jones also mentioned that it was essential to listen to people earlier. She was talking about the NFU at the time. Listening to the people who will be affected by your strategy, whatever the policy area, is essential to the successful implementation of that Government strategy—particularly when it is controversial. It is pretty important, I would say, that the views of the people who have to live with the consequences of the strategy—particularly if they are also asked to implement it—are firmly adhered to, however those are expressed. Mark Isherwood made the point that listening is pretty crucial to the success of any strategy, and he wondered, in a tourism context, why ideas from north-east Wales were not reflected in a rural tourism strategy, but also whether the Welsh Government was successful in communicating the availability of support for tourism, and whether it reached all parts of Wales in a targeted way. He also made a very important point about accessibility to tourist sites and accommodation, and that applies across Wales, of course, not just in rural areas.

Minister, I am grateful for your general support for this motion today. I think it would be fair to say that Members acknowledge the role of local authorities in promoting tourism. I would argue that they believe they could do more if the financial support they receive was more targeted in areas where tourism is an economic priority, rather than spread evenly across the councils. I see that I am short of time; perhaps I could just acknowledge your response on TAN 6, Minister, and look forward to the Government acting on the suggestions made to it today. Members will have heard your views on CAP and on the UK Government. We look forward to understanding further your commitment to mitigating what you see as the problem, and making sure that you listen to people when you are asking them to act on this.

Cyfeiriodd Antoinette hefyd at Sioe Frenhinol Cymru a gwyliau eraill, y mae llawer ohonynt yn cael eu cynnal mewn ardaloedd gwledig. Wrth gwrs, mae ganddynt y potensial i ddenu pobl i'r economi wledig fel twristiaid, ond dim ond os gwneir ymdrech wirioneddol o ran trafniadaeth wledig. Croesawaf y cyfraniadau gan William Powell, Russell a Joyce Watson ar hynny, er efallai y dylwn atgoffa Joyce, beth bynnag fo'r gyllideb, mai Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu sut y mae'n blaenoriaethu hynny.

Roedd William Powell yn llygad ei le i dynnu sylw at fynediad at gyllid. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei drafod cryn dipyn yn y Siambur hon, ond rydym yn tueddu i sôn am y peth yng nghyd-destun ardaloedd difreintiedig yn y de. Mae'n gymaint o broblem yng Nghymru wledig hefyd. Mae'n galonogol bod Aelodau o bob plaid wedi bod yn ystyried bancio lleol, neu fynediad at gyllid lleol yn fwy cyffredinol, ac argymhellaf fod Aelodau yn darllen ein papur barn ni ar hynny.

Soniodd Elin Jones hefyd ei bod yn hanfodol gwrandao ar bobl yn gynharach. Roedd yn sôn am Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ar y pryd. Mae gwrandao ar y bobl yr effeithir arnynt gan eich strategaeth, beth bynnag fo'r maes polisi, yn hanfodol er mwyn i'r strategaeth honno gan y Llywodraeth gael ei gweithredu'n llwyddiannus—yn enwedig pan fo'n ddatleuol. Mae'n eithaf pwysig, dywedwn i, fod barn y bobl sy'n gorfod byw gyda chanlyniadau'r strategaeth—yn enwedig os gofynnir iddynt ei rhoi ar waith hefyd—yn cael ei harddel yn gadarn, sut bynnag y caiff ei mynegi. Gwnaeth Mark Isherwood y pwynt bod gwrandao yn hollbwysig i lwyddiant unrhyw strategaeth, ac roedd yn meddwl tybed, yng nghyd-destun twristiaeth, pam na chafodd syniadau o'r gogledd-ddwyrain eu hadlewyrchu mewn strategaeth ar dwristiaeth wledig, ond hefyd a oedd Llywodraeth Cymru yn llwyddo i hysbysu pobl am y cymorth sydd ar gael i dwristiaeth, ac a yw'n cyrraedd pob rhan o Gymru mewn ffordd wedi'i thargedu. Gwnaeth bwynt pwysig hefyd ynghylch hygyrchedd i safleoedd twristiaeth a llety, ac mae hynny'n berthnasol ledled Cymru, wrth gwrs, nid yn unig mewn ardaloedd gwledig.

Weinidog, rwy'n ddiolchgar am eich cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn heddiw. Credaf y byddai'n deg dweud bod yr Aelodau yn cydnabod rôl awdurdodau lleol i hyrwyddo twristiaeth. Byddwn yn dadlau eu bod yn credu y gallent wneud rhagor pe câi'r cymorth ariannol a gânt ei dargedu'n well mewn ardaloedd lle mae twristiaeth yn flaenoriaeth economaidd, yn hytrach na chael ei wasgaru'n gyfartal ymhlith y cynghorau. Gwelaf fod amser yn mynd yn brin; efallai y dylwn gydnabod eich ymateb ynglŷn â TAN 6, Weinidog, ac edrychaf ymlaen at weld y Llywodraeth yn gweithredu ar yr awgrymiadau a wnaed heddiw. Bydd yr Aelodau wedi clywed eich barn ar PAC ac ar Lywodraeth y DU. Edrychwn ymlaen at ddeall ymhellach eich ymrwymiad i liniaru'r hyn sy'n achosi'r broblem, yn eich barn chi, a sicrhau eich bod yn gwrandao ar bobl pan ofynnir iddynt weithredu ar hyn.

16:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection. I will, therefore, defer all voting on this item until voting time.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

16:55

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Voting time now follows. Before I proceed to take the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi fynd ymlaen i gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5282.](#)

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 13, Yn erbyn 35, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5282.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5282.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 22, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5282.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 22, Ymatal 0.

Cafodd gwelliant 4 ei ddad-dethol.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5282.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Cafodd gwelliant 6 ei ddad-dethol.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i NDM5282.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 30, Yn erbyn 5, Ymatal 13.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i NDM5282.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Cynnig NDM5282 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd banc ar y stryd fawr i'r economi leol, ac yn gresynu at y ffaith, yn ôl dadansoddiad diweddar 'The Last Bank in Town' gan yr Ymgyrch Dros Wasanaethau Bancio Cymunedol, bod tri deg wyth o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru ble mae dim ond un banc bellach.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5282.](#)

Motion not agreed: For 13, Against 35, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to NDM5282.](#)

Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 2 to NDM5282.](#)

Amendment agreed: For 26, Against 22, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 3 to NDM5282.](#)

Amendment agreed: For 26, Against 22, Abstain 0.

Amendment 4 deselected.

[Result of the vote on amendment 5 to NDM5282.](#)

Amendment agreed: For 31, Against 17, Abstain 0.

Amendment 6 deselected.

[Result of the vote on amendment 7 to NDM5282.](#)

Amendment agreed: For 30, Against 5, Abstain 13.

[Result of the vote on amendment 8 to NDM5282.](#)

Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.

Motion NDM5282 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the importance of a high street bank to the rural economy and regrets that, according to a recent 'Last Bank in Town' analysis by the Campaign for Community Banking Services, there are now thirty-eight communities in rural Wales with only one bank remaining.

2. Yn cydnabod y potensial enfawr i dwristiaeth yng Nghymru wledig ac yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r diwydiant er mwyn datblygu'r potensial hwnnw drwy fwrw ymlaen â'r strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth.

3. Yn cydnabod yr amodau economaidd a'r amodau amgylcheddol anodd y mae ffermwyr sy'n gweithio yn yr Ardal Lai Ffafirol (LFA) bresennol yn eu hwynebu, yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r dynodiad newydd ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol cyn y dyddiad terfynol yn 2018 ac yn nodi hefyd ymrwymiad y Llywodraeth i ddefnyddio'r dynodiad newydd hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau unigryw hyn.

4. Yn cydnabod rôl hanfodol cyllid yr Undeb Ewropeaidd o ran cefnogi economi cefn gwlad Cymru, ac felly'n credu'n gryf mai'r ffordd orau o ofalu am fuddiannau Cymru yw drwy barhau i fod yn rhan ymroddedig o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

5. Yn nodi pwysigrwydd gwasanaethau bysiau cynaliadwy fel llinell fywyd i gymunedau gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu digon o gyllid i wasanaethau bysiau gwledig.

6. Yn nodi pwysigrwydd gwasanaethau rheilffordd sydd ar gael yn rhwydd i ddarparu system drafnidiaeth integredig mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ailagor gorsafoedd rheilffordd addas ledled cefn gwlad Cymru.

7. Yn nodi ymhellach bwysigrwydd Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol o ran cynorthwyo'r economi wledig a hyrwyddo diwylliant Cymru.

2. Recognises the huge potential for tourism in rural Wales and urges the Welsh Government to urges the Welsh Government to work with the industry to develop that potential by taking forward the new strategy for tourism.

3. Recognises the difficult economic and environmental conditions that face farmers working in the current Less Favoured Area (LFA), notes the Welsh Government's work in developing the new Areas of Natural Constraint designation in advance of the final deadline of 2018 and further notes the Government's commitment to use this new designation to help address these unique challenges.

4. Recognises the essential role European Union funding plays in supporting the rural Welsh economy and therefore firmly believes that Wales' interests are best served by remaining a committed part of the United Kingdom and the European Union.

5. Notes the importance of sustainable bus services as a lifeline for rural communities and calls on the Welsh Government to provide sufficient funding for rural bus services.

6. Notes the importance of accessible rail services to the delivery of an integrated transport system in rural areas and calls on the Welsh Government to support the re-opening of suitable railway stations across rural Wales.

7. Further notes the importance of the Royal Welsh Show and National Eisteddfod in supporting the rural economy and promoting Welsh culture.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5282 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5282 as amended.](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5282 fel y'i diwygiwyd: O blaid 35, Yn erbyn 0, Ymatal 13.

Motion NDM5282 as amended agreed: For 35, Against 0, Abstain 13.

16:59

Dadl Fer: Y Llinyn o Undod: Cynorthwyo Dioddefwyr Strôc yng Nghymru

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have agreed to give Aled Roberts and Joyce Watson a minute to speak in this debate. I am grateful for the assistance that I have had from the Stroke Association in Wales in putting this debate together. The Stroke Association is the biggest funder of stroke research in the UK, and the work that it undertakes is invaluable. It is currently running an awareness-raising campaign backed by celebrities, called the 'Solidarity String'. I am pleased to be wearing my own solidarity string here today, and I know that a number of other Assembly Members have also purchased them; I thank them for that.

Short Debate: The Solidarity String: Supporting Stroke Victims in Wales

Rwyf wedi cytuno i roi munud i Aled Roberts a Joyce Watson siarad yn y ddadl hon. Rwy'n ddiolchgar am y cymorth yr wyf wedi'i gael gan y Gymdeithas Strôc yng Nghymru wrth imi baratoi ar gyfer y ddadl hon. Y Gymdeithas Strôc yw'r ariannwr mwyaf o ymchwil i strociau yn y DU, ac mae'r gwaith y mae'n ei wneud yn amhrisiadwy. Ar hyn o bryd mae'n cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a gefnogir gan enwogion, o'r enw 'Solidarity String'. Rwy'n falch o fod yn gwisgo fy llinyn undod fy hun yma heddiw, a gwn fod nifer o Aelodau Cynulliad eraill hefyd wedi eu prynu; hoffwn ddiolch iddynt am hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am sure that everyone will agree that one area where we want to see more delivery in the community and out of hospitals is stroke rehabilitation. I have chosen to use this short debate to highlight the vital role that rehabilitation plays in helping people to lead an active life following a stroke, and we need to do more in Wales to reduce the inequalities that currently exist across the country.

Stroke is the third biggest killer in Wales, after heart disease and cancer, and the leading cause of adult disability, but despite the work of the Stroke Association charity, it does not always receive the same level of attention as those two awful diseases. Research shows that 2% of the population has suffered a stroke, but throughout the UK fewer people are dying from strokes, resulting in more people surviving and requiring the important rehabilitation to help them regain a normal life.

One high-profile stroke survivor is the BBC journalist Andrew Marr, and as with many who have suffered an illness, hopefully his experiences will help to draw much-needed public attention to the challenges facing those patients fortunate to survive this debilitating disease. It was great to see him make an appearance back on his Sunday-morning politics show recently, and I am pleased to hear that he aims to return to the show full time in the autumn and to campaign for stroke issues.

We have seen an improvement here in Wales when it comes to acute stroke services, but the real issue at the moment is what happens once these patients are discharged. Without effective, tailored and well-resourced rehabilitation services, many patients will not make the full recovery that is possible. The Royal College of Physicians's clinical guidelines for stroke recommend that patients with stroke should be offered a minimum of 45 minutes of each appropriate therapy that is required, for a minimum of 5 days a week, at a level that enables the patient to meet their rehabilitation goals for as long as they are continuing to benefit from the therapy and are able to tolerate it.

The problem here in Wales is that we have been falling below these targets. Thirteen of the 14 stroke units are delivering well below these national guidelines, resulting in Wales being the worst of the UK nations in delivering this much-needed aftercare. None of the 14 units in Wales have the appropriate number of therapists per 10 stroke beds as per the national clinical guidelines, meaning that not one Welsh hospital is positioned in the top 25% of hospitals in terms of performance against these national clinical guidelines. Additionally, only one, Wrexham Maelor Hospital, offers an early supported discharge scheme, but without the required number of therapists to provide the full service. Ninety-five per cent of patients identify the need for this kind of ongoing support to aid their recovery, and they are being failed at the moment.

Rwy'n siŵr y bydd pawb yn cytuno mai un maes lle rydym am weld mwy o ddarpariaeth yn y gymuned ac nid yn yr ysbty yw adsefydlu ar ôl strôc. Rwyf wedi dewis defnyddio'r ddadl fer hon i dynnu sylw at y rôl hanfodol y mae'r broses adsefydlu honno yn ei chwarae i helpu pobl i fyw bywyd llawn ar ôl strôc, ac mae angen inni wneud mwy yng Nghymru i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd ledled y wlad.

Strôc yw'r trydydd achos mwyaf o farwolaeth yng Nghymru, ar ôl clefyd y galon a chanser, a phrif achos anabledd ymhlith oedolion, ond er gwaethaf gwaith elusen y Gymdeithas Strôc, nid yw bob amser yn cael yr un sylw â'r ddau glefyd ofnadwy hynny. Dengys ymchwil fod 2% o'r boblogaeth wedi cael strôc, ond ledled y DU mae llai o bobl yn marw o ganlyniad i strôc, gan arwain at fwy o bobl yn goroesi ac at fwy o angen am y gwasanaethau adsefydlu pwysig i'w helpu i ddechrau byw bywyd arferol unwaith eto.

Un unigolyn proffil uchel sydd wedi goroesi ar ôl cael strôc yw'r newyddiadurwr o'r BBC Andrew Marr, ac fel yn achos llawer sydd wedi cael salwch, gobethio y bydd ei brofiadau yn helpu i dynnu sylw'r cyhoedd, rhywbeth sydd mawr ei angen, at yr heriau sy'n wynebu'r cleifion hynny sy'n ddigon ffodus i oroesi'r clefyd gwanychol hwn. Roedd yn braf ei weld yn ymddangos eto ar ei sioe wleidyddiaeth fore Dydd Sul yn ddiweddar, ac rwy'n falch o glywed ei fod yn anelu at ddychwelyd i'r sioe yn llawn amser yn yr hydref ac at ymgyrchu dros faterion sy'n ymwneud â strôc.

Rydym wedi gweld gwelliant yma yng Nghymru o ran gwasanaethau strôc aciwt, ond y broblem wirioneddol ar hyn o bryd yw'r hyn sy'n digwydd unwaith y bydd y cleifion hyn yn cael eu rhyddhau o'r ysbty. Heb wasanaethau adsefydlu effeithiol, wedi'u teilwra ag adnoddau da, ni fydd llawer o gleifion yn cael gwellhad llwyr fel sy'n bosibl. Mae canllawiau clinigol Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ar strôc yn argymhell y dylai cleifion sydd wedi cael strôc gael cynnig o leiaf 45 munud o bob therapi priodol sydd ei angen, am o leiaf 5 diwrnod yr wythnos, ar lefel sy'n galluogi'r claf i gyflawni eu nodau adsefydlu am gyhyd ag y bydd yn parhau i gael budd o'r therapi ac yn gallu ei oddef.

Y broblem yma yng Nghymru yw nad ydym wedi bod yn cyrraedd y targedau hyn. Mae 13 o'r 14 uned strôc yn cyflawni dipyn yn is na'r canllawiau cenedlaethol hyn, sy'n golygu mai Cymru yw'r wlad waethaf o blith gwledydd y DU o ran darparu'r ôl-ofal hwn sydd mawr ei angen. Nid oes gan yr un o'r 14 uned yng Nghymru y nifer briodol o therapyddion fesul 10 gwely strôc yn unol â'r canllawiau clinigol cenedlaethol, sy'n golygu nad oes unrhyw ysbty yng Nghymru yn cyrraedd y 25% o ysbtyai gorau o ran perfformiad yn erbyn y canllawiau clinigol cenedlaethol. Yn ogystal, dim ond un, Ysbty Maelor Wrecsam, sy'n cynnig cynllun rhyddhau cleifion yn gynnar â chymorth, ond nad oes ganddo y nifer o therapyddion sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth llawn. Mae 95 y cant o gleifion yn nodi bod angen y math hwn o gymorth parhaus i'w helpu i wella, ac nid ydynt yn cael hynny ar hyn o bryd.

The stroke delivery plan, launched in December 2012, sets out the direction for the NHS in Wales in this area. The then Minister for health stated that she wanted to make us the best in Europe for stroke treatment and outcomes. While progress has been made in acute services, rehabilitation services are still underperforming. Therefore, when we hear from the new Minister for health, I hope that he will be able to outline some of his priorities in this area, to make sure that these services can catch up over time.

Let us look a little closer at why this ongoing rehabilitation is so important. Andrew Marr stated that, in his experience, overall in the UK,

'The NHS is very good at acute treatment, but too many stroke victims are dumped by the system once that's over ... Statistics show that 50,000 people of working age have a stroke each year and most never return to work because they haven't had enough therapy ... Shouldn't we be spending money to help people help themselves get back to work, rather than treating them as welfare recipients for the rest of their lives?'

I am sure that no-one here would disagree with those comments. While these figures relate to the UK as a whole, they are especially true here in Wales. Many specialist stroke physiologists are based along the M4 corridor, leaving many stroke sufferers miles away from units that can provide them with the support they require. The therapy required is not only physical, but mental. More language physicians and speech therapists are needed to help patients to recover what they have lost. Many are emotionally bereaved of their former life and need encouragement to help to regain their confidence. With strokes being no respecter of age, this is vital for younger people who could, with the necessary support, find a way of returning to work and not find a stroke as a life sentence from which they have no hope of escape. As Anne Freeman, the clinical lead for strokes in Wales has stated, therapists do not get funding in the same way as medical equipment does. She says that we need to consider how we can best address these needs and change this culture as, in the long run, it can help people get their lives back and help reduce welfare costs.

This lack of support for therapists appears to be especially true in my constituency, where there has recently been a serious problem with a lack of physiotherapists, particularly in the eastern part of the county, and I think that is true of most rural parts of Wales.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer strôc, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2012, yn pennu'r cyfeiriad i'r GIG yng Nghymru yn y maes hwn. Dywedodd y Gweinidog iechyd ar y pryd ei bod am sicrhau mai ni fyddai'r wlad orau yn Ewrop o ran triniaeth a chanlyniadau strôc. Er i gynydd gael ei wneud mewn gwasanaethau aciwt, mae gwasanaethau adsefydlu yn dal i dangyflawni. Felly, pan glywn gan y Gweinidog iechyd newydd, gobeithio y bydd yn gallu amlinellu rhai o'i flaenoriaethau yn y maes hwn, er mwyn sicrhau y gall y gwasanaethau hyn wella yn yr un modd dros amser.

Gadewch inni edrych ychydig yn fanylach ar y rhesymau pam mae'r broses adsefydlu barhaus hon mor bwysig. Dywedodd Andrew Marr, yn ei brofiad yntau, yn gyffredinol yn y DU,

Mae'r GIG yn dda iawn o ran triniaeth aciwt, ond mae gormod o ddiodeffwyr strôc yn cael eu hamddifadu gan y system unwaith y daw hynny i ben ... Dengys ystadegau fod 50,000 o bobl o oedran gweithio yn cael strôc bob blwyddyn ac nad yw'r rhan fwyaf byth yn dychwelyd i'r gwaith am nad ydynt wedi cael digon o therapi ... Oni ddylem fod yn gwario arian er mwyn helpu pobl i'w helpu eu hunain i ddechredu i'r gwaith, yn hytrach na'u trin fel rhai sy'n cael budd-daliadau lles am weddill eu hoes?

Rwy'n siŵr na fyddai neb yma yn anghytuno â'r sylwadau hynny. Er bod y ffigurau hyn yn ymwneud â'r DU gyfan, maent yn arbennig o wir yma yng Nghymru. Mae llawer o ffisiolegwyr strôc arbenigol wedi eu lleoli ar hyd coridor yr M4, gan adael nifer o ddiodeffwyr strôc filltiroedd i ffwrdd o unedau a all roi'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r therapi sydd ei angen nid yn unig yn gorfforol, ond yn feddyliol. Mae angen mwy o feddygon iaith a therapyddion lleferydd i helpu cleifion i adfer yr hyn y maent wedi'i gollu. Mae llawer yn galaru am eu hen fywyd ac mae angen anogaeth arnynt i'w helpu i fagu hyder unwaith eto. O gofio bod strociau yn effeithio ar bobl o bob oedran, mae hyn yn hanfodol i bobl ifancach a allai, gyda'r cymorth angenrheidiol, ddod o hyd i ffordd o ddechredu i'r gwaith yn hytrach nag wynebu sefyllfa lle mae strôc yn ddedfryd oes nad oes ganddynt unrhyw obaith o ddianc rhagddi. Fel y dywedodd Anne Freeman, arweinydd clinigol strôc yng Nghymru, nid yw therapyddion yn cael eu hariannu yn yr un ffordd ag offer meddygol. Dywed fod angen inni ystyried y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hyn a newid y diwylliant hwn oherwydd, yn y tymor hir, gall helpu pobl i ddechrau byw eu bywydau unwaith eto a helpu i leihau costau lles.

Ymddengys fod y prinder cymorth hwn i therapyddion yn arbennig o wir am fy etholaeth i, lle bu problem ddifrifol yn ddiweddar o ran diffyg ffisiotherapyddion, yn enwedig yn y rhan ddwyreiniol o'r sir, a chredaf fod hynny'n wir am y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig yng Nghymru.

The National Institute for Health and Care Excellence guidelines, which aim to improve outcomes in stroke rehabilitation, recommend that people should be given targeted therapy immediately or as soon as possible after the stroke while staying in a dedicated stroke in-patient unit, to give them the opportunity to relearn old skills and gain new ones. When returning home, they should receive care from a specialist community stroke team, including an occupational therapist. There is some good practice. Nevill Hall Hospital in my constituency has a good reputation for the initial treatment for stroke sufferers; it is just a shame, then, that there is not the follow-up support to help them to recover in the best way possible.

Some of the other suggestions that this report mentions include regular support and training for family members and carers, workplace visits and liaison with employers to help sufferers to have a graded return to work and signposting stroke support groups and support patients in achieving goals focused on their leisure time and hobbies. That is, tailor-made, bespoke support and treatment that allows people to return to their lives as quickly as possible. The guidelines should not be looked at as a standalone solution, but should be considered alongside the report by the Royal College of Physicians that I have already mentioned.

Dr Fiona Jones from the Chartered Society of Physiotherapy has said that the guidelines contain welcome measures to make the system more patient-centered, which is a very important step. She said that it should help stroke survivors to feel that they are more involved in the decision-making process about their rehabilitation, rather than having it dictated to them. However, she said that, for patients to benefit from these things, they must be able to access services in their area, which is not always possible at the moment—and how often do we talk in the Chamber about the importance of the local delivery of a whole range of health services?

We should not just take clinicians' views into account here—of course not. One stroke survivor from Cardiff suffered a stroke in France and, following initial treatment there, was transferred to the local stroke re-education unit where, through occupational therapy and gym work, they managed to progress from a wheelchair to a walking frame, then to a stick and were sometimes able to walk unaided. However, when they returned to Wales, they were placed in a hospital ward, taking up a bed and, due to the minimal amount of physiotherapy received, were unable to keep up their walking. The best place for this patient would have been back at home with a community support team, where the support received in France could have been built upon. We should not be the poor relation to our European neighbours due to the apparent lack of direction in providing rehabilitation.

I accept that times are tough in the NHS—we all know that—with financial constraints, and it is difficult to deliver everything that people want. It always has been and always will be. However, surely we are failing the people of Wales on a number of counts if we cannot provide the support that we need to help stroke patients to recover later on in their treatment.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal, sy'n anelu at wella canlyniadau adsefydlu ar ôl strôc, yn argymhell y dylai pobl gael therapi wedi'i dargedu ar unwaith neu cyn gynted â phosibl ar ôl cael strôc tra'n aros mewn uned strôc bwrpasol i gleifion mewnol, er mwyn rhoi cyfle iddynt aiddysgu hen sgiliau a meithrin rhai newydd. Ar ôl dychwelyd adref, dylent gael gofal gan dîm strôc cymunedol arbenigol, gan gynnwys therapydd galwedigaethol. Ceir rhywfaint o arfer da. Mae gan Ysbyty Nevill Hall yn fy etholaeth enw da am y driniaeth gychwynnol i ddiodeffwyr strôc; mae'n drueni, felly, nad oes cymorth dilynol i'w helpu i wella yn y ffordd orau bosibl.

Mae rhai o'r awgrymiadau eraill a grybwyllir gan yr adroddiad hwn yn cynnwys cymorth a hyfforddiant rheolaidd i aelodau o'r teulu a gofalwyr, ymweliadau â'r gweithle a chysylltu â chyflogwyr er mwyn helpu diodeffwyr i ddychwelyd i weithio'n raddol a chyfeirio at grwpiau cymorth strôc a helpu cleifion i gyflawni nodau sy'n canolbwyntio ar eu hamser hamdden a'u hobiau. Hynny yw, cymorth a thriniaeth bwrpasol wedi'u teilwra, sy'n galluogi pobl i ddychwelyd i'w bywydau cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r canllawiau gael eu hystyried yn ateb ar ei ben ei hun, ond dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r adroddiad gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato.

Dywedodd Dr Fiona Jones o Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi fod y canllawiau yn cynnwys mesurau i'w croesawu er mwyn sicrhau bod y system yn canolbwyntio'n fwy ar y claf, sy'n gam pwysig iawn. Dywedodd y dylent helpu goroeswyr strôc i deimlo eu bod yn chwarae mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau am eu hadsefydlu, yn hytrach na chael eu cyfarwyddo i wneud hynny. Fodd bynnag, dywedodd, er mwyn i gleifion gael budd o'r pethau hyn, rhaid eu bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau yn eu hardal, ac nid yw bob amser yn bosibl ar hyn o bryd—a pha mor aml yn y Siambr y soniwn am bwysigrwydd darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd yn lleol?

Ni ddylem ystyried barn clinigwyr yn unig yn hyn o beth—wrth reswm. Cafodd goroeswr strôc o Gaerdydd strôc yn Ffrainc ac, yn dilyn triniaeth gychwynnol yno, cafodd ei drosglwyddo i'r uned strôc ailaddysgu leol lle y llwyddodd, drwy therapi galwedigaethol a gwaith campfa, i symud o gadair olwyn i ffrâm gerdded, ac yna i ffon ac weithiau roedd yn gallu cerdded heb gymorth. Fodd bynnag, ar ôl dychwelyd i Gymru, cafodd ei roi mewn ward ysbyty, gan fynd â lle gwely ac, oherwydd yr ychydig bach o ffisiotherapi a gafodd, ni allai barhau i ymarfer cerdded. Y lle gorau i'r claf hwn fyddai wedi bod yn ôl yn y cartref gyda thîm cymorth cymunedol, lle y gellid bod wedi adeiladu ar y cymorth a gafwyd yn Ffrainc. Ni ddylem fod yn berthynas dlawd o gymharu â'n cymdogion Ewropeaidd oherwydd y diffyg cyfeiriad ymddangosiadol o ran darparu gwasanaethau adsefydlu.

Derbyniaf fod y GIG yn wynebu cyfnod anodd—gwyddom oll hynny—a bod cyfyngiadau ariannol arno, ac mae'n anodd cyflawni popeth y mae pobl am ei gael. Felly y bu erioed ac y bydd bob amser. Fodd bynnag, onid ydym yn methu â darparu ar gyfer pobl Cymru ar sawl cyfrif os na allwn ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnom i helpu cleifion strôc i wella yn nes ymlaen yn eu triniaeth.

In March 2010, the Assembly's Health and Social Care Committee published a report into stroke services in Wales, making a number of recommendations, especially around rehabilitation services. They included recommendations that, as a matter of urgency, attention should be given to the needs of those living with the after-effects of strokes and that the needs of younger stroke survivors needed to be addressed in stroke policy documents and to ensure that all stroke patients, regardless of their age or severity of their stroke, receive the rehabilitation that is appropriate to their needs. I am led to believe that a number of these recommendations are yet to be implemented—and the Minister may well want to correct me on that. I hope that they will be implemented in the near future, or certainly as soon as possible.

Finally, I would like to make a special mention, as the constituency Assembly Member for Monmouthshire, of the work that the Chepstow stroke group in my constituency undertakes in providing support to stroke survivors. It is a fantastic group where people from a broad range of backgrounds have come together to help each other and to help to develop stroke issues. I have been there to speak on a number of occasions, and I know that Andrew Davies, the leader of the opposition, has done so as well. I am sure that the Minister or the Deputy Minister would also be welcomed if they wanted to go along. It is a great group and really does have a lot to give in discussions around this area. I am in regular contact with its chairman, Mr Geoff Harries, on a number of issues and I am pleased to be able to support them whenever I can. I do not underestimate the good that support groups like that group and groups around the rest of Wales do. They often do it with very little support and very little recognition, but they are doing that work and they are relieving pressures on the health service.

In conclusion, I am delighted to have been able to raise these issues again with the Minister and with other Assembly Members. I urge you to find a way of prioritising the cause of stroke rehabilitation and remind you again of the pledge made a number of years ago in a previous Assembly—admittedly before you were here; well, not in your current role, anyway—that tackling stroke is now one of the Welsh Government's top priorities for the NHS and social services. Stroke rehabilitation ticks all the boxes when it comes to reducing the reliance on district hospitals and providing care in the community, and any commitment to working towards achieving improved rehabilitation services will be gratefully received by the thousands of stroke survivors throughout Wales.

Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad adroddiad ar wasanaethau strôc yng Nghymru, gan wneud nifer o argymhellion, yn enwedig o ran gwasanaethau adsefydlu. Roeddent yn cynnwys argymhellion y dylid rhoi sylw, fel mater o frys, i anghenion y rhai sy'n byw ag ôl-ffeithiau strôc a bod angen ymdrin ag anghenion goroeswyr strôc iau mewn dogfennau polisi strôc a sicrhau bod pob claf strôc, waeth beth fo'i oedran neu ddirifoldeb ei strôc, yn cael y driniaeth adsefydlu sy'n briodol i'w anghenion. Caf ar ddeall bod nifer o'r argymhellion hyn eto i'w rhoi ar waith—ac efallai y bydd y Gweinidog am fy nghywiro ar hynny. Gobeithio y cânt eu rhoi ar waith yn y dyfodol agos, neu'n sicr cyn gynted ag y bo modd.

Yn olaf, hoffwn sôn yn arbennig, fel yr Aelod Cynulliad dros etholaeth Sir Fynwy, am y gwaith y mae grŵp strôc Cas-gwent yn fy etholaeth yn ei wneud i roi cymorth i oroeswyr strôc. Mae'n grŵp gwych lle mae pobl o bob math o gefndir wedi dod ynghyd i helpu ei gilydd ac i helpu i ddatblygu materion sy'n ymwneud â strôc. Rwyf wedi bod yno i siarad ar sawl achlysur, a gwn fod Andrew Davies, arweinydd yr wrthblaid, wedi gwneud hynny hefyd. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog neu'r Dirprwy Weinidog yn cael croeso yno hefyd pe baent yn dymuno ymweld â'r grŵp. Mae'n grŵp gwych a gall wneud cyfraniad gwirioneddol at drafodaethau ar y maes hwn. Rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â'i gadeirydd, Mr Geoff Harries, ynghylch nifer o faterion ac rwy'n falch o'u cefnogi pryd bynnag y gallaf. Nid wyf yn tanbriso'r budd y gall grwpiau cymorth fel y grŵp hwnnw a grwpiau yng ngweddill Cymru ei wneud. Maent yn aml yn gwneud y gwaith hwn heb fawr ddim cymorth na chydabyddiaeth, ond maent yn gwneud y gwaith hwnnw ac maent yn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd.

I gloi, rwyf wrth fy modd fy mod wedi gallu codi'r materion hyn unwaith eto gyda'r Gweinidog a chydag Aelodau Cynulliad eraill. Rwy'n eich annog i ddod o hyd i ffordd o flaenoriaethu achos adsefydlu strôc ac yn eich atgoffa eto am yr addewid a wnaed nifer o flynyddoedd yn ôl mewn Cynulliad blaenorol—cyn eich amser chi yma, rhaid cyfaddef, wel, nid yn eich rôl bresennol, sut bynnag—bod mynd i'r afael â materion strôc bellach yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gwasanaethau adsefydlu ar ôl strôc yn cydblethu'n llwyr â'r cysyniad o leihau'r ddibyniaeth ar ysbytai dosbarth a rhoi gofal yn y gymuned, a bydd unrhyw ymrwymiad i weithio tuag at gyflawni gwell gwasanaethau adsefydlu yn cael ei dderbyn yn ddiolchgar gan y miloedd o oroeswyr strôc ledled Cymru.

17:10

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Nick Ramsay for bringing this matter before the Assembly. Minister, I think in a written answer to Kirsty Williams in May, you referred, of course, to the stroke delivery plan that Nick Ramsay has referred to and indicated that there would be an annual report dealing with how that plan was responding to the recommendations of the Health and Social Care Committee. I have been in correspondence with the Betsi Cadwaladr University Local Health Board and the six authorities in recent months. Given that Betsi itself does not have a stroke rehabilitation unit at all in north-west Wales, none of the six authorities—none of which identified stroke victims as far as their ongoing service delivery is concerned—mentioned that they had been involved in any discussions with Betsi with regard to a stroke delivery plan. I think that there is a need to check delivery against national strategies.

Hoffwn ddiolch i Nick Ramsay am gyflwyno'r mater hwn gerbron y Cynulliad. Weinidog, mewn ateb ysgrifenedig i Kirsty Williams ym mis Mai, fe gredaf, gwnaethoch gyfeirio, wrth gwrs, at y cynllun cyflawni ar gyfer strôc a grybwyllwyd gan Nick Ramsay gan nodi y byddai adroddiad blynyddol yn ymdrin â'r ffordd yr oedd y cynllun hwnnw yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rwyf wedi bod yn gohebu â Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr a'r chwe awdurdod yn ystod y misoedd diwethaf. O ystyried nad oes gan Betsi ei hun uned adsefydlu strôc o gwbl yn y gogledd-orllewin, ni soniodd yr un o'r chwe awdurdod—na nododd yr un ohonynt ddioddefwyr strôc o ran y gwasanaethau parhaus a ddarparant—eu bod wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau gyda Betsi am gynllun cyflawni ar ôl strôc. Credaf fod angen cadarnhau'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn strategaethau cenedlaethol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:11

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to thank the Member for Monmouthshire for tabling this debate. I am chair of the Assembly cross-party stroke group. I am glad that we have focused here today on rehabilitation and also on the statistic that 50,000 people under the age of 50 have a stroke. I am married, as many of you know. My husband is now 65 years of age and had a stroke at the age of 27. He went on to live a full life. We have a son and my husband is still working part-time. I would like to re-emphasise all those things that have been said today that you absolutely have to give people a chance to live their life after a stroke. Forget this idea that they are people who are past help and unable to piece their lives back together.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros sir Fynwy am gyflwyno'r ddadl hon. Fi yw cadeirydd grŵp strôc trawsbleidiol y Cynulliad. Rwy'n falch ein bod wedi canolbwyntio yma heddiw ar adsefydlu a hefyd ar yr ystadegyn bod 50,000 o bobl o dan 50 oed yn cael strôc. Rwy'n briod, fel y gwyr llawer ohonoch. Mae fy ngŵr yn 65 oed bellach a chafodd strôc yn 27 oed. Aeth ymlaen i fyw bywyd llawn. Mae gennym fab ac mae fy ngŵr yn dal i weithio'n rhan amser. Hoffwn bwysleisio eto yr holl bethau hynny a ddywedwyd heddiw fod yn rhaid ichi roi cyfle i bobl fyw eu bywyd ar ôl cael strôc. Anghofiwch y syniad eu bod yn bobl nad oes modd eu helpu ac nad ydynt yn gallu ailadeiladu eu bywydau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have come a long way, medically. I thank the Assembly for its policies. We have dedicated stroke units—although, clearly, some of them are not working as they should be—and clot-busting medication being applied quickly where appropriate. However, I feel strongly about supporting and enabling people to get on with their lives. I also support strongly, from my own experience, the need to understand that people should have, and are able to have, the opportunity to live a very full life, once they are given that opportunity. The Stroke Association does fantastic work and I have visited many of its groups. I have also visited many young people who, with the association's support, have put their life back together.

Rydym wedi dod yn bell, yn feddygol. Hoffwn ddiolch i'r Cynulliad am ei bolisiau. Mae gennym unedau strôc penodol—er, yn amlwg, nid yw rhai ohonynt yn gweithio fel y dylent—a rhoddir meddyginiaeth chwala clotiau yn gyflym lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, teimlaf yn gryf ynglŷn â chefnogi a galluogi pobl i ailgydio yn eu bywydau. Cefnogaf yn gryf hefyd, o'm profiad fy hun, yr angen i ddeall y dylai pobl gael, ac y dylent allu cael, y cyfle i fyw bywyd llawn iawn, unwaith y byddant yn cael y cyfle hwnnw. Mae'r Gymdeithas Strôc yn gwneud gwaith gwyach ac rwyf wedi ymweld â llawer o'i grwpiau. Rwyf hefyd wedi ymweld â llawer o bobl ifanc sydd, gyda chymorth y gymdeithas, wedi ailadeiladu eu bywyd.

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:13

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Rwyf am ddiolch i Nick Ramsay am ddefnyddio'r ddadl fer heddiw i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwasanaethau strôc. Mae pob un ohonom yma heddiw yn gwybod am yr effaith mae strôc wedi'i chael ar fywydau pobl a'r niwed mae'n gallu ei wneud. Rydym hefyd yn gwybod mor bwysig yw'r teuluoedd, gofalu'r ffrindiau wrth helpu pobl drwy gyfnodau anodd. Mae ymrwymiad y sefydliadau hynny sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth ac sy'n dadlau o blaid pobl sy'n dioddef effeithiau strôc yn eithriadol o bwysig.

I would like to thank Nick Ramsay for using today's short debate to draw attention to the importance of stroke services. Each of us here today will know about the impact that a stroke can have on people's lives and the damage it can cause. We also know how important families, carers and friends are in helping people through difficult times. The commitment of those organisations that provide support and back-up and argue the case for those affected is hugely important.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let me begin by associating myself with what Nick Ramsay said in paying tribute to the invaluable work of the Stroke Association, both in raising awareness of this condition and, importantly, the services they provide to support stroke survivors and their families. I, too, have my Solidarity String in my hand at the moment. It was presented to me earlier this afternoon by Edwina Hart, the former Minister for health, under whose stewardship of the health portfolio much of the work that has been commented on this afternoon in the acute sector, particularly, began and has gathered strength.

Working with the Stroke Association has been an important part of the landscape in Wales. It and its dedicated volunteers work tirelessly. It was good to learn recently that an individual from Wales had won an adult courage award at the national life after stroke awards, for not only dealing with the devastating effects of both of her own strokes, but for using her experiences to support and provide comfort to other stroke survivors.

With regard to the Stroke Association's volunteer-led groups, the Chepstow stroke group—whom I have met, although I have not been to Chepstow to see in action—is a fine example of what volunteer-led groups can do. They and local stroke clubs are vital in bringing stroke survivors together to help them deal with the emotional and practical implications of having a stroke.

We can all be encouraged by the examples of good practice and projects that are already in evidence in Wales. We have heard of the early supported discharge service in Wrexham, but there are good examples of innovative work in other parts of Wales, such as the reablement homecare service in Hywel Dda LHB area, and the stroke outreach service in Cardiff, which helps people to manage the transition between hospital and home.

Another good example of working together, again led by the Stroke Association, working collaboratively with health boards and local authorities, is the provision of a national stroke information and support service. It aims to provide a single generic service throughout all 22 local authorities in Wales.

1000 Lives Plus life after stroke programme was launched earlier this year, and implementation has begun across all areas of Wales. The programme aims to improve the support available for stroke survivors when they return home from hospital by ensuring better co-ordination and accessibility of services across the health, social care and voluntary sectors.

Gadewch imi ddechrau drwy ategu'r hyn a ddywedodd Nick Ramsay wrth iddo dalu teyrnged i waith amhrisiadwy'r Gymdeithas Strôc, o ran codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr hwn ac, yn bwysig ddigon, y gwasanaethau y mae'n eu darparu i gefnogi goroeswyr strôc a'u teuluoedd. Rwyf innau hefyd yn dal fy Llinyn Undod yn fy llaw. Cafodd ei gyflwyno imi yn gynharach y prynhawn yma gan Edwina Hart, y cyn-Weinidog iechyd, y dechreuodd ac y datblygodd llawer o'r gwaith y cyfeiriwyd ato y prynhawn yma yn y sector aciwt, yn arbennig, pan oedd y portffolio iechyd yn ei gofal hi.

Mae gweithio gyda'r Gymdeithas Strôc wedi bod yn rhan bwysig o'r dirwedd yng Nghymru. Mae'r Gymdeithas a'i gwirfoddolwyr ymroddedig yn gweithio'n ddiffino. Roedd yn braf clywed yn ddiweddar bod unigolyn o Gymru wedi ennill gwobr dewrder i oedolion yn y gwobrau cenedlaethol ar gyfer bywyd ar ôl strôc, nid yn unig am ymdopi ag effeithiau dinistriol y ddwy strôc a gafodd, ond am ddefnyddio ei phrofiadau i gefnogi a chysuro goroeswyr strôc eraill.

O ran grwpiau'r Gymdeithas Strôc a arweinir gan wirfoddolwyr, mae grŵp strôc Cas-gwent—yr wyf wedi cyfarfod ag ef, er nad wyf wedi bod i Gas-gwent i'w weld ar waith—yn enghraifft wych o'r hyn y gall grwpiau a arweinir gan wirfoddolwyr ei wneud. Maent hwy a chlybiau strôc lleol yn hanfodol o ran dod â goroeswyr strôc at ei gilydd i helpu i ymdopi â goblygiadau emosïynol ac ymarferol cael strôc.

Gall pob un ohonom gael ein calonogi gan yr enghreifftiau o arfer da a phrosiectau sydd eisoes i'w gweld yng Nghymru. Clywsom am y gwasanaeth rhyddhau deifion yn gynnar â chymorth yn Wrecsam, ond ceir enghreifftiau da o waith arloesol mewn rhannau eraill o Gymru, megis y gwasanaeth ailalluogi yn y cartref yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, a'r gwasanaeth allgymorth strôc yng Nghaerdydd, sy'n helpu pobl i ymdopi â'r broses o bontio rhwng yr ysbyty a'r cartref.

Enghraifft dda arall o gydweithio, o dan arweiniad y Gymdeithas Strôc unwaith eto, ar y cyd â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yw darparu gwasanaeth gwybodaeth a chymorth strôc cenedlaethol. Ei nod yw darparu un gwasanaeth cyffredinol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Lansiwyd rhaglen bywyd ar ôl strôc 1000 o Fywydau a Mwy yn gynharach eleni, a dechreuwyd ar y gwaith o'i rhoi ar waith ym mhob rhan o Gymru. Nod y rhaglen yw gwella'r cymorth sydd ar gael i oroeswyr strôc pan ddychwelant adref o'r ysbyty drwy sicrhau gwell cyd-drefnu a hygyrchedd gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

This is an area where that co-ordinated approach is essential. We hear a lot about the difficulties that people who have had a stroke experience in knowing about the services that are available to support them. When you begin to investigate why that difficulty might take place, you find that it was not the case that information was not provided to people while they were in hospital and during the process of transition, but that information is provided to people at a point in their lives where they have to take on so much that is new—so much that is obviously devastatingly new to them. Although information might be provided, it is information that is not recalled, does not remain accessible and at the point where it could be useful to them, it has disappeared from the lives that they are then leading. So, the 1000 Lives Plus life after stroke programme is designed to try to ensure that people not only have information, but that they have it at a point where they are able to use it. That is a rather different thing, and it is something that we have learnt from talking to stroke survivors.

Mae hwn yn faes lle mae gweithredu cydgyssylliedig yn hanfodol. Rydym yn clywed cryn dipyn am yr anawsterau y mae pobl sydd wedi cael strôc yn eu hwynebu o ran cael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i'w helpu. Pan ddechreuwch ymchwilio i'r rheswm pam y gallai'r anhawster hwnnw godi, fe welwch nad oedd yn wir na chafodd pobl wybodaeth tra roeddent yn yr ysbyty ac yn ystod y broses bontio, ond bod pobl yn cael gwybodaeth ar adeg yn eu bywydau pan fo'n rhaid iddynt ymdopi â chymaint sy'n newydd—cymaint sy'n amlwg yn echrydus o newydd iddynt. Er bod gwybodaeth yn cael ei darparu o bosibl, nid yw'n wybodaeth y cofir amdani, nid yw'n parhau i fod ar gael a phryd y gall fod yn ddefnyddiol iddynt, mae wedi diflannu o'r bywydau y maent yn eu byw bellach. Felly, mae rhaglen bywyd ar ôl strôc 1000 o Fywydau a Mwy wedi'i chynllunio i geisio sicrhau bod pobl nid yn unig yn cael gwybodaeth, ond eu bod yn ei chael ar adeg pan fyddant yn gallu ei defnyddio. Mae hynny'n rhywbeth braidd yn wahanol, ac mae'n rhywbeth yr ydym wedi ei ddysgu o siarad â goroeswyr strôc.

17:18 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you consider giving some guidance to local health boards on how to deal with local stroke groups, because, in my experience, their attitude to them can sometimes be brusque to say the least, and I do not think that that pays proper tribute to the work of those groups?

A fydddech yn ystyried rhoi rhywfaint o arweiniad i fyrddau iechyd lleol ynglŷn â sut y dylid delio â grwpiau strôc lleol, oherwydd, yn fy mhrofiad i, gallant fod yn swta wrthynt a dweud y lleiaf weithiau, ac ni chredaf fod hynny'n deyrnged briodol i waith y grwpiau hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:19 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would be disappointed to hear if those relationships were of that sort, because they certainly ought not to be. I am very much a believer in some of the things that Nick Ramsay mentioned towards the end of his contribution about the importance of self-help in this type of condition. I think that people gain an enormous amount from talking to others who have gone through the same experience—that sense of isolation that we are likely to experience when something enormous happens to us, the belief that you are on your own and that no-one else has understood what you are going through. Meeting and talking to people who have been through that experience is an enormous benefit not simply in the practical way that those people are able to offer suggestions, but also the emotional support that people need as they come to make adjustments to their new lives.

Byddwn yn siomedig i glywed mai cydberthnasau o'r math hwnnw oeddent, oherwydd yn sicr ni ddylent fod yn gddberthnasau o'r fath. Rwy'n sicr yn credu'n fawr yn rhai o'r pethau y cyfeiriodd Nick Ramsay atynt ar ddiwedd ei gyfraniad am bwysigrwydd hunangymorth ar gyfer y math hwn o gyflwr. Credaf fod pobl yn cael cryn fudd o siarad â phobl eraill sydd wedi cael yr un profiad—yr un ymdeimlad o unigedd yr ydym yn debygol o'i brofi pan fydd rhywbeth mawr yn digwydd inni, y gred eich bod ar eich pen eich hun ac nad oes neb arall wedi deall yr hyn yr ydych yn mynd drwyddo. Mae cyfarfod a siarad â phobl sydd wedi bod drwy'r profiad hwnnw o fudd enfawr nid yn unig yn y ffordd ymarferol y mae'r bobl hynny yn gallu cynnig awgrymiadau, ond hefyd y cymorth emosiynol sydd ei angen ar bobl wrth iddynt ymaddasu i'w bywydau newydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Local health boards, I hope, understand the value of that work and certainly need to ensure that they are in constructive dialogue with those groups that provide that service in their local areas.

Mae byrddau iechyd lleol, gobeithio, yn deall gwerth y gwaith hwnnw ac yn bendant mae angen inni sicrhau eu bod yn cael trafodaethau adeiladol â'r grwpiau hynny sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw yn eu hardaloedd lleol.

None of this is to say, as ever, that there is not more that we can and need to do. That is partly why the stroke delivery plan was launched by Lesley Griffiths, my predecessor, in December last year. The need for psychological support is built into that stroke delivery plan. A response to the committee report of 2010 can be found in the plan; that is not to say that everything that that report called for has yet happened, or is happening, but the report has not been forgotten. It is picked up in a very real way in the plan and it is because of all the things that Nick said: stroke is one of the top three causes of death in Wales; it is a leading cause of adult disability; and it is an illness that has a significant impact on the health of our nation. It remains a real and ongoing issue for Wales, if only, but not only, because our population is ageing, so the number of people who live with a stroke is increasing.

As Nick Ramsay was good enough to acknowledge, and as we heard from others, there have been real improvements in stroke services in recent years. There is now a much greater chance of survival overall in Wales, with people with strokes being assessed, diagnosed and treated more promptly. That is a 20-year pattern in Wales, with a particular acceleration in the later part of it. That is partly because there is a new culture of recording data for clinical audit to improve services to the standard of the best, which is now embedded in the clinical community. New drugs and technologies have been introduced, along with new treatments such as the 24-hour, seven days a week thrombolysis service, which are contributing to better outcomes for people in Wales who have had a stroke.

At the heart of this has to lie local multiprofessional service planning and delivery. We have to find a way of making sure that systems grow and mature in which health and social services meet together to focus on the needs of the individuals and their families. Health boards have to take a lead in all of this, and engage with their local populations and other stakeholders, including local authorities and the third sector, to demonstrate the health and wellbeing needs of individuals, families and local communities, and then to discuss together how best those needs can be met. Once planning has been carried out, local health boards must also deliver effective, evidence-based stroke services through well-organised multidisciplinary teams.

People need to be placed at the centre of stroke care, so that their individual needs are identified and so that they feel well supported, informed and able to manage the effects of stroke. As this debate has highlighted, more people now survive stroke, meaning people have to manage the effects of a stroke for many years. Sometimes, these are complex care needs that must be anticipated, where possible, and recognised through routine assessment and care planning.

There is NICE clinical guidance to help local health boards in meeting those responsibilities. Published last month, the 'Stroke rehabilitation: Long-term rehabilitation after stroke' guidelines are a real and new asset to local health boards in planning and delivering services for patients.

Nid yw hyn yn golygu, fel bob tro, nad oes mwy y gallwn ei wneud ac y mae angen inni ei wneud. Dyna'n rhannol pam y lanswyd y cynllun cyflawni ar gyfer strôc gan Lesley Griffiths, fy rhagflaenydd, fis Rhagfyr diwethaf. Mae'r angen am gymorth seicolegol yn rhan o'r cynllun cyflawni hwnnw ar gyfer strôc. Mae'r cynllun yn cynnwys ymateb i adroddiad y pwyllgor yn 2010; nid yw hynny'n golygu bod popeth y galwodd yr adroddiad amdano wedi digwydd eto, neu yn digwydd, ond nid yw'r adroddiad wedi cael ei anghofio. Gweithredir arno mewn ffordd real iawn yn y cynllun a hynny oherwydd yr holl bethau a ddywedodd Nick: mae strôc yn un o'r tri achos mwyaf cyffredin o farwolaeth yng Nghymru; mae'n un o brif achosion anabledd ymhlith oedolion, ac mae'n salwch sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd ein cenedl. Erys yn broblem wirioneddol a pharhaus i Gymru, a hynny, ond nid yn unig, am fod ein poblogaeth yn heneiddio, felly mae nifer y bobl sy'n byw gyda strôc yn cynyddu.

Fel y bu Nick Ramsay yn ddigon da i'w gydnabod, ac fel y clywsom gan bobl eraill, gwelwyd gwelliannau gwirioneddol mewn gwasanaethau strôc yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ceir cyfle llawer gwell bellach o oroesi yn gyffredinol yng Nghymru, gyda phobl sydd â strôc yn cael asesiad, diagnosis a thriniaeth yn fwy prydlon erbyn hyn. Dyna batrwm yng Nghymru ers 20 mlynedd, sydd wedi cyflymu'n arbennig yn y rhan olaf o'r cyfnod hwnnw. Mae hynny wedi digwydd yn rhannol am fod diwylliant newydd o gofnodi data ar gyfer archwilio clinigol er mwyn gwella gwasanaethau i'r safon orau, sydd bellach yn rhan annatod o'r gymuned glinigol. Cyflwynwyd cyffuriau a thechnolegau newydd, ynghyd â thriniaethau newydd fel y gwasanaeth thrombolysis 24 awr y dydd bob dydd, sy'n cyfrannu at well canlyniadau i bobl yng Nghymru sydd wedi cael strôc.

Wrth wraidd hyn rhaid bod gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau amlbroffesiynol lleol. Rhaid inni ddod o hyd i ffordd o sicrhau bod systemau yn tyfu ac yn aeddfedu lle mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn dod ynghyd i ganolbwyntio ar anghenion yr unigolion a'u teuluoedd. Rhaid i fyrdau iechyd arwain yn hyn i gyd, ac ymgysylltu â'u poblogaethau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r trydydd sector, er mwyn amlygu anghenion iechyd a lles unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol, ac yna drafod gyda'i gilydd y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny. Pan fydd gwaith cynllunio wedi ei wneud, rhaid i fyrdau iechyd lleol hefyd ddarparu gwasanaethau strôc effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy dimau amlddisgyblaethol wedi'u trefnu'n dda.

Mae angen i bobl fod wrth wraidd gofal strôc, fel bod modd i'w hanghenion unigol gael eu nodi ac fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, eu bod yn cael gwybodaeth a'u bod yn gallu rheoli effeithiau strôc. Fel y nodwyd yn y ddadl hon, mae mwy o bobl yn goroesi strôc erbyn hyn, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl reoli effeithiau strôc am flynyddoedd lawer. Weithiau, mae'r rhain yn anghenion gofal cymhleth y mae'n rhaid eu rhagweld, lle y bo modd, a'u cydnabod drwy asesiad arferol a chynllunio gofal.

Ceir canllawiau clinigol gan NICE sy'n helpu byrdau iechyd lleol i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Mae canllawiau 'Stroke rehabilitation: Long-term rehabilitation after stroke' a gyhoeddwyd fis diwethaf, yn ased gwirioneddol a newydd i fyrdau iechyd lleol wrth iddynt gynllunio a darparu gwasanaethau i gleifion.

As Nick mentioned, sadly, it remains true that both the chances of having a stroke and the chances of survival are worst in our most deprived communities. None of us here would find that inequality acceptable. That is why our aim, in all four areas of the stroke delivery plan, is to bring more consistent outcomes across Wales. One of the four areas that we need to do that in is preventing stroke, by helping people to be aware of what they can do to protect themselves. The health committee in this Assembly term has done work on arterial fibrillation, and it was good to see Public Health Wales, the Stroke Association and Community Pharmacy Wales make this a particular focus of a month-long stroke prevention campaign that was run in pharmacies across Wales in May this year. When we do what we can to prevent strokes, we need to detect strokes quickly when they happen, so that there is early diagnosis and treatment. When we know that the treatment is needed, it needs to be fast and effective, so that people have peace of mind that the best possible chance of treatment is available to them. When treatment has been provided, we have to work with people to support life after stroke, so that, as I said, people feel well supported and informed.

Around all of this, we need a new vitality in the research agenda in Wales. I was lucky enough, only a week or two ago, to attend a dinner organised through the stroke network here in Wales, which was part of a two-day-long research seminar. It involved people from outside Wales and people from beyond the United Kingdom coming to Wales to share information on the best recent research to improve services for people. I talked to Dr Anne Freeman at that event about the ways in which we can galvanise research among clinicians in Wales on this really important agenda.

We have made progress. I agree with the sentiments expressed in this debate, namely that there is more that can be achieved, in the rehabilitation field in particular. However, we will do that best by working together, making sure that the voice of people who have experienced stroke is at the centre of what we do, using the third sector as well as our public services and, in that way, trying to bring about a concerted effort to improve services for people who find themselves in that situation of having had a stroke and now needing to remodel their lives to live with the after-effects.

Fel y soniodd Nick, yn anffodus, mae'n wir o hyd bod y tebygolrwydd o gael strôc a'r tebygolrwydd o oroesi ar eu gwaethaf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Ni fyddai neb yma yn ystyried bod yr anghydraddoldeb hwnnw yn dderbyniol. Dyna pam mai'r nod, ym mhob un o'r pedwar maes yn y cynllun cyflawni ar gyfer strôc, yw sicrhau canlyniadau mwy cyson ledled Cymru. Un o'r pedwar maes lle y mae angen inni wneud hynny yw atal strôc, drwy helpu pobl i fod yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i ddiogelu eu hunain. Mae'r pwyllgor iechyd yn y tymor Cynulliad hwn wedi gwneud gwaith ar ffibriliad prifwythiennol, ac roedd yn braf gweld Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gymdeithas Strôc a Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn canolbwyntio'n benodol ar hyn mewn ymgyrch i atal strôc, fis o hyd, a gynhaliwyd mewn fferyllfeydd ledled Cymru ym mis Mai eleni. Pan fyddwn yn gwneud yr hyn a allwn i atal strôc, mae angen inni ganfod strôc yn gyflym pan fydd yn digwydd, fel y gellir rhoi diagnosis a thriniaeth gynnar. Pan wyddom fod angen y driniaeth, mae angen iddi fod yn gyflym ac yn effeithiol, fel bod pobl yn cael tawelwch meddwl bod y cyfle gorau posibl o driniaeth ar gael iddynt. Pan fydd triniaeth wedi cael ei rhoi, rhaid inni weithio gyda phobl i gefnogi bywyd ar ôl strôc, fel bod pobl, fel y dywedais, yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a gwybodaeth.

Yn gysylltiedig â hyn i gyd, mae angen bywiogrwydd newydd yn yr agenda ymchwil yng Nghymru. Bwm yn ddigon ffodus, wythnos neu ddwy yn ôl, i fod yn bresennol mewn cinio a drefnwyd drwy'r rhwydwaith strôc yma yng Nghymru, a oedd yn rhan o seminar ymchwil deuddydd o hyd. Roedd yn cynnwys pobl o'r tu allan i Gymru a phobl o'r tu hwnt i'r Deyrnas Unedig yn dod i Gymru i rannu gwybodaeth am yr ymchwil ddiweddar orau i wella gwasanaethau i bobl. Siaradais â Dr Anne Freeman yn y digwyddiad hwnnw am y ffyrdd y gallwn ysgogi ymchwil ymhlith clinigwyr yng Nghymru ar yr agenda bwysig iawn hon.

Rydym wedi gwneud cynnydd. Cytunaf â'r sylwadau a wnaed yn y ddadl hon, sef bod mwy y gellir ei wneud, ym maes adsefydlu yn benodol. Fodd bynnag, y ffordd orau o wneud hynny yw drwy weithio gyda'n gilydd, gan sicrhau bod llais y bobl sydd wedi cael strôc wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan ddefnyddio'r trydydd sector yn ogystal â'n gwasanaethau cyhoeddus ac, yn y ffordd honno, geisio gwneud ymdrech ar y cyd i wella gwasanaethau i bobl sy'n wynebu'r sefyllfa honno o fod wedi cael strôc ac y mae angen iddynt bellach ailfodelu eu bywydau i fyw â'r ôl-ffeithiau.

17:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.27 p.m.

Diolch, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

The meeting ended at 5.27 p.m.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)